



**Adroddiad
a Chyfrifon
Blynyddol
Y Swyddfa
Gyfathrebiadau**

Ar gyfer y cyfnod
rhwng 1 Ebrill 2020
a 31 Mawrth 2021



Y Swyddfa Gyfathrebiadau Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021

Cyflwynir i'r Senedd yn unol â Pharagraffau 11 a 12 Atodlen 1 Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002

Gorchmynnir gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 8 Gorffennaf 2021.

Cyflwynir i Lywodraeth yr Alban gan Weinidogion yr Alban

Cyflwynir i Lywodraeth Cymru gan Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS,
Prif Weinidog Cymru



© Hawlfraint Ofcom 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, rhaid gofyn am ganiatâd gan y sawl sy'n dal yr hawlfraint.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r cyhoeddiad hwn atom ar: ofcomcontactcentre@ofcom.org.uk.

ISBN 978-1-5286-2705-4
CCS0521569280 07/21
SG/2021/123

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan Hobbs the Printers Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Cynnwys

Neges gan y Cadeirydd	4
Adroddiad y Prif Weithredwr	6
Adran A: Adroddiad Perfformiad	8
Trosolwg	9
Adolygu Perfformiad	11
Prif Risgiau a Materion sy'n Achosi Ansicrwydd	43
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	47
Adolygiad Ariannol	55
Cyfrifoldeb Corfforaethol	61
Adroddiad Cynladwyedd	64
Adran B: Adroddiad Atebolrwydd	66
Llywodraethu	67
Ein Gweithwyr	92
Adroddiad Taliadau	96
Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd Brydeinig	103
Adran C: Datganiadau Ariannol	106
Datganiad Incwm a Gwariant	107
Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net	107
Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol	108
Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti	109
Datganiad o'r Llifoedd Arian Parod	110
Nodiadau ar y Cyfrifon	111
Adran D Atodiadau	148
A1. Adran 400	149
A2. Datganiadau Rheoleiddio	150
A3. Rhaglen Ymchwiliadau	154
A4. Cwynion, Achosion a Sanctiynau Darlledu	155
A5. Gorfodi a Pheirianeg Sbectrwm	166
A6. Trwyddedu Sbectrwm	167
A7. Cynladwyedd	172
A8. Clirio 700 MHz	175

Neges gan y Cadeirydd



Maggie Carver, CBE
Cadeirydd Dros Dro

I Ofcom, yn 2020 roedd yn drawiadol gweld pa mor gyflym y newidiodd y pandemig trychinebus sut mae pobl yn cyfathrebu – mewn ffyrdd a allai barhau.

Pan ddechreuodd y cyfyngiadau gweithio a phan aeth ffonau swyddfeydd yn ddistaw yn 2020, gwelwyd cynnydd o 45% yn yr amser a dreuliwyd ar alwadau symudol. Rhwydweithiau band eang preswyl oedd asgwrn cefn economi ddigidol y Deyrnas Unedig a'i system addysg. Bu i faint y data a lifodd dros brif rwydwaith band eang y Deyrnas Unedig ddyblu.

O dan y cyfnod clo, treuliodd y wlad ddwywaith yr amser yn gwylio gwasanaethau ffrydio. Cynyddodd

niferoedd parseli draean i ddiwallu anghenion siopa ar-lein y Deyrnas Unedig. Ymatebodd ein cwmnïau a'n rhwydweithiau yn wych, gyda gweithwyr allweddol telathrebu, technoleg, post a darlledu yn ein cadw mewn cysylltiad, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ac yn ein diddanu ni.

Felly mae byd heb wasanaethau cyfathrebu o'r radd flaenaf – a oedd, hyd yn oed cyn y pandemig, yn ganolog i'n bywydau personol a'n bywydau gwaith – yn ymddangos yn amhosibl i'w ddychmygu. Mae gwaith Ofcom wedi cynnwys ymateb i ofynion newidiol defnyddwyr, cefnogi ein diwydiannau drwy'r argyfwng, a chynllunio ar gyfer byd ar ôl y pandemig sy'n dibynnu ar rwydweithiau cryf a chyfyngau dibynadwy.

Achosodd Covid-19 i amgylchiadau llawer o bobl newid yn sydyn – yn aml oherwydd profedigaeth neu galedi ariannol. Gan hynny, roedd hi'n bwysig bod Ofcom yn parhau â'i raglen Tegwch i Gwsmeriaid, gan sicrhau ymrwymïadau gan gwmnïau band eang i adolygu prisiau ar gyfer pobl agored i niwed. Fe wnaethom y broses o newid darparwr symudol yn haws drwy atal ffonau rhag cael eu cloi i rwydwaith; gwella hawliau contract cwsmeriaid telathrebu; a sicrhau bod cwsmeriaid anabl yn gallu cael gafael ar ddewis o wasanaethau.

Fe wnaethom hefyd gwblhau ein hadolygiad mawr o farchnadoedd band eang cyfanwerthol, gan nodi amrywiaeth o fesurau i hybu cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr llawn. Mae'r penderfyniadau hynny wedi eu cynllunio i osod y sylfeini ar gyfer rhwydweithiau telathrebu newydd sy'n gallu gwasanaethu teuluoedd, busnesau, ysgolion a chyrff cyhoeddus am genedlaethau i ddod, gan ddod â manteision economaidd a chymdeithasol band eang gwibgyswllt i bawb ledled y Deyrnas Unedig.

Mae cael signal symudol da yr un mor bwysig. Felly fe wnaethom sicrhau bod rhagor o donnau awyr ar




Mae gwaith Ofcom yn bwysicach nag erioed: gan addasu i newid er mwyn i'n rheolau barhau i ddiogelu defnyddwyr cyfathrebiadau rhag niwed, cefnogi'r cynnwys maent yn ei werthfawrogi a galluogi'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.



gael i greu darpariaeth ychwanegol ac i gefnogi 5G; ac fe wnaethom fonitro cynnydd gweithredwyr tuag at eu hymrwymiad i ddod â galwadau da a darpariaeth data i 90% o ddaearyddiaeth y Deyrnas Unedig.

Rhoddodd y pandemig hefyd bwys o'r newydd ar ddarlledu dibynadwy a reoleiddir. Mewn blwyddyn adrodd pan gododd cwynion darlledu'n sylweddol, fe wnaethom flaenoriaethu ein gwaith gorfodi mewn meysydd niweidiol fel cymell troseddu, iaith casineb, cam-drin a chamwybodaeth am Covid-19.

Trodd gwylwyr a gwrandawyr yn eu heidiau at ein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ystod cyfnod cynnar y pandemig, sy'n brawf o'u pwysigrwydd parhaus ar adegau o arwyddocâd cenedlaethol.

Ond mae'r darlledwyr hynny'n wynebu cystadleuaeth a tharfau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen. Felly, yn ogystal â'n hadroddiad rheolaidd ar y BBC, ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaethom gyhoeddi ein hadolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, gan ymgynghori ar gynlluniau i foderneiddio'r system a sicrhau ei dyfodol.

Mae'r ffordd mae pobl yn defnyddio'r post hefyd yn newid yn gyflym. Fe wnaethom gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r hyn mae pobl a busnesau ei angen gan y gwasanaeth yn y dyfodol, wrth i ni baratoi i ddiweddarau ein gwaith

rheoleiddio i adlewyrchu gostyngiad yn nifer y llythyrau a diogelu'r gwasanaeth cyffredinol.

Mae'r holl feysydd hyn yn adlewyrchu grym technoleg, tueddiadau cymdeithasol a syniadau busnes newydd i drawsnewid y ffordd rydym yn cyfathrebu – thema o darfu a newid sydd wedi cael ei hatgyfnerthu a'i chyflymu gan yr argyfwng Covid-19.

Trwy gydol y cyfnod hwnnw, ac yn y blynyddoedd nesaf, mae gwaith Ofcom yn bwysicach nag erioed: gan addasu i newid er mwyn i'n rheolau barhau i ddiogelu defnyddwyr cyfathrebiadau rhag niwed, cefnogi'r cynnwys maent yn ei werthfawrogi a galluogi'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae wedi bod yn fraint i mi oruchwylio'r gwaith hwnnw fel Cadeirydd dros dro Ofcom ers mis Ionawr, yn dilyn penderfyniad ein cyn gadeirydd, yr Arglwydd Terry Burns, i gamu i lawr. Arweiniodd Terry ein Bwrdd gydag ymroddiad a medrusrwydd am dair blynedd, ac fe hoffwn i – ochr yn ochr â'n Bwrdd a phawb yn Ofcom – ddiolch o galon iddo am ei wasanaeth.

Maggie Carver

Adroddiad y Prif Weithredwr



Y Fonesig Melanie Dawes, DCB
Prif Weithredwr

Dros y deuddeg mis diwethaf rydym wedi dysgu pa mor bwysig yw cysylltedd.

Yn ystod fy neuddeg mis cyntaf fel Prif Weithredwr, roeddwn i'n teimlo hynny'n bersonol. Gan nad oedd modd i mi gwrdd â'r rhan fwyaf o staff Ofcom, gwelais gydweithwyr yn cydweithio'n broffesiynol iawn o bell. Rydyn ni'n edrych ymlaen at gydweithio'n bersonol eto, ond rydyn ni wedi dysgu ffyrdd newydd o fod yn fwy hyblyg yn y dyfodol.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf hefyd wedi amharu ymhellach ar ein diwydiannau. Mae hyn wedi tanlinellu pwrpas Ofcom fel rheoleiddiwr, ac mae angen bod yn ystwyth wrth ymateb i newid, gan gadw ffocws hirdymor ar yr un pryd.

Un enghraifft oedd ein hadolygiad o delathrebu cyfanwerthol, a oedd yn cynnwys nodi sut y bydd prisiau'n cael eu rheoleiddio am y pum mlynedd nesaf. Fe wnaethom gynnwys mesurau i ddiogelu band eang hygyrch heddiw, gan hyrwyddo buddsoddiad yn rhwydweithiau yfory. Bydd ein penderfyniadau'n caniatáu i weithredwyr ddod â gwifrau copr sydd wedi bod ar waith am ganrif i ben yn raddol gan eu disodli â band eang ffeibr llawn cyfradd gigadid, gyda'r sicrwydd rheoleiddio sydd ei angen arnynt i gysylltu cartrefi a swyddfeydd ar gyflymder uwch nag erioed.

Mewn byd cysylltiedig, rhaid i'n rhwydweithiau nid yn unig fod yn gyflym; rhaid iddynt fod yn ddiogel. Mae Ofcom yn paratoi ar gyfer dyletswyddau newydd i sicrhau bod cwmnïau telathrebu yn gweithredu rhwydweithiau diogel a chadarn, gan weithio'n agos gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn rhoi gwybod i ddarparwyr cyfathrebiadau sut byddwn ni'n monitro eu cydymffurfiaeth â deddfwriaeth newydd yn y maes hwn, ac yn cynnal profion straen ar sail gwybodaeth i'w helpu i gau unrhyw fwlch diogelwch. Byddwn yn parhau i gynghori Llywodraeth y DU i sicrhau nad yw rhwydweithiau telathrebu'r Deyrnas Unedig yn dibynnu'n ormodol ar un gwneuthurwr. A byddwn yn chwarae ein rhan i helpu i fynd i'r afael â sgambiau sy'n dibynnu ar alwadau ffôn a negeseuon testun, problem gynyddol sy'n gofyn am weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, y diwydiant a'r heddlu.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, mae Ofcom hefyd yn esblygu ac yn ysgwyddo dyletswyddau newydd pwysig. Ym mis Rhagfyr 2020, wrth i Lywodraeth y DU baratoi deddfwriaeth i osod dyletswydd gofal ar gwmnïau cyfryngau cymdeithasol, rhoddodd y dasg o orfodi'r rheolau newydd i Ofcom.

Bydd ein dull gweithredu yn seiliedig ar anghenion

a disgwyliadau defnyddwyr ar-lein, ac wedi ei wreiddio yn ein profiad hirsefydlog o gydbwysu rhyddid mynegiant â diogelwch rhag niwed. Byddwn yn ehangu ein harbenigedd yn sylweddol ym maes technolegau digidol, dadansoddi data a seiberddiogelwch, ac yn adeiladu canolfan newydd ym Manceinion i fod yn sail i waith Ofcom.

Fel rhagflaenydd i'n rôl diogelwch ar-lein, yn y flwyddyn i ddod rydym yn dechrau rheoleiddio apiau a gwefannau – sydd wedi eu sefydlu yn y Deyrnas Unedig – a'u prif bwrpas yw rhannu fideos ymysg defnyddwyr. Rhaid i'r darparwyr hyn gymryd camau i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed difrifol fel cymell casineb, trais a chynnwys troseddol. Rydym eisoes wedi gweithio gyda llwyfannau fideo i'w hymrwymu i'n rheolau, ac wedi comisiynu ymchwil arloesol ar yr offer a'r technegau y gallant eu defnyddio i wneud eu gwasanaethau'n fwy diogel, yn enwedig i blant.

Wrth i'n rôl diogelwch y rhyngwrdd ehangu ymhellach, byddwn yn ehangu ein harbenigedd. Rydym wedi penodi arbenigwyr i'n helpu i ddefnyddio data'n effeithiol yn ein penderfyniadau, ac i ddeall y defnydd diweddaraf o ddata yn y diwydiant. Ac rydym wedi datblygu rhaglen i'n helpu i ymateb i dechnoleg newydd.

Mae hynny eisoes yn helpu i lywio ein gwaith rheoleiddio. Ym mis Rhagfyr, er enghraifft, fe wnaethom nodi strategaeth newydd ar gyfer rheoli sbectrwm radio'r Deyrnas Unedig. Bydd yn galluogi arloesi di-wifr mewn meysydd fel ffatrioedd awtomataidd, amaethyddiaeth a monitro'r amgylchedd er mwyn deall effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Yn yr un modd, ym maes darlledu, rydym yn diwygio ein gwaith rheoleiddio i ystyried newidiadau mewn anghenion cynulleidfaoedd a thechnoleg mewn byd sy'n fwyfwy personol o ran gwyllo a gwrando, ar draws nifer digynsail o lwyfannau digidol.

Mae partneriaethau allanol hefyd yn hanfodol i reoleiddio effeithiol, ac rydym wedi cynyddu ein cydweithrediad â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – gan lansio cynllun gwaith ar y cyd ar brosiectau ar-lein i gyfuno ein harbenigedd a'n hadnoddau.

Dyma rai o'r ffyrdd mae Ofcom yn adeiladu ar gyfer y dyfodol. Ond yng nghanol yr holl newid ac addasu, ni fyddwn yn colli golwg ar flaenoriaethau hirsefydlog – fel helpu i ddatblygu sgiliau cyfryngau a chau'r bwlch digidol, drwy ein rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau; a herio darlledwyr i gynyddu eu perthnasedd i genhedlaeth newydd drwy ehangu eu gweithlu, gyda disgwyliad newydd i asesu amrywiaeth daearyddol eu staff.

Rwy'n gobeithio bod yr adroddiad hwn yn dangos brwdfrydedd a phenderfyniad Ofcom i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb: hyrwyddo rhwydweithiau cryfach, cynnwys gwych o'r Deyrnas Unedig a byd ar-lein mwy diogel.

Wrth i'n gwlad ddod allan o flwyddyn heriol unigryw, pan oedd cyfathrebu'n bwysicach nag erioed o'r blaen, rydym yn deall pwysigrwydd gwneud hynny'n iawn.

Y Fonesig Melanie Dawes

D

“

Dros y deuddeg mis diwethaf rydym wedi dysgu pa mor bwysig yw cysylltedd.

”

ADRAN A

Adroddiad Perfformiad

Mae'r adran hon yn egluro sut rydym wedi ein trefnu i gyflawni ein dyletswyddau a sut hwyl rydym wedi ei chael arni o ran ein hamcanion strategol nodwyd yn ein Cynllun Gwaith Blynyddol, yr effaith ar ddefnyddwyr a'r deilliannau, a'r camau nesaf rydym yn eu cymryd.



Trosolwg

Ein pwerau a'n dyletswyddau

Fel rheoleiddiwr y Deyrnas Unedig, ein gweledigaeth ni yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.

Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu'n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol.¹ Dywed Deddf Cyfathrebiadau 2003 mai ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Gyda gwasanaethau post, rhaid i ni gyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau sy'n ymwneud â chyfathrebiadau, cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr.

Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth y DU a'r cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio, ac mae ein dyletswyddau wedi eu nodi mewn statud, sy'n golygu ein bod yn atebol i Senedd y DU.



Ein dyletswyddau cyfreithiol sy'n arwain cyfeiriad ein gwaith

Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yw sicrhau:

- bod gan y Deyrnas Unedig amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebiadau electronig;
- bod y sbectrwm radio yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol;
- bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o safon yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau gwahanol, gan apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
- sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu; a
- bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y Deyrnas Unedig.

Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr ond ni allwn ddatrys cwynion defnyddwyr unigol am wasanaethau post neu delathrebu. Pan fo'n briodol, rydym yn darparu cyngor i'r rhai sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) yr rydym wedi eu cymeradwyo. Ond rydym yn delio â chwynion gan unigolion am wasanaethau teledu a radio.


1. Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddfau yr Economi Ddigidol 2010 a 2017 a Deddf Gwasanaethau Post 2011.

Ein gwerthoedd

Er mwyn ein helpu gyda'n gwaith o hyrwyddo dewis, sicrhau safon ac atal niwed, mae angen i ni wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer yr holl ddefnyddwyr a dinasyddion yn y Deyrnas Unedig. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i bob rhan o'n sefydliad fod yn amrywiol a meithrin diwylliant cynhwysol. Rydym yn ceisio cyflawni hyn drwy fabwysiadu ein gwerthoedd.

Mae ein gwerthoedd yn dylanwadu ar y ffordd rydym yn trin ein gilydd, sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd, sut rydym yn uniaethu â'n rhanddeiliaid, sut rydym yn barnu perfformiad a sut rydym yn cydweithio i gyflawni ein blaenoriaethau.

Mae ein gwerthoedd yn ganolog i'n heffeithiolrwydd, ac yn cefnogi'r sefydliad rydym ni eisiau bod.




cydweithio

GRYMUISO



ystwythder

Rhagoniaeth



Parch

M



Mae ein gwerthoedd yn ganolog i'n heffeithiolrwydd, ac yn cefnogi'r sefydliad rydym ni eisiau bod.



Adolygu Perfformiad

Uchafbwyntiau 2020/21

Chwarae ein rhan yn y gwaith o gefnogi'r Deyrnas Unedig drwy'r pandemig

- Rhoesom fesurau ar waith i helpu pobl i gadw eu cysylltiad, yn enwedig lle gallent fod wedi bod yn cael trafferth talu am wasanaethau band eang a symudol.
- Buom yn gweithio gyda darparwyr Telathrebu a Llywodraeth y DU i ddiogelu rhwydweithiau telathrebu hanfodol.
- Bu ein peirianwyr a'n technegwyr yn gweithio i gadw'r tonnau awyr symudol yn ddiogel ac yn weithredol.
- Rydyn ni wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i gwmnïau wneud penderfyniadau i gefnogi gwasanaethau hanfodol, pobl agored i niwed a'r rhai sy'n dibynnu ar gyfathrebiadau.
- Buom yn gweithio gyda darlledwyr i'w helpu i gynnal cynnyrch o ansawdd uchel, gan gynnwys newid ein dull o orfodi gofynion.
- Gwnaethom drefniadau newydd ar gyfer taliadau ffi trwydded darlledu teledu a radio; buom yn gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Phanel y Gronfa Radio Cymunedol i dalu grantiau gwerth cyfanswm o £607k er mwyn gallu darparu rhaglenni lleol hollbwysig;
- Fe wnaethom ddatblygu trwyddedau newydd ar gyfer grwpiau a sefydliadau i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau amgen i'w cymunedau yn ystod y pandemig, fel adloniant gyrru-i-mewn a gwasanaethau eglwysig.
- Rhoesom fesurau brys ar waith ar gyfer gwasanaethau post, gan ganiatáu i'r Post Brenhinol gael gwared â danfon llythyrau ar ddydd Sadwrn o ddiwedd mis Ebrill ymlaen, cyn aildechrau danfon chwe diwrnod yr wythnos yng nghanol mis Mehefin.
- Fel sefydliad, fe wnaethom symud i sicrhau bod ein holl gydweithwyr yn gweithio o bell. Rhoesom gymorth ychwanegol i'n pobl, o ran offer a'u lles, a chynnal asesiadau risg llawn i sicrhau bod ein swyddfeydd yn bodloni'r canllawiau swyddogol.

Gwell darpariaeth symudol a band eang

- Daeth yr Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol i ben, sef prosiect i greu amgylchedd rheoleiddio i annog BT a'i gystadleuwyr i gystadlu a buddsoddi yn rhwydwaith telathrebu'r Deyrnas Unedig. Ymatebodd y diwydiant yn gadarnhaol ac mae'n symud ymlaen o 21% heddiw tuag at 70% a mwy o'r Deyrnas Unedig yn cael darpariaeth gan y rhwydweithiau newydd hyn erbyn canol y 2020au.
- Mae'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) ar gyfer Band Eang yn caniatáu i bobl na allant dderbyn gwasanaeth band eang sydd â chyflymder llwytho i lawr o 10 Mdid yr eiliad a chyflymder llwytho i fyny o 1 Mdid yr eiliad wneud cais am gysylltiad wedi ei uwchraddio. Gwnaethom gadarnhau'r rheoliadau ar gyfer y broses o ddigolledu Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol (BT a KCOM), gan gynnwys sut y byddai hawliadau cwsmeriaid yn cael eu hasesu a'u pennu.
- Daeth y gwaith o ddyfarnu sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz i roi hwb i gapasiti, gan gynnwys gwasanaethau symudol 5G, i ben. Bu cynnydd o tua 18% yn y cyfanswm y sbectrwm sydd ar gael i'r gweithredwyr symudol. Bydd hyn yn cefnogi'r galw cynyddol am ddata yn y dyfodol ac yn rhoi hwb sylweddol i brofiadau defnyddwyr.
- Gwnaethom barhau i gefnogi rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir Llywodraeth y DU i sicrhau bod darpariaeth symudol ar gael yn eang i bobl a busnesau. Bydd adroddiadau cynnydd parhaus ar gydymffurfio â'r rhwymedigaethau cychwynnol yn 2024 yn dechrau yn 2021.

Tegwch i Gwsmeriaid

- Gwnaethom barhau â'n gwaith i wneud i ddarparwyr roi tegwch yn gyntaf. Gwnaethom gyhoeddi adroddiad cynnydd ar ôl i gwmnïau telathrebu a theledu-drwy-dalu ymrwymo yn 2019 i gynnig tegwch i'w cwsmeriaid.
- Gwnaethom ymgynghori ar broses newydd i'w gwneud yn haws i bob cwsmer band eang yn y cartref newid darparwr ar draws gwahanol rwydweithiau. Disgwylir y bydd hwn ar gael i'w ddefnyddio erbyn mis Rhagfyr 2022.
- Rhoesom gyfarwyddyd i gwmnïau band eang, ffôn a theledu drwy dalu ddweud wrth eu cwsmeriaid pan fydd eu contract yn dod i ben, a rhoi gwybod iddynt hefyd am y cynigion gorau sydd ar gael ganddyn nhw. Rydym yn monitro ac yn gorfodi'r rheolau newydd hyn a fydd, ynghyd ag ymrwymïadau'r darparwyr, yn helpu pobl, gan gynnwys y rhai mwyaf agored i niwed, i arbed cyfanswm o oddeutu £300 miliwn y flwyddyn.
- Roeddem wedi amlinellu mesurau i ddiogelu cwsmeriaid, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed, drwy drosglwyddo o'r rhydwraith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus draddodiadol (PSTN) i wasanaethau Protocol Llais dros y Rhyngwrwyd digidol newydd.

Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol

- Fe wnaethom gwblhau adolygiad cynhwysfawr o anghenion defnyddwyr post ledled y Deyrnas Unedig. Bydd hyn yn helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol am y gwasanaeth post cyffredinol. Rhaid i reoleiddio post gyd-fynd â newidiadau yn y farchnad ac aros yn berthnasol, yn addas i'r diben, ac yn effeithiol.
- Bu i ni alw am fewnbwn ar ddyfodol rheoleiddio'r post, gan archwilio cystadleuaeth yn y marchnadoedd post swmp a pharseli ymysg pethau eraill, gan gynnwys a oes angen mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer defnyddwyr.

- Daethom â dau ymchwiliad yn ymwneud â phost i ben a oedd yn edrych ar gydymffurfriad y Post Brenhinol â thargedau ansawdd gwasanaeth a'r cap diogelu ar lythyrau ail ddosbarth. Rhoesom ddirwyon gwerth cyfanswm o £1.6 miliwn.

Cefnogi darlledu yn y Deyrnas Unedig

- Gwnaethom barhau â Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB), gan ymgynghori ar opsiynau ar gyfer moderneiddio'r fframwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
- Bu i ni asesu 142,660 o gwynion am raglenni teledu a radio, cynnydd o 300% o'i gymharu â'r llynedd (2019/20: 34,545), cyhoeddi 28 achos o dorri'r Cod Darlledu, a rhoi 14 o sanctiynau ar ddarlledwyr, gan gynnwys 6 chosb ariannol.
- Lansiwyd adolygiad gennym o'r rhyngweithio rhwng BBC Studios a gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC, gan gyhoeddi cais am dystiolaeth ar y mater hwn. Fe wnaethom hefyd ymgynghori ynghylch a oedd y newidiadau a wnaeth BBC Studios i'w llinellau busnes yn briodol.
- Bu i ni ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch ei hagwedd at gyfyngiadau ar hysbysebion â lefelau uchel o fraster, halen a siwgr (HFSS) ar y teledu ac ar-lein.

Sicrhau bod cyfathrebiadau ar-lein yn gweithio i bobl ac i fusnesau

- Cadarnhaodd Llywodraeth y DU iddi fwriadu ein penodi fel y rheoleiddiwr sy'n gyfrifol am oruchwylio diogelwch ar-lein. Bydd Ofcom yn cefnogi ac yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r Bil Diogelwch Ar-lein drwy ddarparu cyngor technegol ar sut gall y drefn weithio.
- Fe wnaethom gynnal ymchwil defnyddwyr newydd i helpu ein dealltwriaeth o brofiadau niweidiol posibl defnyddwyr llwyfannau rhannu fideos (VSP) a'u hymwybyddiaeth o adnoddau diogelwch ar-lein. Fe wnaethom ymgynghori ar ganllawiau drafft i ddarparwyr ar y gofynion rheoleiddio.

- Fe wnaethom baratoi ein rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau i helpu i wella dealltwriaeth, gwybodaeth a sgiliau ar-lein plant ac oedolion yn y Deyrnas Unedig. Fe wnaethom gyflwyno ymchwil newydd i ymddygiad ar-lein fel sail i'r dull gweithredu ar gyfer ein dyletswyddau sydd ar y gweill.
- Fe wnaethom ffurfio'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) ynghyd â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i helpu i sicrhau mwy o gydweithrediad wrth reoleiddio llwyfannau ar-lein.

Galluogi rhwydweithiau cryf a diogel

- Bu i ni weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'r diwydiant, ac yn darparu arweiniad a chyngor iddynt er mwyn monitro'r risgiau posib i rhwydweithiau telathrebu'r Deyrnas Unedig.
- Fe wnaethom ddarparu canllawiau ar y ddeddfwriaeth ddiweddaraf ar Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth.
- Fe wnaethom ymgysylltu â Llywodraeth y DU, y diwydiant, y Tasglu Amrywiaethu Gwerthwyr Telathrebu, ac eraill ar strategaethau i wella amrywiaeth gwerthwyr telathrebu, a datblygu systemau telathrebu agored, rhyngweithredol.
- Bu i ni weithio gyda Digital Catapult, asiantaeth sy'n gweithio i annog mabwysiadu technolegau newydd a datblygol, i sefydlu ein Labordai SONIC (Canolfan Rhyngweithredu Rhwydwaith Agored SmartRAN). Bydd y cyfleusterau hyn yn helpu i asesu a chreu rhyngweithredu agored mewn rhwydweithiau telathrebu yn y Deyrnas Unedig, fel cam tuag at arallgyfeirio cadwyni cyflenwi offer.
- Bu i ni weithio gyda'r diwydiant hefyd i ganfod a chau bylchau mewn safonau ac arferion gorau, mewn perthynas â chadernid rhwydweithiau a pharhau â'r rhaglen o fonitro dyluniadau cadarn yn rhagweithiol wrth ddefnyddio rhwydweithiau presennol.

Cynyddu Amrywiaeth a Chynhwysiad

- Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiadau amrywiaeth diweddaraf ar gyfer radio a theledu, gan alw ar ddarlledwyr i sicrhau mwy o newid yn nifer y bobl anabl maen nhw'n eu cyflogi a gwella lefel y gynrychiolaeth o bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu cyflogi mewn uwch rolau gwneud penderfyniadau.
- Fe wnaethom ehangu ein hymgysylltu â ddarlledwyr teledu a radio mawr, i gynnwys bwrdd crwn chwarterol ar amrywiaeth a chynhwysiad gyda nhw. Gwnaethom hefyd barhau i gymryd rhan mewn digwyddiadau cyhoeddus a chwrdd ag arbenigwyr, cyrff y diwydiant a grwpiau buddiant.

Parhau i arloesi o ran ein dull rheoleiddio

- Fe wnaethom gyhoeddi adroddiad, Dyfodol Technoleg, a fu'n edrych ar dechnolegau a allai gael effaith sylweddol ar farchnadoedd cyfathrebu, yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn y tymor canolig i'r tymor hir ar draws rhwydweithiau sefydlog a di-wifr ar gyfer gwasanaethau darlledu, band eang, symudol a lloeren.

Cefnogaeth trwy gyfnod pontio y broses o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, a chysylltiadau rhwngwladol parhaus

- Bu i ni ymgynghori ynghylch y newidiadau technegol i'n rheolau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd a fydd yn berthnasol ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben.
- Bu i ni barhau hefyd i gynrychioli'r Deyrnas Unedig ar faterion cyfathrebu rhwngwladol.

Ymateb i'r pandemig


Bu hon yn flwyddyn eithriadol ac mae cynnal y rhwydweithiau cyfathrebu ledled y Deyrnas Unedig yn bwysicach nag erioed. Bu ffocws sylweddol gan Ofcom, a'r sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw, ar ymateb i effeithiau'r pandemig.

Roedd ein hymateb i'r pandemig yn canolbwyntio ar bedwar prif faes:

Amcan	Ymateb o fis Mawrth 2020	Ymateb y diwydiant
Diogelu cwsmeriaid, yn enwedig y rhai agored i niwed, a sicrhau cynnwys o ansawdd uchel Helpu pobl i gadw'u cysylltiad, darparu cymorth drwy anawsterau ariannol, eu diogelu rhag biliau annisgwyl o uchel a sicrhau cywirdeb a didueddrwydd newyddion a chynnwys.	- Symud i osgoi datgysylltu'r rhai allant dalu biliau, darparu cysylltedd i'r rhai sy'n colli gwasanaethau sefydlog, darparu galwadau 101 am ddim a mynd i'r afael â chostau uchel am wasanaethau ffôn mewn ysbytai. - Bu i ni weithio hefyd gyda darparwyr telathrebu i ddarparu gwybodaeth ymarferol i helpu pobl a busnesau bach i fanteisio i'r eithaf ar eu cysylltiadau symudol a band eang, drwy ein hymgyrch Cadw'r Cysylltiad. - Rhoesom sylw brys i achosion gorfodi'r safonau yn ymwneud ag unrhyw gynnwys niweidiol posibl a ddarlledwyd yn gysylltiedig â'r pandemig. Gwnaethom hefyd gefnogi ymdrechion ehangach i fynd i'r afael â gwybodaeth gamarweiniol drwy waith ymchwil wythnosol ynghylch sut mae pobl yn derbyn ac yn gweithredu ar wybodaeth yn ystod y pandemig. - Rhoesom awgrymiadau i ddefnyddwyr post ynghylch danfon post a pharseli yn ystod y pandemig, er mwyn gosod disgwyliadau defnyddwyr a chefnogi gweithwyr post a danfonwyr i gadw eitemau i symud yn ddiogel.	- Cymerodd rhai darparwyr telathrebu gamau penodol i gefnogi eu cwsmeriaid, er enghraifft drwy ddarparu galwadau diderfyn neu gynyddu lwfansau data - Addasodd darlledwyr eu hamserlenni er mwyn cynnal cynnwys o safon uchel i ddiddanu a chyflwyno gwybodaeth i'r cyhoedd, a sicrhau gwasanaethau newyddion o safon uchel i ddarparu'r wybodaeth gywir. - Sicrhodd darparwyr gwasanaethau post fod y gwasanaeth yn parhau i gael ei ddarparu, yn enwedig i gwsmeriaid agored i niwed, gan addasu i batrymau newidiol yn y galw a oedd yn golygu bod nifer y parseli'n cynyddu'n sylweddol.

Amcan	Ymateb o fis Mawrth 2020	Ymateb y diwydiant
Sicrhau cadernid y rhwydwaith a diogelu gwasanaethau hanfodol Sicrhau bod y rhwydweithiau'n parhau i weithio'n dda wrth i bobl symud i weithio a dysgu gartref, cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, a diddanu eu hunain.	- Bu i ni weithio'n agos gyda darparwyr rhwydwaith a Llywodraeth y DU i wneud yn siŵr ein bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y mesurau roedden nhw'n eu cymryd i reoli galwadau/ tagfeydd rhwydwaith yn effeithiol, gan flaenoriaethu'r camau sydd eu hangen i ddiogelu gwasanaethau hanfodol lle bo angen. - Roedd yn hollol hanfodol sicrhau dibynadwyedd galwadau 999 ac 111. O dan reolau Ofcom, mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau bod modd cysylltu â'r galwadau brys trwy'r amser, hyd yn oed mewn amgylchiadau heriol. Fe wnaethom gadw mewn cysylltiad agos â'r rhai sy'n gyfrifol am gysylltu galwadau 999 ac 111, gan gael sicrwydd manwl ganddynt am gapasiti a chadernid y ddau wasanaeth. Ar gais Llywodraeth y DU, fe wnaethom weithredu i gyflwyno'r rhif '119' i'w ddefnyddio fel rhan o raglen ymateb y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i'r pandemig. - Mae gan Ofcom rôl hollbwysig i gadw tonnau awyr y Deyrnas Unedig yn rhydd rhag ymyriant. Byddwn yn blaenoriaethu unrhyw gamau sy'n ofynnol i ddiogelu gwasanaethau hanfodol, er enghraifft, ar gyfer rhwydweithiau trydan. Mae ein peirianwyr a'n technegwyr wedi cael eu dynodi'n weithwyr allweddol, ac maen nhw'n parhau i weithio i sicrhau bod y tonnau awyr yn gweithio ac yn ddiogel. - Roedd buddsoddi mewn cysylltiadau ffeibr a 5G yn dal yn hollbwysig. Bu i ni fwrw ymlaen â phenderfyniadau a oedd wedi eu hanelu at hybu buddsoddiad a chystadleuaeth mewn rhwydweithiau ffeibr a rhyddhau rhagor o donnau awyr ar gyfer gwasanaethau 5G.	- Bu i ddarparwyr telathrebu fonitro'r traffig ar eu rhwydweithiau'n ofalus, a chymerwyd mesurau gan ddarparwyr cynnwys, gwasanaethau ffrydio, rhwydweithiau darparu cynnwys a chwmnïau gemau, i liniaru effaith y llwyth uwch ar y rhwydwaith. Ar Wyl San Steffan, gwelwyd cyfnod brig newydd o ran traffig ar y rhyngwrdd, gyda 210 petabeit o ddata yn cael ei ddefnyddio drwy rwydwaith Openreach. - Mae'r defnydd o ddata sefydlog wedi cynyddu bron i 80% mewn dwy flynedd i 429 GB fesul cysylltiad. Yn ystod y cyfnod clo hefyd gwelwyd newid yn y ffordd mae pobl yn defnyddio eu gwasanaethau. Roedd y traffig brig yn parhau i fod gyda'r nos, ond roedd y traffig yn ystod y dydd wedi cynyddu'n sylweddol. Cynyddodd traffig llwytho i fyny hefyd, wedi ei yrru gan fwy o ddefnydd o alwadau fideo. - Roedd gan y rhwydweithiau'r gallu i fodloni'r gofynion hyn ac i aros ymhell o fewn y cyfyngiadau capasiti. Mae ein hymchwyl yn dangos bod cyflymder cyfartalog band eang wedi gostwng ychydig ym mis Mawrth 2020. - Llwyddodd y rhwydweithiau symudol hefyd i ymdopi â'r cynnydd yn y galw a'r newidiadau ym mhatrymau traffig y rhwydwaith, gan gynnwys symud manau cysylltu o ganol dinasoedd i'r maestrefi ac ardaloedd preswyl.

Amcan	Ymateb o fis Mawrth 2020	Ymateb y diwydiant
Sut orau i gyflawni ein rhaglen waith lawn sydd wedi ei chynllunio ar gyfer 2020/21 Fe wnaethom nodi uchelgais i gwblhau ein rhaglen lawn o waith sydd wedi ei gynllunio ar gyfer 2020/21 er gwaethaf y pandemig.	- Ymgysylltwyd yn agos â rhanddeiliaid i adolygu ein cynlluniau, gan ddiwygio amserlenni lle y bo angen, i adlewyrchu'r realiti y byddai'n rhaid i lawer o'r busnesau a'r sefydliadau rydym yn eu rheoleiddio ganolbwyntio ar faterion sy'n hanfodol i fusnes yn ystod misoedd cyntaf y pandemig. - Ar ôl symud yn y lle cyntaf i atal yr holl ddyddiadau cau presennol ar gyfer ymgynghori, ymgynghoriadau newydd a dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau am wybodaeth, o ddechrau mis Mehefin ymlaen, dechreusom gyhoeddi cyhoeddiadau newydd a cheisiadau am wybodaeth yn unol â'n cynllun gwaith, a oedd yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth. - Cadwyd ein cynlluniau yn rhai byw a hyblyg, cyhoeddwyd cynllun wedi ei ddiweddarau ym mis Medi, yn ogystal â diweddariadau chwarterol ynghylch ein cerrig milltir a'r hyn rydym wedi ei gyflawni.	- Cydnabuodd Ofcom y byddai angen oedi wrth roi rhwymedigaethau newydd ar waith mewn rhai achosion. - Gan weithio gyda'r diwydiant, fe wnaethom symud i sefydlu amserlenni diwygiedig ar gyfer rhwymedigaethau newydd, wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio.



Amcan	Ymateb o fis Mawrth 2020	Ymateb y diwydiant
Addasu ein dull rheoleiddio Mabwysiadu dull pragmatig. Mae'n bwysig cydymffurfio â rheoliadau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd effaith y pandemig yn golygu na fydd hi bob amser yn bosib i gyflawni rhai rhwymedigaethau.	- Ar 24 Mawrth 2020, fe wnaethom gyhoeddi y byddem yn gohirio'r holl ddyddiadau cau ar gyfer ymgynghoriadau a cheisiadau gwybodaeth presennol, ac y byddai ceisiadau gwybodaeth, penderfyniadau ac ymgynghoriadau newydd yn cael eu dal yn ôl am y tro. - Cymerwyd agwedd bragmataidd gennym tuag at orfodi. Roeddem o'r farn y dylai cwmnïau wneud penderfyniadau sy'n cefnogi gwasanaethau hanfodol, pobl sydd mewn sefyllfa fregus a'r rhai sy'n dibynnu ar wasanaethau cyfathrebu. Fe wnaethom gefnogi penderfyniadau o'r fath lle'r oeddent er budd pobl a busnesau. - Ni wnaethom lacio amodau trwyddedau darlledu yn ffurfiol, ond roeddem o'r farn bod 'force majeure' mewn grym, sy'n golygu na fyddem yn mynd ar drywydd camau gorfodi ar gyfer gofynion trwydded fel ymrwymïadau rhaglenni neu gynhyrchu. - Gyda gweithredwyr telathrebu, gwnaethom lacio rhai gofynion dros dro (e.e. ar iawndal awtomatig a rheoliadau ansawdd gwasanaeth), a chymryd agwedd bragmataidd o ran gorfodi ein rheolau ar hysbysiadau diwedd contract a oedd wedi dod i rym ganol Chwefror 2020. - O ran y post, roeddem yn cydnabod bod y pandemig yn sefyllfa o argyfwng, gan ganiatáu i'r Post Brenhinol addasu ei weithrediadau a chamu i ffwrdd oddi wrth dargedau ansawdd gwasanaeth heb awdurdodiad ffurfiol.	- Yn ystod camau cynnar y pandemig, bu i ni gydnabod y byddai angen i'n busnesau ganolbwyntio eu hamser a'u hymdrech ar faterion sy'n hanfodol i fusnes. - Wrth i'r sefyllfa fynd yn haws ei rheoli ac wrth i'r cyfnod clo ddechrau llacio, fe wnaethom symud i sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn cydymffurfio â'u dyletswyddau rheoleiddio cyn gynted ag yr oedd yn weithredol bosib.

Mae ein hymateb mewnol i'r pandemig, gan gynnwys sut y bu i ni baratoi ar gyfer unrhyw darfu neu ddigwyddiadau a sut roedden ni wedi cefnogi cydweithwyr, yn cael sylw ar dudalen 94.

Cynnydd ar gyflwyno yn erbyn blaenoriaethau ein Cynllun Blynyddol

Rydym yn cyhoeddi ein Cynllun Gwaith Blynyddol bob mis Mawrth. Mae'r cynllun hwn yn egluro pa waith rydym yn bwriadu ei wneud yn ystod y flwyddyn ar draws y Deyrnas Unedig a'i gwledydd er mwyn cyflawni ein diben.

Roedd ein meysydd gwaith blaenoriaeth ar gyfer 2020/21 wedi cael eu datblygu yn unol â'n dyletswyddau a'n nodau strategol. Mae ein

blaenoriaethau'n ystyried cyd-destun y farchnad a, phan fo'n bosibl, yn ceisio adlewyrchu ymatebion i ymgynghoriadau â rhanddeiliaid.

Mae'r adran hon yn egluro'r gwaith rydym wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn i gyflawni'r meysydd blaenoriaeth, a beth maen nhw'n ei olygu i bobl ac i fusnesau.

Allwedd cyflawni:

Mae'r prosiect wedi cael ei gwblhau, neu mae disgwyl iddo gael ei gwblhau heb oedi.

Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch a fydd y prosiect yn cael ei gwblhau, neu mae oedi'n debygol.

Mae'n bosib na fydd y prosiect yn cael ei gwblhau, neu y bydd oedi sylweddol.



Band eang gwell – ble bynnag yr ydych chi

Byddwn yn cefnogi buddsoddiad a chystadleuaeth barhaus mewn rhwydweithiau sefydlog cyfradd gigadid ac yn helpu cwsmeriaid ledled y Deyrnas Unedig i gael y cysylltedd sydd ei angen arnynt, drwy sicrhau eu bod yn gallu gofyn am fynediad at gysylltiad band eang sylfaenol.

Meysydd gwaith blaenoriaeth	Canlyniadau i ddefnyddwyr
Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Cyfanwerthol (WFTMR) – adolygiad statudol o farchnadoedd telathrebu gan ganolbwyntio ar gyflwyno rhwydweithiau ffeibr.	Band eang: a) Rydym yn disgwyl y bydd rhwydweithiau cyfradd gigadid yn cyrraedd 85%, neu fwy, o'r wlad erbyn 2025 – i fyny o 3% yn unig yn 2017 a 37% ar hyn o bryd; b) Mae 98% o adeiladau yn cael band eang digonol (cyflymder llwytho i lawr o 10Mdid yr eiliad a chyflymder llwytho i fyny o 1Mdid yr eiliad). Gall y 2% sy'n weddill o gartrefi cymwys nawr ofyn am gysylltiad digonol gan ddarparwr gwasanaeth cyffredinol dynodedig.
Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang (USO) – dynodi darparwyr a gosod gofynion.	

Yr effaith ar ddefnyddwyr

Mae'r pandemig wedi tanlinellu pwysigrwydd band eang dibynadwy. Gyda chartrefi yn y Deyrnas Unedig yn defnyddio 40% yn fwy o ddata bob blwyddyn, mae buddsoddi mewn uwchraddio seilwaith telathrebu'r Deyrnas Unedig yn hanfodol.

Rhwydweithiau cyfradd gigadid yw'r dyfodol, rhwydweithiau sy'n cynnig cyflymder o hyd at 30 gwaith y cyfartaledd ar hyn o bryd, yn ogystal â bod yn fwy dibynadwy. Mae'r rhain ar gael i 37% o'r Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, gydag Openreach yn gwasanaethu tua 15% o'r wlad gyda'i rwydwaith ffeibr llawn cyfradd gigadid ei hun.

Beth rydym wedi ei gyflawni

Mae ein dull o gefnogi cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau cyfradd gigadid yn canolbwyntio ar annog cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau gwahanol lle bo hynny'n ymarferol.

Ym mis Mawrth 2021, daeth yr Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol i ben, sef prosiect a oedd yn anelu at greu amgylchedd rheoleiddio i annog BT a'i gystadleuwyr i gystadlu.

Roedd yr adolygiad yn nodi'r fframwaith ar gyfer y pum mlynedd nesaf, sef:

- pennu rheoleiddio prisiau cyfanwerthol sy'n annog buddsoddiad ac yn hybu cystadleuaeth;
- golygu y bydd y gwasanaethau ffeibr cyflymaf yn rhydd o reoleiddio prisiau;
- caniatáu i Openreach godi premiwm bach am gynhyrchion sy'n cael eu rheoleiddio sy'n cael eu darparu dros ffeibr llawn yn hytrach na chopr, er mwyn adlewyrchu gwasanaeth o'r ansawdd gorau;
- gosod y sylfeini ar gyfer cau rhwydwaith copr Openreach;
- gorfodi mynediad i gwmnïau eraill at bolion telegraff a chwndidau tanddaearol Openreach; a
- mynd i'r afael â'r risg o ymddygiad gwrth-gystadleuol er mwyn rhoi cyfle i bob adeiladwr rhwydwaith gystadlu'n deg.

Y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol

Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth ar gyfer USO band eang², a lansiwyd ar 20 Mawrth 2020, gan roi'r hawl i ddefnyddwyr ofyn am gysylltiad band eang teilwng gan British Telecom Plc neu Kingston Communication yn ardal Hull. Bydd BT yn asesu a yw defnyddwyr yn gymwys ar gyfer yr USO band eang o dan reolau sefydledig. Mae deddfwriaeth yn cyfyngu cost pob cysylltiad i £3,400. Os eir dros hyn, gall pobl ddewis talu'r costau ychwanegol eu hunain.

Ofcom sy'n gyfrifol am roi'r USO ar waith, gan gynnwys sefydlu cronfa i'r diwydiant er mwyn gallu talu iawndal i BT³ am unrhyw gostau annheg a gaiff wrth gyflawni'r cynllun. Ym mis Mai 2020,

bu i ni gadarnhau'r rheoliadau ar gyfer y broses o ddigolledu Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol, gan gynnwys sut byddai hawliadau o'r fath yn cael eu hasesu a'u penderfynu.

Rydym yn parhau i weithio gyda BT ac yn monitro'r gwaith o ddarparu'r USO. Ym mis Hydref, aethom ati i gychwyn ymchwiliad yn dilyn pryderon nad oedd BT o bosibl yn cydymffurfio â'r amodau rheoleiddio'n gywir, wrth asesu costau ychwanegol ar gyfer cysylltiad penodol. Gallai hyn olygu bod dyfynbris rhai cwsmeriaid am gysylltiad yn uwch na'r angen. Mae ein hymchwiliad yn parhau ac rydym wrthi'n ystyried ein camau nesaf. Byddwn yn darparu rhagor o ddiweddariadau dros yr haf.

Y canlyniadau a'r camau nesaf

Mae cystadleuaeth rhwydwaith wedi helpu darpariaeth ffeibr llawn i gynyddu ar y gyfradd gyflymaf erioed dros y flwyddyn ddiwethaf – ac mae hyn wedi parhau drwy gydol y pandemig. Mae ein rheoliadau'n adeiladu ar y momentwm hwn – gan sbarduno buddsoddiad masnachol cystadleuol a chefnogi'r gwaith o gau rhwydwaith copr 100 mlynedd oed Openreach, ar yr un pryd â sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu diogelu rhag prisiau uchel.

Rydym yn credu y bydd y dull hwn yn golygu y bydd gan eiddo mewn tua 70% o'r Deyrnas Unedig ddewis o rwydweithiau gan ddarparwyr masnachol cystadleuol. Mae Openreach wedi ymrwymo i gyflwyno ffeibr llawn i dros 6 miliwn o eiddo (tua 20%) mewn ardaloedd mwy gwledig. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cynnwys gweddill y wlad drwy arian cyhoeddus.



Gallwn edrych ymlaen at ddarparu dyfodol cyfradd gigadid i oddeutu 85% neu fwy o'r wlad erbyn ail hanner y degawd – i fyny o 3% yn unig yn 2017.

2. Mae manyleb dechnegol yr USO yn cynnwys cyflymder cysoni lawrlwytho o 10 megadid yr eiliad o leiaf; cyflymder cysoni llwytho i fyny o 1 megadid yr eiliad o leiaf; cymhareb gystadlu o ddim mwy na 50:1; lefel diffyg ymateb sy'n gallu caniatáu i'r defnyddiwr wneud a derbyn galwadau llais dros y cysylltiad yn effeithiol; a'r gallu i ganiatáu defnydd data o 100 gigabeit o leiaf y mis.
3. Mae KCOM yn credu nad oes dim adeiladau yn ardal Hull a fydd angen cysylltiad USO band eang gan fod pob cwsmer eisoes yn gallu cael cysylltiad band eang teilwng drwy wasanaethau ffeibr neu ADSL KCOM. Nid ydym yn disgwyl i KCOM gyflwyno hawliad cost net ar gyfer yr USO band eang hwn.

Bydd ein gwaith i ddarparu'r USO band eang yn helpu i sicrhau y bydd gan bawb yr hawl i ofyn am gysylltiad band eang teilwng a fforddiadwy. Fodd bynnag, efallai y bydd costau adeiladu uchel iawn yn y lleoliadau mwyaf anghysbell ar draws y Deyrnas Unedig yn golygu na fydd yr USO yn darparu ar eu cyfer, felly rydym yn ystyried, ar y cyd â Llywodraeth y DU, sut y gellir gwella mynediad at wasanaethau yn yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd.

Gwasanaeth symudol gwell – ble bynnag yr ydych chi

Rydym am i bobl allu cael gafael ar y gwasanaethau symudol sydd eu hangen arnynt lle bynnag y maent. I wneud hyn, mae Ofcom yn parhau i sicrhau bod gan ddarparwyr gwasanaethau fynediad at y sbectrwm cywir, ar yr adeg iawn, gan gydbwysu anghenion y galw cynyddol parhaus gan ddefnyddwyr am wasanaethau symudol ag anghenion defnyddwyr sbectrwm eraill.

Meysydd gwaith blaenoriaeth	Canlyniadau i ddefnyddwyr
Clirio 700MHz – symud defnyddwyr darlledu teledu presennol.	Symudol: a) Cafodd y gwaith o glirio'r tonnau awyr ei gwblhau ym mis Awst '20 a dyfarnwyd sbectrwm ychwanegol i'r cwmnïau symudol yn yr arwerthiant Sbectrwm diweddar wrth gefnogi'r gwaith o gyflwyno 5G ledled y Deyrnas Unedig.
Arwerthu sbectrwm yn y dyfodol (dyfarnu 700 MHz a 3.6-3.8 GHz) a gwelliannau o ran darpariaeth a gwasanaethau symudol.	b) Darpariaeth 4G sefydlog – Mae gan dros 91% o arwynebedd tir y Deyrnas Unedig ddarpariaeth dda gan o leiaf un gweithredwr; c) Cyflwynwyd 5G ym mis Mai 2019 - Bu cynnydd o tua deg gwaith yn nifer y trawsyryddion 5G sydd wedi'u rhoi ar waith, gyda thua 3,000 o drawsryddion bellach yn weithredol ar gyfer gwasanaethau 5G ledled y Deyrnas Unedig.

Yr effaith ar ddefnyddwyr

Mae'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig a welwyd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi effeithio ar sut a ble mae pobl wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn, ac ond pwysleisio pa mor bwysig yw cysylltiadau da.

Yn y cyfamser, mae gweithredwyr symudol bellach wedi cyflwyno 5G ar fwy na 3,000 o safleoedd symudol ac mae mwy a mwy o rwydweithiau preifat yn cael eu cynnig gan weithredwyr symudol a darparwyr gwasanaethau eraill.


Beth rydym wedi ei gyflawni

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau â'n rhaglen waith i hwyluso arloesedd a diwallu'r galw cynyddol am fand eang di-wifr.

Ym mis Ebrill eleni, fe wnaethom gwblhau dyfarnu sbectrwm ychwanegol i'w ddefnyddio gan weithredwyr rhwydweithiau symudol i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau symudol 5G. Mae hyn yn cynnwys 80 MHz o sbectrwm ar 700 MHz a 120 MHz ar 3.6-3.8 GHz, lle talodd gweithredwyr symudol gyfanswm o £1.379 biliwn. Mae'r dyfarniad hwn wedi cynyddu

cyfanswm y sbectrwm sydd ar gael i'r gweithredwyr symudol gan oddeutu 18%.

Mae'r dyfarniad yn nodi penllanw mwy nag wyth mlynedd o waith gan Ofcom, o ddechrau'r gwaith cynllunio cynnar ar gyfer clirio'r band 700 MHz yn



2012. Cwblhawyd y gwaith clirio 700 MHz yn llwyddiannus yn ystod haf 2020. Ar £350m, roedd cost y rhaglen clirio Teledu Daearol Digidol (DTT) gryn dipyn yn is na'r amcangyfrif cyllidebol gwreiddiol o hyd at £550m. Roedd symud gwasanaethau gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE) hefyd yn cael ei gefnogi gan gynllun ariannu a ddosbarthodd £26m i dros 280 o hawlwr.


Yn 2016, fel rhan o'r gwaith hwn, fe wnaethom nodi cyfle newydd i rannu sbectrwm er mwyn i'r sector PMSE liniaru colli mynediad at y band 700 MHz a chaniatáu i ofod y sector dyfu. Roedd yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) wedi darparu cyllid ar gyfer cynllun gan Ofcom i gefnogi perchnogion offer PMSE a oedd yn gorfod gadael y band. Prosesodd y cynllun 22,000 o geisiadau, gan gynnwys gan ysgolion a mannau addoli, theatrau, cwmnïau llogi mawr a darlledwyr.

Rydym hefyd wedi ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau a fydd yn cefnogi defnyddwyr sbectrwm yn y sector telathrebu a thu hwnt, gan gynnwys:

- arwain y ffordd yn fyd-eang o ran agor mynediad at sbectrwm ychwanegol ar 6 GHz ar gyfer wifi (a dyfeisiau pŵer isel pellter byr fel sbectol wedi ei chysylltu), a fydd yn gwella profiad defnyddwyr gartref ac yn cefnogi achosion defnydd diwydiannol newydd;
- agor mynediad at 100-200GHz, a fydd yn darparu rhagor o gyfleoedd ar gyfer arloesi o iechyd i beirianeg fanwl yn y blynyddoedd i ddod;

- ymgynghori ar strategaeth sbectrwm newydd a fydd yn sylfaen ar gyfer ein dull rheoli sbectrwm, ac yn cefnogi arloesi di-wifr, dros y degawd nesaf;
- sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon drwy hwyluso masnachu;
- cymryd camau i sicrhau bod trwyddedeion y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr yn ystyried dod i gysylltiad â meysydd electromagnetig (EMF) wrth osod a defnyddio offer radio;
- gwneud gwaith i dynnu trwyddedeion cyswllt sefydlog o'r band 1492 – 1517 MHz a'r is-fand 1350 – 1375 MHz, yn unol â'r sefyllfa ar draws Ewrop i neilltuo'r band hwn ar gyfer band eang di-wifr ac i baratoi ar gyfer gwneud aseiniad o'r fath yn y Deyrnas Unedig; a
- pharhau i gadw'r tonnau awyr yn ddiogel ac yn rhydd rhag ymyriant ar draws y Deyrnas Unedig, gan weithio gydag amrywiaeth o sectorau ac ar eu traws, o reoli awyrennau i longau, gwasanaethau lloeren, gwasanaethau brys a'r sector cyfleustodau.

Trwy gydol y cyfyngiadau iechyd cyhoeddus, rydym wedi parhau â'n gwaith monitro sbectrwm ac wedi parhau i ymateb i adroddiadau am ymyriant niweidiol sy'n effeithio ar ein defnyddwyr sbectrwm a seilwaith cenedlaethol critigol.



Y canlyniadau a'r camau nesaf

Gyda'r arwerthiant sbectrwm wedi ei gwblhau, gall gweithredwyr symudol ddefnyddio'r tonnau awyr hyn i gyflwyno gwasanaethau symudol gwell yn gyflym i bobl ledled y Deyrnas Unedig, gan gefnogi'r gwaith parhaus o lansio cysylltiadau 5G newydd ar gyfer pobl a busnesau.

Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyllid ar gyfer y Rhwydwaith Gwledig a Rennir sy'n cael ei adeiladu gan y pedwar cwmni rhwydwaith symudol (EE, O2, Three a Vodafone), gyda'r nod o wella darpariaeth symudol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, drwy fynd â darpariaeth 4G i 95% (rhwng 79% a 85% ar gyfer gweithredwyr unigol heddiw) o arwynebedd tir y Deyrnas Unedig erbyn 2025. Byddwn yn parhau i gefnogi'r rhaglen, gan gynnwys adolygu cynnydd y gweithredwyr o ran cyflawni eu hymrwymiaidau.

Byddwn hefyd yn adeiladu ar ein gwaith parhaus i ddeall y galw am gysylltedd di-wifr ar draws gwahanol sectorau yn y diwydiant. Fel rhan o hyn, byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o ddulliau trwyddedu lleol newydd a gyflwynwyd

gennym ac yn ceisio gweithredu dull awdurdodi cwbl awtomataidd ar gyfer mynediad i'r bandiau a rennir ac i ddarparu llwyfan ar gyfer mynediad mwy effeithlon i fwy o sbectrwm mewn lleoliadau penodol yn y dyfodol.

Byddwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer mynediad i'r band 26 GHz ar gyfer gwasanaethau symudol, a gwybodaeth ychwanegol i ddefnyddwyr ar argaeledd gwasanaethau 5G newydd yn y flwyddyn i ddod.

Eleni, rydym yn ymgynghori ar ein strategaeth symudol i ystyried beth yw'r ffordd orau o gefnogi'r gwaith o ddarparu arloesedd a chysylltedd symudol o ansawdd uchel. Byddwn yn edrych ar y newidiadau sy'n digwydd yn y sector, yn ogystal ag effaith newidiadau y tu allan iddo, er mwyn asesu sut mae'r farchnad yn gweithio a sut mae'n debygol o esblygu dros y pump i ddeng mlynedd nesaf.



Tegwch i gwsmeriaid

Mae marchnadoedd telathrebu'r Deyrnas Unedig ymhlith y rhai mwyaf cystadleuol yn y byd. Ond mae'n hollbwysig bod pobl yn cael eu trin yn deg gan eu darparwyr ac yn gallu ymddiried mewn marchnadoedd i weithredu'n onest.

Meysydd gwaith blaenoriaeth	Canlyniadau i ddefnyddwyr
Trin cwsmeriaid agored i niwed – sicrhau bod cwsmeriaid agored i niwed yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, yn enwedig yn ystod y pandemig	Canllaw ar Gwsmeriaid Agored i Niwed: Ym mis Gorffennaf 2020, fe wnaethom gyhoeddi ein canllaw 'trin cwsmeriaid agored i niwed yn deg' sy'n awgrymu mesurau ymarferol y gall darparwyr eu mabwysiadu. Rydym yn monitro a yw cwsmeriaid agored i niwed yn profi lefel o wasanaeth yn unol â'r disgwyliadau a nodir yn y canllaw.
Fforddadwyedd – sicrhau bod cysylltiadau fforddiadwy ar gael i'r rhai sydd dan anfantais ariannol.	COVID-19: Bu i ni weithio'n agos gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) i sicrhau ymrwymadau gan yr holl brif ddarparwyr (a nifer o ddarparwyr llai) i gynnig cymorth a gwarchodaeth ychwanegol i gwsmeriaid yn ystod y pandemig, gan gynnwys cael gwared ar unrhyw gapiau data ar fand eang a darparu munudau/data ychwanegol er mwyn i gwsmeriaid allu cadw mewn cysylltiad.
Proses symlach i newid darparwr – helpu cwsmeriaid band eang i newid darparwr drwy brosesau newid symlach.	Newid band eang yn symlach: Cafodd ein penderfyniad ar reolau lefel uchel newydd i'w gwneud yn haws i gwsmeriaid band eang newid rhwng rhwydweithiau gwahanol, a rhwng gwasanaethau ffeibr llawn ar yr un rhwydwaith, ei gyhoeddi ym mis Hydref 2020.
Ymrwymadau Tegwch - lansiwyd ym mis Mehefin 2019 i greu newid sylweddol o ran sut mae darparwyr yn trin eu cwsmeriaid.	Cyfathrebu Agored: Ym mis Awst 2020, fe wnaethom ymgynghori ar ein cynnig Cyfathrebu Agored cychwynnol, sef cynllun i ganiatáu i gwsmeriaid rannu data amdanynt eu hunain (e.e. eu cyfrifon a'u defnydd) ag offer cymharu digidol ac eraill.
Prosiectau tegwch eraill – Cyfathrebu Agored, Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd (EECC) a phrisio personol.	Prisiau personol: Fe wnaethom gyhoeddi papur trafod ym mis Awst 2020 a chynnal seminar ar-lein ym mis Tachwedd 2020 a fynychwyd gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr cyfathrebiadau a grwpiau defnyddwyr.



M

Mae marchnadoedd telathrebu'r Deyrnas Unedig ymhlith y rhai mwyaf cystadleuol yn y byd. Ond mae'n hollbwysig bod pobl yn cael eu trin yn deg gan eu darparwyr ac yn gallu ymddiried mewn marchnadoedd i weithredu'n onest.



Yr effaith ar ddefnyddwyr

Mae tegwch i gwsmeriaid, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i ni. Yn ystod y pandemig, bu i ni ofyn i ddarparwyr ffôn, band eang a theledu drwy dalu flaenoriaethu cadw cysylltiadau pobl a chefnogi'r rhai sy'n agored i niwed a defnyddwyr sy'n dioddef o broblemau ariannol neu broblemau iechyd.

Beth rydym wedi ei gyflawni

Ein blaenoriaeth yn ystod y flwyddyn oedd sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu cadw'u cysylltiad a derbyn cymorth os oeddent yn wynebu trafferthion ariannol, a'u bod wedi eu gwarchod rhag biliau

annisgwyl o uchel.

Bu i ni weithio gyda Llywodraeth y DU a darparwyr telathrebu ar fesurau i gefnogi cwsmeriaid agored i niwed, a oedd yn cynnwys:

- osgoi datgysylltu'r rhai nad ydynt yn gallu talu drwy ohirio biliau;
- trwsio cysylltiadau ar gyfer cwsmeriaid a oedd wedi colli eu gwasanaeth;
- darparu galwadau 101 am ddim; a
- thacio taliadau uchel am wasanaethau ffôn mewn ysbytai.

Mae tegwch yn golygu mwy na'r hyn y gallwn ofyn i ddarparwyr ei wneud, mae hefyd yn golygu galluogi cwsmeriaid fel y gallant wneud dewisiadau, siopa o gwmpas yn hyderus a sicrhau pris teg.

Ym mis Hydref 2020 gwnaethom gadarnhau gweithredu pecyn newydd o fesurau diogelu defnyddwyr a gynhwyswyd yn y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd (EECC), sef cyfarwydddeb newydd gan yr Undeb Ewropeaidd sy'n diweddu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu. Bydd y rheolau newydd yn cael eu cyflwyno'n raddol o fis Rhagfyr 2021 ymlaen ac yn cynnwys nifer o elfennau:

- Gwahardd cwmnïau ffônau symudol rhag gwerthu ffônau sydd wedi eu cloi, er mwyn i bobl allu symud i rwydwaith gwahanol gyda'r un ffôn yn ddidrafferth. Canfu ein hymchwyl y gall hyn fod yn broses a all fod yn gymhleth, gan atal pobl o bosib rhag newid darparwr.
- Gwellu'r wybodaeth mewn contractau a'r hawliau i adael contract. Mae hyn yn golygu y dylai cwsmeriaid gael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn ysgrifenedig, cyn iddynt lofnodi contract, a chael yr hawl i adael eu contract os oes unrhyw newidiadau i'w contract nad ydynt er eu budd hwy'n unig.
- Sicrhau bod cwsmeriaid ag anableddau yn cael mynediad cyfatebol at wasanaethau cyfathrebu, a dewis cyfatebol o'r gwasanaethau

hynny. Mae hyn yn cynnwys gallu gofyn bod yr holl gyfathrebiadau (ac eithrio marchnata) yn cael eu darparu mewn fformatau hygyrch.

Rydym yn parhau i weithio i wneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth iawn i'w helpu i chwilio am y fargen orau, gan gynnwys:

- ymchwil a data am sut mae darparwyr mewn gwahanol farchnadoedd yn perfformio o ran boddhad cwsmeriaid, cwynion a gwerth am arian;
- gwybodaeth benodol i ddarparwyr am brisiau band eang;
- ymgyrchoedd gwybodaeth i helpu pobl i gael band eang cyflymach ac i arbed arian;
- o fis Chwefror 2020, mae'n rhaid rhoi gwybod i gwsmeriaid band eang, ffôn a theledu pan fydd eu contract ar fin dod i ben, a dangos y bargeinion gorau sydd ar gael iddynt. Hefyd, bydd yn rhaid i gwsmeriaid y mae eu contract wedi dod i ben yn barod, gael eu hatgoffa a dangos y bargeinion gorau iddyn nhw bob blwyddyn; ac
- archwilio a oes angen mwy o wybodaeth neu wybodaeth well ar bobl i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am y gwasanaethau band eang priodol ar eu cyfer nhw, gan gynnwys gwybodaeth am nodweddion a galluoedd technolegau band eang symudol a sefydlog gwibgyswllt cyfradd gigadid.

Rydym yn croesawu'r camau cyflym a gymerwyd gan ddarparwyr mewn ymateb i'r pandemig, ond mae mwy y gallant ei wneud i gefnogi eu cwsmeriaid yn well. Felly, rydym wedi annog darparwyr yn gryf i ystyried cyflwyno tariffau wedi eu targedu sydd wedi eu dylunio ar gyfer cwsmeriaid ar incwm isel. A lle mae darparwyr eisoes yn cynnig tariffau o'r fath, mae angen cymryd mwy o gamau i'w hyrwyddo i gwsmeriaid cymwys, gan fod y nifer sy'n manteisio arnynt yn isel ar hyn o bryd.

Yn 2019, fe wnaethom sicrhau ymrwymiad pwysig gan ddarparwyr mwyaf y Deyrnas Unedig i roi tegwch yn gyntaf. Ym mis Mai 2021, gwnaethom adrodd ar gynnydd darparwyr yn erbyn ein fframwaith i benderfynu a yw cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg.

Yn ein diweddariad ar degwch ym mis Mai 2021, fe wnaethom ganfod bod llawer o ddarparwyr wedi cymryd camau i ddarparu bargeinion tecach, gwybodaeth gliriach a gwell cefnogaeth i'w cwsmeriaid. Fodd bynnag, roedd angen cymryd camau pellach ar feysydd megis gwasanaeth i gwsmeriaid.

Rydym wedi ei gwneud yn haws yn y gorffennol i gwsmeriaid band eang newid rhwng darparwyr ar rwydwaith copr Openreach. Ar 3 Chwefror eleni, gwnaethom gynnig proses 'Newid Un Cam' newydd i'w gwneud yn haws i bob cwsmer preswyl newid gwasanaethau band eang. Mae hyn yn cynnwys newid rhwng darparwyr sy'n defnyddio rhwydweithiau gwahanol yn ogystal â rhwng darparwyr gwasanaethau band eang ffeibr llawn ar yr un rwydwaith.

Rydyn ni hefyd wedi sicrhau ymrwymadau gan holl ddarparwyr mawr y Deyrnas Unedig i adolygu prisiau eu cwsmeriaid agored i niwed, gan gynnwys darparu gostyngiadau sydd ddim yn golygu bod angen i gwsmeriaid gysylltu â nhw. Gallai hyn fod gyfystyr a chymorth o dros £70m y flwyddyn i'r cwsmeriaid hyn.



Mae rhai darparwyr ffôn eisoes yn symud eu cwsmeriaid llinell dir yn raddol o rwydwaith ffôn traddodiadol y wlad, sef y PSTN (rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus), i'r 'protocol llais dros y rhyngwrwyd' (VoIP).

Caiff y newid hwn ei arwain gan ddarparwyr ffôn i ddisodli hen dechnoleg a bydd yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau ffôn llinell dir y Deyrnas Unedig yn addas ar gyfer y dyfodol.

Mae gennym rôl i'w chwarae o ran sicrhau bod gan ddarparwyr fesurau rhesymol ar waith, fel na therfir yn ormodol ar gwsmeriaid a'u bod yn cael eu diogelu rhag niwed. Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda darparwyr i helpu i wneud yn siŵr bod problemau'n cael eu canfod a'u datrys yn gynnar, ac wedi amlinellu'r mesurau yr ydym yn disgwyl iddyn nhw eu mabwysiadu i ddiogelu cwsmeriaid, yn enwedig pobl agored i niwed.

Y canlyniadau a'r camau nesaf

Os nad yw darparwyr yn trin cwsmeriaid yn deg, byddwn yn camu i mewn ac yn cymryd camau i'w diogelu.

Mae'r ymateb gan ddarparwyr i'r pandemig wedi bod yn gyflym, yn gadarnhaol ac yn gefnogol i amgylchiadau cwsmeriaid. Mae hefyd wedi dangos bod rhai yn wynebu anawsterau o ran fforddio

gwasanaethau a'u bod yn aml yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd o ganlyniad. Rydym yn gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod mwy o becynnau cost isel ar gael i bobl sy'n derbyn budd-daliadau, ac i wella'r gwaith o hyrwyddo gwasanaethau o'r fath. O ystyried y rhagolygon economaidd heriol, rydym yn bwriadu cynnal rhagor o ymchwil ar fforddau newydd a dyled eleni.

Os na fydd darparwyr yn mynd i'r afael â'n pryderon drwy eu lefelau cymorth presennol, i gwsmeriaid sydd mewn trafferthion ariannol, byddwn yn ystyried camau pellach.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, eleni byddwn yn dod i ddiwedd ein hystyriaeth gychwynnol ynghylch 'Cyfathrebu Agored', a fydd yn galluogi pobl i rannu eu data'n ddiogel â thrydydd partion er mwyn eu helpu i lywio drwy'r farchnad a chael borgen well. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU wrth iddi ddatblygu deddfwriaeth i alluogi mentrau data clyfar ar draws sectorau.

Dylai cwsmeriaid band eang cartref allu defnyddio proses newid hawdd, cyflym a dibynadwy o fis Rhagfyr 2022 ymlaen, gan eu helpu i fanteisio ar y bargeinion sydd ar gael yn y farchnad.



Yn ein diweddariad ar degwch ym mis Mai 2021, fe wnaethom ganfod bod llawer o ddarparwyr wedi cymryd camau i ddarparu bargeinion tecach, gwybodaeth gliriach a gwell cefnogaeth i'w cwsmeriaid.



Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol


Ein nod ni yw sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau post yn cael budd o wasanaeth post cyffredinol sy'n bodloni eu hanghenion. Wrth wneud hynny, rydym yn ystyried a yw darpariaeth y gwasanaeth cyffredinol yn effeithlon ac yn gynaliadwy o safbwynt ariannol.

Meysydd gwaith blaenoriaeth	Canlyniadau i ddefnyddwyr
Adolygiadau o Anghenion Defnyddwyr Gwasanaethau Post ac effeithlonrwydd y Post Brenhinol – adolygu anghenion rhesymol defnyddwyr gwasanaethau post, a chynllun blynyddol / effeithlonrwydd gweithredol y Post Brenhinol.	Fe wnaethom gyhoeddi ein Hadolygiad o Anghenion Defnyddwyr ym mis Tachwedd 2020 ochr yn ochr â'n Diweddariad Monitro Blynyddol ar y farchnad bost. Er gwaethaf yr ansicrwydd a'r heriau a achoswyd gan y pandemig, mae sefyllfa ariannol y Post Brenhinol wedi gwella erbyn hyn. Mae hyn oherwydd y galw cynyddol am ddanfôn parseli. Rydym yn parhau i fonitro'r Post Brenhinol i sicrhau bod y gwasanaeth cyffredinol yn gynaliadwy.

Yr effaith ar ddefnyddwyr

Mae'r farchnad bost wedi newid yn ddramatig dros y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer y llythyrau mae pobl yn eu hanfon a'u derbyn wedi gostwng tua 5% bob blwyddyn ers 2015, gan eu bod yn dibynnu mwy a mwy ar e-bost a chyfathrebiadau ar-lein eraill. Yn y cyfamser, mae twf mewn siopa ar-lein wedi gweld cynnydd cyffredinol yn nifer y parseli ar gyfradd o tua 10% y flwyddyn ers 2015.

Mae'r tueddiadau hyn wedi cyflymu yn ystod y pandemig⁴.



Beth rydym wedi ei gyflawni

Mae'r gwasanaeth cyffredinol presennol yn mynnu bod y Post Brenhinol yn danfon llythyrau chwe diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Sadwrn) a pharseli bum niwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener) i bob cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, am bris unffurf. Rhaid i ni sicrhau bod ein rheoleiddio ar y gwasanaeth post yn cyd-fynd â newidiadau yn y farchnad ac yn aros yn berthnasol, yn addas i'r diben, ac yn effeithiol. Eleni, gwnaethom gynnal adolygiad cynhwysfawr o anghenion defnyddwyr post ledled y Deyrnas Unedig, er mwyn canfod sut mae pobl a busnesau'n teimlo am amrywiaeth o newidiadau damcaniaethol i'r gwasanaeth cyffredinol.

Canfuwyd gennym fod y gofyniad presennol i ddanfôn llythyrau chwe diwrnod yr wythnos yn diwallu anghenion 98% o ddefnyddwyr preswyl a 97% o fusnesau bach a chanolig yn y Deyrnas Unedig. Byddai lleihau hyn i bum diwrnod yr wythnos, ond gadael holl elfennau eraill y gwasanaeth fel y maen nhw ar hyn o bryd, yn dal i ddiwallu anghenion 97% o ddefnyddwyr preswyl a busnesau bach a chanolig. Yn wir, yn ystod camau cynnar y pandemig, cyhoeddodd y Post Brenhinol ostyngiad dros dro yn amllder danfon llythyrau o chwe diwrnod i bum diwrnod yr wythnos, cyn

4. Er enghraifft, ym mis Chwefror 2021, dywedodd y Post Brenhinol fod cynnydd o 31% o un flwyddyn i'r llall yn nifer y parseli yn y naw mis hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2020, ac roedd nifer y llythyrau â chyfeiriad arnynt wedi gostwng 23% yn ystod yr un cyfnod.

ailldechrau dosbarthu llythyrau ar ddydd Sadwrn yng nghanol mis Mehefin.

Dim ond Llywodraeth a Senedd y DU all wneud unrhyw newidiadau i ofynion sylfaenol y gwasanaeth cyffredinol.

Rydym yn craffu'n gyson ar effeithlonrwydd ac ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol, perfformiad ariannol rhwydwaith y gwasanaeth cyffredinol, datblygiadau yn y farchnad a chystadleuaeth yn y sectorau parseli a llythyrau. Rydym hefyd yn monitro profiad defnyddwyr o'r sector post ac yn cyhoeddi adroddiad monitro blynyddol. Effeithiwyd yn sylweddol ar ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol o ganlyniad i'r pandemig – mae wedi bod yn gweithredu mewn cyfnod o argyfwng, lle nad yw safonau ansawdd gwasanaeth arferol yn berthnasol. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Post Brenhinol yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael gwasanaeth o'r ansawdd gorau posibl a bod cwsmeriaid yn glir ynghylch beth y gallant ei ddisgwyl.

Er bod y pandemig wedi gwneud 2020 yn flwyddyn arbennig o heriol i'r Post Brenhinol, roedd y problemau sy'n wynebu'r cwmni oherwydd newidiadau yn y farchnad ac ymddygiad defnyddwyr yn amlwg cyn y pandemig.

Ym mis Mawrth eleni, bu i ni gyhoeddi cais am fewnbwn ar ddyfodol rheoleiddio'r post. Fel rhan o hyn, rydym hefyd yn edrych ar gystadleuaeth yn y marchnadoedd post swmp a pharseli ac a oes angen mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer defnyddwyr. Mae canfyddiadau ein hadolygiad o anghenion defnyddwyr yn elfen hanfodol o'r adolygiad eang hwn. Caiff cynigion manwl eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yn ddiweddarach eleni cyn i ni symud i gwblhau'r adolygiad y flwyddyn nesaf.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gwblhau dau ymchwiliad yn ymwneud â'r post:

- Cydymffurfiaid y Post Brenhinol â rhai targedau ar gyfer ansawdd y gwasanaeth. Nid oedd y Post Brenhinol wedi cyrraedd ei darged ar gyfer Dosbarth Cyntaf yn 2018/19, a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol. Roedd 1.5% yn brin o'r targed, sef 93.0%. Hefyd, dim ond mewn 75 o'r 118 o ardaloedd cod post y cyrhaeddwyd yr ail darged. Rhoddwyd dirwy o £1.5m i'r cwmni.

- Ymchwilio i gydymffurfiaid y Post Brenhinol â'r cap diogelu ar lythyrau ail ddosbarth. Ym mis Ionawr 2019, roeddem wedi penderfynu cynyddu'r cap ar lythyrau safonol ail ddosbarth o 60c i 65.2c o fis Ebrill 2019 ymlaen, gan ddilyn hynny gyda chodiadau'n gysylltiedig â chwyddiant tan 31 Mawrth 2024. Ar ôl i'r Post Brenhinol godi prisiau ar 25 Mawrth 2019 yn hytrach nag 1 Ebrill, fe agorwyd ymchwiliad gennym. Rhoddwyd dirwy o £100,000.

Y canlyniadau a'r camau nesaf

Byddwn yn gweithio gyda'r Post Brenhinol i wneud yn siŵr ei fod yn gwella i fodloni ei safonau ansawdd gwasanaeth wrth i ni symud allan o'r aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig.

Bydd yr adolygiad o anghenion defnyddwyr a'r gwaith ar y fframwaith newydd ar gyfer rheoleiddio'r post yn helpu i sicrhau bod y blociau adeiladu ar waith i ddarparu gwasanaeth cyffredinol perthnasol, addas i'r diben, effeithlon ac ariannol gynaliadwy sy'n gallu bodloni gofynion cymdeithas sy'n esblygu'n gyflym mewn byd ar ôl pandemig.

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ein gwaith monitro parhaus, mae gan y Post Brenhinol ran bwysig i'w chwarae o ran sicrhau hyfywedd y gwasanaeth yn y tymor hwy – yn fwyaf penodol ei allu i addasu i newidiadau yn y farchnad, cyflawni gwelliannau effeithlonrwydd angenrheidiol a gweithredu ei raglen trawsnewid strategol ei hun.

Cefnogi darlledu yn y Deyrnas Unedig

Yr effaith ar ddefnyddwyr

Rydym yn cefnogi sector cyfryngau'r Deyrnas Unedig, yn cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan ei helpu i esblygu i ddiwallu anghenion newidiol gwylwyr a gwrandawyr, ac i helpu i sicrhau ei fod yn gwasanaethu holl gynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig. Rydym hefyd yn gweithio i sicrhau ansawdd a safonau cynnwys i gynulleidfaoedd. Yn ogystal, rydym yn adrodd ar berfformiad y BBC ac yn monitro ei effaith i sicrhau ei fod yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus.

Meysydd gwaith blaenoriaeth	Canlyniadau i ddefnyddwyr
Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus: Sgrin Fach Trafodaeth Fawr – cynladwyedd darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) wrth ystyried bod digidol yn cael eu defnyddio mwyfwy.	Rydym wedi cwblhau dau gam o ymchwil cynulleidfaoedd, wedi cynnal cynhadledd rithwir tri diwrnod ac wedi cael dros 100 o ymatebion i'n hymgyngoriad, a nododd yr angen am fframwaith newydd ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.
Rhaglen Monitro Cystadleuaeth y BBC.	Ar ôl ystyried goblygiadau ac effaith newidiadau'r BBC ar y farchnad mewn ymateb i'r pandemig, er enghraifft cynnwys addysgol ychwanegol, gwnaethom ganiatáu i'r BBC fwrw ymlaen i lansio ei swyddogaeth chwilio trwy lais ('OK Beeb').
Rheoleiddio Gweithgareddau Masnachol a Masnachu'r BBC.	Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar y BBC ym mis Tachwedd 2020, gan ddod i'r casgliad bod y BBC wedi cyflawni ei gylch gwaith yn 2019/20 ac wedi ymateb yn gryf i'r pandemig.
Adolygiad Newyddion / Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad Perfformiad y BBC.	Cawsom nifer arwyddocaol o uchel o gwynion eleni (142.7K yn 2020/21 o'i gymharu â 34.5k yn 2019/20), a sbardunwyd gan y pandemig, a materion yn ymwneud â hil. Arweiniodd hyn at 14 o sanesiynau a 6 chosb.
Pennu safonau o ran cynnwys a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Cod Darlledu.	

Safonau a Diogelu Cynulleidfaoedd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Ofcom wedi derbyn ac wedi asesu nifer uwch o gwynion darlledu, yr uchaf ers ein sefydlu. Roedd y mwyafrif helaeth o'r cwynion a gawsom yn ymwneud â chynnwys a oedd yn peri tramgwydd i gynulleidfaoedd.

Mewn sawl achos, efallai y byddwn yn derbyn mwy nag un gŵyn am raglen benodol neu fwy nag un mater o fewn rhaglen.


Rydym yn asesu pob mater fel un achos, felly:

- Bu i 142,660⁵ o gwynion a gawsom yn 2020/21 arwain at 11,778 o achosion,
- Cwblhawyd 60 ymchwiliad, a
- Canfuwyd bod 28 wedi torri ein rheolau, 1 achos o dorri'r Cod ar amserlennu hysbysebion teledu (COSTA).

Ceir dadansoddiad llawn o'n prosesau safonau, ynghyd â dadansoddiad o gwynion, yn Atodiad 4.

5. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys cwynion Tegwch a Phreifatrwydd na chwynion a anfonwyd yn ôl gennym i'r BBC o dan BBC yn Gyntaf am nad oeddent wedi cwblhau proses gwynion y BBC.

Ffigur 1 – cwynion ac achosion a aseswyd yn ôl blwyddyn



Rhaglen darlledu gwasanaeth cyhoeddus: Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau â'n trafodaeth genedlaethol – o'r enw Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr – sy'n edrych ar sut mae cryfhau a chynnal cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt.

Bu i ni siarad â phobl ledled y Deyrnas Unedig am yr hyn roeddent yn ei werthfawrogi am ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB), gan gwrdd â darlledwyr, cynhyrchwyr, gwasanaethau ffrydio, academyddion a dadansoddwyr yn y Deyrnas Unedig a thramor i gywain amrywiaeth eang o safbwyntiau yn y diwydiant. Ym mis Hydref 2020, fe wnaethom gynnal rhith-gynhadledd i drafod y materion mawr sy'n wynebu darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae adroddiadau ar y gwaith hwn, ynghyd â thrafodaethau panel a chyfweliadau, ar gael yn www.smallscreenbigdebate.co.uk/cymru.

Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaethom nodi dechrau cam newydd yn ein hadolygiad gydag ymgynghoriad yn crynhoi prif themâu ein gwaith hyd yma. Bu i ni hefyd gyhoeddi cais am dystiolaeth ym mis Chwefror 2021 er mwyn edrych yn fanylach ar y berthynas sy'n bodoli heddiw rhwng y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu.

Ym mis Gorffennaf byddwn yn cyhoeddi ein datganiad yn nodi'r hyn rydym wedi ei ddysgu, gan gynnwys ein hargymhellion i Lywodraeth y DU i lywio'r broses o feddwl am bolisi ar gyfer system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus newydd. Byddwn hefyd yn ystyried a oes meysydd o reoleiddio darlledu gwasanaeth cyhoeddus presennol y gellir ac y dylid eu diweddarau. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ddyfodol y llwyfan Teledu Daeareol Digidol ac edrych ar yr opsiynau posibl i

adnewyddu trwyddedau darlledu Sianel 3, 4 a 5.

Ymateb i'r pandemig a'r effaith ar ddarlledwyr

Drwy gydol y pandemig, mae Ofcom wedi bod yn ymrwymedig i weithio gyda darlledwyr i wneud yn siŵr eu bod yn gallu parhau i ddarlledu'r gwasanaethau gorau posib. Gwnaethom fabwysiadu dull gweithredu pragmatig a hyblyg ar gyfer gorfodi gofynion rhaglennu a chynhyrchu os nad oedd darlledwyr yn gallu bodloni amodau o ganlyniad i'r tarfu a achoswyd gan Covid-19. Fe wnaethom hefyd gyflawni ystod o gamau gweithredu penodol, gan gynnwys:

- cydnabod yr anhawster ariannol yr oedd rhai darlledwyr yn ei wynebu oherwydd gostyngiad sydyn mewn hysbysebu, gwnaethom drefniadau newydd ar gyfer taliadau ffi'r drwydded lle bo angen;
- gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a Phanel y Gronfa Radio Cymunedol i weinyddu 165 o grantiau gwerth cyfanswm o £607,370 mewn cyllid brys i'r sector radio cymunedol; a
- datblygu fersiwn newydd o drwydded radio sydd eisoes yn bodoli ar gyfer y rhai sydd eisau darparu ffynonellau gwybodaeth, newyddion a diweddariadau am y pandemig ar gyfer cymunedau penodol ledled y Deyrnas Unedig.

O ystyried natur barhaus a newidiol y pandemig, byddwn yn parhau i gymryd camau priodol i gefnogi'r sector darlledu ac yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU a'r diwydiant i helpu i gefnogi adferiad y sector darlledu a chynhyrchu yn ehangach.

Ymateb i Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau blynyddol Corfforaeth Channel 4

Mae Corfforaeth Channel 4 (C4C) yn cynhyrchu Datganiad o Bolisi Cynnwys Cyfryngau (SMCP) blynyddol sy'n nodi sut mae'n cyflawni ei chylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus a'i dyletswyddau cynnwys cyfryngau, ac yn bwriadu parhau i wneud hynny. Rhaid i C4C ymgynghori â ni wrth baratoi'r Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau, a byddwn ni'n cyhoeddi ymateb bob blwyddyn.

Mewn marchnad ddarlledu anodd, cyflawnodd C4C ei dyletswyddau yn gyffredinol yn 2019, yn enwedig o ran y cynnydd yn nifer y cynhyrchwyr newydd a oedd yn gweithio gyda nhw, perfformiad Channel 4 News o ran cyrraedd cynulleidfaoedd ifanc ac amrywiol, gan gynnwys drwy lwyfannau ar-lein, a'r syniadau uchelgeisiol a gyrhaeddodd y sgrin, yn fwyaf nodedig mewn comisiynau ffeithiol a chomedi. Gyda'i chanolfannau newydd yn gweithredu yn Leeds, Bryste a Glasgow, roeddem hefyd yn cydnabod bod C4C mewn sefyllfa dda i gyflawni ei chynlluniau i wella sut mae'r Deyrnas Unedig gyfan yn cael ei chynrychioli a'i phortreadu ar y sgrin. Fe wnaethom nodi rhai meysydd o bryder, er enghraifft gostyngodd buddsoddiad mewn cynnwys sy'n apelio at blant a phobl ifanc yn eu harddegau yn 2019 a gallai gael ei effeithio ymhellach oherwydd toriadau i'r gyllideb sy'n gysylltiedig â'r pandemig ac oedi o ran cynhyrchu.

Yn ogystal â'n hadolygiad blynyddol o berfformiad C4C, byddwn yn parhau i ystyried cyfraniad C4C at ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac a oes angen newid ei rwymedigaethau yn y dyfodol a sut bydd angen gwneud hynny, fel rhan o'n rhaglen waith Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr.

Polisi a rheoleiddio hysbysebion

Yn 2019, ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar gyflwyno cyfyngiadau ychwanegol ar hysbysebion teledu yng nghyswllt bwyd a diod sydd â llawer o fraster, halen a siwgr (HFSS), gan gynnwys gwaharddiad cyn 9 o'r gloch. Os bydd cyfyngiadau llymach ar hysbysebu ar y teledu yn cael eu cyflwyno, bydd yn rhaid i Ofcom a'i gyd-reoleiddwyr (BCAP ac ASA) weinyddu'r rhain. Yn 2020,

cyhoeddodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad arall ar gynnig i wahardd hysbysebion HFSS ar-lein. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyflwyno unrhyw gyfyngiadau newydd ar hysbysebu HFSS ar y teledu ac ar-lein gyda'i gilydd erbyn diwedd 2022. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU wrth iddi ddatblygu ei dull gweithredu, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC

Ym mis Tachwedd 2020, fe wnaethom gyhoeddi ein trydydd adroddiad blynyddol ar y BBC, yn nodi sut yr oeddem wedi cyflawni ein swyddogaethau fel rheoleiddwr annibynnol y BBC, ac yn asesu cydymffurfiaid y BBC â'i ofynion rheoleiddio. Bu i ni hefyd nodi ein hasesiad o berfformiad y BBC o ran cyflawni ei Genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus i gynulleidfaoedd.

Cyflawnodd y BBC ei gylch gwaith yn gyffredinol dros y flwyddyn. Darparodd lawer iawn o newyddion a materion cyfoes, cynnwys addysgol a dysgu, a chynnwys unigryw o ansawdd uchel ar draws ei wasanaethau. Ymatebodd y BBC yn effeithiol pan darodd y pandemig, gan ymateb yn gyflym i anghenion cynulleidfaoedd.

Fe wnaethom groesawu'r blaenoriaethau a osodwyd gan gyfarwyddwr cyffredinol newydd y BBC, Tim Davie, ar ddiwedd'rwydd, ar gynnwys sy'n cael effaith fawr, datblygu incwm masnachol a'r



ffocws ar-lein newydd. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r negeseuon mae Ofcom wedi bod yn eu rhoi i'r BBC ers i'n gwaith o'i rheoleiddio ddechrau yn 2017. Rydym yn awr am weld metrigau cliriach a chynnydd i sicrhau bod y blaenoriaethau hyn yn cael eu cyflawni. Byddwn yn cynnal adolygiad cyfnodol o'r BBC eleni, gan arwain at adolygiad canol-siarter Llywodraeth y DU.

Adolygiad o BBC Studios

Mae gennym [reolau](#) ar sut mae'r BBC yn gweithredu ei weithgareddau masnachol ac rydym yn monitro sut y mae wedi rhoi'r rheolau hyn ar waith.

O ystyried y newidiadau diweddar i BBC Studios, yr amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo a'r ffocws a roddwyd gan gyfarwyddwr cyffredinol newydd y BBC, Tim Davie, ar adeiladu incwm masnachol y BBC, mae'n bwysig ein bod yn deall yn well sut mae'r BBC wedi rhoi ein rheolau ar waith ac yn darparu rhagor o dryloywder ynghylch hyn i randdeiliaid. Ym mis Hydref 2020 fe wnaethom lansio adolygiad o'r rhyngweithio rhwng BBC Studios a gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC gan gyhoeddi [cais am dystiolaeth](#). Ar yr un pryd, fe wnaethom ymgynghori ar y newidiadau wnaeth BBC Studios i'w linellau busnes ac rydym bellach wedi cyhoeddi ein [datganiad](#) ar hyn. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein canfyddiadau ar yr adolygiad ehangach yn ystod yr Haf.

BBC Sounds

Mae BBC Sounds bellach wedi ei sefydlu o fewn arlwy sain y BBC, felly mae'n briodol pwysu a mesur safle BBC Sounds yn y farchnad a'i effaith ar y farchnad. Ym mis Hydref 2020, fe wnaethom ofyn am dystiolaeth a gwybodaeth gan ei gystadleuwyr a phartion eraill â diddordeb er mwyn llywio ein barn. Ar ôl ystyried yr adborth hwn a'n dystiolaeth ein hunain yn ofalus, rydyn ni wedi dod i'r farn dros dro nad oes sail resymol dros gredu bod BBC Sounds yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol ar hyn o bryd. Rydyn ni nawr yn ymgynghori ar y safbwynt dros dro hwn ac yn bwriadu cyhoeddi datganiad terfynol yn nes ymlaen yn ystod hydref 2021.

Y camau nesaf

Byddwn yn parhau i gefnogi sector darlledu'r Deyrnas Unedig i sicrhau manteision i holl gynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig. Mae ein gwaith yn y maes hwn yn cynnwys: parhau â'n gwaith Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, monitro ac ymgysylltu â darlledwyr i gefnogi amrywiaeth ym maes darlledu ac adolygu'r rheolau ar gyfer perchnogaeth cyfryngau ar deledu, radio a phapurau newydd i wneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth eang o safbwyntiau. Byddwn yn parhau i adrodd ar berfformiad y BBC er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, a byddwn hefyd yn parhau â'r gwaith sy'n mynd rhagddo gennym i sicrhau ansawdd a safonau cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd.



Bywyd mwy diogel ar-lein

Mae ein gwaith yn maes hwn yn canolbwyntio ar baratoi at ein cyfrifoldeb rheoleiddio newydd, a hybu dealltwriaeth o sut mae pobl yn ymgysylltu ar-lein.

Meysydd gwaith blaenoriaeth	Canlyniadau i ddefnyddwyr
Diogelwch Ar-lein – gwaith paratoi ar reoleiddio diogelwch ar-lein	Rydym yn parhau i ddatblygu ein model rheoleiddio i gefnogi ymgysylltiad parhaus â Llywodraeth y DU ar feysydd blaenoriaeth y fframwaith statudol gan gynnwys Codau Ymarfer, cydbwysedd y rhwymedigaethau rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, pwerau i orfodi monitro, ac amddiffyn cynnwys newyddiadurol.
Llwyfannau Rhannu Fideos (VSP) – gwaith paratoi ynghylch gweithredu dyletswyddau Llwyfannau Rhannu Fideos Ofcom	Daeth Rheoliadau'r VSP i rym ym mis Tachwedd 2020. Er mwyn datblygu ein dealltwriaeth a llywio polisi rheoleiddio, bu i ni ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys arbenigwyr academiaidd. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau i helpu gwasanaethau i ddeall a ydynt yn rhan o gwmpas gwaith rheoleiddio Ofcom.
Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau – Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau (MSOM) – cefnogi oedolion a phlant yn y Deyrnas Unedig ar-lein, drwy waith ymchwil a chydweithio â rhanddeiliaid.	Monitro ymwybyddiaeth defnyddwyr a drwy'r ymchwil ar agweddau a defnydd oedolion o gyfryngau (Mehefin 2020), ac rydyn ni wedi adrodd yn rheolaidd ar ymchwil i'r pandemig ynghylch sut mae pobl yn cael newyddion a gwybodaeth ar-lein am y pandemig.
Marchnadoedd Ar-lein – gwaith archwiliadol ynghylch cystadleuaeth ar-lein, gan gynnwys pwerau presennol.	Buom yn gweithio fel rhan o'r Tasglu Marchnadoedd Digidol dan arweiniad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i roi cyngor i Lywodraeth y DU (Rhagfyr 2020) ar drefn marchnadoedd digidol newydd ac rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU wrth iddi ddatblygu ei hymgyngoriad.
Fforwm Cydweithredu ar gyfer Rheoleiddio Digidol (DRCF) – fforwm cydweithredu rhwng rheoleiddwyr digidol (ICO, CMA a'r FCA) i gefnogi'r gwaith o reoleiddio gwasanaethau digidol mewn modd cydlynol.	Lansiwyd y DRCF yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd gynllun gwaith ym mis Mawrth 2021, gyda rhagor o ymgysylltu'n mynd rhagddo ar gynlluniau a chamau gweithredu yn y dyfodol.

M



Mae ein gwaith yn y maes hwn yn canolbwyntio ar baratoi at ein cyfrifoldeb rheoleiddio newydd, a hybu dealltwriaeth o sut mae pobl yn ymgysylltu ar-lein.



Yr effaith ar ddefnyddwyr



Mae bron naw o bob 10 oedolyn yn y DU ar-lein,

ac mae oedolion sy'n defnyddio'r rhwyngwys yn treulio 24 awr yr wythnos ar-lein ar gyfartaledd.

Ond, mae mwyfwy o bryderon am ddiogelu pobl ar-lein. Mae rhai o'r pryderon hynny'n ymwneud â meysydd fel hacio neu breifatrwydd, ond mae'r rhai mwyaf cyffredin yn ymwneud â phlant yn dod i gysylltiad â chynnwys neu gysylltiad â defnyddwyr eraill. Canfu ein hymchwili hefyd fod tua 22 miliwn o oedolion sy'n defnyddio'r rhwyngwys wedi cael profiad o gynnwys neu ymddygiad niweidiol ar-lein.

Beth rydym wedi ei gyflawni

Ym mis Rhagfyr y llynedd, cadarnhaodd Llywodraeth y DU ei chynlluniau i benodi Ofcom yn rheoleidiwr a fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r drefn diogelwch ar-lein newydd, ochr yn ochr â'i bwriad i osod Bil Diogelwch Ar-lein drafft gerbron Senedd y DU yn ddiweddarach yn 2021.

Llywodraeth a Senedd y DU fydd yn penderfynu ar ffurf y drefn newydd, ond bydd Ofcom yn darparu cyngor technegol ar sut y gall weithio. Byddwn hefyd yn sicrhau bod dadleuon deddfwriaethol yn defnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf am brofiadau defnyddwyr ar-lein ar sail ein hymchwili. Rydym yn barod i ymgymryd â'r cyfrifoldebau newydd hyn ac rydym wedi nodi meysydd allweddol lle mae angen i ni ddatblygu a chynyddu ein galluoedd technegol a gweithredol. Er mwyn gwella ein galluoedd

ymhellach yn y maes hwn, byddwn yn recriwtio ar gyfer rolau arbenigol a byddwn yn sefydlu canolfan dechnoleg newydd ym Manceinion, gan ein galluogi i fanteisio ar weithlu medrus iawn, ochr yn ochr â chryfderau ymchwil prifysgolion o safon fyd-eang a'u cronfa ddofn o ddoniau graddedigion.

I ddechrau, byddwn yn nodi ein cynlluniau lefel uchel ar gyfer datblygu'r drefn. Ar ôl cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol, byddwn yn cyhoeddi ein strategaeth reoleiddio fanylach. Ar ôl i Senedd y DU gymeradwyo deddfwriaeth, byddwn yn ymgynghori ar Godau Ymarfer ochr yn ochr ag elfennau allweddol eraill ein fframwaith rheoleiddio.

Ar 1 Tachwedd 2020, daeth Rheoliadau Gwasanaethau Cyfryngau Clyweled 2020 i rym, a oedd yn mynnu bod llwyfannau rhannu fideos (VSP) sydd wedi eu sefydlu yn y Deyrnas Unedig yn cymryd camau priodol i ddiogelu defnyddwyr rhag mathau penodol o ddeunyddiau niweidiol mewn fideos. Hefyd bydd angen i VSP sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau penodol o ran hysbysebion.

I baratoi ar gyfer rheoleiddio VSP, rydym wedi cynnal ymchwil i helpu i wella ein dealltwriaeth o brofiadau niweidiol posibl defnyddwyr VSP a'u hymwilyddiaeth o adnoddau diogelwch ar-lein. Rydym wedi ymgynghori ar ganllawiau drafft ar gyfer darparwyr VSP ar y mesurau y dylent eu cymryd i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol. Drwy hyn rydym wedi cael rhagor o wybodaeth am arferion da, a gwell dealltwriaeth o'r materion a'r heriau ar draws y sector VSP. Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr rhwyngwladol i ddeall eu dulliau o reoleiddio VSP ac i gysoni dulliau lle bo hynny'n bosibl.

Eleni, fe wnaethom adeiladu ar ein rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau (GSOC) a pharhau â'n gwaith i helpu i wella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar-lein pobl yn y Deyrnas Unedig, i gefnogi ein dyletswyddau ar-lein sy'n ehangu. Gwnaethom hefyd barhau i ddatblygu ein rhwydwaith a'n panel GSOC, er mwyn dod ag arbenigwyr at ei gilydd i drafod, i roi gwybodaeth ac i gydweithio ar ymchwil a pholisi llythrennedd yn y cyfryngau ar-lein. Rydym yn parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o rôl llythrennedd yn y cyfryngau yng nghyd-destun llwyfannau rhannu fideos newydd a phwerau rheoleiddio diogelwch ar-lein.

Ym mis Gorffennaf 2020, sefydlodd Ofcom, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) y Fforwm Cydweithredu ar gyfer Rheoleiddio Digidol (DRCF), a sefydlwyd i sicrhau lefel uwch o gydweithrediad o ystyried yr heriau unigryw sy'n codi wrth reoleiddio llwyfannau ar-lein. Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) bellach yn rhan o hyn hefyd. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd y bydd Uned Marchnadoedd Digidol (DMU) yn cael ei sefydlu yn y CMA i oruchwylio ei threfn newydd o blaid cystadleuaeth.

Ym mis Mawrth, roedd cynllun gwaith y DRCF ar gyfer 2021/22 yn nodi map ar gyfer sut mae cynyddu cwmplas a graddfa'r cydweithredu, gan gynnwys dod ag arbenigedd ac adnoddau at ei gilydd, gweithio'n agosach ar faterion rheoleiddio ar-lein sydd o bwys i bawb, ac adrodd ar ganlyniadau'n flynyddol.

Y canlyniadau a'r camau nesaf

Dros y 12 mis nesaf bydd ein gwaith paratoi ar gyfer y drefn diogelwch ar-lein newydd arfaethedig yn canolbwyntio ar bum prif faes:

- Cefnogi'r broses ddeddfwriaethol;
- Datblygu ein dull rheoleiddio;
- Meithrin ymwybyddiaeth y cyhoedd o'n rôl arfaethedig yn y dyfodol;
- Sefydlu ein gweithrediadau; a

- Buddsoddi mewn technoleg, data a gwybodaeth a gallu'r sector.

Rydym yn cydnabod ei bod yn amhosib atal pob niwed, ond o dan y drefn VSP rydym yn disgwyl i ddarparu'r gymryd camau rhagweithiol i adnabod a lliniaru'r risg o ddeunydd niweidiol yn digwydd ar eu llwyfan. Byddwn yn monitro ac yn asesu cydymffurfiaid ac yn gweithredu os bydd angen.

Byddwn yn parhau i olrhain ac ymchwilio i gysylltiad defnyddwyr â deunydd niweidiol ar-lein wrth ddefnyddio VSP, yn ogystal â'u hymwybyddiaeth o fesurau diogelwch a'u hymgysylltiad â nhw. Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio â rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys cydlynw ar faterion awdurdodaeth a gweithio i sicrhau cydymffurfiaid trawsffiniol.

Yn dilyn y cyngor gan y Tasglu Marchnadoedd Digidol (CMA) dan arweiniad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, byddwn yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU wrth iddi ystyried trefn o blaid cystadleuaeth ar gyfer marchnadoedd digidol a sefydlu Uned Marchnadoedd Digidol o fewn yr Awdurdod.



Galluogi rhwydweithiau cryf a diogel

Mae pobl ar hyd a lled y Deyrnas Unedig yn disgwyl ac yn dibynnu ar rhwydweithiau cadarn a diogel heddiw, ac yn y dyfodol. Mae gan Ofcom rôl allweddol i'w chwarae, ochr yn ochr â chyfranwyr eraill, er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.

Meysydd gwaith blaenoriaeth	Canlyniadau i ddefnyddwyr
Y Mesur Telathrebu (Diogelwch) – datblygu gallu Ofcom a gweithio gyda darparwyr telathrebu i sicrhau bod rhwydweithiau'n ddiogel	Rydym yn gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y Mesur Telathrebu (Diogelwch), a fydd yn cryfhau rhwymedigaethau diogelwch ar gyfer y sector telathrebu. Fe wnaethom gyhoeddi canllawiau wedi eu diweddarau ym mis Chwefror 2021 i sefydliadau rydyn ni'n eu rheoleiddio o dan reoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS), i adlewyrchu newidiadau statudol ym mis Rhagfyr 2020.
Cydnorthedd – gweithio gyda darparwyr rhwydwaith i sicrhau bod rhwydweithiau'n gadarn.	Yn ystod y cyfnod clo, cynyddodd nifer y traffig ar gyfer rhwydweithiau sefydlog (20%) a symudol (30%) lle cafodd Ansawdd Gwasanaeth ei gynnal ar y lefel ofynnol.
Amrywiaethu Gwerthwyr Telathrebu – sicrhau bod marchnad gyflenwi telathrebu gystadleuol, arloesol, diogel a chadarn sydd o fudd i'r Deyrnas Unedig	Rydym wedi darparu cyngor technegol rheolaidd i Lywodraeth y DU ac wedi ymgysylltu â'r Tasglu Amrywiaethu Telathrebu. Rydym hefyd wedi ffurfio partneriaeth â Digital Catapult ar ein labordai SONIC; cyfleusterau lle bydd cyflenwyr yn gallu profi a dangos atebion agored, rhyngweithredol.

Yr effaith ar ddefnyddwyr

Mae ein dibyniaeth gynyddol ar wasanaethau cyfathrebu yn golygu ei bod hi'n hanfodol cael rhwydweithiau dibynadwy a chadarn sydd wedi'u hamddiffyn rhag ymosodiadau seiber - yn enwedig yn ystod cyfnodau o argyfwng ac ar adegau heriol. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr rhwydweithiau sicrhau bod eu rhwydweithiau'n gryf, yn ddiogel ac wedi eu gwarchod yn wyneb toriadau ac ymosodiadau posib. Bydd Ofcom yn chwarae mwy o ran mewn diogelwch telathrebu yn dilyn deddfwriaeth.

Beth rydym wedi ei gyflawni

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'r diwydiant i fonitro'r risgiau posibl i gadernid a diogelwch ein rhwydweithiau telathrebu. Rydym yn

parhau i ddatblygu ein gallu seiberddiogelwch ac yn gweithio gyda darparwyr rhwydwaith ar draws nifer o feysydd fel:

- gweithio gyda Llywodraeth y DU i weithredu canlyniadau'r Adolygiad o'r Gadwyn Gyflenwi Telathrebu, gan gynnwys darparu cyngor technegol ar strategaeth arallgyfeirio gwerthwyr Llywodraeth y DU;
- paratoi i ysgwyddo cyfrifoldebau newydd fel rhan o'r Bil Telathrebu (Diogelwch);
- sicrhau bod pob darparwr rhwydwaith a gweithredwr gwasanaethau hanfodol yn glynu wrth eu rhwymedigaethau diogelwch ac yn dilyn canllawiau perthnasol; a
- parhau i gydweithio â darparwyr rhwydweithiau i gynnal cynllun profion treiddio bygythiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth (TBEST).

Gweithredu diogelwch telathrebu

Mae cylch gwaith Ofcom o ran diogelwch rhwydweithiau yn ehangu ac rydym yn paratoi ein hunain i ysgwyddo cyfrifoldebau newydd fel rhan o Fesur Telathrebu (Diogelwch) Llywodraeth y DU. Fel rhan o'n paratoadau, byddwn yn meithrin ein gallu a'n capasiti, a byddwn yn ceisio denu talent ym Manceinion a Llundain.

Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i weithredu ei deddfwriaeth diogelwch telathrebu, gan weithio gyda'r diwydiant, i sicrhau bod gweithredwyr yn glynu wrth rwymedigaethau diogelwch sydd wedi eu cryfhau.

Amrywiaethu gwerthwyr telathrebu

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, y diwydiant, y Tasglu Amrywiaethu Gwerthwyr Telathrebu, ac eraill ar strategaethau i wella amrywiaeth gwerthwyr telathrebu, a datblygu systemau telathrebu agored, rhyngweithredol. Mae hyn yn cynnwys creu ein labordai SONIC⁶, a fydd yn darparu llwyfan ar gyfer cyflenwyr presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg, er mwyn profi'r gallu i rhyngweithredu ac integreiddio atebion rhwydweithio agored sy'n canolbwyntio ar feddalwedd, gan gynnwys Open RAN a thechnolegau rhwydweithio uwch. Mae'r labordai SOICC yn cael eu hariannu ar y cyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Ofcom, ac maent yn cael eu datblygu

mewn partneriaeth â Digital Catapult.

Cydnherthedd rhwydwaith

Am sawl degawd, yr unig wasanaeth telathrebu yn y farchnad dorfol oedd teleffoni sefydlog, a oedd yn cael ei ddarparu gan rwydwaith teleffoni cyfnewidfa gyhoeddus (PSTN) BT. Peiriannwyd y PSTN i ddarparu lefelau uchel iawn o gydnerthedd.

Mae cwestiynau pwysig ynghylch sut y dylid adeiladu'r genhedlaeth nesaf o rwydweithiau a'r lefelau o gydnerthedd y dylid eu cyflawni. Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant i ganfod a chau bylchau mewn safonau ac arferion gorau, o ran cydnherthedd y rhwydwaith. Rydym hefyd yn parhau i fonitro dyluniadau cadarn wrth gyflwyno rhwydweithiau ar hyn o bryd.

Ym mis Ionawr 2020, fe wnaethom gyflwyno cynllun i wella sut rydym yn casglu tystiolaeth o ddigwyddiadau sy'n effeithio ar y gwasanaeth.

Rydym hefyd wedi helpu i sefydlu gweithgor cadernid yn y Grŵp Ymateb a Chydnerthedd Cyfathrebu Electronig (EC RRG).

Ar ben hynny, rydyn ni'n cefnogi'r gweithgor i ddatblygu fframwaith asesu cydnherthedd, sy'n gallu defnyddio'r canllawiau arferion gorau ar gydnerthedd wedi eu diweddarau i'n helpu ni a darparwyr rhwydwaith i werthuso digwyddiadau sy'n effeithio ar wasanaethau yn y dyfodol.

Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiad

Meysydd gwaith blaenoriaeth	Canlyniadau i ddefnyddwyr
Amrywiaeth mewn Darlledu – hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiad ar draws y maes darlledu.	Mae diwylliant amrywiol a chynhwysol yn golygu penderfyniadau gwell ar ran dinasyddion a defnyddwyr amrywiol. Ar draws y sector darlledu: (a) menywod mewn swyddi uwch yn y maes teledu – 47%; (b) cynrychiolaeth o bobl anabl – 7%; (c) gweithwyr ar lefel uwch o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig – 8%; (d) cyfanswm y staff sy'n dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig – 15%.
Lansio strategaeth amrywiaeth a chynhwysiad newydd – i gyflawni amcanion amrywiaeth, cynhwysiad a chydaddoldeb fel cyflogwr a rheoleiddiwr.	Targed Ofcom yn 2026: a) cydbwysedd rhwng y rhywiau ar lefelau uwch (44% yn fenywod, 56% yn ddynion ar hyn o bryd) b) uwch gydweithwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig – 16% (11% ar hyn o bryd) c) anabledd 15% (12% ar hyn o bryd)
Adroddiad ystadegol blynyddol ar amrywiaeth a chydaddoldeb yn Ofcom.	
Archwiliadau Cyflog Cyfartal a Chyflog o ran y Rhywiau / Ethnigrwydd.	

Monitro amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y maes darlledu

Yn 2020, gwnaethom gynnal ein hymrwymiad i gefnogi ymdrechion darlledwyr i sicrhau gweithluoedd mwy amrywiol. Ym mis Tachwedd 2020, fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad amrywiaeth a chyfle cyfartal ym maes darlledu, a oedd yn cynnwys pedwaredd flwyddyn o ddata gweithlu ar gyfer teledu a thrydedd flwyddyn o ddata ar gyfer radio.

Gwnaethom alw ar ddarlledwyr i sicrhau mwy o newid yn nifer y bobl anabl maen nhw'n eu cyflogi a gwella lefel y gynrychiolaeth o bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu cyflogi mewn uwch rolau gwneud penderfyniadau. Gwnaethom hefyd ofyn i ddarlledwyr ddechrau casglu a rhannu data am amrywiaeth daearyddol eu gweithluoedd.

Fe wnaethom ehangu ein rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid i gynnwys bwrdd crwn chwarterol ar amrywiaeth a chynhwysiad gyda darlledwyr teledu a radio mawr. Gwnaethom barhau i gymryd rhan mewn digwyddiadau cyhoeddus a chwrdd ag arbenigwyr, cyrff diwydiant a grwpiau diddordeb ar draws sectorau i helpu i lywio a datblygu ein ffordd o feddwl.

Yn ystod hydref 2021 byddwn yn cyhoeddi adolygiad pum mlynedd o ddata cyfle cyfartal ym maes darlledu. Byddwn hefyd yn rhannu canfyddiadau ymchwil i amrywiaeth yn y sector darlledu, er mwyn penderfynu lle gallai ymchwil newydd fod yn ddefnyddiol i fwrw ymlaen â'n gwaith.

Amrywiaeth a Chynhwysiad yn Ofcom


Mae amrywiaeth a chynhwysiad yn Ofcom yn hanfodol er mwyn cyflawni ein nod o sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb a gwneud y penderfyniadau gorau i bawb yn y Deyrnas Unedig.

Mae ein [strategaeth amrywiaeth a chynhwysiad](#) yn egluro sut mae amrywiaeth a chynhwysiad yn hanfodol i'r ffordd rydyn ni'n gweithredu, fel cyflogwr ac fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r Deyrnas Unedig. Mae'n amlinellu ein meysydd gwaith blaenoriaeth, gan gynnwys ein targedau amrywiaeth gweithlu a'n gweledigaeth fel sefydliad.

Er mwyn ein helpu i benderfynu ar yr amcanion a'r blaenoriaethau strategol yn y strategaeth amrywiaeth chynhwysiad rydyn ni'n cynhyrchu adroddiad amrywiaeth blynyddol ar broffil cydweithwyr a phrosesau Ofcom.

Rydym yn monitro ein polisiau a'n harferion yn helaeth drwy arolygon ymysg cydweithwyr, gan feincnodi a chynnal archwiliad cyflog cyfartal bob dwy flynedd. Rydym yn aelodau o'r Fforwm Anabledd Busnes, Busnes yn y Gymuned dros Hil, Rhyw ac Oedran, ac rydym wedi llofnodi siarter Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall. Rydym yn cadw golwg ar aelodaeth o'r fath.

Bydd diweddariadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Ofcom a'r Bwrdd Rheoli a Pholisi ar gynnydd cynlluniau gwahanol o dan ein rhaglenni gwaith amrywiaeth a chynhwysiad. Edrychwch ar dabl x yn adran Ein gweithwyr ar gyfer y sefyllfa derfynol yn 2020 a'r targedau newydd ar gyfer 2026



Parhau i arloesi

Meysydd gwaith blaenoriaeth	Canlyniadau i ddefnyddwyr
Strategaeth Data – buddsoddi yn y Ganolfan Arloesi Data a'r proffesiwn data arbenigol i wella'r ffordd o ddefnyddio o data	Cyflwyno 15 cynllun peilot arbrofol gyda'r nod o ddangos sut y gall technegau dadansoddi data neu beirianeg newydd ddatrys problemau busnes. Rydym wedi gweithio i ganfod cwestiynau polisi sy'n ymwneud ag archwilio algorithmig (h.y. sut rydyn ni'n gwirio gweithrediad algorithmau dysgu peirianyddol).

Rydym wedi datblygu rhaglen dechnoleg newydd sy'n ein galluogi i fonitro technolegau a allai gael effaith fawr ar bobl a'r diwydiannau rydym yn eu rheoleiddio. Mae hyn hefyd yn ein helpu i arwain ein rhaglen waith ar gyfer y dyfodol tuag at y technolegau sydd fwyaf tebygol o gael yr effaith fwyaf.

Fel prif allbwn cyntaf y rhaglen hon, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad Dyfodol Technoleg ym mis Ionawr 2021. Roedd yn edrych ar dechnolegau a allai gael effaith sylweddol ar farchnadoedd cyfathrebu, yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn y tymor canolig i'r tymor hir. Bu i ni hefyd edrych ar wasanaethau cyfathrebu newydd, yn enwedig mewn cyfathrebiadau trochi amlsynhwyrdd a chynhwysol.

Rydym yn parhau i weithio gydag arbenigwyr mewn meysydd technoleg ac yn ceisio rhannu canlyniadau'r rhyngweithiadau hyn yn ystod 2021.

Rydym wedi mabwysiadu arferion gweithio newydd i fod yn arloesol yn ein gwaith, ac wrth baratoi i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros oruchwylio diogelwch ar-lein, rydym wedi dechrau ymgyrch recriwtio i gynyddu ein capasiti a'n gallu yn y maes hwn.

Mae sbectrwm radio yn cysylltu ein byd digidol. Mae sbectrwm yn adnodd cyfyngedig ond os caiff ei ddefnyddio'n ddoeth, gall barhau i drawsnewid sut rydym yn byw ac yn gweithio - gan helpu i'n gwneud yn fwy cynhyrchiol, lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd a bod o fudd i ddiwydiannau ar draws yr economi. O ystyried y galw sy'n esblygu'n gyflym

am gysylltedd di-wifr ac felly am sbectrwm, rydym yn ceisio rhoi arloesedd wrth galon ein cefnogaeth i'r sectorau rydym yn gweithio gyda nhw, gan alluogi twf yn y sectorau presennol ac arloesi sy'n deillio o ddefnydd newydd o dechnoleg ddi-wifr.

Mae ein gwaith parhaus yn y maes hwn yn cynnwys:

- awdurdodi sbectrwm a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gywir ac yn cydymffurfio - mae hyn yn cynnwys dadansoddi'r dechnoleg yn fanwl a gwneud mesuriadau go iawn i wneud y gorau o'r ffordd y caiff sbectrwm ei ddefnyddio a'i rannu;
- dadansoddi a rhyddhau gwybodaeth am ddefnyddio sbectrwm - rydym yn dadansoddi'r defnydd o sbectrwm fel sail i bolisi;
- rheoli sbectrwm a chynllunio ar gyfer gofynion y dyfodol - rydym yn ystyried anghenion newidiol defnyddwyr presennol a'r galw yn y dyfodol am wasanaethau di-wifr arloesol; a
- galluogi arloesedd di-wifr ar draws amrywiaeth o sectorau diwydiant - rydym yn gweithio gyda gwahanol sectorau yn y diwydiant, er mwyn deall eu gofynion busnes a'r potensial ar gyfer cysylltedd di-wifr i ddiwallu eu hanghenion. Ein hamcan yw sicrhau bod gwahanol fusnesau a sefydliadau yn gallu cael gafael ar y sbectrwm sydd ei angen arnynt, lle a phryd mae ei angen arnynt.

Cymorth trwy gyfnod pontio ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Meysydd gwaith blaenoriaeth	Canlyniadau i ddefnyddwyr
Darparu cefnogaeth drwy gyfnod pontio'r broses o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd – ac adeiladu ar gysylltiadau rhyngwladol.	Rydym yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid ac wedi rhoi cyngor iddynt; yn paratoi ar gyfer y trefniadau newydd ar gyfer trwyddedu darlledu a hysbysu VSP; yn diweddarau cyngor i ddefnyddwyr ar ein gwefan; ac yn cefnogi dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd. Ar yr un pryd, rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd (gyda'r Comisiwn Ewropeaidd yn ogystal â'n cymheiriaid rheoleiddio) i gefnogi'r trefniadau newydd.
Wrth i Lywodraeth y DU drafod telerau ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, rydym wedi ystyried sut y gallai hyn effeithio ar y bobl a'r diwydiannau rydym ni'n eu rheoleiddio. Yn ogystal â darparu cyngor i Lywodraeth y DU ar faterion blaenoriaeth ar gyfer ein sectorau, rydym hefyd wedi ymgynghori ar newidiadau technegol y bydd angen i ni eu gwneud i'n rheolau, fel eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth newydd sy'n berthnasol ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Er enghraifft, daeth fframwaith trwyddedu darlledu newydd ar gyfer gwasanaethau teledu llinol i rym ar gyfer y Deyrnas Unedig ar 31 Rhagfyr 2020. Mae'r rheolau hefyd wedi newid o ran sut rydym yn rheoleiddio gwasanaethau fideo ar-alw (VOD). Nid oes gan wasanaethau fideo ar-alw yn y Deyrnas Unedig hawl awtomatig mwyach i gael eu derbyn yn yr Undeb Ewropeaidd (er y bydd llawer ohonynt ar gael o hyd o dan gyfreithiau cenedlaethol yn aelod-	wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd). Erbyn hyn, dim ond os yw eu prif swyddfa a'u penderfyniadau golygyddol wedi eu lleoli yn y Deyrnas Unedig y byddwn yn rheoleiddio gwasanaethau fideo ar-alw. Buom yn gweithio'n agos gyda'r sector teleffoni symudol a chymheiriaid yn yr Undeb Ewropeaidd i sicrhau bod trefniadau crwydro'n cael eu cynnal a'u gwneud yn ddi-dor i'r defnyddiwr. Rydym yn parhau i gynrychioli'r Deyrnas Unedig ar faterion cyfathrebu yn rhyngwladol. Rydym yn cynnal perthynas â chymheiriaid perthnasol ledled y byd ac yn cymryd rhan mewn dadleuon rheoleiddio byd-eang a rhanbarthol allweddol. Edrychwch ar dudalen 49 i gael rhagor o fanylion am ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol.

Prif Risgiau a Meysydd o Ansicrwydd

Mae risgiau'n cael eu cydnabod ar draws y sefydliad i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Ofcom yn llwyddiannus. Yn ystod y flwyddyn cafodd y gofrestr risg strategol ei hadnewyddu er mwyn ymgorffori ein dyletswyddau newydd a'n cylch gwaith sy'n ehangu.

Cafodd cofrestr risg benodol ar gyfer Covid-19 ei chynnal hefyd drwy gydol y pandemig.

Mae polisi rheoli risg Ofcom yn ceisio:


- cefnogi'r gwaith o gyflawni polisiâu, nodau ac amcanion Ofcom drwy gyfrannu gwybodaeth at y broses o wneud penderfyniadau;

- egluro egwyddorion Rheoli Risg yn Ofcom;
- diogelu arian cyhoeddus ac asedau adrannol y mae Ofcom yn gyfrifol amdanynt;
- hyrwyddo diwylliant lle mae derbyn risg priodol yn cael ei annog; a
- gwreiddio rheoli risg ym mhrosesau busnes eraill Ofcom fel sail ar gyfer llywodraethu corfforaethol da.

Mae ein cofrestr risg strategol yn cofnodi'r risgiau a allai roi amcanion Ofcom yn y fantol. Mae'r gofrestr risg wedi ei threfnu o amgylch y meysydd risg canlynol.

Prif risgiau	Blaenoriaeth	Camau lliniaru
Caiff y gwaith rheoleiddio ei weld fel mater annibynnol, diduedd a chyson Risg bod enw da Ofcom am fod yn annibynnol ac am wneud penderfyniadau cadarn y mae ein diwydiannau a rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys Senedd y DU, a defnyddwyr, yn ymddiried ynddynt, yn cael ei niweidio.		▪ Rhoesom brosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau effeithiol ar waith sy'n rhoi trosolwg cadarn o brosesau gwneud penderfyniadau Ofcom ac adolygwyd y rhain yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. ▪ Rydym yn darparu briffiau rheolaidd i gydweithwyr Ofcom i bwysleisio pwysigrwydd cynnal annibyniaeth Ofcom yn eu hymwneud â Llywodraeth y DU, Senedd y DU a rhanddeiliaid eraill. Rydym wedi adnewyddu polisiâu allweddol yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod prosesau effeithiol ar waith i ddiogelu annibyniaeth Ofcom yn y trafodion hynny. ▪ Byddwn yn cynnal ymarfer adborth rheolaidd gan rhanddeiliaid a bob blwyddyn byddwn yn ymgynghori'n agored ar ein Cynllun Gwaith.

Allwedd i'r blaenoriaethau



Prif risgiau	Blaenoriaeth	Camau lliniaru
Arwain Meddwl Risg nad yw Ofcom yn cael ei ystyried yn arweinydd barn dibynadwy ac uchel ei barch ac yn un sy'n llunio'r farchnad yn y sector cyfathrebu.		- Fe wnaethon ni sefydlu Pwyllgor Ymchwil mewnol newydd i lywio ein gwaith - Fe wnaethom gynhyrchu cyfres o bapurau trafod i'w cyhoeddi'n allanol, a chyhoeddi negeseuon blog i annog trafodaeth. - Fe wnaethom annog i Ofcom gymryd mwy o ran mewn cynadleddau a thrafodaethau bord gron yn y meysydd sy'n cael eu rheoleiddio gennym a chyda rheoleiddwyr eraill. - Rydym wedi dechrau rhaglen waith i adnewyddu ein strategaethau ar draws sectorau, gan gynnwys sganio gorwel datblygiadau defnyddwyr, technoleg a masnachol.
Diogelwch Ar-lein, Diogelwch Telathrebu, VSP Risg bod Ofcom yn methu â pharatoi ar gyfer newidiadau gwirioneddol a phosibl i'w gylch gwaith.		Gofynion Diogelwch Telathrebu - Rydym wedi sefydlu rhaglen ar draws Ofcom i baratoi ar gyfer cyfrifoldebau diogelwch newydd. - Rydym yn parhau i roi cyngor i Lywodraeth y DU ac yn ymgysylltu â Senedd y DU i sicrhau bod y fframwaith statudol yn ymarferol ac yn effeithiol a bod gan Ofcom ddigon o adnoddau i gyflawni yn erbyn ein cyfrifoldebau newydd. Diogelwch Ar-lein/VSP - Rydym wedi sefydlu rhaglen ar draws Ofcom i baratoi ar gyfer cyfrifoldebau diogelwch ar-lein newydd. - Rydym yn darparu cyngor parhaus i Llywodraeth a Senedd y DU i sicrhau bod y fframwaith statudol yn ymarferol ac yn effeithiol.
Strategaeth, Ymchwil a Sganio'r Gorwel Risg bod Ofcom yn methu buddsoddi digon yn ein strategaeth, ein hymchwil a'n gwaith ar sganio'r gorwel er mwyn deall datblygiadau yn ein sectorau yn y dyfodol, yng nghyd-destun datblygiadau macro trawsbynciol (gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technoleg, cyfreithiol ac amgylcheddol).		- Fe wnaethom gryfhau a ffurfioli ein proses sganio'r gorwel drwy gydol y flwyddyn: gan gynnwys fframwaith dadansoddi PESTLE (Ebrill) a Diwrnod Strategaeth y Bwrdd (Hydref) i lywio ein cynlluniau 3 blynedd. - Gwnaethom fuddsoddi adnoddau yn ein rhaglenni sganio'r gorwel: gan gynnwys Mewnwelediadau (Strategaeth ac Ymchwil) a Darganfod Technoleg (Technoleg). - Fe wnaethom nodi a datblygu meysydd prosiect penodol: newid yn yr hinsawdd, deinameg y farchnad a defnyddwyr yn y dyfodol, cymylu telathrebu a darlledu a thechnoleg ar-lein.

Allwedd i'r blaenoriaethau



Band eang a symudol gwell



Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol



Bywyd mwy diogel, ar-lein



Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiad



Tegwch i gwsmeriaid



Cefnogi darlledu yn y DU




Galluogi rhwydweithiau cryf a diogel



Parhau i arloesi

Prif risgiau	Blaenoriaeth	Camau lliniaru
Dealltwriaeth Fasnachol Risg bod Ofcom yn methu â chael dealltwriaeth fasnachol ddigonol o'r marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio, blaenoriaethau'r diwydiant ar gyfer busnesau sy'n cael eu gyrru gan gymhellion masnachol a datblygiadau technolegol, ac anghenion a gofynion newidiol defnyddwyr.		- Rydym wedi ymgysylltu'n fwy rheolaidd â thimau strategaeth, technoleg a chynnyrch rhanddeiliaid. - Rydym wedi cryfhau ein hymchwil i anghenion a gofynion defnyddwyr, yn enwedig ar-lein: e.e. gwybodaeth am ymddygiad, Panel VSP, ac MSOM (llythrennedd cyfryngau). - Rydym wedi canolbwyntio ein gwaith recriwtio i sicrhau ein bod yn denu cydweithwyr o safon uchel sydd â phrofiad masnachol cryf yn eu maes perthnasol.
Penderfyniadau Rheoleiddio Risg bod Ofcom yn methu â gwneud penderfyniadau rheoleiddio priodol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac y gallir eu hamddiffyn yn gyfreithiol, yn unol â'i ddyletswyddau statudol, sy'n ystyried amgylchiadau newidiol y farchnad.		Ymyriadau yn y Farchnad Delathrebu. - Fe wnaethom gynnal yr Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog (FTMR) ym mis Mawrth 2021, gan nodi'r fframwaith rheoleiddio i gefnogi'r gwaith o gyflwyno rhwydweithiau ffeibr llawn ledled y Deyrnas Unedig. Byddwn yn parhau i fonitro gweithrediad yr FTMR i sicrhau bod defnyddwyr yn elwa o farchnadoedd cystadleuol. Darparu Gwasanaeth Cyffredinol cynaliadwy gan y Post Brenhinol. - Gwnaethom gyhoeddi canfyddiadau anghenion defnyddwyr sy'n dangos y byddai gostyngiad yn yr USO (o 6 i 5 diwrnod) yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr. Cefnogi Darlledu yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys y Sector Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. - Rydym yn cynnal adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus i ganfod meysydd lle mae angen deddfwriaeth newydd i hyrwyddo canlyniadau da yn well i gynulleidfaoedd ar draws gwasanaethau ar-lein ac ar-alw. - Fe wnaethom ddarparu mathau newydd o drwyddedau i ymateb i ofynion sy'n newid (e.e. sinema awyr agored) a gweinyddu'r Gronfa Radio Cymunedol fel pecyn cymorth pandemig.

Allwedd i'r blaenoriaethau



Prif risgiau	Blaenoriaeth	Camau lliniaru
Pobl Risg bod Ofcom yn methu â chael y strategaethau pobl, yr arweinyddiaeth a'r diwylliant iawn i sicrhau bod gennym y bobl iawn sydd â'r sgiliau a'r amrywiaeth briodol o gefndiroedd ar yr adeg iawn i gyflawni'r Cynllun Blyneddol. Bod ein harweinyddiaeth a'n diwylliant yn methu â chreu amgylchedd gwaith cynhyrchiol, cynhwysol ac effeithiol sy'n golygu bod y ddarpariaeth yn is na'r disgwyl neu'r potensial.		- Fe wnaethom sefydlu Uwch Bwyllgor Talent i ganolbwyntio ar gynllunio a datblygu talent uwch a chynllunio olyniaeth. - Gwnaethom gyhoeddi ein strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad ym mis Ionawr gyda thargedau 5 mlynedd newydd. - Gwnaethom gynnal dadansoddiad o'r farchnad o rolau allweddol sy'n gysylltiedig â'r drefn Diogelwch Ar-lein newydd er mwyn cyfrannu at ein strategaeth recriwtio a meithrin gallu sefydliadol. - Lansiwyd arolwg 'pwls' cydweithwyr newydd yn adolygu ein diwylliant a'n harweinyddiaeth, ac mae'r canlyniadau'n sail i gynlluniau newid lleol.

Rheoli ein Risg o Seiberddiogelwch a Diogelwch Gwybodaeth

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnal diogelwch seiber a gwybodaeth cadarn. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein dull gweithredu ar gyfer hyn, ac yn ystod 2020/21 rydym wedi:

- Darparu hyfforddiant diogelwch gwybodaeth a seiber gorfodol parhaus i bob cydweithiwr yn Ofcom;
- Gweithio gyda'n sefydliadau partner i fonitro bygythiadau'n barhaus a rhoi mesurau diogelwch ar waith;
- Cwblhau archwiliad mewnol o'n seiberddiogelwch ochr yn ochr â'n profion bygythiadau parhaus rheolaidd a rhoi'r argymhellion a wnaed ar waith; a
- Chomisiynu aseswyr allanol i adolygu ein System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth (ISMS) a meincodi yn erbyn y Safon Diogelwch Gwybodaeth a gydnabyddir yn rhyngwladol (ISO 27001). Cawsom achrediad llawn ym mis Ebrill 2021.

Allwedd i'r blaenoriaethau



Band eang a symudol gwell



Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol



Bywyd mwy diogel, ar-lein



Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiad



Tegwch i gwsmeriaid



Cefnogi darlledu yn y DU



Galluogi rhwydweithiau cryf a diogel



Parhau i arloesi

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Ein gwaith yng ngwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig


Wrth gyflawni ein dyletswyddau, rhaid i ni ystyried yr holl wahanol wledydd, rhanbarthau, diwylliannau, dwyseddau poblogaeth a thirweddau sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig.

Bydd ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin, Llundain, Warrington a Birmingham a'r Ganolfan dechnoleg newydd arfaethedig ym Manceinion yn caniatáu i ni ymgysylltu'n uniongyrchol â llywodraethau, cynrychiolwyr etholedig a rhanddeiliaid lleol a sicrhau ein bod yn ystyried safbwyntiau, diddordebau ac anghenion pobl ledled y Deyrnas Unedig.

Yn ogystal, mae gennym Bwyllgorau Cyngori statudol ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae aelodau'r Bwrdd ar gyfer Cymru a'r Alban wedi cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn y drefn honno, mewn ymgynghoriad ag Ysgrifennydd Gwladol y Deyrnas Unedig. Mae ein Bwrdd Cynnwys a'n

Panelli Defnyddwyr hefyd yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli pob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Er bod llawer o'n gwaith yn berthnasol ar draws y Deyrnas Unedig, rydym wedi tynnu sylw at waith penodol a wnaed ym mhob un o wledydd y Deyrnas Unedig dros y flwyddyn diwethaf.



Lloegr

- Cydweithiom yn agos gyda Llywodraeth y DU, Aelodau Seneddol lleol ac awdurdodau lleol, gan roi cyngor rheoleiddiol a thechnegol.
- Bu i ni gyhoeddi ein hadroddiadau Cysylltu'r Gwledydd a Cyfryngau'r Genedl ar gyfer Lloegr.
- Dechreuwyd ymgysylltu'n lleol ar ein cynlluniau i agor canolfan ddigidol a thechnoleg newydd Ofcom ym Manceinion, gan greu hyd at 150 o swyddi newydd yn Ofcom yng Ngogledd Orllewin Lloegr.

Gogledd Iwerddon

- Drwy gydol y pandemig rhoesom gyngor a chymorth i ddarlledwyr a darparwyr telathrebu lleol, gan eu helpu i barhau i ddarparu eu gwasanaethau. Rhoesom drwyddedau radio tymor byr hefyd ar gyfer nifer o sinemâu awyr agored a gwasanaethau eglwysig.
- Daeth ein hymchwiliad i ben i ymddygiad BT yn ystod y tendr ar gyfer contract telathrebu sector cyhoeddus Gogledd Iwerddon, gan arwain at ddirwy o £6.3m i BT Group am dorri ein rheolau.
- Wrth i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd, gwnaethom barhau i gynghori Llywodraeth y DU am y niwed posibl i ddefnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, yn enwedig yng nghyswllt symudiadau parseli rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.
- Fe wnaethom ymuno â gweithgor Rhwydwaith Gwledig a Rennir Gogledd Iwerddon a gweithgor Cynllun Gweithredu Symudol Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, gan helpu i ddarparu gwell darpariaeth 4G a 5G ledled Gogledd Iwerddon.
- Dyfarnwyd y drwydded amblecs DAB graddfa fach gyntaf ar gyfer Gogledd Iwerddon, yn Derry/Londonderry.

Yr Alban

- Drwy gydol y pandemig rhoesom gyngor a chymorth i ddarlledwyr a darparwyr telathrebu lleol yn yr Alban, gan eu helpu i barhau i ddarparu eu gwasanaethau.
- Digwyddiadau rhithiol gyda chynrychiolwyr y sector teledu yn yr Alban ar amrywiaeth mewn darlledu a chyda Phrifysgol Gorllewin yr Alban ar ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.
- Ymgysylltu â Llywodraeth yr Alban ynghylch ein paratodau i reoleiddio diogelwch ar-lein.
- Darparu cyngor technegol a rheoleiddiol, er mwyn helpu Llywodraeth yr Alban i gyflawni prosiectau seilwaith telathrebu allweddol - fel y rhaglen band eang cyflym iawn 'Reaching 100%' a rhaglen symudol S4Gi.
- Cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol Cysylltu'r Gwledydd yr Alban a Cyfryngau'r Genedl Yr Alban.

Cymru

- Mae cydweithio â rhanddeiliaid gwleidyddol ac yn y diwydiant wedi bod yn rhan amlwg o'n gwaith, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rhanddeiliaid am ddatblygiadau yn ein gwaith.
- Bu i'n digwyddiad 'Cefnogi Arloesi Di-wifr ar gyfer Technoleg Amaeth a Chysylltedd Gwledig' ddwyn ynghyd sefydliadau sy'n wynebu heriau o ran cysylltedd a'r rhai sy'n cynnig opsiynau di-wifr.
- Fe wnaeth ein cyfres o drafodaethau 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr' ein galluogi i wrando ar farn rhanddeiliaid ynghylch dyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru.
- Rydym wedi cynnal ein gwaith yn y Gymraeg, gan ddatblygu'r ffordd rydym yn rheoli galwadau ffôn a'n dull o ymgymryd ag ymchwil yng Nghymru. Mae Ofcom wedi ymrwymo'n llwyr o hyd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ei weithgareddau ac i sicrhau bod y rhai sy'n dymuno cyfathrebu â ni yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny'n naturiol.

Ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol

Mae ymgysylltu rhyngwladol yn helpu i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn cyfrannu at ddatblygu polisi rhyngwladol a dadleuon ar reoliadau, ac yn trafod yn rheolaidd â'n cymheiriaid, yn ogystal â sefydliadau Ewropeaidd a rhyngwladol.

Caiff ein gwaith polisi ei oleuo drwy ein cyfranogaeth mewn cyfarfodydd rheoleiddio a rhyng-lywodraethol, yn ogystal â digwyddiadau rhyngwladol. Lle rydym yn ceisio dysgu oddi wrth ein cymheiriaid tramor a chyfnewid profiadau ac arferion da. Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â rheoleiddwyr rhyngwladol yn ddwyochrog i gyfnewid safbwyntiau ar bynciau sy'n cynnwys diogelwch a chadernid telathrebu, diogelu defnyddwyr a diogelwch ar-lein. Y llynedd, fe wnaethom ffurfio grŵp anffurfiol i drafod heriau rheoleiddio ar-lein gyda chymheiriaid yn Awstralia, Iwerddon a Chanada.

Ewrop

Er bod cyfnod pontio ymadael â'r Undeb Ewropeaidd wedi dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020, rydym yn parhau i ddilyn datblygiadau rheoleiddio yn yr Undeb Ewropeaidd yn agos, ac rydym wedi ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch y Ddeddf Gwasanaethau Digidol a'r Ddeddf Marchnadoedd Digidol. Rydym yn parhau i gyfrannu'n weithredol at drafodaethau rheoleiddio ar lefel Ewropeaidd, gan gynnwys drwy ein haelodaeth barhaus o'r Grŵp Rheoleiddwyr Annibynnol (IRG), grŵp o 37 o awdurdodau rheoleiddio telathrebu Ewropeaidd. Rydym hefyd wedi parhau â'n rhaglen ymgysylltu â rheoleiddwyr yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys cyfnewid safbwyntiau ar y cynigion Ewropeaidd ac i gefnogi ein gwaith gweithredu ar y Gyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (AVMS) ddiwygiedig, a gafodd ei throsi i gyfraith y Deyrnas Unedig yn 2020.

Y tu hwnt i'r Undeb Ewropeaidd

Buom yn cymryd rhan mewn sawl cynhadledd ryngwladol ar luosogrwydd yn y cyfryngau, polisi a llythrennedd yn y cyfryngau, ac ar gystadleuaeth yn y sector cynnwys a'i gynladwyedd. Drwy ein His-lywyddiaeth o Lwyfan Ewropeaidd yr Awdurdodau Rheoleiddio (EPRA), rhwydwaith o 54 o reoleiddwyr darlledu Ewropeaidd, fe wnaethom arwain y gwaith o greu rhwydwaith llythrennedd yn y cyfryngau. Yr ydym hefyd yn parhau i ymwneud â gwaith Cyngor Ewrop, lle'r ydym yn cadeirio'r Pwyllgor Arbenigol ar yr Amgylchedd a Diwygio'r Cyfryngau.

Ymgysylltu ar reoleiddio ar-lein a seiberddiogelwch

Rydym yn cyfrannu at drafodaethau byd-eang â rhanddeiliaid ynghylch llywodraethu a rheoleiddio'r rhyngwrwyd, gan gynnwys yn yr IGF (Fforwm Llywodraethu'r Rhyngwrwyd), EuroDIG (Deialog Ewropeaidd ar Lywodraethu'r Rhyngwrwyd) ac yn RightsCon. Fe ymunon ni â Gweithgor Cynnwys Rhwydwaith Polisi'r Rhyngwrwyd ac Awdurdodaeth yn ogystal â gweithgorau yn Rhwydwaith Llywodraethu Llwyfan Byd-eang, cynllun aml-randdeiliad yng Nghanada sy'n chwilio am atebion ar gyfer rheoleiddio a pholisi ar-lein.

O ystyried natur ryngddibynnol seilwaith rhwydwaith byd-eang a bygythiadau seiberddiogelwch sy'n esblygu, rydym yn cymryd mwy o ran mewn trafodaethau rhyngwladol am seiberddiogelwch ac rydym wedi dyfnhau'r ddeialog â rheoleiddwyr gyda dyletswyddau yn y maes hwn, yn ogystal â'r Comisiwn Ewropeaidd wrth iddo adolygu deddfwriaeth seiber yr Undeb Ewropeaidd. Fe wnaethom hefyd ddechrau trafod fframweithiau ar gyfer cadernid rhwydwaith gyda chymheiriaid rheoleiddio. Wrth i'r Deyrnas Unedig geisio mynd i'r afael â her fyd-eang cadwyn gyflenwi telathrebu gul, rydym wedi cynyddu ein hymgysylltiad o ran amrywiaeth gwerthwyr a mabwysiadu atebion gan ddefnyddio manylebau rhyngwyneb agored, fel Rhwydweithiau Mynediad Radio Agored (RAN).

Mae Ofcom hefyd yn parhau i gyfrannu at waith datblygu polisi'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), gan eistedd ar y Pwyllgor Polisi Seilwaith a Gwasanaethau Cyfathrebu (CISP).

Sbectrwm

O ran sbectrwm, mae Ofcom yn cymryd rhan mewn fforymau rhyngwladol perthnasol gan gynnwys y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebu (CEPT), lle mae Ofcom yn cadeirio'r Pwyllgor Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd (ECC), y grŵp sbectrwm uchaf yn CEPT. Rydym yn gweithio ar draws ystod eang o faterion sy'n ymwneud â defnyddio sbectrwm gan gynnwys band eang symudol a 5G, gwella cysylltedd defnyddwyr a busnesau gyda mwy o Wi-Fi, cyfathrebu lloeren a llywio, darlledu a thrafnidiaeth (gan gynnwys ffyrdd, rheilffyrdd ac awyrennau).

Rhagor o waith gyda chyrrff rhyngwladol

Rydym hefyd yn cadeirio nifer o dimau prosiect a grwpiau astudio mewn gwahanol grwpiau rhyngwladol, gan gynnwys yn yr Undeb Telathrebu Rhyngwladol (ITU). Yn fwyaf diweddar, penodwyd Ofcom yn Is-gadeirydd Grŵp Paratoi Cynhadledd CEPT a fydd yn gyfrifol am ddatblygu safbwyntiau Ewropeaidd ar gyfer y Gynhadledd Radio Byd nesaf y trefnwyd i'w chynnal yn 2023.

Mae gwaith arall yn yr ITU eleni wedi canolbwyntio ar dechnolegau newydd, a diwygiadau i strwythurau a ffyrdd yr ITU o weithio. Rydym yn cydlynw safbwyntiau Ewropeaidd ar y materion hyn drwy ein

rôl fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Traws-ITU yn CEPT.

Rydym yn parhau i gyfrannu at gyrff post Ewropeaidd a rhyngwladol, gan weithio'n agos gyda chyd-reoleiddwyr a gweinyddiaethau post rhyngwladol, gan gynnwys yn y Pwyllgor Rheoleiddio Gwasanaethau Post Ewropeaidd (CERP).

Yn olaf, rydym yn cefnogi Llywodraeth y DU yn yr Undeb Post Cyffredinol (UPU), y corff rhynglywodraethol sy'n rheoli taliadau post rhyngwladol rhwng Darparwyr Gwasanaeth Post Cyffredinol, gan gynnwys mewn perthynas â newidiadau i'r trefniadau taliadau terfynol rhyngwladol a'r bwriad i agor yr UPU i weithredwyr sector ehangach.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill Defnyddwyr a dinasyddion

Mae deall buddiannau ac ymddygiad defnyddwyr a dinasyddion yn hanfodol i'n gwaith. Mae Ofcom yn defnyddio ymchwil marchnad yn helaeth i ddeall tueddiadau sy'n ymwneud â'r nifer sy'n prynu ac yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu ac ymddygiad a phryderon defnyddwyr. Mae ein hadroddiad blynyddol rhyngweithiol, Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu, adroddiad Cysylltu'r Gwledydd,



adroddiadau Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau ac Agweddau Plant a'u Defnydd o Gyfryngau yn benodol, yn dangos ac yn dadansoddi'r tueddiadau hyn.

Derbyniodd Tîm Cyswllt Defnyddwyr Ofcom 96,051 o alwadau, ffurflenni gwe, negeseuon e-bost a llythyrau yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr yn 2020/21, ac mae'r wybodaeth a gawn gan ddefnyddwyr yn ein helpu i dargedu ein polisiau a'n gwaith gorfodi. Mae defnyddwyr hefyd yn cysylltu â ni drwy ein gwefan. Er na allwn ddatrys cwynion unigol am wasanaethau telathrebu, rydym yn cynghori'r rhai sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfodau (ADR) sydd wedi cael eu cymeradwyo gennym. Fodd bynnag, rydym yn delio â chwynion am raglenni teledu a radio.

Mae ein swyddfeydd ymhob gwlad yn y Deyrnas Unedig yn rhoi gwybodaeth fanwl ac arbenigol i Ofcom am yr heriau a wynebier gan ddinasyddion a defnyddwyr yng ngwahanol ardaloedd y Deyrnas Unedig. Mae ein pwyllgorau cynghori ar gyfer pob un o wledydd y Deyrnas Unedig yn cynnig gwybodaeth a chynghori i Ofcom ar agweddau ar ei waith, a chyfathrebiadau yn gyffredinol, sydd o bwysigrwydd penodol i bob gwlad. Mae buddiannau cenedlaethol hefyd yn cael eu cynrychioli gan Aelodau Bwrdd Cynnwys a Phanel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Ofcom. Mae'r Fforwm Defnyddwyr ar gyfer Cyfathrebiadau, sy'n cynnwys dros 50 o aelodau o gyrff defnyddwyr, yn cwrdd gydag Ofcom bob chwarter i drafod pynciau polisi sy'n berthnasol i ddefnyddwyr.

Rydym ni'n cynnal ymchwil reolaidd i anghenion ac ymddygiad defnyddwyr, gan helpu i lywio ein gwaith a rhoi cipolwg i ni ar sut mae'n effeithio ar ddefnyddwyr y cynnyrch a'r gwasanaethau rydyn ni'n eu rheoleiddio.

Rydym hefyd yn cael cyfarfodydd dwyochrog rheolaidd gyda sefydliadau rhanddeiliaid a defnyddwyr, yn ogystal â chyfarfodydd ymgynghori ar bynciau penodol.

Diwydiant a Llywodraeth

Mae Ofcom yn ymwneud ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys cwmnïau a chyrrff y diwydiant yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, grwpiau defnyddwyr a defnyddwyr, Llywodraeth y

DU a'r sefydliadau datganoledig, cyd-reoleiddwyr a rheoleiddwyr eraill. Rydym yn aelodau o Rwydwaith Rheoleiddwyr y Deyrnas Unedig a Rhwydwaith Cystadleuaeth y Deyrnas Unedig, ac rydym mewn cysylltiad ag amryw o gyrff rheoleiddio a chyrrff rhyngwladol.

Mae gennym ddyletswydd statudol i ystyried yn ein penderfyniadau beth yw safbwyntiau a buddiannau'r rhai sy'n byw mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig. Mae ein gweithrediadau yn y gwledydd yn cael eu harwain gan uwch gyfarwyddwyr yng Nghaeredin, Caerdydd, Belfast a Llundain. Maent yn gweithio i sicrhau bod barn, anghenion ac amgylchiadau arbennig y gwledydd yn cael sylw uniongyrchol gan Ofcom. Mae ein pwyllgorau cynghori ar gyfer pob un o'r gwledydd hefyd yn darparu cynghori am fuddiannau a safbwyntiau'r gwledydd a'r rhanbarthau am yr holl faterion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau.

Cyd-reoleiddwyr a chyrrff eraill

Mae gan Ofcom bartneriaeth gyd-reoleiddio gyda'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA), a ffurfiwyd yn 2004. Mae'n delio â darlledwyr a hysbysebu ar wasanaethau fideo ar-alw. Mae'n rhaid i ddarlledwyr gydymffurfio â'r codau hysbysebu o dan eu trwyddedau darlledu a roddir gan Ofcom. Pan fydd yr ASA yn dyfarnu ar hysbyseb, bydd darlledwyr yn cydymffurfio â'r penderfyniadau ar unwaith o dan amodau eu trwyddedau. Pan fydd angen, gall yr ASA gyfeirio trwyddedeion at Ofcom.

Mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm (PERS), sy'n galluogi defnyddwyr i brynu nwyddau a gwasanaethau drwy godi'r gost ar eu biliau ffôn a'u cyfrifon talu ymlaen llaw. Yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn sy'n rheoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm o ddydd i ddydd ar ran Ofcom, drwy ei waith yn gorfodi cod ymarfer sydd wedi ei gymeradwyo gan Ofcom.

Mae gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) bwerau cydredol dan ddeddfwriaeth benodol i ddiogelu defnyddwyr ac o fewn fframwaith cyfraith cystadleuaeth ar gyfer y sector cyfathrebiadau. Rydym yn gweithio gyda'r CMA i sicrhau y gweithredir yn gyson ac yn gydgyssylltiedig mewn perthynas â'r materion lle mae gennym bwerau cydredol ac rydym yn trafod pa gorff sydd yn y sefyllfa orau i arwain ymhob achos.

Pryd y byddwn yn rheoleiddio

Yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 mae'n rhaid i ni ystyried egwyddorion rheoleiddio gwell: y dylai rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson a dim ond wedi ei dargedu at achosion lle mae angen gweithredu yn eu cylch. Pan sefydlwyd Ofcom, buom yn adeiladu ar yr egwyddorion hyn drwy ddatblygu set fwy penodol o egwyddorion rheoleiddio a fyddai'n sail i'n gwaith beunyddiol. Am fod y sector cyfathrebiadau'n newid mor gyflym mae'n bwysig iawn fod gennym egwyddorion clir i'n tywys.

Lleihau rheoleiddio

Mae Ofcom yn canolbwyntio ar leihau rheoleiddio lle bo hynny'n briodol. Rydym yn credu bod 'rheoleiddio gwell' yn golygu sicrhau bod rheolau'n cael eu targedu'n briodol, ac nad ydynt yn gosod beichiau gormodol ar randdeiliaid.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud nifer o benderfyniadau rheoleiddio pwysig, ond mae nifer y dogfennau a gyhoeddwn wedi aros yn weddol debyg. Mae Ffigur [1] yn rhoi trosolwg o'r ffordd y newidiodd y baich rheoleiddio ar randdeiliaid o ganlyniad i ddatganiadau a phenderfyniadau rheoleiddio Ofcom yn 2020/21.

Ffigur 1: Effaith ein datganiadau ar y baich rheoleiddio ar randdeiliaid: 2020/21

O'r 40 Prif Ddatganiad a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn:	Nifer	%
Mwy o reoleiddio/rheoleiddio newydd	10	25%
Cymysg/dim newid/parhaus	27	67%
Llai o reoleiddio	1	3%
Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio	2	5%

Mae golwg gyffredinol ar y datganiadau a'r penderfyniadau allweddol rydym wedi eu gwneud yn ystod y flwyddyn, ar gael yn Atodiad 2.

Egwyddorion rheoleiddio Ofcom

Pryd y byddwn yn rheoleiddio

Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen.

Bydd Ofcom yn ymyrryd pan mae dyletswydd statudol benodol i weithio at nod na all y marchnadoedd ei gyflawni ar eu pen eu hunain.

Sut rydym yn rheoleiddio

Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwithiol er mwyn cyflawni ei amcanion.

Mae Ofcom am sicrhau bod ymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyried a chanlyniadau.

Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol a fynegir yn glir ac wedi ei adolygu'n gyhoeddus, ynghyd ag amcanion penodedig.

Sut y byddwn yn cefnogi rheoleiddio

Bydd Ofcom yn ymchwilio i farchnadoedd yn gyson ac yn ceisio aros ar flaen y gad o ran dealltwriaeth dechnolegol.

Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad.

Ymgynghoriadau

Drwy ymgynghoriadau cyhoeddus, mae rhanddeiliaid yn gallu rhoi sylwadau ar ein cynigion, ac ymateb iddynt, cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau terfynol.

Os bydd cyfnod ymgynghori yn rhy fyr, efallai na fydd gan y rhai sydd â barn bwysig i'w chyfleu ddigon o amser i baratoi eu hymatebion. Os bydd yn rhy hir, efallai y bydd y farchnad dan sylw wedi newid yn ddramatig. Pan fyddwn yn penderfynu ar hyd cyfnod ymgynghori, mae angen inni gael y cydbwysedd iawn rhwng y ddwy ystyriaeth yma. Yn gyffredinol, ceir tri chategori o ymgynghoriad:

- **Categori 1:** ymgynghoriadau sy'n cynnwys cynlluniau polisi o bwys a/neu sydd o ddiddordeb i amrywiaeth eang o rhanddeiliaid (yn enwedig y rhai y bydd angen mwy o amser arnynt efallai ar gyfer ymateb); yn yr achosion hyn byddwn fel arfer yn ymgynghori am ddeg wythnos.
- **Categori 2:** ymgynghoriadau sy'n cynnwys cynigion polisi pwysig ond a fydd o ddiddordeb i nifer cyfyngedig o rhanddeiliaid a fydd yn ymwybodol o'r materion; yn yr achosion hyn byddwn fel arfer yn ymgynghori am chwe wythnos.
- **Categori 3:** ymgynghoriadau sy'n dod o fewn un neu fwy o'r categorïau canlynol, gyda'r cyfnod arferol ar gyfer ymgynghori yn fis:
 - materion technegol;
 - lle bydd angen cwblhau prosiect o fewn amserlen benodol oherwydd datblygiadau yn y farchnad neu ffactorau eraill lle mae gofyn cwblhau'r prosiect mewn cyfnod byr;
 - lle mae'r mater eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad;
 - lle na chaiff y cynnig fawr o effaith ar farchnad; neu
 - lle nad yw'r cynnig ond yn fân newid i bolisi neu reoliad sy'n bodoli eisoes.

Mae ffigur 2 yn cynnwys dadansoddiad o hyd ein hymgyngoriadau fesul sector, fel y pennwyd gan ein categorïau o ymgynghoriadau.

Ffigur 2: Dadansoddiad o hyd ymgynghoriadau: 2020/21

	Cyfnod ymgynghori o leiaf 10 wythnos o hyd	Cyfnod ymgynghori o lai na 10 wythnos (gan gynnwys ymgynghoriadau cat 2 a cat 3)
Telathrebu	3	40
Darlledu	2	15
Sbectrwm	1	4
Post	0	2
Arall	1	2
Cyfanswm	7	63
% Cyfanswm	11%	89%
% Cyfanswm (19/20)	17%	83%

Gwneud penderfyniadau'n brydlon

Rydym yn dadansoddi pa mor hir mae'n ei gymryd i ni gyhoeddi penderfyniad ar ôl i ymgynghoriad ddod i ben (gweler Ffigur 2). Yn 2020/21, cyhoeddwyd dros 90% o'n penderfyniadau cyn pen ugain wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad, y rhan fwyaf ohonynt cyn pen deg wythnos.

Asesiadau effaith

Mae asesiadau effaith yn rhan bwysig o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae Adran 7 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal asesiad effaith pan rydym yn bwriadu gwneud unrhyw beth er mwyn cyflawni ein swyddogaethau neu mewn cysylltiad â chyflawni ein swyddogaethau, a lle teimlwn fod y cynnig yn bwysig. Mae asesiadau effaith yn sicrhau, ymysg pethau eraill, ac yng nghyswllt ein penderfyniadau:

- bod ystod eang o ddewisiadau'n cael eu hystyried, gan gynnwys y dewis i beidio â rheoleiddio;
- bod y dewisiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n glir;
- bod effeithiau posibl pob dewis yn cael eu dadansoddi'n ofalus; a
- bod y manteision yn fwy na'r costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ddewisir.

Ym mis Gorffennaf 2005, fe wnaethom gyhoeddi'r canllawiau: Llunio polisiau'n well: dull Ofcom o asesu effaith, a oedd yn pwysleisio ymrwymiad Ofcom i gynnal asesiadau fel rhan greiddiol o'r broses llunio polisiau gan ddweud ein bod yn disgwyl cynnal asesiadau effaith ym mwyafrif helaeth ein penderfyniadau polisi.

Rydym yn cyhoeddi rhestr o'r asesiadau effaith sydd wedi cael eu cynnal gennym yn ystod y flwyddyn. Mae hon yn ymddangos yn Atodiad 2.

Ffigur 3: Dadansoddiad o'r asesiadau effaith a gynhaliwyd

Nifer y dogfennau ymgynghori	Cyfanswm	Asesiad Effaith yn rhan o'r ddogfen a gyhoeddwyd
Telathrebu	43	38
Darlledu	17	4
Sbectrwm	5	2
Post	2	2
Arall	3	1
Cyfanswm	70	47 (=67%)

Dengys Ffigur 3 fod 67% o ymgynghoriadau yn 2020/21 wedi cynnal asesiad effaith, yr oedd cyfeiriad penodol ato mewn adran neu atodiad penodol o'r ddogfen ymgynghori. Dan rai amgylchiadau efallai na fydd cynnal asesiad effaith yn ofynnol, neu efallai na fydd yn briodol, neu efallai ei fod yn ymhlyg yn yr ymgynghoriad. Byddwn yn parhau i sicrhau bod asesiadau effaith yn cael eu cynnal ac yn cael eu cyflwyno'n briodol ymhob achos perthnasol.

Adolygiad Ariannol

Er bod Ofcom yn uniongyrchol atebol i Senedd y DU, daw ein cyllid o ffioedd a godir ar y sectorau rydym yn eu rheoleiddio (gweler ffigur 4 ar dudalen 60 isod).

Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad gwerth am arian sy'n ymwybodol o gostau wrth gyflawni ein dyletswyddau. Dros y degawd diwethaf, mae cost rheoleiddio wedi gostwng yn sylweddol mewn termau real.

Rydym hefyd yn gyfrannwr net i Drysorlys EM; casglodd Ofcom £415.5m o ffioedd a chosbau yn 2020/21, ac rydym wedi cadw £63.8m o'r arian hwnnw i ariannu ein gwaith rheoli sbectrwm a dyletswyddau perthnasol eraill. Trosglwyddwyd y balans i Drysorlys EM a'r Cronfeydd Cyfunol.

Mae ein cyfrifoldebau yn cynnwys casglu a throsglwyddo'r ffioedd trwydded a gasglwyd o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, rhifau ffôn daearyddol, taliadau ychwanegol gan ddeiliaid trwyddedau darlledu, a dirwyon a chosbau a roddwyd i randdeiliaid.

Perfformiad ariannol

Yn 2020/21, roedd ein halldro ariannol o £129.8m 3.9% yn is na'n cyllideb o £135.0m. Roedd hyn yn bennaf oherwydd llai o weithgarwch (recriwtio staff a theithio) a sbardunwyd yn bennaf gan y pandemig.

£m	Cyllideb	Alldro	Amrywiant
2020/21	135.0	129.8	5.2
2019/20	124.2	124.0	0.2
Amrywiant	10.8	5.8	5.0

Mae'r cynnydd yng nghyllideb 2020/21 o £10.8m yn ymwneud â gwariant cynyddrannol ar ddyletswyddau newydd gan gynnwys Llwyfannau Rhannu Fideos (£5.0m), Paratoi ar gyfer Diogelwch Ar-lein (£3.1m), Seilwaith a Diogelwch Rhwydweithiau (£1.7m) a chyflawni Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang (£1.1m), cynnydd ar gyfer chwyddiant (£2.4m) wedi ei wrthbwysu gan ddileu tanysgrifiad yr Undeb Telathrebu Rhyngwladol (£2.5m) y talwyd amdano ar ran y Deyrnas Unedig (sy'n dal i gael ei dalu gan Ofcom ond wedi ei ariannu drwy gadw derbyniadau WTA).

Mae 62% o gyfanswm ein sylfaen gostau yn ymwneud â chostau staff, ac mae rhan sylweddol (22%) o'r sylfaen gostau sy'n weddill yn sefydlog mewn perthynas â chostau eiddo a systemau.

Mae Ofcom yn cyflwyno'r costau sy'n ymwneud â chlirio a dyfarnu Sbectrwm ar wahân i wahaniaethu oddi wrth weithgareddau craidd Ofcom. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael ar dudalen 57.

Incwm gweithredu

Mae'r £132.5m (2019/20: £125m) o incwm a dderbyniwyd yn 2020/21 yn cynnwys cyfrifoldebau craidd Ofcom (heb gynnwys clirio Sbectwm a dyfarniadau).

Gwariant gweithredu

Gan eithrio costau staff, roedd gwariant gweithredol yn ymwneud â chyfrifoldebau craidd Ofcom yn 2020/21 wedi cynyddu £2.5m i £50.4m (2019/20 £47.9m). Mae'r prif amrywiadau gweithredu ers y flwyddyn flaenorol yn deillio o'r canlynol:

- Gwasanaethau Proffesiynol wedi cynyddu £0.8m, yn sgil adennill costau cyfreithiol unwaith ac am byth yn 2019/20;
- Roedd costau Gwasanaethau a ddarperir yn allanol wedi cynyddu £1.7m unwaith ac am byth wrth i ni fuddsoddi yn ein systemau cyllid, pobl a chynllunio;
- Roedd Ymchwil Technoleg wedi cynyddu £0.8m mewn perthynas â pharatoi dyletswyddau Diogelwch Ar-lein;
- Cynyddodd costau eiddo £1.2m o ganlyniad i gostau glanhau a diogelwch uwch oherwydd y pandemig a chredyd ardrethi untro yng nghyswllt Riverside House yn 2019/20;

Mae hyn yn cael ei wrthbwysu gan

- £1.4m o gostau teithio is oherwydd cyfyngiadau'r pandemig
- £0.4m o wariant is ar offer gweithredol TG

Cynyddodd costau staff £4.2m i £83.5m (2019/20 £79.2m), gan gynnwys £0.5m yn ymwneud â gwariant clirio sbectwm. Roedd 992 o staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd (2019/20: 937 cyfwerth ag amser llawn). Mae'r cynnydd mewn costau o flwyddyn i flwyddyn yn ymwneud â'r dyfarniad cyflog blyneddol (£1.6m) sy'n ymwneud â pherfformiad 2019/20, a'r twf yn ein timau sy'n cefnogi'r dyletswyddau newydd a amlinellir uchod.



Gwarged/diffyg am y flwyddyn ariannol

Gwarged neu ddiffyg cyllido

Bydd y refeniw gweithredol sydd ei angen ar Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau a chyflawni ei raglen waith ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol yn cael ei gyfrifo ar sail datganiad egwyddorion codi ffioedd Ofcom. Mae'r dull gweithredu hwn yn pennu'r arian gwirioneddol y mae angen ei gasglu i dalu rhwymedigaethau ariannol yn ystod y flwyddyn. Bydd unrhyw arian dros ben a geir o ganlyniad i arbedion cyllidebol a sicrheir yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael ei ddychwelyd i'r rhanddeiliaid drwy leihau'r tariffau blynyddol a godir yn y ddwy flynedd ariannol olynol.

Mae Nodyn 2 y cyfrifon yn Adran C yn cysoni cyfanswm y gwariant gweithredu yn ôl y sector a reoleiddir fel y cyflwynir yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr i alldro gweithredol gwirioneddol Ofcom.

Mae'r gwarged cyllido ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cael ei nodi yn Nodyn 2 i'r cyfrifon, sef cyfanswm o £7.6m (2019/20: £8.6m o warged).

Gwarged neu ddiffyg cyfrifyddu

Mae angen gwarged cyfrifyddu ar gyfer y gwariant nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, gan gynnwys gwariant cyfalaf a thaliadau i adennill diffyg sy'n ofynnol mewn perthynas â'r ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi eu diffinio.

Mae diffyg cyfrifyddu'n digwydd pan fydd dibrisiant, amorteiddiad a thrafodiadau anariannol eraill yn fwy na'r incwm a dderbynnir i dalu costau arian eitemau cyfalaf a'r cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi eu diffinio.

Y gwarged cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ôl treth, a gofnodwyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr Net ar gyfer y flwyddyn dan sylw, oedd £1.5m (2019/20: £226.7m o ddiffyg). Mae'r amrywiad sylweddol i'r flwyddyn flaenorol yn adlewyrchu cynnwys darpariaeth o £232m o gyllid setliad cyfreithiol yn natganiadau ariannol 2019/20, a ariannwyd gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol,

Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae'r gwarged cyfrifyddu mawr yn y flwyddyn flaenorol yn ddigwyddiad nad yw'n digwydd dro ar ôl tro.

Clirio sbectrwm

Mae'r holl gostau sy'n ymwneud â chlirio a dyfarnu sbectrwm yn cael eu cofnodi ar wahân i gyfrifoldebau craidd Ofcom yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhaglen clirio 700 MHz wedi llwyddo i sicrhau bod y sbectrwm hwn ar gael i ddiwallu'r galw cynyddol am ddata symudol. Mae'r rhaglen yn ei chyfnod olaf erbyn hyn a disgwylir iddi gael ei chwblhau yn hydref 2021.

Roedd y pandemig wedi golygu bod yn rhaid gohirio digwyddiadau clirio a mabwysiadu amserlen ddiwygiedig ar gyfer y rhaglen. Cafodd y gwaith o glirio'r tonnau awyr ei gwblhau'n derfynol ar 19 Awst 2020.

Mae'r cyllid cymorth grant ar gyfer clirio a dyfarnu sbectrwm yn cefnogi'r newidiadau sydd eu hangen e.e. i'r seilwaith DTT, sy'n angenrheidiol i glirio'r band sbectrwm. Mae Llywodraeth y DU wedi darparu arian ar gyfer cynllun grantiau i ddosbarthu grantiau i hwyluso'r gwaith clirio.

Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen ar gael yn atodiad 8.

Mae sicrhau gwerth am arian wrth galon ein gwaith ar y cynllun grantiau. I'r perwyl hwn, mae gennym fframwaith sicrwydd cadarn ar waith i wneud yn siŵr mai dim ond costau clirio cynyddrannol effeithlon sy'n cael arian cyhoeddus. Fel rhan o'r fframwaith sicrwydd hwn bydd arbenigwyr technegol a phanel cyngori anweithredol annibynnol yn craffu'n fanwl ar geisiadau am grant.

Roedd y gwariant ar glirio a dyfarnu sbectrwm yn £22.7m yn 2020/21 (2019/20: £76.7m), y gostyngiad yn bennaf oherwydd cwblhau gweithgareddau clirio erbyn mis Awst 2020.


Mae gweddill y rhaglen yn canolbwyntio ar gael gwared ar fesurau dros dro, gwaith datgomisiynu safle a Chysoni Grantiau.

Arian ychwanegol a gasglwyd ar ran Trysorlys EM

Mae Ofcom yn paratoi set o Ddatganiadau Ariannol ar wahân at ddibenion Adran 400 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Nid yw'r trafodiadau hyn wedi cael eu cynnwys yn y Datganiadau Ariannol. Adroddir ar y ffioedd, y taliadau a'r cosbau, ynghyd â rhagor o fanylion, yn y Datganiadau Ariannol hyn yn Nodyn 23 i'r cyfrifon, ac mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad 1 ar dudalen 149.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21 casglodd Ofcom £415.5m (2019/20: £373.3m) ar ran Trysorlys EM a chafodd £63.8m (2019/20: £56.8m) ei gadw i dalu am rai o gyfrifoldebau craidd Ofcom, gan gynnwys Rheoli Sbectrwm. Mae'r amrywiad i dderbyniadau'r flwyddyn flaenorol yn bennaf oherwydd cynnydd yn y ffioedd trwydded blynyddol a delir gan weithredwyr symudol ar gyfer y rhwydweithiau di-wifr cyhoeddus.

Trosglwyddwyd cyfanswm o £328.3m i gyfrifon Llywodraeth y DU yn y flwyddyn ariannol.



Pensiynau

Mae Ofcom yn darparu buddion pensiwn drwy lwfans pensiwn â'r cyfraniadau wedi eu diffinio sydd ar gael i bob cydweithiwr. Mae cydweithwyr yn Ofcom wedi eu cyflogi ar delerau sy'n cynnig aelodaeth o gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Gellir defnyddio'r lwfans i gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid Ofcom â'r cyfraniadau wedi eu diffinio.

Roedd gan gydweithwyr a ymunodd ag Ofcom o reoleiddwyr blaenorol hawl i barhau i fod yn aelod o un o ddau gynllun pensiwn â'u buddion wedi eu diffinio. Mae'r ddau gynllun ar gau i newydd-ddyfodiaid, a daeth y drefn cronni buddion i ben ar 31 Mai 2011. O'r adeg hon ymlaen, roedd yr holl aelodau cyfredol yn gallu ymuno â chynllun cyfranddeiliaid Ofcom. Mae nodiadau 1(k) ac 19 i'r cyfrifon yn darparu rhagor o fanylion.

Fodd bynnag, mae datganiadau ariannol 2020/21 yn dangos gwarged o £14.8m, yn rhannol oherwydd bod y rhwymedigaethau pensiwn o dan y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar y sail bod y rhwymedigaethau'n cael eu disgowntio yn unol â'r arenillion ar fondiau o ansawdd uchel sydd, o dan amodau presennol y farchnad, yn wahanol iawn

i'r dull sy'n cael ei ddefnyddio i bennu cyfraniadau Ofcom. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r symudiadau sylweddol mewn marchnadoedd ariannol ers dyddiad prisiadau'r actiwari.

Mae Ofcom yn gwneud taliadau ariannol at Gynllun Buddion wedi eu Diffinio Ofcom ac at gynllun pensiwn Ofcom (ITC gynt) ar sail y prisiadau actiwaraidd. Mae taliadau arian, yn hytrach na'r swm a neilltuir i'r gwarged gweithredu, fel y'u cyfrifir o dan IAS19, yn cael eu cynnwys yn alldro'r gwariant gweithredu a ddefnyddir i gyfrifo'r tariffau a godir ar gyfranddeiliaid bob blwyddyn.

Oherwydd y gwaith lliniaru risg rhwng Ofcom ac Ymddiriedolwyr ac Actiwariad y ddau gynllun pensiwn, mae oddeutu 80% o rwymedigaethau'r cynlluniau yn cael eu cefnogi bellach gan flwydd-daliadau. Fel rhan o'r gweithgareddau parhaus i reoli ac i liniaru risgiau'r cynlluniau, bydd rhagor o gynlluniau prynu buddion i mewn gyda chefnogaeth yswiriant ar gyfer aelodau sy'n bensiynwyr yn cael eu hystyried yn y dyfodol.




Tariffau

Cyhoeddodd Ofcom Dablau Tariff 2021/22 ar 26 Mawrth 2021. Mae cyllideb graidd Ofcom yn aros ar yr un lefel â'r flwyddyn ariannol flaenorol, sef £131.9m. Bydd y cap gwariant cyffredinol yn cynyddu £23.8m eto er mwyn ymgorffori gwaith paratoi ar gyfer ein dyletswyddau rheoleiddio newydd h.y. Diogelwch Ar-lein a'r Bil Telathrebu (Diogelwch) gwell. Bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu hariannu drwy gadw derbyniadau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr (WTA) a dim gan randdeiliaid.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn Nhablau Tariff 2021/22 ar ein gwefan.

Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 4 isod, ac eithrio costau sy'n gysylltiedig â'n cyfrifoldebau newydd, mae'r tariffau cyffredinol ar gyfer pob sector rheoleiddio yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd 5 mlynedd.

Ffigur 4: Trosolwg sector 5 mlynedd o gyllid



Cyfrifoldeb Corfforaethol

Ymrwymiad Ofcom i gyfrifoldeb corfforaethol

Fel cyflogwr cyfrifol, rydym yn canolbwyntio ar ein heffaith amgylcheddol a'n gallu i feithrin ymdeimlad cryf o gymuned a phwrpas yn Ofcom. Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- gweithio i leihau ein hól troed carbon, gan sicrhau bod arferion Ofcom yn gynaliadwy yn amgylcheddol (gweler yr adran Cynaliadwydd ar dudalen 64); a
- meithrin cysylltiadau agosach â chymunedau lleol yn Llundain, Manceinion, Caeredin, Caerdydd a Belfast.

Gwirfoddoli a chymuned

"Rydyn ni'n gysylltiedig â chymunedau" yw un o chwe sylfaen ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad newydd. Mae gwirfoddoli a gwaith cymunedol hefyd yn rhan allweddol o'n rhaglen les 'Thrive@Ofcom' ar draws ein sefydliad, sy'n cael ei galw hefyd yn 'tro da i deimlo'n dda'.

Rydyn ni'n annog cydweithwyr i gymryd rhan weithredol mewn mentrau cymunedol a chyfleoedd gwirfoddoli. Rydym yn cefnogi cyfranogi mewn cymunedau lleol, gyda thri diwrnod o wyliau gwirfoddoli â thâl bob blwyddyn yn ystod oriau gwaith ar gyfer helpu unrhyw elusen gofrestredig. Fe wnaethom wella hyn gyda phum diwrnod ychwanegol yn 2020, gan ddod â'r cyfanswm i wyth diwrnod gwirfoddoli â thâl, yn benodol i ddarparu cymorth i unrhyw sefydliad elusennol, cymunedol neu sector cyhoeddus mewn perthynas â'r pandemig. Rydym yn credu bod rhannu amser yn ffordd effeithiol i bobl yn Ofcom gynnig eu sgiliau a'u harbenigedd; ennill sgiliau a safbwyntiau newydd, aros yn iach yn feddyliol a rhoi hwb i'w hyder. Mae

hefyd yn hyrwyddo ein hamcanion amrywiaeth drwy ddysgu am y gymdeithas rydym yn ei gwasanaethu a gwerthfawrogi ei hanghenion a'i heriau amrywiol. Ein huchelgais yw ein bod ni'n datblygu ein cysylltiadau ymhellach â chymunedau a grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol er mwyn i ni allu clywed lleisiau defnyddwyr a chreu canlyniadau cymdeithasol cadarnhaol fel cyflogwr, ac fel rheoleiddiwr.

Ysgolion a sefydliadau

Fe wnaethom barhau â'n gwaith allgymorth helaeth mewn ysgolion yn ystod y pandemig, gan symud yn gyflym i ddarparu cymorth i ysgolion a sefydliadau ar-lein, a chynnal sesiynau profiad gwaith ac interniaethau mawr ar-lein.

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Speakers for Schools er 2018, gan gynnig wythnos o leoliad gwaith i fyfyrwyr o ysgolion y wladwriaeth, academiâu a cholegau yn ystod gwyliau ysgol. Fel arfer, byddwn yn talu costau teithio hyd at £50 ac yn darparu lwfans prydau dyddiol o £5 i wneud yn siŵr nad yw'r lleoliad yn creu baich ariannol. Y nod yw ysbrydoli myfyrwyr i feddwl am weithio mewn diwydiannau a sectorau na fyddent fel arall wedi eu hystyried, neu na fyddai ganddynt fynediad atynt fel arfer, ac i gyflogwyr gyrraedd cronfa o fyfyrwyr newydd o wahanol gefndiroedd wrth iddynt feddwl am eu gyrfaedd yn y dyfodol. Eleni, fe wnaethom gynnal tair wythnos Profiad Gwaith Digidol gyda Speakers for Schools a darparu profiad gyrfa i dros 100 o fyfyrwyr. Roedd y rhith-fformat yn golygu ein bod yn gallu cynnig profiadau i fyfyrwyr ledled y wlad na fyddent wedi gallu teithio i'n swyddfeydd fel arall. Roedd y rhaglen yn darparu:

- Mentor gwirfoddol fel rheolwr llinell i weithio gyda phob myfyriwr a wnaeth gais.

- Cyfleoedd cyflwyno i fyfyrwyr ar ein cylch gwaith a'n sectorau
- Adborth uniongyrchol gan ein Prif Weithredwr a'n Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid.

Yn ogystal, fe wnaethom gynnig 12 interniaeth flynyddol, am bedair wythnos gyda thâl, i fyfyrwyr lefel A o'r elusen addysg busnes, Career Ready, yn ystod misoedd yr haf. Mae Career Ready yn cysylltu cyflogwyr ag ysgolion a cholegau nad oes gan eu myfyrwyr fawr o gefndir teuluol o addysg uwch na gyrfaedd proffesiynol, er mwyn rhoi cymorth, profiadau a gwybodaeth i bobl ifanc i roi hwb i'w dyfodol. Mewn cyfarfodydd misol, bu mentoriaid yn hyfforddi'r unigolyn ifanc am ddewisiadau a llwybrau gyrfa, gan eu helpu i ddeall mwy am fyd gwaith, trosglwyddo o addysg i'r gweithle, a'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt i gael dyfodol gwerth chweil.

Fe wnaethom roi 245 o'n gliadiuron busnes a arferai fod yn eiddo i ni, a dosbarthwyd nhw gan Business 2 Schools i ysgolion ledled y Deyrnas Unedig lle'r oedd eu hangen fwyaf.

Cafodd ein cynllun mentora darllen mewn partneriaeth ag ysgolion lleol ei atal, ond bydd yn ailddechrau yn ystod haf 2021.

Fe wnaethom noddi gwobr 'Peirianwraig Ifanc y Flwyddyn' y Sefydliad Peirianeg a Thechnoleg i gefnogi menywod ym maes peirianeg. Ym mis Mawrth eleni, cynhaliodd yr IET eu seremoni wobrwyo ar-lein a chyflwynodd chwech o'n peirianwyr benywaidd eu gwaith yn Ofcom. Mae ein Grwpiau Technoleg a Sbectwm wrthi'n datblygu rhaglen i gael mwy o amrywiaeth o ran y rhywiau ac ethnigrwydd yn ein swyddi STEM.



Prentisiaethau ac interniaethau

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc ymuno â ni. Rydym yn talu'r Ardoll Brentisiaethau ac yn ei defnyddio i gofrestru pobl ar brentisiaethau sy'n amrywio o lefel ganolradd i lefel Meistr. Rydym hefyd yn defnyddio'r ardoll i uwchsgilio gweithwyr presennol drwy ennill cymwysterau proffesiynol sy'n amrywio o CIMA (cyfrifeg), CIPD (Proffesiwn Pobl neu Adnoddau Dynol) i BEng (peirianeg) drwy brentisiaeth. Yn 2021 byddwn yn adolygu ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer prentisiaethau, gan gefnogi'r rhaglen gyda lleoliadau gwaith tymor hir â thâl sy'n seiliedig ar sgiliau. Ar hyn o bryd rydym yn cyflogi 17 o brentisiaid sy'n gweithio mewn rolau Peirianeg Sbectrwm, y Ganolfan Cyswllt Defnyddwyr, Cyllid Cystadleuaeth ac Ymchwil i'r Farchnad gyda 21 cydweithiwr arall yn defnyddio'r Ardoll Prentisiaethau i ddatblygu eu sgiliau ac ennill cymhwyster ychwanegol.

Ffurfiodd ein tîm Cyfreithiol bartneriaeth â rhaglen 'Pathways to Law' Ymddriedolaeth Sutton, i dderbyn pum myfyriwr ar brofiad gwaith â thâl ym

mis Medi 2020. Mae'r rhaglen yn un barhaus, a'i nod yw ehangu mynediad at y proffesiwn cyfreithiol, meithrin dyheadau myfyrwyr a'u galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gyrfa yn y dyfodol. Mae'n agored i ddisgyblion sy'n mynd i ysgolion sydd ddim yn codi ffioedd, ac yn aml nhw yw'r cyntaf yn y teulu i fynd i brifysgol

Elusen Ofcom

Yn ystod 2020, bu cydweithwyr yn cynnal nifer o weithgareddau i godi arian i achosion da agos at eu calonnau. Lansiodd ein rhwydweithiau o weithwyr sy'n gydweithwyr eu digwyddiad '#Challenge for Charity' i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod y pandemig. Roedd yr elusennau hyn yn cynnwys y rhai sy'n cefnogi pobl sy'n dioddef cam-drin domestig neu sydd ag amgylchedd gelyniaethus yn y cartref, yn ogystal ag elusennau digartrefedd a banciau bwyd. Cododd ein raffl Nadolig flynyddol yn 2020 arian i'n helusen gorfforaethol, Macmillan, a dwy elusen a ddewiswyd gan gydweithwyr yng Nghaeredin a Belfast.




Adroddiad Cynaladwyedd

Mae rheoli ein heffaith ar yr amgylchedd yn bwysig i ni o ran sut rydym yn rhedeg y sefydliad. Fe wnaethom osod targed amgylcheddol uchelgeisiol i ni ein hunain yn 2007 i leihau ein hallyriadau carbon o leiaf 50 y cant erbyn 2020. Roeddem eisoes wedi cyflawni 59% ar ddiwedd mis Mawrth 2020, cyn effaith eithriadol y pandemig, a arweiniodd at ostyngiad o 72% mewn tunelli o garbon deuocsid (tCO₂e) o'i gymharu â'r llynedd. Er ein bod yn cydnabod y bydd allyriadau'n cynyddu yn 2021/22 wrth i ni ddychwelyd at lefelau

teithio a meddiannu adeiladau cyn y pandemig, byddwn yn ceisio gwreiddio llawer o'r arbedion effeithlonrwydd yn ein ffyrdd o weithio yn y dyfodol.

Hefyd mae gan Ofcom ymrwymiad parhaus i agenda Greening Government, ac rydym wedi llwyddo i gyrraedd y targedau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, i anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi, ac i ddefnyddio llai o bapur ar sail llinell sylfaen 2009/10.



Gwneir yr holl gymariaethau â tharged gwaelodlin 2009/10. Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr (NTG) yn cynnwys allyriadau cwmplas 1 (uniongyrchol) a 2 (anuniongyrchol).

Trwy fuddsoddi mewn cyfarpar fideogynadledda yn ein holl swyddfeydd, a dechrau defnyddio Microsoft Teams a Surface Hubs, mae gennym bellach y dechnoleg ddigidol i osgoi teithiau diangen.

Bu i ni deithio mewn awyren pan nad oedd modd osgoi hynny yn 2019/20, a dewisom wrthbwysu'r allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy gefnogi dau brosiect creu coetiroedd, i ddal yr allyriadau carbon deuocsid o'n teithiau awyr. Mae'r ddau brosiect wedi eu cofrestru dan God Carbon Coetiroedd y Deyrnas Unedig gyda chefnogaeth Llywodraeth y DU, ac yn ymddangos ar y gofrestr Markit annibynnol, ac maent wedi eu hardystio i safonau ISO gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS).

Byddwn yn parhau i wneud iawn am deithiau awyren nad oes modd eu hosgoi yn y dyfodol.


Datblygu ein dull o reoli'r amgylchedd

Rydym yn awr yn gweithio tuag at ennill ardystiad ISO 14001 ar gyfer rheolaeth amgylcheddol. Byddwn yn datblygu targedau i fodloni gofynion amgylcheddol gwyrdd newydd Llywodraeth y DU, gydag uchelgais i gyflawni sero-net dros y degawd nesaf.

Y Fonesig Melanie Dawes DCB

Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu
23 Mehefin 2021

Ffigur 5: Golwg gyffredinol ar berfformiad yng nghyswllt cynladwyedd dros bum mlynedd



		2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Allyriadau nwyon tŷ gwydr (Cwmpasau 1,2)	tCO2e	1,456	1,209	1,078	493	297
	Gwariant	£405,810	£459,238	£404,206	£158,351	£182,803
Teithio busnes (Cwmpas 3)	tCO2e	312	519	555	594	7
	Gwariant	£663,705	£705,602	£742,876	£837,982	£5,458
Gwastraff (Cwmpas 3)	tCO2e	172	76	198	189	69
	Gwariant	£37,984	£7,004	£43,805	£35,000	£12,470
Defnydd o adnoddau cyfyngedig	Defnydd dŵr (m3)	11,282	9,379	13,988	18,874	6,375
	Gwariant	£22,248	£6,929	£19,583	£23,321	£14,820
	Rimiau papur	6,317	3,915	2,579	2,411	23

ADRAN B

Adroddiad Atebolrwydd



Llywodraethu




Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn heriol iawn i Ofcom a'n cydweithwyr, ond maent wedi dangos Ofcom ar ei orau o ran pwy ydyn ni, beth rydyn ni'n ei wneud a pha mor gyflym y gallwn ni wneud pethau. Mae llywodraethu effeithiol yn hwyluso ein gwaith rheoleiddio synhwyrol a chefnogol, yn enwedig yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Maggie Carver



Trosolwg Llywodraethu gan y Cadeirydd Dros Dro

Ar ran Bwrdd Ofcom, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Mae Llywodraethu Corfforaethol yn dal yn flaenoriaeth bwysig i Ofcom ac mae'n golygu mwy na chymhwyso set o reolau a chanllawiau penodedig. Mae'n hanfodol i'r ffordd rydym yn gweithredu, ac mae'n gosod naws y sefydliad. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r heriau a ddaeth yn sgil y pandemig wedi atgyfnerthu i'r Bwrdd pa mor bwysig yw ein nod o sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. Rydym wedi gweld bod gwasanaethau cyfathrebu dibynadwy o ansawdd uchel wedi bod yn bwysicach nag erioed i fywydau pobl. Wrth i ymdrechion i oresgyn y pandemig barhau, byddwn ni'n ceisio rheoleiddio mewn ffordd synhwyrol a chefnogol – gan ddal darparwr cyfathrebiadau yn atebol, a sicrhau eu bod yn gwasanaethu eu cwsmeriaid a'u cynulleidfaoedd yn unol â'r safonau uchaf posib. Wrth edrych ymlaen, rydym yn cydnabod bod ein sectorau cyfathrebu yn newid yn gyflym. Mae angen canolbwyntio ar y tymor hir er mwyn i ni ymateb yn effeithiol i hyn, yn ogystal â chyflymder ac ystwythder yn ein dull gweithredu. Mae'r Bwrdd hefyd wedi canolbwyntio ar ddiogelu iechyd a llesiant ein cydweithwyr, gan gynnal didwylledd gweithredol Ofcom ar yr un pryd.

Mae'r tudalennau nesaf yn egluro sut mae Ofcom yn mynd ati i lywodraethu, gan gynnwys sut mae'r

Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd yn gweithredu.

Ym mis Mawrth/Ebrill 2020 fe wnaethom drefnu arfarniad allanol i'w gynnal ar effeithiolrwydd y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd. Canfu'r adolygiad fod trefniadau llywodraethu Ofcom yn parhau i weithio'n dda, er ein bod ni fel Bwrdd yn credu y gellid treulio mwy o amser ar faterion strategaeth a thymor hwy. Rydym yn gweithio i newid hyn drwy gynllunio agenda ein Bwrdd a rhaglenni gwaith strategol. Y prif flaenoriaethau a nodwyd ar gyfer y Bwrdd dros y cyfnod o 12 mis yn dilyn yr adolygiad oedd ar-lein a digidol; ein pobl; ffocws tymor hwy; newid i gyfnod Cadeirydd newydd ar Fwrdd Ofcom; strwythur sefydliadol; a sefydlu mwy o hygyrdded. Mae cyfres o gamau gweithredu'n cael eu cymryd ar draws yr holl feysydd hyn a byddwn yn parhau i fesur gwelliannau a newidiadau yn y meysydd hyn o flwyddyn i flwyddyn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Adroddiad Llywodraethu ar dudalennau 75 a 78.

Rydym ni wedi ceisio bod hyd yn oed yn fwy ymatebol yn y ffordd rydyn ni'n gweithio gyda'r darparwyr cyfathrebiadau rydyn ni'n eu rheoleiddio. Fe wnaethom drefnu adolygiad rhanddeiliaid annibynnol i'n galluogi i farnu ein heffeithiolrwydd fel rheoleiddiwr o safbwynt rhanddeiliaid allanol allweddol. Rydym wedi ymateb i argymhellion a wnaed yn yr adolygiad hwnnw i wella ein dull rheoleiddio. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr Adroddiad Llywodraethu.

Rydym hefyd wedi adolygu a gwella ein Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol; rydym bob amser yn

chwilio am ffyrdd o wella ein harferion fel ein bod yn parhau ar flaen y gad o ran arferion gorau ym maes llywodraethu ac yn gallu rhagweld heriau newydd yn y sectorau cyfathrebu rydym yn eu rheoleiddio. Y rhai ar y brig sy'n gosod y naws, ac fel Bwrdd, ni sy'n pennu cyfeiriad strategol a'r agwedd at risg, ac yn goruchwyllo'r modd mae'r Weithrediaeth yn rhedeg y busnes o ddydd i ddydd. Fel Cadeirydd dros dro Ofcom, fy ngwaith i yw sicrhau bod digon o amser ar gael yng nghyfarfodydd y Bwrdd i gael trafodaethau agored a heriol ar faterion o bwys ac, yn benodol, ar ein blaenoriaethau strategol.

Mae ein trefniadau llywodraethu corfforaethol yn parhau i gael eu llywio gan God Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig (y "Cod") mewn perthynas ag arferion busnes a chorfforaethol, materion sy'n cael eu cadw i'r Bwrdd, ein Fframwaith Awdurdodau Ariannol a chylch gorchwyl pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd. Er nad yw Ofcom yn rhwym wrth y Cod, rydym wedi edrych i weld a all unrhyw un o'r egwyddorion a'r darpariaethau yn y Cod gyfrannu at ein dull gweithredu, fel mater o arfer gorau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cryfhau cyfansoddiad gweithredol y Bwrdd drwy benodi Lindsey Fussell, Cyfarwyddwr Grŵp, Rhwydwaith a Chyfathrebu. Fe wnaethom ffarwelio hefyd â'r Arglwydd Terry Burns, Cadeirydd Bwrdd Ofcom, ddiwedd 2020. Rydym yn ddiolchgar iawn i Terry am bopeth a wnaeth wrth ddatblygu dull gweithredu blaengar Ofcom ac am ei arweinyddiaeth ragorol, yn strategol ac yn bersonol. Mae Llywodraeth y DU yn recriwtio Cadeirydd newydd. Ymddiswyddodd Tim Suter o'r Bwrdd ym mis Mai 2021. Fel Pennaeth Polisi Darlledu yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, roedd Tim yn gyfrifol am Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a chreu Ofcom. Gwasanaethodd fel Partner, Cynnwys a Safonau Ofcom tan 2008. Ymunodd â Bwrdd Ofcom fel Cyfarwyddwr Anweithredol yn 2017 a chafodd ei benodi'n Gadeirydd y Bwrdd Cynnwys. Hoffem ddiolch o galon i Tim am ei gyfraniad sylweddol a gwerthfawr i Ofcom. Rydym yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i benodi Aelod newydd o'r Bwrdd ar ran Gogledd Iwerddon. Bob blwyddyn, mae ein Pwyllgor Pobl yn adolygu strwythur, maint a chyfansoddiad (gan gynnwys sgiliau, gwybodaeth, profiad ac amrywiaeth) ein Bwrdd, er mwyn i ni allu gwneud argymhellion am y gwelliannau y gellid eu gwneud i'r Bwrdd. Mae hyn yn bwysig, gan gofio ein dyletswyddau ar-lein newydd.

Ymunodd y Fonesig Melanie Dawes â ni fel ein Prif Weithredwr ym mis Mawrth 2020. Mae hi wedi dechrau'n wych yn y rôl hon, er ei bod yn anodd arwain sefydliad sydd â'i weithwyr yn gweithio gartref yn bennaf. Mae hi wedi dod ag egni a phersbectif newydd ac, ochr yn ochr â'r Uwch Dîm Rheoli, mae hi wedi arwain y sefydliad yn fedrus drwy gyfnod o newid sylweddol.

Roedd 2020/21 yn flwyddyn bwysig a heriol i Ofcom ac i Fwrdd Ofcom. Er gwaethaf effaith pandemig COVID-19, rwy'n falch o'r cynnydd rydym wedi ei wneud i gyflawni nifer o'n prif amcanion, gan gynnwys y canlynol:

- **Gorffennaf 2020** – cyhoeddi canllawiau arfer gorau ar gyfer darparwyr ffôn, band eang a theledu drwy dalu i sicrhau bod defnyddwyr bregus yn cael eu trin yn deg.
- **Awst 2020** – cadarnhad o gynlluniau i fwrw ymlaen ag Arwerthiant Sbectrwm 700 MHz a 3.6–3.8 GHz yn gynnar yn 2021.
- **Rhagfyr 2020** – cyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, "Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr" a lansio ymgynghoriad ar gynigion ynghylch sut gall darlledu gwasanaeth cyhoeddus aros yn berthnasol a chyrraedd pawb yn y dyfodol.
- **Chwefror 2021** – cymeradwyo rhaglen drawsnewid Un Ofcom a fydd yn cyflawni gweledigaeth newydd Ofcom, ac a fydd yn trawsnewid ac yn cryfhau Ofcom yn y blynyddoedd i ddod, o ystyried ehangu ein rôl a'r newidiadau yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio.
- **Mawrth 2021** – cyhoeddi'r datganiad terfynol ar yr Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Cyfanwerthol 2021–2026, gan weithredu ein strategaeth i hwyluso'r gwaith o gyflwyno ffeibr yn eang a throsglwyddo'n ddidrafferth o'r hen rwydwaith copr.

Trwy gydol y flwyddyn, rydym hefyd wedi helpu'r sector cyfathrebiadau i baratoi at Brexit.

Maggie Carver

Cadeirydd Dros Dro Bwrdd Ofcom

Datganiad Llywodraethu

Mae'r Adroddiad Llywodraethu hwn yn crynhoi trefniadau llywodraethu Ofcom, gan gynnwys cyfansoddiad ein Bwrdd, sut mae ein fframwaith llywodraethu'n gweithredu'n ymarferol (gan gynnwys ein strwythur llywodraethu a rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd) a'n prif feysydd ffocws yn 2020/21. Mae hefyd yn nodi sut rydym yn sicrhau bod ein Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ac yn crynhoi canlyniad ein Hadolygiad diwethaf o Effeithiolrwydd y Bwrdd a hefyd ein hadolygiad o safbwyntiau rhanddeiliaid am ein gwaith. Mae sut rydym yn rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau a phrif swyddogaethau ein Pwyllgorau Bwrdd a'n Byrddau Statudol wedi eu nodi tua diwedd yr Adroddiad.

Ein Trefn Lywodraethu

Fel corfforaeth statudol, mae prif ofynion cydymffurfio Ofcom o ran llywodraethu yn cael eu rheoli gan y ddeddfwriaeth berthnasol (gan gynnwys Deddf Ofcom (2002), y Ddeddf Cyfathrebiadau (2003), y Ddeddf Gwasanaethau Post (2011), Deddf yr Economi Ddigidol (2010), Deddf yr Economi Ddigidol (2017) ac unrhyw ddeddfwriaethau atodol eraill sy'n berthnasol neu Orchmynion ynddynt) sy'n pennu materion fel dibenion y sefydliad a phenodi ein Haelodau. Mae Ofcom hefyd yn rhwym wrth y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus⁷. Mae ein dull llywodraethu corfforaethol cyffredinol yn seiliedig ar God Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig 2018 ("Cod y Deyrnas Unedig") a'i ganllawiau cysylltiedig⁸, yn amodol ar lle ystyrir bod rhai egwyddorion yn anghymesur neu'n llai perthnasol yn achos Ofcom a/neu mae gofynion eraill yn cael eu gosod ar Ofcom drwy statud.

Sut mae cod llywodraethu corfforaethol y Deyrnas Unedig 2018 yn cyfrannu at ein dull gweithredu

Dyma enghreifftiau o sut mae rhai o egwyddorion Cod y Deyrnas Unedig wedi cyfrannu at ein dull gweithredu:

- **Arweinyddiaeth a Diben y Bwrdd** – mae gan ein Bwrdd ddiben, strategaeth a gwerthoedd clir, ac mae'n gallu bodloni ei hun bod y rhain a'i diwylliant yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae ein Bwrdd, sy'n cynnwys mwyafrif o Aelodau Anweithredol, yn cynnig syniadau a her wrthrychol annibynnol ar gyfer ein nodau strategol.
- **Rhannu Cyfrifoldebau** – mae Cadeirydd ein Bwrdd yn darparu arweinyddiaeth strategol i'r Bwrdd. Ystyrir bod ein Haelodau Anweithredol yn annibynnol ar y tîm rheoli ac yn rhydd rhag unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai amharu i raddau helaeth arnynt wrth iddynt wneud penderfyniadau. Ond, os bydd

amgylchiadau arbennig yn codi, cymerir camau priodol i sicrhau eu bod yn dal yn annibynnol.

- **Cyfansoddiad, Olyniaeth a Gwerthuso** – dilyniir proses drylwyr a thryloyw wrth benodi i'r Bwrdd, gyda'n Cadeirydd a'n Haelodau Anweithredol yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Wrth i Aelodau newydd gael eu penodi i'r Bwrdd, byddwn yn mynd ati i geisio gwella amrywiaeth ein Bwrdd. Mae ein Pwyllgor Pobl yn ceisio sicrhau bod gennym gynlluniau olyniaeth effeithiol, a'n bod yn nodi ac yn rheoli ein llif o dalentau yn briodol.
- **Archwilio Risg a Rheolaeth Fewnol** – mae ein Pwyllgor Risg ac Archwilio yn goruchwyllo'r strwythurau a'r prosesau sy'n rheoli ein risgiau, ac yn sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith.
- **Taliadau** – mae ein Hadroddiad Taliadau yn egluro sut y sicrhawn fod ein harferion a'n polisiau taliadau yn cefnogi ein nodau strategol, a bod ein taliadau i'n cydweithwyr yn hybu llwyddiant Ofcom.

7. Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus yn berthnasol i bob aelod anweithredol ar Fyrdau adrannau llywodraeth y DU, adrannau anweinidogol, asiantaethau gweithredol, cyrff cyhoeddus anadrannol a chorfforaethau cyhoeddus cenedlaethol.

8. Mae Cod y Deyrnas Unedig yn amlinellu'r rheolau llywodraethu sy'n berthnasol i bob cwmni yn y Deyrnas Unedig sydd wedi eu rhestru yn y categorïau Premiwm o gyfranddaliadau cyhoeddus cenedlaethol.

Ein Bwrdd: Gweithgareddau a Diben

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol ac archwaeth risg y sefydliad, a dyma'r corff gwneud penderfyniadau terfynol ar gyfer materion sydd ag arwyddocâd strategol, rheoleiddiol neu enw da i Ofcom. Mae llywodraethu effeithiol yn hwyluso cyflawni diben a strategaeth Ofcom, yn enwedig mewn cyfnod heriol. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo, drwy ei fframwaith llywodraethu, i wneud penderfyniadau priodol ar y lefel gywir yn Ofcom gan sicrhau atebolrwydd, gwerth hirdymor a chyflawni ein pwrpas o hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion. Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu a gweithredu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynnwys datganiad o egwyddorion llywodraethu sy'n llywio gweithgareddau'r Bwrdd.

Mae'r Fframwaith yn edrych ar gyfrifoldebau allweddol y Bwrdd a'r materion sydd wedi cael eu cadw i'r Bwrdd benderfynu arnynt, gan gynnwys y canlynol:

- cymeradwyo cynllun blynyddol, amcanion tymor hir a fframwaith polisi strategol cyffredinol Ofcom;
- cymeradwyo cyllideb flynyddol, polisi ariannol cyffredinol a Fframwaith Awdurdodau Ariannol Ofcom;
- cymeradwyo cyfrifon ac adroddiad blynyddol Ofcom;
- rheoli risg, rheolaethau mewnol a chydymffurfiad; a
- cynnal adolygiad ffurfiol rheolaidd o berfformiad y Bwrdd ei hun, a pherfformiad pwyllgorau'r Bwrdd ac Aelodau unigol.

Penodiadau i'r Bwrdd

Mae Cadeirydd a mwyafrif Aelodau Anweithredol y Bwrdd yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, am gyfnod o bedair blynedd. Caiff Aelod yr Alban ac Aelod Cymru eu penodi gan Weinidogion yr Alban a Llywodraeth Cymru yn y drefn honno, ar ôl ymgynghori ag Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Caiff Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd eu penodi gan y Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol o Fwrdd Ofcom, ac mae'n rhaid cael sêl bendith yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth benodi'r Prif Weithredwr. Rydym yn cydnabod nad yw cydbwysedd presennol y Bwrdd yn cynrychioli poblogaeth y Deyrnas Unedig.

Rydym yn gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Llywodraethau datganoledig i sicrhau bod ein dulliau recriwtio yn y dyfodol yn cyd-fynd â'n hymrwymiad strategol i fod yn sefydliad amrywiol a chynhwysol. Bydd cael Bwrdd sy'n cynrychioli gwahanol safbwyntiau ein cymdeithas yn ein galluogi i wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer holl ddefnyddwyr a dinasyddion y Deyrnas Unedig. Mae ymdrechion yn mynd rhagddynt i ategu ymhellach yr amrywiaeth bresennol o sgiliau sydd ar y Bwrdd i ystyried ein dyletswyddau rheoleiddio newydd. Mae cynyddu amrywiaeth y Bwrdd yn parhau i fod yn flaenllaw yn ein meddyliau yn ystod y gwaith recriwtio hwn.

Rolau'r Bwrdd

Y Cadeirydd

Cadeirydd y Bwrdd sy'n gyfrifol am gadeirio a rhoi arweiniad i'r Bwrdd. Mae'r cyfrifoldebau eraill yn cynnwys:

- arwain y Bwrdd i lunio strategaeth Ofcom ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau statudol;
- annog safonau uchel o ran priodoldeb;
- darparu asesiad o berfformiad Aelodau unigol o'r Bwrdd;
- sicrhau bod Ofcom yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, a bod cofnodion cyfarfodydd yn cofnodi penderfyniadau yn gywir; a
- chynrychioli barn Ofcom yn allanol.

Y Prif Weithredwr

Mae'r cyfrifoldeb dros redeg Ofcom o ddydd i ddydd wedi cael ei drosglwyddo gan y Bwrdd i'r Prif Weithredwr a'r Weithrediaeth, sef yr Uwch Dîm Rheoli, sy'n cynnwys Prif Weithredwr Ofcom, Cyfarwyddwyr Grŵp a'r Cwnsler Cyffredinol. Mae'r Uwch Dîm Rheoli, drwy'r Bwrdd Rheoli Polisi, yn sicrhau bod y strategaethau, y polisiau a'r ymddygiad a bennir ar lefel Bwrdd yn cael eu cyfleu a'u rhoi ar waith yn effeithiol ar draws Ofcom.

Mae Ysgrifennydd Parhaol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a

Chwaraeon wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu Ofcom. Mae'r penodiad hwn yn cynnwys dyletswyddau i fod yn gyfrifol am reoleidd-dra, priodoldeb, gwerth am arian a rheolaeth ariannol dda, a diogelu arian cyhoeddus. Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldebau penodol dros sicrhau y cydymffurfir â thelerau'r Ddogfen Fframwaith gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Rhaid iddi hefyd sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu priodol yn cael eu cadw, a rhaid iddi lofnodi'r cyfrifon.

Fel Aelod o'r Bwrdd, mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau nad yw ei chyfrifoldebau o ran atebolrwydd yn gwrthdaro â'i chyfrifoldebau fel Aelod Bwrdd. Gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau Seneddol eraill alw ar y Prif Weithredwr i roi tystiolaeth am y modd y mae'n cyflawni ei dyletswyddau.

Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd

Mae gan ein Bwrdd fwyafrif o Aelodau Anweithredol, ac mae gan bob un ohonynt brofiad a sgiliau helaeth i'w cynnig i'r Bwrdd. Mae hyn yn sicrhau bod cydbwysedd da o sgiliau ar gael i Ofcom wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau, ac wrth bennu'r polisi a'r cyfeiriad strategol – gan gynnwys y fframwaith adnoddau i weithredu Ofcom.

Aelodau'r Bwrdd

Maggie Carver CBE

Cadeirydd Dros Dro ac
Aelod Anweithredol o'r Bwrdd



Penodiad

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom fel Dirprwy Gadeirydd ar 30 Medi 2018 ac fel Cadeirydd dros dro o 1 Ionawr 2021.

Cyfnod 2 flynedd **Aelodaeth** R P

Mae Maggie yn Gadeirydd y Racecourse Association ac yn Gyfarwyddwr Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain. Mae ganddi brofiad helaeth fel cyfarwyddwr anweithredol ar fyrddau 18 o gwmnïau cyhoeddus, preifat a dim-er-elw. Mae'r rhain yn cynnwys cadeirio'r darparwr newyddion a rhaglenni ITN, y gweithredwr aml-blecs SDN, a Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain, yn ogystal â bod yn gyfarwyddwr ar fyrddau Channel 5 Television, RDF Media plc, Satellite Information Services, darlledwr y lluoedd arfog BFBS, a Dyfrffyrdd Prydain. Gyrfa weithredol Maggie oedd bancio buddsoddiadau, cynhyrchu teledu, darlledu a manwerthu.

Dr Angela Dean

Aelod Anweithredol o'r Bwrdd
a Chadeirydd Pwyllgor Risg
ac Archwilio'r Bwrdd



Penodiad

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 30 Medi 2018

Cyfnod 2 flynedd **Aelodaeth** R P

Ar hyn o bryd, mae Angela yn is-gadeirydd Ymddiriedolaeth International House, yn aelod o Gyngor Coleg y Brenin Llundain ac yn ymddiriedolwr ar gyfer Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Efrog. Mae'n Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel Penodiadau Cyhoeddus. Roedd hi'n arfer bod yn Rheolwr Gyfarwyddwr Morgan Stanley lle'r oedd yn arwain ei dîm ymchwil technoleg byd-eang. Roedd hi'n aelod o Weithgor Cytundeb Byd-eang y Cenhedloedd Unedig ar gyfer materion yng nghyswllt cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ym maes buddsoddi, yn un o ymddiriedolwyr Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac yn aelod o'r Cyngor Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.

Bob Downes

Aelod Anweithredol o'r Bwrdd
(Aelod Bwrdd ar ran yr Alban)



Penodiad

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar
1 Chwefror 2018

Cyfnod 3 blynedd **Aelodaeth** P C

Bob yw cadeirydd presennol Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban a'r Bwrdd Trosolwg Annibynnol yn Nulyn. Mae'n fuddsoddwr ac yn gyfarwyddwr annibynnol gyda busnesau technoleg bach ac mae wedi arwain y gwaith o sefydlu CENSIS, canolfan arloesi ar gyfer synwryddion a systemau dychmygu. Roedd Bob yn un o ymddiriedolwyr y Mackintosh Campus Renewal Appeal ar gyfer Ysgol Gelf Glasgow, ac ar hyn o bryd mae'n gadeirydd Cryptic, sef tŷ cynrychiadau celf rhyngwladol. Roedd yn arfer bod yn uwch swyddog gweithredol gyda BT Group.

Yn ychwanegol at ei rôl fel Aelod Bwrdd ar ran yr Alban, mae Bob yn sicrhau bod y nodweddion a'r heriau arbennig hynny sy'n unigryw i Ogledd Iwerddon, yn cael sylw a phwyslais priodol nes penodir Aelod Bwrdd ar ran Gogledd Iwerddon.

David Jones

Aelod Anweithredol o'r Bwrdd
(Aelod Bwrdd ar ran Cymru)



Penodiad

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom Ar 8 Ebrill 2019

Cyfnod 2 flynedd **Aelodaeth** R P

Ar hyn o bryd, mae David yn aelod anweithredol o Fyrddau Ofwat a Chymwysterau Cymru. Ef oedd sylfaenydd Travelink Systems Limited tan 1995 a Chadeirydd Gweithredol TigerBay Software rhwng 2011 a 2015. Mae'n ddarlithydd gwadd achlysurol ar Seiberddiogelwch a Digidol ym Mhrifysgol Caerdydd.

Ben Verwaayen

Aelod Anweithredol o'r Bwrdd
a Chadeirydd Pwyllgor
Pobl y Bwrdd

Penodiad

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 1 Ionawr 2016, Fe'i hail-benodwyd ar 1 Ionawr 2020

Cyfnod 5 mlynedd Aelodaeth **P**

Ar hyn o bryd mae Ben yn Bartner Cyffredinol gyda chronfa fuddsoddi Keen Venture Partners, ac mae'n aelod o sawl Bwrdd, gan gynnwys Akami yn yr Unol Daleithiau a Renewi Ltd, cwmni blaenllaw yn yr economi gylchol yn y BeNeLux ac yn y Deyrnas Unedig. Mae'n gyn-Brif Weithredwr BT, KPN yn yr Iseldiroedd ac Alcatel Lucent. Mae hefyd wedi bod yn Gadeirydd Endemol ac yn Aelod o Fwrdd AkzoNobel yn yr Iseldiroedd a Bharti Airtel, gweithredwr gwasanaethau symudol, yn India.



Graham Mather, CBE

Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

Penodiad

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 1 Mehefin 2014; Fe'i hail-benodwyd ar 1 Mehefin 2018

Cyfnod 7 mlynedd Aelodaeth **P**

Roedd Graham yn aelod o Banel Defnyddwyr Ofcom rhwng 2004 a 2008. Bu'n aelod o'r Comisiwn Monopolïau a Chydsoddiadau a, rhwng 2000 a 2012, roedd yn aelod o'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth, y corff sy'n delio ag apeliadau gan reoleiddwyr y Deyrnas Unedig. Mae Graham ar hyn o bryd yn Llywydd y Fforwm Polisi Ewropeaidd ac yn Gadeirydd ei Grŵp Arferion Gorau Rheoleiddio. Mae'n aelod o Fwrdd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd.



Tim Suter

Aelod Anweithredol o'r Bwrdd
a Chadeirydd Pwyllgor Etholiadau'r
Bwrdd a'r Bwrdd Cynnwys

Penodiad

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ar 2 Hydref 2017 a gadawodd Ofcom ar 21 Mai 2021

Cyfnod 3 blynedd Aelodaeth **C** **E** **P**

Roedd Tim yn gynhyrchydd, yn olygydd ac yn uwch reolwr gyda'r BBC ac yn Bennaeth Polisi Darlledu yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn 2002, yn gyfrifol am Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a chreu Ofcom. Ymunodd ag Ofcom ar y dechrau a gadawodd i sefydlu Perspective Associates, i gynghori ar bolisi a rheoleiddio'r cyfryngau. Mae wedi bod yn gynghorydd arbennig i Bwyllgor Cyfathrebiadau Tŷ'r Arglwyddi, ac mae'n gadeirydd panel o arbenigwyr sy'n cynghori Cyngor Ewrop. Tim yw cadeirydd Bwrdd Llywio'r Swyddfa Eiddo Deallusol ac mae'n un o'r partneriaid a sefydlodd Communications Chambers.



Yr Arglwydd Burns, GCB

Cyn Gadeirydd ac Aelod
Anweithredol o'r Bwrdd
tan fis Rhagfyr 2020

Penodiad

Penodwyd yn Gadeirydd Bwrdd Ofcom ar 1 Ionawr yn 2018 a gadawodd Ofcom ar 31 Rhagfyr 2020

Cyfnod 3 blynedd Aelodaeth **P**

Mae'r Arglwydd Burns yn Uwch Gynghorydd i Banco Santander SA, yn Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth Artistiaid Clasurol Ifanc ac yn Is-gadeirydd Hay Festival of Literature and Arts Ltd. Hefyd, mae'r Arglwydd Burns yn Gadeirydd Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru Llywodraeth Cymru, yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Canolbarth Cymru ac yn Ddirprwy Lywydd yr Academi Gerdd Frenhinol. Roedd yn arfer bod yn Brif Gynghorydd Economaidd ac yn Ysgrifennydd Parhaol i Drysorlys EM, yn Gadeirydd Santander UK plc, yn Gadeirydd Channel Four Television, yn Gadeirydd Marks and Spencer plc ac yn Gadeirydd Dŵr Cymru. Roedd hefyd yn Gynghorydd Annibynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar yr Adolygiad o Siarter y BBC.



Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd

Y Fonesig Melanie Dawes DCB

Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr

Penodiad

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Mawrth 2020

Cyfnod 1 Flwyddyn

Penodwyd y Fonesig Melanie yn Brif Weithredwr ym mis Mawrth 2020. Cyn ymuno ag Ofcom, Melanie oedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Bu'n ysgwyddo rolau uwch ar draws y Gwasanaeth Sifil, gan weithio mewn partneriaeth ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Dechreuodd ar ei gyrfa fel economegydd, a threuliodd 14 mlynedd yn y Trysorlys, lle bu'n Gyfarwyddwr Materion Ewropeaidd. Roedd yn Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Ysgrifenyddiaeth Materion Economaidd a Domestig yn Swyddfa'r Cabinet rhwng 2011 a 2015. Mae hi wedi ysgwyddo nifer o rolau anweithredol, gan gynnwys gyda'r corff defnyddwyr Which?, ac mae'n un o ymddiriedolwyr y Patchwork Foundation sy'n annog pobl ifanc, sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, i gymryd rhan mewn democratiaeth.



Lindsey Fussell

Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a Chyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Rhwydweithiau a Chyfathrebu

Penodiad

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Rhagfyr 2020

Cyfnod <1 Flwyddyn

Ymunodd Lindsey Fussell ag Ofcom yn 2016 ac mae'n Gyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Rhwydweithiau a Chyfathrebu, gan arwain gwaith Ofcom yn y sectorau telegyfathrebu, post a rhwydwaith, lle rydym yn ceisio diogelu buddiannau defnyddwyr a hyrwyddo cystadleuaeth. Cyn ymuno ag Ofcom, bu Lindsey yn gweithio mewn amrywiaeth o uwch swyddi arweinyddiaeth yn y gwasanaeth sifil. Roedd yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus yn Nhrysorlys EM, lle bu'n arwain ar ddatganioli, addysg a diwylliant, amddiffyn a chyfiawnder troseddol, ac roedd yn gyfrifol am gyflawni agweddau allweddol ar Adolygiadau Gwariant 2013 a 2015. Mae Lindsey hefyd yn aelod llefyd o Gyngor Llywodraethu Prifysgol Caerefrog.



Kevin Bakhurst

Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a Chyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Darlledu a Chynnwys Ar-lein

Penodiad

Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Ebrill 2020

Cyfnod 1 Flwyddyn **Aelodaeth** **C** **E**

Ymunodd Kevin ag Ofcom ym mis Hydref 2016 fel Cyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Polisi Cyfryngau a Chynnwys, ac mae'n goruchwyllo ein polisiau a'n rheoliadau ar-lein a darlledu. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd Kevin yn Rheolwr Gyfarwyddwr, Newyddion a Materion Cyfoes, yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, ac wedyn yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro gyda darlledwr cenedlaethol Iwerddon, RTÉ. Ar ôl graddio o Brifysgol Caergrawnt, bu Kevin yn gweithio yn Price Waterhouse cyn ymuno â'r BBC fel ymchwilydd yn 1989. Aeth ymlaen i olygu'r rhaglen Ten O'Clock News, gan ddod yn Ddirprwy Bennaeth Ystafell Newyddion y BBC ac yn Rheolydd sianel BBC News a BBC News at One. Yn ystod ei gyfnod yn golygu bwletin newyddion y BBC, enillodd y rhaglenni wobrau gan sefydliadau gan gynnwys BAFTA a'r Gymdeithas Deledu Frenhinol. Y tu allan i'r gwaith, roedd Kevin yn Ynad rhwng 2000 a 2006.



Jonathan Oxley

Cyn Aelod o'r Bwrdd Gweithredol a Phrif Weithredwr Dros Dro a Chyfarwyddwr Grŵp

Penodiad


Fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Ionawr 2015 a gadawodd Ofcom ym mis Mehefin 2020

Cyfnod 5 mlynedd

Ymunodd Jonathan ag Ofcom fel Cyfarwyddwr Grŵp, Cystadleuaeth ym mis Tachwedd 2014 a chafodd ei benodi'n Brif Weithredwr Dros Dro rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Mawrth 2020. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd yn bartner ym mhractis Strategaeth ac Economeg PwC, yn arbenigo mewn telathrebu, y cyfryngau a thechnoleg. Jonathan yw Prif Weithredwr Rhwydwaith Rheoleiddwyr y Deyrnas Unedig hefyd, ac mae'n dal y swydd honno ers mis Rhagfyr 2018.



Cyfnod yn y swydd



Gweithgareddau'r Bwrdd

Caiff gweithgareddau craidd y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd eu cofnodi a'u cynllunio drwy ein rhaglen waith a'n blaen-agendâu. Mae agenda flynyddol y Bwrdd yn dilyn y meysydd blaenoriaeth strategol y cytunwyd arnynt yn ein Cynllun Gwaith Blynnyddol ynghyd â'r meysydd ychwanegol sydd eu hangen i gyflawni prif gyfrifoldebau'r Bwrdd. Roedd y pandemig yn golygu bod angen i'r Bwrdd ystyried sut mae cydbwysu penderfyniadau mewn ffordd a oedd yn parhau i gyflawni ein prif bwrpas, gan ystyried yr heriau roedd ein rhanddeiliaid, ein defnyddwyr, ein dinasyddion a'n cydweithwyr yn eu hwynebu.

Mae'r siart a ganlyn yn dangos sut mae'r Bwrdd wedi neilltuo ei agenda yn ystod y cyfnod adrodd.

	Diweddariadau gan y Cadeirydd, Cyfarwyddwyr Anweithredol a'r Prif Weithredwr (gan gynnwys materion ar draws y categorïau eraill)	26%
	Cefnogi darlledu yn y DU	13%
	Parhau i arloesi o ran rheoleiddio a data i helpu pobl a busnesau	13%
	Llywodraethu Corfforaethol	8%
	Sicrhau bod cyfathrebiadau ar-lein yn gweithio i bobl ac i fusnesau	8%
	Rheoleiddio, Cyllid, Risg a Chyfreithiol	4%
	Darpariaeth band eang a symudol gwell – ble bynnag yr ydych	4%
	Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol	4%
	Tegwch i gwsmeriaid	3%
	Sicrhau rhwydweithiau cryf a diogel	2%
	Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiad	2%
	Cefnogaeth trwy'r gyfnod pontio o ymadael â'r UE, a chysylltiadau rhyngwladol parhaus	1%
	Arall (gan gynnwys y pandemig Covid-19, ymchwil y farchnad a briffiau)	12%

Gwelir isod enghreifftiau o rai o'r gweithgareddau mae'r Bwrdd wedi eu cyflawni ym mhob un o'r elfennau hyn yn ystod y cyfnod adrodd.

Llywodraethu Corfforaethol

- Adolygu a diweddarau ein Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol
- Wedi cymeradwyo a monitro'r gwaith sydd wedi ei gyflawni o ran Cyllideb a Chynllun Ofcom
- Ystyried argymhellion gan randdeiliaid ar gyfer cryfhau dull rheoleiddio Ofcom
- Wedi gwerthuso effeithiolrwydd y Bwrdd, y Pwyllgorau, ein Haelodau Bwrdd a'r Cadeirydd

Rheoleiddio, Cyllid, Risg a Chyfreithiol

- Wedi adolygu Risgiau Strategol Ofcom bob chwarter
- Wedi adolygu a chymeradwyo Datganiadau Agwedd at Risg Ofcom
- Wedi cymeradwyo Cyllideb Ofcom ar gyfer 2021/22.

Gwell Darpariaeth Symudol a Band Eang

- Wedi trafod a chymeradwyo cynigion yn yr Adolygiad o Fand Eang Telathrebu Sefydlog Cyfanwerthol
- Wedi cymeradwyo cynlluniau wedi eu diweddarau ar arwerthu sbectrwm i ddiwallu'r galw cynyddol ac i gefnogi'r gwaith o gyflwyno 5G (bandiau sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz)
- Cymeradwywyd y dull gweithredu ar gyfer symud y Diwydiant i wasanaethau IP.

Cefnogi Darlledu yn y Deyrnas Unedig

- Wedi adolygu'r Adolygiad Blynnyddol o Berfformiad y BBC
- Adolygu Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau Corfforaeth Channel 4
- Cymeradwywyd yr ymgynghoriad ar ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus yn y cyfryngau yn y Deyrnas Unedig – "Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr" sy'n edrych ar ddyfodol gwasanaethau Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus a'u cynladwyedd, wrth ystyried bod technegau digidol yn cael eu defnyddio fwy a mwy

Sicrhau bod Cyfathrebiadau Ar-lein yn gweithio i bobl ac i fusnesau

- Goruchwyllo Rhaglen Waith Ar-lein Ofcom
- Wedi adolygu'r gwaith paratoi ar gyfer rheoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideo, a chyfrifoldebau ehangach posib o ran niwed ar-lein
- Wedi adolygu camwybodaeth a gwybodaeth gamarweiniol ar-lein a dulliau o fyfyrto ar gynnwys.

Tegwch i Gwsmeriaid

- Adolygu'r gwaith o weithredu'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol yng nghyswllt band eang
- Adolygu cynigion i sicrhau bod cwsmeriaid gwasanaethau band eang a symudol yn cael eu trin yn deg, a'i gwneud yn haws iddyn nhw newid darparwr
- Wedi adolygu prosiectau tegwch eraill, gan gynnwys hysbysiadau diwedd contract a gwaharddiad ar gloi ffonau

Galluogi Rhwydweithiau Cryf a Diogel

- Wedi cymeradwyo a chael diweddariadau ar raglen waith Ofcom ar gyfer diogelwch a chadernid rhwydweithiau
- Wedi adolygu'r diweddariadau ar ddatblygiad y Fframwaith Diogelwch Telathrebu

Cynnal y Gwasanaeth Post Cyffredinol

- Parhau i ystyried strategaeth y Post Brenhinol ac, yn sgil hynny, cynladwyedd y rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol y post

Cefnogi Defnyddwyr a'r Diwydiant drwy Brexit

- Wedi mynd ati'n rheolaidd i adolygu cynlluniau Ofcom a rhanddeiliaid i baratoi ar gyfer Brexit
- Wedi cael adroddiadau rheolaidd am ymgysylltiad Ofcom â'r diwydiant, grwpiau defnyddwyr a rheoleiddwyr eraill er mwyn deall unrhyw bryderon neu risgiau sy'n dod i'r amlwg

Cynyddu Amrywiaeth a Chynhwysiad

- Wedi adolygu Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad Ofcom gan gynnwys gosod targedau amrywiaeth newydd ar gyfer y gweithlu a'r Bwrdd a'r Pwyllgorau
- Wedi adolygu adroddiadau ar amrywiaeth ym maes darlledu, a rhaglen ymgysylltu â'r diwydiant i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiad ar draws y maes darlledu

Parhau i arloesi ein dull rheoleiddio

- Wedi ystyried y dull o reoleiddio niwed ar-lein, gan ganolbwyntio'n gyntaf ar Lwyfannau Rhannu Fideo

Arall

- Ymateb i bandemig Covid-19 gan gynnwys diweddariadau i'r farchnad; yr effaith ar randdeiliaid a defnyddwyr ac ymateb Ofcom fel cyflogwr
- Wedi ystyried canlyniadau'r arolwg o gydweithwyr yn Ofcom.

Credwn fod diwylliant cadarnhaol, wedi ei ategu gan arweinyddiaeth effeithiol a 'thôn o'r brig' cyson, yn hanfodol i'n llwyddiant. O'r herwydd, mae diwylliant y sefydliad yn parhau i fod yn ffocws craidd i'r Bwrdd. Er bod y pandemig wedi cyfyngu ar y cyfle i gynnal cyfarfodydd 'yn bersonol' oherwydd y cyfyngiadau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn, roedd modd i ni barhau â'n rhaglen ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid drwy amrywiaeth o fformatau 'rhithiol'.

Gwybodaeth Reoli

Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael gwybodaeth reoli yn rheolaidd er mwyn gallu adolygu perfformiad a galluogrwydd Ofcom. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau perfformiad a chyllid rheolaidd, adolygu'r gwaith sydd wedi ei gyflawni o ran Cyllideb a Chynllun Ofcom, adolygu'r gwaith sydd wedi ei gyflawni o ran Strategaeth a Chynllun Gwaith Blynnyddol Ofcom, y gofrestr risgiau strategol, statws canlyniadau'r Adolygiad o Effeithiolrwydd Pwyllgorau'r Bwrdd / y Bwrdd, a data corfforaethol arall.

Gweinyddu'r Bwrdd

Ysgrifennydd y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am weinyddu'r Bwrdd, ac yn cadw ac yn diweddarau gweithdrefnau a pholisïau allweddol y Bwrdd, cofnodion corfforaethol a chylch gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd a materion sy'n cael eu cadw ar gyfer y Bwrdd. Ysgrifennydd y Gorfforaeth sydd hefyd yn cynnal ac yn adolygu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Ofcom (gan gynnwys Dirprwyaethau Awdurdod a chylch gorchwyl Pwyllgor y Bwrdd) ac, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Cyllid, y Fframwaith Awdurdodau Ariannol.

Cafodd y Bwrdd ddeg cyfarfod wedi eu trefnu yn ystod y flwyddyn ac un cyfarfod ad-hoc. Roedd cyfarfodydd a drefnwyd yn cael eu cynnal bob mis, heblaw am fis Awst a mis Ionawr. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal Sesiwn Strategaeth ym mis Hydref bob blwyddyn, lle mae strategaethau tymor canolig-tymor hir yn cael eu hystyried, a thrafodaethau'n cael eu cynnal ar faterion strategol a pherthnasol. Oherwydd y mesurau a'r cyfyngiadau a roddwyd ar waith mewn ymateb i'r pandemig, cafodd ein

cyfarfodydd Bwrdd a'n Sesiwn Strategaeth eu cynnal o bell yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae holl gyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd yn cael eu trefnu ymlaen llaw, gyda rhybudd blwyddyn galendr dreigl. Mae papurau'r Bwrdd sy'n berthnasol i agenda holl gyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael eu dosbarthu i Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, fel y bo'n briodol, tua wythnos cyn y cyfarfod drwy borth digidol diogel.

Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ystod Blwyddyn Ariannol 2020/21

	Bwrdd Ofcom
Nifer y cyfarfodydd	11
Yr Arglwydd Burns ¹ GCB	8
Maggie Carver	11
Dr Angela Dean	11
Bob Downes	11
Graham Mather CBE	11
Tim Suter	11
Ben Verwaayen	11
David Jones	11
Y Fonesig Melanie Dawes	11
Kevin Bakhurst	11
Lindsey Fussell ²	3
Jonathan Oxley ³	2

1. Gadawodd Yr Arglwydd Burns Ofcom ddiwedd mis Rhagfyr 2020. Roedd yn bresennol ym mhob un o wyth cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2020.

2. Ymunodd Lindsey â Bwrdd Ofcom ym mis Rhagfyr 2020.

3. Ymddiswyddodd Jonathan fel Aelod Gweithredol o'r Bwrdd ym mis Mai 2020.

Rhoi'r Wybodaeth Ddiweddaraf i'r Bwrdd

Mae Ofcom wedi ymrwymo'n llwyr i ddatblygiad parhaus ei Aelodau Bwrdd, ac rydym yn cydnabod yr angen i barhau i ddatblygu eu gwybodaeth er mwyn iddyn nhw allu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Mae pob Aelod Bwrdd a benodir o'r newydd yn cael rhaglen gynefino gynhwysfawr a phwrpasol wrth ymuno ag Ofcom, sy'n cynnwys sesiynau gyda phob aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ac uwch gyfarwyddwyr allweddol eraill. Bwriad y sesiynau hyn yw sicrhau bod yr Aelodau newydd yn ymgysylltu â Chynllun Gwaith Ofcom a'r heriau, y cyfleoedd a'r risgiau y gallai Ofcom eu hwynebu. Mae'r broses gynefino hefyd yn cynnwys dyletswyddau Aelodau a gweithdrefnau'r Bwrdd, prosesau rheoli mewnol, strategaethau a chynlluniau, mesurau a ddefnyddir i fonitro perfformiad a'r Polisi Rheoli Risg ynghyd â'r Archwiliad Mewnol ac Allanol.

Hefyd, mae'r Bwrdd yn cael cyflwyniadau a gweithdai rhyngweithiol ar wahanol agweddau ar Gynllun Gwaith Ofcom yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, ac mae'r rhain yn cael eu hwyluso gan gydweithwyr Ofcom gyda chynghorwyr proffesiynol a/neu randdeiliaid allanol.

Adolygiad o Berfformiad ac Effeithiolrwydd y Bwrdd

Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad effeithiolrwydd i werthuso perfformiad y Bwrdd, Pwyllgorau'r Bwrdd ac Aelodau unigol o'r Bwrdd. Ym mis Mawrth 2020, comisiynwyd adolygiad allanol.

Ystyriodd y Bwrdd ganlyniadau'r adolygiad a'i argymhellion yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill 2020. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu Ofcom yn parhau i weithio'n dda, er bod rhai ymatebwyr yn credu y gellid treulio mwy o amser ar faterion strategaeth a thymor hwy, fel y nodwyd yn y Trosolwg Llywodraethu gan y Cadeirydd Dros Dro ac yn adran nesaf yr Adroddiad Llywodraethu hwn. I fynd i'r afael â hyn, mae cyfres o 'ddrychau dwfn' i feysydd strategaeth yn ein sectorau wedi cael eu cynnwys yn ein gwaith blaengynllunio agendâu, gan alluogi'r Bwrdd i dreulio mwy o'i amser yn ystyried materion strategol a meddwl yn y tymor hwy.

Roedd rhai argymhellion ynghylch newid, a oedd yn ymwneud â'r elfennau a ganlyn:

- Ar-lein a Digidol – cynllunio ar gyfer ar-lein a siapio'r strategaeth sefydliadol, ehangu dealltwriaeth y Bwrdd o ddiwydiannau newydd seiberddiogelwch / cyfryngau cymdeithasol / adloniant ac edrych ar wasanaethau cyfryngau digidol;
- Pobl – canolbwyntio ar bobl a rheoli talent, sicrhau bod y Cynllun Pobl yn rhoi digon o ystyriaeth i gyfrifoldebau ar-lein a sefydlu hygyrdd gyda rhanddeiliaid ar draws yr amrywiaeth newydd o gyfrifoldebau Ofcom;
- Ffocws yn y tymor hwy – treulio mwy o amser ar feddwl yn y tymor hwy, materion strategol a sganio'r gorwel a chadw ffocws clir ar heriau yn y dyfodol a dealltwriaeth o ddatblygiadau rhyngwladol;
- Newid i gyfnod Cadeirydd newydd Bwrdd Ofcom wrth y llyw;
- Strwythur Sefydliadol – canolbwyntio ar ddatblygu sefydliadol a sicrhau bod gan Ofcom strwythur sefydliadol sy'n gallu ymateb i heriau yn y dyfodol;
- Sefydlu Hygyrdd – sicrhau ymddiriedaeth a hygyrdd, gan gynnwys hygyrdd gyda rhanddeiliaid Ofcom ar draws ei ystod newydd o gyfrifoldebau a chynyddu'r "gwerth brand" fel bod Ofcom yn parhau i fod yn rheoleiddiwr dibynadwy; a
- Meysydd Eraill – blaenoriaethu agenda'r Bwrdd; cynnal y cydbwysedd cywir rhwng goruchwyliaeth strategol ac adolygu gweithredol, cadw'r pwyslais ar safonau uchel a phroffesiynoldeb a pharhau i ymgysylltu a chael yr wybodaeth ddiweddaraf

Nododd y Bwrdd gyfres o gamau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion, a chafodd y Bwrdd gyfle i adolygu diweddariadau statws.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno, gan fod Cadeirydd parhaol newydd i'w benodi yn ddiweddarach yn 2021, y dylid cynnal adolygiad ysgafn wedi ei arwain yn fewnol ar gyfer blwyddyn adolygu 2021/22, er y bydd cwestiynau tebyg yn cael eu gofyn i'r rhai a ofynnwyd yn yr adolygiadau yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, er mwyn galluogi'r Bwrdd i olrhain gwelliannau a newidiadau o un flwyddyn i'r llall.

Adolygiad Rhanddeiliaid

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, roedd sefydlu hygyrdd gyda rhanddeiliaid Ofcom ar draws ei ystod newydd o gyfrifoldebau a chynyddu'r "gwerth brand" fel bod Ofcom yn parhau i fod yn rheoleiddwr dibynadwy yn un o'r blaenoriaethau a argymhellir ar gyfer newid sy'n deillio o'r Adolygiad blynyddol o Effeithiolrwydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn 2020. Cytunodd y Bwrdd i gynnal arolwg dienw wedi ei hwyluso'n allanol yn 2020 gyda thri deg o uwch rhanddeiliaid Ofcom, yn bennaf gan gwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom. Y nod oedd casglu safbwyntiau gan rhanddeiliaid allanol ynghylch sut gallai dull rheoleiddio Ofcom gael ei gryfhau ymhellach mewn ffordd strwythuredig a thryloyw. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn rhwng mis Mehefin a mis Awst 2020. Cyflwynwyd y canlyniadau mewn adroddiad dienw a oedd yn cydnabod cryfderau Ofcom ond a oedd hefyd yn nodi nifer o feysydd lle'r oedd rhanddeiliaid yn credu bod potensial i wella.

Rydym wedi mabwysiadu dull pragmataidd o lunio ein Cynllun Gwaith 2021/22 mewn ymateb i'r adborth hwn, gan flaenoriaethu nifer o faterion strategol trawsbynciol allweddol, sef cyflymder ac ystwythder ein gwaith; dyfnder ac ehangder ein gwybodaeth fasnachol a'n sgiliau digidol; a mynegi ein gweledigaeth ar gyfer canlyniadau defnyddwyr yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio.

Mae'r materion hyn wedi llywio ac wedi tanategu ein gwaith i gryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol i sicrhau ein bod ni mewn sefyllfa dda i gyflawni ein dyletswyddau yn awr ac yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod, yn sgil y defnydd cynyddol o wasanaethau ar-lein ac wrth i'n sectorau barhau i newid yn gyflym, mae angen i Ofcom gadw i fyny. Wrth i ni ysgwyddo dyletswyddau mewn meysydd newydd – fel rheoleiddio VSPs ac mewn perthynas â'r Bil Telathrebu (Diogelwch) – mae'n bwysig ein bod yn datblygu ein sgiliau digidol a masnachol ac yn datblygu arferion gweithio arloesol. Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- **Rhoi newid sylweddol ar waith o ran ein sgiliau a'n galluoedd mewn marchnadoedd digidol, technolegau ar-lein a newydd a dadansoddi data.** Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn cynyddu ein sgiliau a'n galluoedd digidol yn sylweddol, gan ganolbwyntio ar recriwtio arbenigwyr technoleg a data allanol, gan ddechrau drwy

recriwtio Prif Swyddog Technoleg newydd.

Byddwn yn cyflwyno rhaglen fwy o secondiadau a phartneriaethau, rhaglenni hyfforddi ar gyfer proffesiynau data a thechnoleg yn ogystal ag adnoddau a llwyfannau newydd.

- **Cryfhau ein dealltwriaeth o flaenoriaethau masnachol a chymhellion y busnesau a'r marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio nawr ac yn y dyfodol.** Wrth i'n sectorau dyfu a datblygu, byddwn yn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth fasnachol ddofn o'r marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio a gyrwyr masnachol llwyfannau ar-lein. Byddwn yn canolbwyntio ar y galluoedd hyn drwy recriwtio cydweithwyr sydd â phrofiad masnachol, gan ddefnyddio mwy o secondiadau, a buddsoddi'n sylweddol yn ein rhaglen ymchwil defnyddwyr a masnachol.
- **Parhau i arloesi o ran data a rheoleiddio i helpu pobl a busnesau.** Drwy ein rhaglen waith flaengar, gan gynnwys arloesi data, technolegau sy'n datblygu, strategaeth ac ymchwil, ac economeg, byddwn yn parhau i ddatblygu dealltwriaeth ddofn o arloesi yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio ac yn ystyried y goblygiadau i'n gwaith. Byddwn yn parhau â'n rhaglen i wneud yn siŵr bod cydweithwyr yn meddu ar y sgiliau, yr hyfforddiant a'r offer i gael gwybodaeth o setiau data cynyddol gymhleth, er mwyn sicrhau gwell canlyniadau polisi a gweithredol. Byddwn yn nodi prosiectau lle gallwn dreialu dulliau a thechnegau creadigol ac arloesol, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr heriau o gyflawni gwaith yn gyflym lle bo angen.

Wrth i'n sectorau wynebu heriau eang, byddwn hefyd yn ceisio ysgogi trafodaeth mewn meysydd newydd o ddiddordeb, drwy ein cyhoeddiadau economaidd a thechnoleg, fel ein hadroddiad ar Ddyfodol Technoleg a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021.

Yn ogystal, byddwn yn adeiladu ar ein partneriaethau newydd ac yn datblygu bartneriaethau newydd – yn domestig a rhyngwladol – gyda rheoleiddwyr, y byd academiaidd, llywodraethau, diwydiant a sefydliadau ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio er mwyn gwella ein dealltwriaeth a hyrwyddo manteision i ddefnyddwyr.

Gwrthdaro buddiannau

Mae'n hanfodol bod Ofcom yn cadw ei enw da o ran didueddrwydd, gonestrwydd a safonau proffesiynol uchel yn ei holl waith. Mae Ofcom yn rhwym wrth y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cydff Cyhoeddus ac, i gefnogi hyn, mae Ofcom wedi sefydlu Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch buddiannau Aelodau.

Mae Ofcom yn mynd ati, mewn ffordd synhwyrol a phriodol, i reoli gwrthdaro posib rhwng buddiannau sydd gan Aelodau Anweithredol, neu a all godi o bryd i'w gilydd, i sicrhau nad yw gweithredoedd Aelodau yn bwrw amheuaeth dros ddiueddrwydd a gwrthrychedd Ofcom. Rhaid i Aelodau hefyd sicrhau bod eu hymddygiad yn cyd-fynd â 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus'.


Mae Ofcom yn cadw cofrestr o fuddiannau'r Aelodau a chaiff ei diweddarau'n flynyddol. Mae hyn yn sicrhau bod gan Ofcom gofnod cyfredol o fuddiannau Aelodau, a chyhoeddir gwybodaeth berthnasol

ar wefan Ofcom. Rhwng datganiadau blynyddol, mae'n rhaid i Aelodau roi gwybod i Ysgrifennydd y Gorfforaeth pan fydd eu buddiannau'n newid er mwyn i'r Gofrestr gael ei newid yn unol â hynny a, phan fydd angen, er mwyn gallu codi unrhyw wrthdaro posib gyda'r Cadeirydd a/neu Fwrdd llawn Ofcom.

Pwyllgorau'r Bwrdd a Byrddau Statudol

Wrth arfer dyletswyddau Ofcom dan y ddeddfwriaeth berthnasol, mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai cyfrifoldebau i'r Rheolwyr Gweithredol yn Ofcom a rhai i Bwyllgorau'r Bwrdd, yn unol ag awdurdodaeth a chylch gorchwyl wedi ei ddiffinio'n glir.

Mae gan Ofcom hefyd nifer o gyrff eraill sy'n cyflawni rôl lywodraethu neu gynghori i'r Bwrdd. Mae gweithgareddau a phrif swyddogaethau'r pwyllgorau a'r gyrff hyn yn cael eu disgrifio isod:



Y Pwyllgor Risg ac Archwilio

Mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn cynnwys tri o Aelodau Anweithredol y Bwrdd. Angela Dean (Cadeirydd), Maggie Carver a David Jones. Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Rheolydd Ariannol a'r Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant i gyfarfodydd y Pwyllgor, yn yr un modd ag Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

Mae rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Risg ac Archwilio, ynghyd â gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd, wedi eu nodi yn Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio ar dudalen 88.

Y Pwyllgor Pobl

Mae'r Pwyllgor Pobl yn cynnwys holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Mae'r Pwyllgor Pobl yn goruchwyllo ac yn gwerthuso pa mor briodol yw Strategaeth Pobl a Gweithlu Ofcom, gan gynnig yr her angenrheidiol o ran cryfder ac effeithiolrwydd y cynlluniau sydd ar waith er mwyn helpu Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau a'i ddiben strategol a statudol – yn y tymor byr a'r tymor hir. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am sicrwydd gan Reolwyr Ofcom bod mesurau a chynlluniau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli talentau, datblygu talentau a chynllunio ar gyfer olyniaeth, rheoli perfformiad, diwylliant a gwerthoedd, ac ymgysylltu â chydweithwyr, ynghyd â meysydd eraill yn ymwneud â phobl i ategu perfformiad, sgiliau ac arbenigedd Ofcom.

Mae'r Pwyllgor Pobl hefyd yn nodi'r egwyddorion cyffredinol a pharmedrau'r polisi taliadau ar draws Ofcom, ac mae'n ystyried a chymeradwyo telerau ac amodau gwasanaeth unigolion, gan gynnwys trefniadau taliadau'r Prif Weithredwr, yr Uwch Dîm Rheoli a chydweithwyr eraill fel y cytunir arno rhwng Cadeirydd y Pwyllgor a'r Prif Weithredwr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn arwain y broses o benodi Aelodau Gweithredol y Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli, ac mae'n cymradwyo'r cynlluniau olyniaeth ar gyfer Bwrdd

Ofcom, yr Uwch Dîm Rheoli a chydweithwyr eraill, fel y cytunir arno rhwng Cadeirydd y Pwyllgor a'r Prif Weithredwr.

Cyfarfu'r Pwyllgor Pobl chwe gwaith yn ystod 2020/21.

Y Pwyllgor Etholiadau

Mae Adran 333 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod darllediadau pleidiau gwleidyddol (gan gynnwys darllediadau etholiadol gan bleidiau) a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm yn cael eu cynnwys ar bob sianel deledu gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig, pob gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol, a phob gwasanaeth radio analog cenedlaethol (h.y. masnachol ar draws y Deyrnas Unedig), a'u gwasanaethau cyd-ddarlledu digidol.

Os bydd unrhyw anghydfod heb ei ddatrys rhwng unrhyw un sy'n dal trwydded ac unrhyw blaid wleidyddol ynghylch hyd, amllder, dyraniad neu amseriad darllediadau, caiff yr anghydfod hwnnw ei gyflwyno i Ofcom i'w ddatrys. Mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo'r gwaith o ddyfarnu unrhyw anghydfod o'r fath i'r Pwyllgor Etholiadau. Mae gan y Pwyllgor Etholiadau awdurdod dirprwyedig hefyd i wneud penderfyniadau ar gwynion sy'n ymwneud â'r safonau a bennir gan Ofcom mewn perthynas â didueddrwydd dyladwy mewn rhaglenni a ddarlledir yn ystod cyfnod etholiad neu refferendwm.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys hyd at bum aelod. Penodir Cadeirydd y Pwyllgor Etholiadau gan Fwrdd Ofcom. Y Cadeirydd presennol yw Bob Downes, aelod o Fwrdd Ofcom a Chadeirydd Dros Dro y Bwrdd Cynnwys. Dewisir gweddill yr aelodau o'r Bwrdd Cynnwys a/neu gydweithwyr Ofcom, yn ôl penderfyniad Cadeirydd y Pwyllgor, gyda chworwm o dri aelod (mae angen i ddau ohonynt fod yn Aelodau o'r Bwrdd Cynnwys).

Y Bwrdd Cynnwys

Mae'r Bwrdd Cynnwys wedi ei sefydlu o dan Adran 12(1) Deddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'r Bwrdd Cynnwys yn cyflawni rôl gynghori i Fwrdd Ofcom ar agweddau sy'n ymwneud â chynnwys mewn penderfyniadau neu faterion sydd wedi eu cadw ar gyfer y Bwrdd.

Y Bwrdd Cynnwys yw prif fforwm Ofcom ar gyfer rheoleiddio ansawdd a safonau teledu a radio. Ei rôl yw deall, dadansoddi a hyrwyddo lleisiau a buddiannau'r gwylwyr, y gwrndawyr a dinasyddion.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys yr Aelodau Anweithredol a ganlyn: Bob Downes, (Cadeirydd Dros Dro), Dekan Apajee, Jonathan Baker, Rachel Coldicutt, Maggie Cunningham, Aled Eirug, Robin Foster, Anna-Sophie Harling, Peter Horrocks, Tobin Ireland, David Jones, Sophie Morgan, Stephen Nuttall, Monisha Shah a Kim Shillinglaw ac Aelodau Gweithredol: Kevin Bakhurst ac Ali Marsden.

Cyfarfu'r Bwrdd chwe gwaith yn 2020/21.

Pwyllgorau Cynghori'r Gwledydd

Mae Adran 20 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgorau Cynghori ar gyfer pob un o wledydd y Deyrnas Unedig. Swyddogaeth pob Pwyllgor yw rhoi cyngor i Ofcom am fuddiannau a safbwyntiau pobl sy'n byw yn y rhan o'r Deyrnas Unedig a wasanaethir gan y Pwyllgor, mewn perthynas â materion cyfathrebiadau a materion post. Yn ychwanegol at Aelodau penodedig y Pwyllgorau Cynghori, mae'r Aelod o'r Bwrdd Cynnwys a'r Aelod o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ar gyfer y gwledydd yn gwyllo cyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori fel arsylwyr.

Mae rôl y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol, ynghyd â rôl Aelodau Gwledydd y Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn hynod werthfawr o ran helpu Ofcom i ystyried materion penodol yng ngwledydd datganoledig y Deyrnas Unedig wrth lunio a gweithredu polisiau.

Cyfarfu pob un o'r Pwyllgorau Cynghori bedair gwaith yn 2020/21. Dyma Aelodau penodedig ac arsylwyr y Pwyllgor Cynghori ar hyn o bryd:

Pwyllgor Cynghori Lloegr

Aelodau	Paula Carter (Cadeirydd), Aadil Ahmed, Emma Davison, Matthew Littleford, Alan Nunn a Mark Smith.
Arsylwyr	Monisha Shah (Bwrdd Cynnwys) a Richard Spencer (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau).

Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon

Aelodau	Carrie Matchett (Cadeirydd), John Ellison, Phil Flanagan, Kathy Graham, Alan Meban a Paul Wilson.
Arsylwyr	Angelina Fusco (Bwrdd Cynnwys) a Rick Hill (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau).

Pwyllgor Cynghori'r Alban

(mae'r broses recriwtio'n mynd rhagddi ar hyn o bryd ar gyfer Aelod ychwanegol)

Aelodau	Elizabeth Partyka (Cadeirydd), Laura Anderson, Gerry Crawley, Jessica McBeath a Stephen Speirs (nid yw Stephen yn cael unrhyw dâl am y swydd hon). Daeth tymhorau Liz Leonard a Carmel Teusner i ben ym mis Ionawr 2021. Ymddiswyddodd David Connolly ar 9 Rhagfyr 2020.
Arsylwyr	Maggie Cunningham (Bwrdd Cynnwys) ac Amanda Britain (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau).

Pwyllgor Cynghori Cymru

Aelodau	Hywel Wiliam (Cadeirydd), Robert Andrews, Andrew Board, Dr Ruth McElroy, Rem Noormohamed a Peter Trott.
Arsylwyr	Aled Eirug (Bwrdd Cynnwys) a Dr Sian Phipps (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau).

Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Faterion Pobl Hŷn a Phobl Anabl

Mae Adran 16 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Panel Defnyddwyr. Mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr, dinasyddion a microfusnesau mewn cyfathrebiadau. Mae'n rhoi cyngor cadarn ac annibynnol, ond sydd hefyd yn adeiladol ac yn ymarferol. Mae Ofcom yn rhannu gwybodaeth a syniadau â'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn ystod y camau cynnar o ddatblygu polisi, er mwyn iddo allu rhoi cyngor i sicrhau bod llais defnyddwyr yn cael ei ystyried o'r cychwyn.

Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Faterion Pobl Hŷn a Phobl Anabl yn rhoi cyngor i Ofcom ar faterion sy'n ymwneud â'r sectorau cyfathrebiadau sy'n berthnasol i bobl hŷn a phobl anabl.

Er mwyn manteisio ar y synergedd rhwng y Panel a Phwyllgor Cynghori Ofcom ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl ac er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu posibl, sefydlwyd bod aelodau'n perthyn i'r naill gorff a'r llall yn ystod 2012. Ond, nid yw cylchoedd gwaith y cyrff wedi newid.

Mae'r Panel yn annibynnol ar Ofcom, ac mae'n cynnwys hyd at 12 o arbenigwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, sydd â phrofiad mewn amryw o wahanol feysydd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.communicationsconsumerpanel.org.uk.

Dyma Aelodau presennol y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Faterion Pobl Hŷn a Phobl Anabl: Rick Hill (Cadeirydd ac Aelod ar ran Gogledd Iwerddon), Kay Allen, Amanda Britain (Aelod ar ran yr Alban), Helen Froud, Clifford Harkness, Dr David Holden, Dr Sian Phipps (Aelod ar ran Cymru), Richard Spencer (Aelod ar ran Lloegr), Michael Wardlow a Rick Williams. Daeth cyfnod Craig Tillotson i ben ar 31 Hydref 2020. Rydym wrthi'n penodi Aelodau ychwanegol ar gyfer y Panel a'r Pwyllgor Cynghori ar Faterion Pobl Hŷn a Phobl Anabl.

Cyfarfu'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Faterion Pobl Hŷn a Phobl Anabl yn ffurfiol 11 gwaith yn 2020/21.

Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm

Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm yn 2004 i roi cyngor annibynnol i Ofcom ar faterion strategol sy'n ymwneud â rheoli sbectrwm. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar wefan Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm yn:

www.osab.org.uk


Aelodau'r Bwrdd yw'r Athro Linda Doyle (Cadeirydd), Greg Bensberg, Wassim Chourbaji, Professor Mischa Dohler, Peter Hadinger, Alastair Macpherson, David Meyer, Niall Murphy, Robert Pepper, Peter Pitsch, Ros Singleton, Gavin Young, Holly Creek (DCMS) (Aelod ex officio), Cristina Data (ex officio) a Simon Saunders (ex officio).

Cyfarfu'r Bwrdd hwn bedair gwaith yn 2020/21.

Amrywiaeth ein Haelodau Anweithredol

Dyma amrywiaeth Bwrdd Ofcom:

Rhywedd



Ethnigrwydd



Anabledd




Cyfrifwyd yr ystadegau amrywiaeth ar 31 Mawrth 2021

0% Anabl

Roedd amrywiaeth ein haelodau anweithredol yn y Bwrdd Cynnwys, y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol, a'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau/y Pwyllgor Cynghori ar Faterion Pobl

Rhywedd



2% heb ddatgelu

Ethnigrwydd



Anabledd



Cyfrifwyd yr ystadegau amrywiaeth ar 31 Mawrth 2021


13% Anabl
2% heb ddatgelu

Ein Huwch Dîm Rheoli

Mae ein Huwch Dîm Rheoli yn cynnwys yr unigolion canlynol:

Enw	Rôl
Y Fonesig Melanie Dawes DCB	Prif Weithredwr
Luisa Affuso	Prif Economegydd a Chyfarwyddwr Grŵp, Economeg
Kevin Bakhurst	Cyfarwyddwr Grŵp, Darlledu a Chynnwys Ar-lein
Martin Ballantyne	Cwnsler Cyffredinol a Chyfarwyddwr Grŵp, Cyfreithiol
Lindsey Fussell	Cyfarwyddwr Grŵp, Rhwydweithiau a Chyfathrebu
Philip Marnick	Cyfarwyddwr Grŵp, Sbectrwm
Kerri-Ann O’Neill	Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid
Melissa Tatton CBE	Prif Swyddog Gweithredol, Corfforaethol
Yih-Choung Teh	Cyfarwyddwr Grŵp, Strategaeth ac Ymchwil a Phrif Swyddog Technoleg dros dro

Dyma oedd amrywiaeth yr Uwch Dîm Rheoli yn ystod y cyfnod adrodd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021:



Y Bwrdd Rheoli Polisi

Mae'r Prif Weithredwr wedi sefydlu Bwrdd Rheoli Polisi fel y prif fforwm i arfer yr awdurdod sydd wedi cael ei ddirprwyo iddi gan Fwrdd Ofcom. Mae'r Bwrdd Rheoli Polisi yn goruchwyllo'r broses o ddatblygu agenda Ofcom yn fewnol, gweithrediadau a rheoli Ofcom, yn ogystal â dyletswyddau rheoleiddio Ofcom.

Mae'r BRhP yn cynnwys yr Uwch Dîm Rheoli a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Mae uwch swyddogion gweithredol eraill yn mynychu drwy wahoddiad.

Cyfarfu'r Bwrdd Rheoli Polisi 11 gwaith yn 2020/21.

Atebolrwydd

O dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi Datganiad Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am anfon copi o'r Datganiad Cyfrifon at y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol, yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 a'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), ac ar sail gronnus. Rhaid iddo roi darlun cywir a theg o gyflwr busnes Ofcom fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Hefyd, anfonir Adroddiad a Chyfrifon Blynnyddol Ofcom at yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n gosod copïau ohono gerbron dau Dŷ'r Senedd Brydeinig ac yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw, sy'n datgelu'n gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cyfathrebiadau 2003. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r ffordd y mae Ofcom yn rheoli'r arian cyhoeddus y mae'n ei dderbyn, a'i berthynas â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn y cyswllt hwn, yn cael eu disgrifio yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau ei fod, wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, wedi dilyn y gofynion perthnasol ar gyfer cyfrifyddu a datgelu, wedi defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson, wedi rhoi barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol, wedi dilyn safonau cyfrifyddu perthnasol ac wedi paratoi'r datganiad cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Tryloywder

Mae Ofcom yn parhau i adolygu ei gynllun cyhoeddiadau ac yn darparu ystod eang o wybodaeth sydd ar gael yn hwylus ar ei wefan. Lle bo modd, mae'r data mae Ofcom yn ei greu a'i gasglu yn cael ei rannu â'r cyhoedd, gan ddilyn egwyddorion data agored. Mae data agored Ofcom ar gael ar un porth cyhoeddus ar wefan Ofcom ac ar y porth data.gov.uk, ochr yn ochr â setiau data gan holl adrannau llywodraeth ganolog y DU a llawer o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol.

Yn ystod 2020/21, cafodd Ofcom 541 o geisiadau (386 o geisiadau yn 2019/20) am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Pan oedd gennym wybodaeth berthnasol, roeddem wedi darparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, neu ran ohoni, mewn 80% o achosion. Cedwir gwybodaeth yn ôl dim ond os yw wedi ei heithrio rhag cael ei datgelu gan ddeddfwriaeth.

Yn ystod 2020/21, roedd Ofcom hefyd wedi cael 41 o Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 (43 o geisiadau yn 2019/20). Pan oedd gan Ofcom wybodaeth berthnasol, fe ddarparwyd yr wybodaeth honno.

Ymgysylltu

Mae Ofcom yn ceisio ystyried safbwyntiau amrywiaeth eang o bartïon sydd â diddordeb wrth wneud penderfyniadau polisi. Yn ogystal ag ymgysylltu â'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau/ Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, y Bwrdd Cynnwys a'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol, mae Ofcom hefyd yn ymgysylltu ag awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol eraill (gan gynnwys drwy gymryd rhan yn Rhwydwaith Rheoleiddwyr y Deyrnas Unedig), Sefydliadau Ewropeaidd a chyrrff byd-eang. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod penderfyniadau a wneir mewn fforymau rhyngwladol yn ymarferol, yn gymesur ac yn adlewyrchu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y Deyrnas Unedig.

Mae ymgynghori hefyd yn rhan bwysig o broses Ofcom o wneud penderfyniadau. Mae'n rhoi cyfle i'r rhai y gallai mater penodol effeithio arnynt, neu sy'n

pryderu am fater penodol, gyflwyno eu barn i ni cyn y byddwn yn penderfynu sut byddwn yn gweithredu. O ganlyniad, bydd Ofcom yn ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch ei holl brif flaenoriaethau strategol cyn gwneud penderfyniadau. Mae manylion am ddull ymgynghori Ofcom, a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn ystod 2020/21, yn cael eu hamlinellu yn Atodiad 2

Trefniadau diogelwch ffisegol a phersonol

Ym mis Ionawr 2021, cafodd lefel y bygythiad terfysgaeth yn y Deyrnas Unedig ei hisraddio o'r lefel "Difrifol" (mae ymosodiad yn debygol iawn) i "Sylweddol" (mae ymosodiad yn debygol). Mae datganiad archwaeth risg Bwrdd Ofcom ar gyfer lechyd a Diogelwch a Diogelwch Corfforol wedi newid o "Gwrth Risg" i "Isafol".

Cafodd y rhaglen ar gyfer rhoi gwelliannau diogelwch ffisegol ar waith ym mhob un o'n swyddfeydd ei chwblhau yn 2020. Mae asesiadau bygythiadau yn digwydd drwy'r amser gan ddefnyddio ymgynghoriaeth allanol ac archwilio mewnol. Mae hyn yn cynnal dull cyson a sefydlog o reoli diogelwch ffisegol. Mae proses ar gyfer asesu diogelwch personol "Risg yn ôl Rôl" wedi cael ei chwblhau ar draws holl Grwpiau Ofcom ac mae gwaith yn parhau i gofnodi'r rheolaethau lliniaru y gellir eu rhoi ar waith. Mae'r mesurau hyn yn cyd-fynd ag agwedd at risg Bwrdd Ofcom ar gyfer diogelwch ffisegol a phersonol.

Cynllunio ar gyfer digwyddiadau mawr/ adfer ar ôl argyfwng/parhad busnes

Mae gweithio o bell, yn unol â chanllawiau pandemig y Llywodraethau, wedi parhau dros y cyfnod adrodd. Roedd Ofcom yn gweithredu'n effeithiol heb fawr o effaith ar weithrediadau.

Diogelwch Gwybodaeth

Mae rheoli risg diogelwch Gwybodaeth/Seiber yn broses barhaus sy'n cyd-fynd ag archwaeth risg Bwrdd Ofcom o "Gwrth Risg/Isafol". Mae diogelu systemau gwybodaeth Ofcom yn erbyn risgiau mewnol ac allanol yn dal yn flaenoriaeth. Mae ymdrechion gan bartion allanol i dorri amddiffynfeydd diogelwch Ofcom yn parhau, ond

mae'r rhain wedi bod yn aflwyddiannus o ganlyniad i'r rheolaethau diogelwch sydd ar waith. Gallai'r cyfrifoldebau newydd ar gyfer diogelwch ar-lein, llwyfannau rhannu fideos ac mewn perthynas â diogelwch rhwydwaith, ddenu diddordeb gan wladwriaethau a hactifwyr yn y gwledydd a fyddai'n hoffi creu newid cymdeithasol, gwleidyddol neu ideolegol, ac rydym yn parhau i wella'r gwaith monitro i ganfod ymosodiadau neu wendidau posibl. Mae'r profion wedi cynnwys defnyddio ymosodiadau potsian ffug i wella ymwybyddiaeth defnyddwyr a phrofiad treiddiad technegol yn erbyn y seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a ffisegol.

Fe wnaethom ymchwilio i 47 achos o dorri rheolau diogelu data yn ystod y flwyddyn, ac nid oedd modd rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am yr un ohonynt. O safbwynt llywodraethu, roedd ail-ardystio llwyddiannus yn erbyn Cynllun Cyber Essentials Canolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol y Deyrnas Unedig (NCSC) a chafodd y broses ardystio i'r safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth (ISO27001) ei chwblhau ym mis Mawrth 2021.

Polisi datgelu camarfer a llinell gymorth

Ar ôl adolygu ein polisi mewnol ar datgelu camarfer, rydym wedi ei gwneud hi'n haws i gydweithwyr ddatgelu materion o dan y polisi, ac i symud ymlaen drwy'r broses. Rydym yn defnyddio llinell gymorth datgelu camarfer, sy'n cael ei chynnal a'i gweinyddu'n allanol, sy'n caniatáu i gydweithwyr ddatgelu'n ddienw.

Datgelu er lles y cyhoedd

Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i weithwyr rhag cael eu diswyddo neu eu cosbi gan eu cyflogwyr am ddatgelu gwybodaeth sy'n cael ei hystyried yn wybodaeth sydd er lles y cyhoedd. Mae Ofcom yn 'berson rhagnodedig' fel y'i diffinnir o dan Orchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014. Felly, gall unigolion sy'n gweithio y tu allan i Ofcom, ond yn y sector cyfathrebiadau, gysylltu ag Ofcom os oes ganddynt bryderon bod rhywbeth o'i le yn eu sefydliad eu hunain. Yn ystod 2020/21, ni chafodd Ofcom unrhyw ddatgeliadau o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 neu fel arall.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Fel y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Cyfarwyddwyr y Grwpiau sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Y fframwaith hwn yw sail gwaith y drefn archwilio mewnol a sylwadau a wneir gan archwilyddyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Mae'r Bwrdd wedi parhau i adolygu ac i oruchwylio'n strategol y trefniadau rheolaeth fewnol a rheoli risg drwy adroddiadau rheolaidd gan Gyfarwyddwyr ar eu meysydd cyfrifoldeb, a drwy adroddiadau penodol i'w trafod gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio ac yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio wedi ystyried:

- adroddiadau archwilio mewnol unigol, ymatebion rheolwyr a'r cynnydd sydd wedi ei wneud yng nghyswllt unrhyw gamau a nodwyd;
- adroddiad blynyddol yr archwilydd mewnol a'i farn ar ddigonolrwydd ein system rheolaeth fewnol;
- adroddiadau ac argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- adroddiadau rheolaidd ar gofrestr risgiau strategol Ofcom, gan gynnwys pennu'r risgiau i system rheolaeth fewnol y sefydliad a gwybodaeth am y rheolaethau sydd wedi cael eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau hyn; ac
- unrhyw adroddiadau ychwanegol am sicrwydd y mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio wedi gofyn amdanynt.

Rwy'n cadarnhau nad oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilyddyr yn ymwybodol ohoni, hyd y gwn i. Rwyf hefyd wedi cymryd pob cam angenrheidiol er mwyn bod yn ymwybodol o'r holl wybodaeth berthnasol, ac rwyf wedi cadarnhau bod yr archwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Rwy'n hyderus y bydd Ofcom yn parhau i weithredu fel sefydliad hyfyrw a llwyddiannus sy'n cael ei reoli'n dda wrth symud ymlaen. Er y bydd heriau anochel yn y tymor canolig, credaf fod y trefniadau llywodraethu sydd gennym ar waith yn gadarn ac yn ddigon i ymdopi â'r heriau hynny.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n cadarnhau bod yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol gyda'i gilydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. Rwyf fi'n ysgwyddo cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, a'r casgliadau y mae angen eu gwneud er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Y Fonesig Melanie Dawes,
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

23 Mehefin 2021

Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio

Presenoldeb Aelodau yn ystod 2020/21

Mae Aelodau'r Pwyllgor yn ystod 2020/21 wedi gwasanaethu am y cyfnodau a ganlyn:

Angela Dean	2 flynedd, 6 mis (fel Cadeirydd)
-------------	----------------------------------

Maggie Carver	2 flynedd, 4 mis
---------------	------------------

David Jones	1 flwyddyn a 9 mis
-------------	--------------------

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn 2020/21, gyda'r tri Aelod yn bresennol.

Trosolwg

Ar ran y Bwrdd, mae'n bleser gennyf roi crynodeb o waith a chwmpas y Pwyllgor Risg ac Archwilio ar gyfer y cyfnod ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol, ar ran Bwrdd Ofcom, am oruchwyllo priodoldeb ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, llywodraethu risg, rheolaethau a systemau mewnol, a datganiadau ariannol Ofcom. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal y berthynas â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO), archwilwyr allanol Ofcom, gan gynnwys adolygu eu ffioedd a hyd a lled eu harchwiliad o ddatganiadau ariannol Ofcom. Mae hyn yn cynnwys eu hasesiad o risgiau camddatganiadau o bwys ac afreoleidd-dra o bwys, eu hannibyniaeth, eu hadnoddau ac effeithiolrwydd y broses archwilio. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gweithio

gyda darparwr archwilio mewnol Ofcom, KPMG, i sefydlu Cynllun Blynnyddol i archwilio elfennau penodol o Ofcom, ac wedyn yn monitro cynnydd a chanlyniadau'r adolygiadau hynny.

Mae tri Aelod Anweithredol y Pwyllgor yn annibynnol ac ystyrir bod ganddynt y sgiliau a'r profiad perthnasol ar lefel uwch. Mae gan fwy nag un Aelod o'r Pwyllgor brofiad ariannol diweddar a pherthnasol, ac mae gan y Pwyllgor cyfan allu sy'n berthnasol i'r sector cyfathrebiadau y mae Ofcom yn gweithredu ynddo. Yn ogystal â'm profiad fel dadansoddwr ariannol, roeddwn yn Gadeirydd Pwyllgor Risg ac Archwilio Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, ac rwyf yn aelod o Bwyllgorau Archwilio Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Efrog a'r Amgueddfa Bost.

Mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiynau preifat bob blwyddyn gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant, yn ogystal â'r daprarwr archwilio mewnol KPMG a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Fel rhan o fy rôl i fel Cadeirydd y Pwyllgor, bûm yn cwrdd â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r darparwr archwilio mewnol yn rheolaidd yn ystod y cyfnod adrodd, heb fod Rheolwyr Ofcom yn bresennol. Gall y darparwr archwilio mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gysylltu â mi yn uniongyrchol os ydyn nhw'n dymuno codi unrhyw beth maen nhw'n teimlo na fyddai'n briodol ei godi'n uniongyrchol gyda Rheolwyr Ofcom.

M



Mae'r Pwyllgor wedi parhau i ganolbwyntio yn 2020/21 ar ein hadroddiadau risg, yn enwedig ar risgiau strategol y sefydliad. Rydym wedi canolbwyntio'n agos ar y mesurau lliniaru a'r camau gweithredu cysylltiedig i sicrhau bod Ofcom yn parhau i fod yn gadarn gyda rheolaethau cymesur a phriodol."

Angela Dean, Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio



Gweithgareddau'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o dan gylch gorchwyl ffurfiol, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol a'i amlinellu yn Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Ofcom. Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor er mwyn:

- Adolygu agwedd Ofcom at risg, ac argymhell hynny i'r Bwrdd. Hefyd, sicrhau bod gan Ofcom brosesau priodol ar waith i nodi'r prif Risgiau Strategol, gan gynnwys unrhyw risgiau gweithredol, ariannol a risgiau i enw da, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny;
- Monitro prosesau adrodd ariannol, gan gynnwys y broses adrodd ariannol a chyfrifyddu ar gyfer datganiadau ariannol Ofcom;
- Sicrhau bod fframwaith rheolaeth fewnol Ofcom, a'i systemau a'i bolisiau rheoli risg, yn effeithiol;
- Adolygu a monitro'r trefniadau datgelu camarfer, cynllunio parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb, trefniadau atal llwgrwobrwyo a thwyll, ac unrhyw wrthdaro sylweddol rhwng buddiannau ar draws Ofcom;
- Goruchwyllo'r broses o benodi'r Archwilwyr Mewnol, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer tendro, ffioedd archwilio mewnol, effeithiolrwydd, gallu a pherfformiad Archwiliadau Mewnol;
- Adolygu annibyniaeth yr Archwilwyr Allanol, a chytuno ar natur a chwmpas yr archwiliad mewnol o ddatganiadau ariannol Ofcom.

Mae gwaith y Pwyllgor yn dilyn rhaglen waith flynyddol y cytunwyd arni, gyda'r Pwyllgor yn neilltuo ei amser yn 2020/21 fel hyn:

- Adrodd Ariannol a Materion Cysylltiedig
- Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol
- Llywodraethu a Rheoli Risg
- Archwilio Mewnol
- Archwilio Allanol
- Diogelwch Personol, Ffisegol a TGCh
- Pethau eraill (e.e. ymglyfreitha, llwgrwobrwyo a thwyll ac ati)

Sut mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig yn cyfrannu at ein dull gweithredu

Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i gyflawni cyfrifoldebau'n dryloyw ac yn onest. Yn ogytal ag Aelodau Pwyllgor penodedig, gwahoddir y canlynol yn barhaol i gyfarfodydd y Pwyllgor:

- Ofcom – Cadeirydd, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyllid, Rheolydd Ariannol, Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant, Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol
- Swyddfa Archwilio Genedlaethol: cynrychiolwyr Tîm Archwilio Allanol Ofcom
- Deloitte: cynrychiolwyr Tîm Archwilio Mewnol Ofcom
- Cynrychiolwyr Archwilydd Mewnol Ofcom

Datganiadau Ariannol a Pholisïau Cyfrifyddu

Ar y cyd â Rheolwyr Ofcom a'r darparwr archwilio mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, adolygodd y Pwyllgor y datganiadau ariannol a'r dogfennau cysylltiedig i weld a oedd y rhain yn cynnwys camddatganiad o bwys, ac wedi cael eu paratoi yn unol â'r fframwaith perthnasol ar gyfer adrodd arianno.

Roedd y Pwyllgor hefyd wedi herio penderfyniadau Rheolwyr Ofcom, a'r tybiaethau a'r amcangyfrifon a oedd yn sail i'r penderfyniadau hynny. Roedd y

Pwyllgor yn rhoi pwyslais arbennig ar gyflwyniad teg a rhesymoldeb wrth benderfynu ar ffactorau a phriodoldeb y polisïau cyfrifyddu pwysig a ddefnyddiwyd wrth baratoi.

Rydym wedi cydnabod yr angen am addasiad blwyddyn flaenorol mewn perthynas â chyllid Diogelwch Telathrebu. Mae manylion yr addasiad cyfnod blaenorol hwn wedi'u hamlinellu yn nodyn 2 a nodyn 24 y datganiadau ariannol. Mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio wedi ystyried y mater yn llawn ac yn fodlon ar y camau a gymerwyd mewn perthynas â'r mater hwn.

Y Fframwaith Risg a Rheolaeth, a Rheoli Risg

Mae rheoli risg yn rhan bwysig o fframwaith rheolaeth fewnol Ofcom, ac mae'n cynnwys risgiau strategol a risgiau gweithredol mewn polisi rheoli risg, sy'n cael ei adolygu a'i gymeradwyo'n flynyddol gan y Pwyllgor a'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu. I sicrhau bod ein fframwaith rheoli risg yn effeithiol ac yn gydnaws â'n gofynion, mae adolygiad o'n fframwaith rheoli risg yn cael ei gynnal yn rheolaidd.

Yn ystod 2020/21, bu'r Pwyllgor yn goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu Cofrestr Risg Strategol gyda mwya o ffocws yn seiliedig ar ddeg sylfaen gweledigaeth Un Ofcom. Ym mis Mawrth 2021, cynhaliodd Bwrdd Ofcom adolygiad o Ddatganiadau Archwaeth Risg Ofcom. Mae Cofrestr Risgiau Strategol Ofcom yn cael ei hadolygu bob tri mis gan Fwrdd Rheoli a Pholisi Ofcom a gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio a Bwrdd Ofcom. Yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Ofcom, rhoddir diweddariad ar lafar am y materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn ymchwilio'n fanwl i risg strategol benodol ym mhob cyfarfod:

Ymchwiliadau Risg Strategol Manwl a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn 2020/21

- Sbectrwm, y materion 5G a'r Arwerthiant, o dan lens COVID-19
- Ymateb Gweithredol Ofcom i'r Pandemig COVID-19
- Risg Seiber yn Ofcom
- Arwain Meddwl

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gydweithio ag Uwch Reolwyr ynghylch unrhyw elfennau risg a nodwyd, ac mae'r Pwyllgor wedi adolygu'r rheolaethau a'r camau lliniaru. Ar ddechrau'r pandemig, creodd Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant Ofcom Gofrestr Risg sy'n benodol i COVID-19, ac mae diweddariadau rheolaidd wedi cael eu rhoi i'r Pwyllgor ar y camau mae Ofcom wedi eu cymryd i sicrhau gweithredu parhaus.

Mesurau Rheoli Mewnol

Caiff y cyfrifoldeb dros weithredu a monitro'r system rheolaeth fewnol ei dirprwyo gan Fwrdd Ofcom i unigolion a phwyllgorau penodol. Bu'r Pwyllgor yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd ar effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol Ofcom, ac yn annog gwelliannau i'r systemau hynny er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol, pan fo'n briodol. Mae disgrifiad o system rheolaeth fewnol y sefydliad wedi ei gynnwys yn yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ar dudalen 69.

Ar ben hynny, ceir sicrwydd drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud gan dimau arbenigol ar draws Ofcom, gan gynnwys y Pwyllgor Gwarchodaeth, y Grŵp Llywio Diogelu Data, y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a'r Grŵp Parhad Busnes.

Cadernid Rhwydweithiau a Seiber

Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod dyletswyddau newydd y Bil Diogelwch Ar-lein a Thelathrebu (Diogelwch) wedi gwneud Ofcom yn fwy atyniadol fel targed i weithredwyr maleisus. Yn ystod 2020/21, bu'r Pwyllgor yn monitro gwaith y Grŵp Risg, TGCh a Thechnoleg i reoli risgiau seiber a chadernid rhwydweithiau. O ganlyniad i'r gwaith hwn, gwnaed argymhellion i gryfhau ymhellach brosesau TG, systemau eraill a chynlluniau ymateb Ofcom. Bydd camau pellach yn cael eu cymryd yn yr elfen hon yn ystod 2021/22, a bydd y Pwyllgor yn cael diweddariadau rheolaidd ynghylch cynnydd.

Roedd y Pwyllgor hefyd wedi adolygu diogelwch ffisegol a phersonol yn Ofcom – gan ganolbwyntio ar gynllun gwaith cynhwysfawr i'n gwneud ni yn fwy diogel a sicrhau bod y sefydliad yn cyd-fynd â gofynion y safon Diogelwch Gwybodaeth ISO27001, wrth baratoi i gael ei ardystio yn y maes hwn.

Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol a Phwyslais Adolygiadau yn 2020/21

O ystyried yr heriau digynsail a ddaeth i ganlyn y pandemig, a'r pwysau mae hynny wedi ei rhoi ar Ofcom, mae'r darparwr archwilio mewnol wedi datblygu Cynllun Archwilio Mewnol treigl ar gyfer 2020/21, er mwyn gallu ymateb yn ystwyth i'r sefyllfa risg sy'n esblygu a ddaeth yn sgil y pandemig. Cafodd Cynlluniau Archwilio Mewnol Ofcom ar gyfer ail hanner 2020/21 a'r Cynllun Archwilio Mewnol

arfaethedig ar gyfer hanner cyntaf 2021/22 eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor, gyda'r darparwr archwilio mewnol yn parhau i gyflwyno'r Cynllun Archwilio Mewnol bob hanner blwyddyn i ategu dull gweithredu mwy ystwyth.

Meysydd Archwilio Mewnol yr ymdriniwyd â hwy yn ystod 2020/21

- Rheolaethau Ariannol Allweddol
- Seiberddiogelwch
- Cydnherthedd Sefydliadol
- Pobl, Dylunio Sefydliadol a Newid,
- Rheoli Risg a Dyrannu Costau a Gosod Tariffau.

Ar ben hynny, cynhaliwyd adolygiadau o ddull gweithredu Ofcom ar gyfer y Bil Telathrebu (Diogelwch) a'r Prosiect Pobl a'r System Gyllid Newydd.

Roedd yr adolygiadau a gynhaliwyd fel rhan o'r Archwiliadau Mewnol yn cynnwys rhaglen waith yn seiliedig ar risg ar draws ystod o elfennau rheoli allweddol – roedd y rheolwyr wedi cytuno ar y rhaglen, ac roedd wedi cael sêl bendith y Pwyllgor. Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol gan y darparwr archwilio mewnol ar gynnydd ei archwiliadau, ymateb Rheolwyr Ofcom i'r canfyddiadau (lle bo'n briodol) a'r cynnydd a wnaed i roi sylw i unrhyw faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliadau.

Meysydd Eraill i'w Hadolygu

Mae Polisiâu Ofcom ar Ddatgelu Camarfer, Atal Llwgwrwobrwy a Thwyll yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor ym mis Rhagfyr bob blwyddyn. Mae'r polisi Datgelu Camarfer yn rhoi sylw i'r holl faterion sy'n angenrheidiol o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998. Mae'r polisi hwn wedi cael ei gyfleu i'r holl gydweithwyr er mwyn eu hatgoffa y gallant godi materion yn ddienw gyda darparwr llinell gymorth datgelu camarfer Ofcom. Er bod nifer o achosion wedi cael eu cyfeirio drwy'r llinell gymorth datgelu camarfer allanol yn 2020/21, nid oedd

unrhyw un o'r rhain yn ymwneud â chamymarfer fel y mae'n cael ei ddiffinio o dan Bolisi Datgelu Camarfer Ofcom.

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau hefyd ar Fframwaith Awdurdodau Ariannol Ofcom (cyn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd ar newidiadau i'r Fframwaith), polisiâu cyfrifyddu Ofcom, gwrth-dwyll a gwrth-lwgrwobrwy, gwrthdaro sylweddol rhwng buddiannau a chydymffurfio â'r ddeddf diogelu data. Cynhaliwyd adolygiad blynyddol o Gynllun Parhad Busnes, Adfer ar ôl Trychineb a Rheoli Argyfwng Ofcom, gyda'r Pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo Polisi Cadernid newydd Ofcom ym mis Rhagfyr 2020.

Adrodd i'r Bwrdd

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio, rwyf yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd ar y materion allweddol a drafodir yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Roedd y Pwyllgor wedi adolygu a diweddarau ei gylch gorchwyl yn 2020, gan argymhell y rhain i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

Perfformiad ac Effeithiolrwydd y Pwyllgor

Cynhaliwyd adolygiad wedi ei hwyluso'n allanol o berfformiad ac effeithiolrwydd y Pwyllgor fel rhan o Adolygiad Gwerthuso'r Bwrdd. Roedd y canlyniad yn gadarnhaol iawn, gydag effeithiolrwydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio yn cael sgôr uchel gan Aelodau ac, yn benodol, y ffordd mae'r Pwyllgor yn cyfleu ei weithgareddau a'i benderfyniadau i Fwrdd Ofcom. Ystyriwyd bod Cadeirydd y Pwyllgor wedi cyflwyno cadernid a thrylwyrdd i'r Pwyllgor. Nodwyd bod angen parhau â'r gwaith ar y Gofrestr Risg, yn benodol, gan ei gwneud yn fwy ystyrlon ac amserol. Arweiniodd hyn at ffocws parhaus y Pwyllgor ar wella hyn yn 2020/21.

Angela Dean

Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio

23 Mehefin 2021

Ein gweithwyr

Esblygu ein ffordd o weithio

Y llynedd, fe wnaethom lansio rhaglen newid mewnol (Un Ofcom), er mwyn manteisio i'r eithaf ar ein twf a sicrhau ein bod yn trawsnewid ein galluoedd ar gyfer y dyfodol. Rydym yn cydnabod yr angen i adeiladu'n sylweddol ar ein harbenigedd mewn marchnadoedd digidol, technolegau ar-lein a rhai sy'n datblygu a dadansoddeg data. Rydym hefyd eisiau sicrhau bod gan ein pobl yn Ofcom brofiad masnachol cryf o hyd. A byddwn yn ailgydbwyso ein hól troed ledled y Deyrnas Unedig, fel rhan o'n strategaeth ehangach i ddod yn sefydliad mwy amrywiol sy'n cynrychioli'r Deyrnas Unedig yn llawn.

I'r perwyl hwnnw, byddwn yn agor swyddfa newydd ym Manceinion yn ddiweddarach yn y flwyddyn a fydd yn y lle cyntaf yn sail i'n gwaith newydd ar ddiogelwch rhwydweithiau telathrebu a diogelwch ar-lein. Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i gyflawni ein dyletswyddau nawr ac yn y dyfodol. Wrth i'n sectorau a'n dyletswyddau gael eu llywio fwyfwy gan wasanaethau ar-lein, byddwn yn buddsoddi yn ein sgiliau, yn datblygu arferion gweithio arloesol ac yn adeiladu gweithlu amrywiol sy'n adlewyrchu'r Deyrnas Unedig gyfan.

Gwerthoedd Ofcom

Ein pum gwerth yw rhagoriaeth, cydweithio, ystwythder, grymuso a pharch. Wedi eu llunio gan gydweithwyr yn Ofcom, maent yn adlewyrchu ein hawydd i greu diwylliant lle gallwn wneud gwaith gwych, gofalu am ein gilydd a denu'r bobl orau. Rydym yn annog ac yn cefnogi ymddygiadau sy'n dangos y gwerthoedd hyn.

Amrywiaeth a chynhwysiad

Ein pwrpas ni yw sicrhau bod 'cyfathrebiadau'n gweithio i bawb'. Er mwyn gwneud hynny, rhaid i amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiad fod wrth galon ein gwaith. Mae ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiad yn adlewyrchu ein huchelgais i werthfawrogi sgiliau a chyfraniadau pob aelod o

gymdeithas, gan roi cyfleoedd i bobl o bob nodwedd a chefnidir lwyddo yn eu gyrfa.

Mae'r strategaeth yn nodi ein cynlluniau i fod yn rheoleiddiwr gwell drwy weithlu amrywiol a chynhwysol sy'n gallu goruchwyllo sectorau teledu, radio, telathrebu a phost y Deyrnas Unedig yn well, ac yn ein rôl newydd i ddiogelu pobl rhag cynnwys niweidiol. Mae hefyd yn nodi ein hymrwymadau i'n gwneud ni'n lle gwych i weithio ynddo er mwyn denu a chadw'r talentau gorau a mwyaf amrywiol. Rydym am i Ofcom gael:

- Gweithlu gwirioneddol amrywiol
- Diwylliant naturiol gynhwysol
- Prosesau, systemau a pholisïau sy'n deg
- Cydweithwyr sy'n cymryd cyfrifoldeb personol dros amrywiaeth a chynhwysiad
- Arweinwyr sy'n fodelau rôl, a
- Chysylltiadau cryfach â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Mae ein safbwynt terfynol ar ein targedau gweithlu ar gyfer 2015-2020 wedi ei nodi yn Ffigur 6, ochr yn ochr â'n sefyllfa gychwynnol ar gyfer 2021-2026. Fe wnaethom gyrraedd ein targed cyffredinol o ran cyfartaledd rhwng y rhywiau yn 2020 ac fe wnaethom ragori ar ein targed ar gyfer menywod hyn, sef 40%, cyn yr amser a bennwyd (44% ar ddiwedd 2020). Yn siomedig, nid chyrhaeddodd ein targed ar gyfer cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig ar lefelau uwch, gan gyrraedd 2 bwynt canran yn is na'n targed o 13%. Rydym wedi ymrwymo o hyd i gynyddu amrywiaeth ethnig ein huwch dîm ac adlewyrchir hyn yn ein huchelgais ymestynol newydd, sef 16%. Bydd hyn yn cael ei ategu gan y gwaith o drawsnewid ein prosesau recriwtio, rheoli perfformiad a datblygu gyrfa.

Ochr yn ochr â'n targedau newydd, rydym yn canolbwyntio ar ehangu ein hamrywiaeth meddwl, yn enwedig drwy sicrhau bod gennym amrywiaeth economaidd-gymdeithasol, a chynyddu ein presenoldeb y tu allan i Lundain. Rydym hefyd am gynyddu'r gynrychiolaeth a gwella profiadau ein

cydweithwyr Du a lleiafrifoedd ethnig. Rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod ein cydweithwyr traws ac anneuaidd yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u cefnogi yn y gwaith.

Rydym yn meithrin diwylliant lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu bod yn nhw eu hunain yn y gwaith. Nid yw hyn yn golygu ein bod ni'n cytuno â'n gilydd drwy'r amser. Mae'n golygu ein bod yn gwrandao ar ein gilydd, yn ceisio ac yn herio ein gilydd ac yn trin ein gilydd â phroffesiynoldeb, parch a charedigrwydd.

Monitro ac adrodd

Rydym yn monitro ein polisiau a'n harferion a'n prosesau drwy adroddiadau mewnol a dadansoddiadau data, arolygon o gydweithwyr, ymgynghori â rhwydweithiau a grwpiau cydweithwyr, prosesau meincodi allanol, ac archwiliad rheolaidd o gyflog cyfartal ac adrodd ar y bwlch cyflog.

Yng ngwanwyn 2021 fe wnaethom gyhoeddi canlyniadau ein harchwiliad tâl rheolaidd sy'n cynnwys archwiliad cyflog o ran y rhywiau ac ethnigrwydd ac, am y tro cyntaf, anabledd. Mae'r dadansoddiad o'r bwlch cyflog yn dangos bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi ehangu ychydig, yn yr un modd â'n bwlch cyflog o ran ethnigrwydd, ar ôl iddo aros yr un fath i raddau helaeth am gyfnod. Ein bwlch cyflog i bobl anabl oedd 10%, gan osod ein man cychwyn ar gyfer olrhain ein cynnydd tuag at gydraddoldeb cyflog i bobl anabl dros amser. Bydd ein targedau gweithlu newydd, yn enwedig o ran cynyddu cynrychiolaeth uwch ar gyfer rhyw ac ethnigrwydd, yn ein helpu gyda'n nod o leihau ein bylchau cyflog.

Byddwn yn cyhoeddi ein diweddariad cynnydd cyntaf ar ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiad ym mis Gorffennaf 2022.

Ffigur 6: Targedau gweithlu

Targedau 2015/2020	Sefyllfa gychwynnol Mawrth 2015	Sefyllfa derfynol 2020
Rhywedd – 50% yn fenywod	41%	50%
Rhywedd rolau uwch	31%	44%
Ethnigrwydd mewn rolau uwch	9%	11%

Targedau 2021/2026

	Sefyllfa gychwynnol Mawrth 2021	Uchelgais derfynol 2026
Cydbwysedd cyfartal rhwng y rhywiau ar lefelau uwch	44%	cytbwys
Cynrychiolaeth o leiafrifoedd ethnig ar lefelau uwch	11%	16%
15% ledled Ofcom o ran anabledd	12%	15%

Sail: pob cydweithiwr ddiwedd mis Mawrth 2021
Uwch lefel, Prif uwch reolwyr ac uwch reolwyr ac arbenigwyr (SMS)

Ymgynghori â chydweithwyr a'u cynnwys

Mae cydweithwyr Ofcom yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod gan y sefydliad safbwyntiau amrywiol yn ei waith. Mae ein dulliau ffurfiol arferol o hysbysu ac ymgynghori â chydweithwyr yn cynnwys:

- Fforwm Cydweithwyr Ofcom, sef fforwm ymgynghori sy'n cynnwys cynrychiolwyr etholedig o blith cydweithwyr ar draws Ofcom sy'n cwrdd yn rheolaidd gyda'r uwch reolwyr yng nghyfarfodydd y Grŵp Ymgynghori ar y Cyd (sy'n cynnwys dau aelod o'r undeb);
- arolygon cydweithwyr, gan wahodd cydweithwyr i rannu eu safbwyntiau'n ddienw ar amrywiaeth eang o bynciau ac sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'n strategaeth amrywiaeth a chynhwysiad. Mae canlyniadau'r arolygon hyn yn rhoi sylfaen i'n gwaith ac wrth i ni ddatblygu ein sefydliad;
- ein rhwydweithiau amrywiaeth cydweithwyr, ac mae gennym wyth ohonynt sy'n ymwneud â nifer o faterion a chymunedau;
- fforymau agored gyda'r Prif Weithredwr a'r uwch dîm rheoli;
- mewnrwyd Ofcom, sydd ar gael i bob cydweithiwr ym mhob un o swyddfeydd Ofcom;
- cyfarfodydd grŵp rheolaidd, i siarad â chydweithwyr, ac i glywed ganddynt.

Datblygiad proffesiynol

Eleni, fe wnaethom barhau i gefnogi cydweithwyr yn eu gyrfaedd drwy gyfleoedd hyfforddi a datblygu gan gynnwys ein rhaglen ddatblygu wedi ei thargedu, Ofcom Rise, sydd â'r nod o greu llif amrywiol o dalent yn ein cymuned arweinyddiaeth uwch. Mae'n targedu o leiaf 50 o Uwch Weithwyr Cyswllt a Phenathiaid sy'n perfformio'n dda ac yn dod o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan ganolbwyntio ar fenywod, cydweithwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, a chydweithwyr sy'n anabl (ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhestr hon).

Polisiau a phrosesau cyflogaeth

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y caiff pob cydweithiwr ei drin yn deg a chydag urddas a pharch. Rydym yn adolygu ein prosesau a'n polisiau pobl yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cyd-fynd â'n harferion gorau a'n gwerthoedd, yn ogystal â gofynion cyfraith cyflogaeth.

Yn ystod 2020, gan adeiladu ar ein hymrwymiad i helpu cydweithwyr i ffynnu wrth gefnogi eu teulu neu ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu, fe wnaethom gynnal adolygiad o'n holl bolisiau teuluol (fel polisiau absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu a bod yn rhiant ar y cyd). Fe wnaethom newidiadau sylweddol gan gynnwys cyflwyno Polisi Gofalwyr newydd, gan ein helpu i ennill achrediad cyflogwr Hyder mewn Gofalu gan Carers UK/Employers for Carers. Roedd y newidiadau hefyd yn cynnwys Datganiad Ffrwythlondeb ar gyfer cydweithwyr a oedd yn cael triniaeth IVF neu driniaethau meddygol eraill o ran ffrwythlondeb, cymorth mewn profedigaeth ac ymestyn tâl tadolaeth, ymysg eraill.

Absenoldeb

Ein nod yw trin pobl sy'n sâl yn deg ac â chydymdeimlad gan roi cefnogaeth iddynt, lle bo modd, eu cefnogi i'w galluogi i wella ac i fynychu'r gwaith yn rheolaidd. Yn 2020/21, roedd nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd yn 3.1 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr (2019/20, 4.3 diwrnod). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y sector cyhoeddus sef 5.4 diwrnod y flwyddyn.

Trefniadau oddi ar y gyflogres

Yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a'r canllawiau ar gyfer y System Gwariant Cyhoeddus gan Drysorlys EM, rydym wedi datgelu pob ymrwymiad oddi ar y gyflogres ym mlwyddyn ariannol 2020/21 i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Cefnogi ein cydweithwyr trwy gydol y pandemig

Caewyd y rhan fwyaf o'n swyddfeydd ddiwedd mis Mawrth 2020, tan ddechrau haf 2020. Roedd y rhan fwyaf o gydweithwyr yn gweithio gartref yn unig, tra bod rhai trefniadau gweithio ar y safle yn cael eu gwneud ar gyfer gweithwyr allweddol sy'n cyflawni swyddogaethau hanfodol, fel peirianeg sbectrwm.

Gyda 46% o gydweithwyr yn cael eu hadnabod fel rhieni neu ofalwyr, fe wnaethom fabwysiadu 'hyblygrwydd mwyaf posibl' ac athroniaeth 'teuluoedd yn gyntaf' drwy gydol y cyfnod clo. Fe wnaethom sefydlu pecyn o gymorth ymarferol a llesiant i gydweithwyr, yn ogystal â gwella'r mesurau presennol. Roedd y rhain yn cynnwys:



Cymorth ymarferol

- Cymorth ariannol ar gyfer cyfarpar gweithfan er mwyn gallu gweithio gartref yn ddiogel ac yn gyfforddus
- Absenoldebau dibynyddion cyflogedig ar gyfer addysg gartref a chyfrifoldebau rhieni a/neu ofalu lle mae angen cymorth ychwanegol ar bobl.
- Hyblygrwydd i bawb o ran oriau a phatrymau.
- Iechyd galwedigaethol, asesiadau risg mamolaeth, gwerthusiadau offer sgrin arddangos rhithwir a chymorth arbenigol (e.e. ar gyfer cyflyrau niwroamrywiol).
- Addasiadau i'r gweithle ar gyfer amgylchedd y cartref (e.e. yr un cyfarpar yn y swyddfa yn y cartref, neu ar gyfer technoleg gynorthwyl newydd).

Cymorth llesiant

- Mwy o adnoddau a buddsoddiad drwy ein rhaglen llesiant Thrive,
- Negeseuon atgoffa rheolaidd am fecanweithiau cymorth fel y Gwasanaeth Cymorth i Weithwyr, sy'n agored 24 awr y dydd; rhith-wasanaeth meddygon teulu, ar gael 365 diwrnod y flwyddyn; gwasanaeth meddygol preifat sy'n darparu mynediad at gwnsleriaid a therapyddion hyfforddedig ac ap Headspace i bawb.
- Mynediad at 52 o swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl.
- Awgrymiadau ynghylch iechyd corfforol, lles meddyliol ac ymlacio.
- Cynnal asesiad risg cyn mynd yn ôl i'n swyddfeydd ym mis Mawrth ac ar gyfer parhau i weithio gartref, mewn ymgynghoriad â'n rhwydweithiau o weithwyr.
- Ail-flaenoriaethu prosiectau nad ydynt yn hanfodol i leihau pwysau - o ran ein cydweithwyr ond hefyd ein rhanddeiliaid allanol.
- Mwy o absenoldebau i wirfoddoli, yn benodol ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r pandemig mewn cymunedau lleol a gyda'r GIG.
- Creu fforymau ar gyfer rhannu pryderon neu ofnau am y pandemig gan gynnwys ein Rhwydwaith Gwrando ar Gyfoedion.

Mae ein cymorth helaeth yn cael ei gyfeirio drwy ganolbwynt gwybodaeth newydd o ganllawiau pandemig ar ein mewnrwyd sy'n ymdrin â phynciau fel ymdopi pan fydd ysgolion yn cau, diweddariadau gan y llywodraethau, cyngor ar weithio gartref, absenoldebau i ofalu am ddibynyddion, polisïau, cymorth llesiant, pecyn cymorth i reolwyr llinell a chwestiynau cyffredin.

Cadw'r cysylltiad

Mae cadw mewn cysylltiad â chydweithwyr yn bwysicach nag erioed. I'r rhai sy'n ymuno o'r newydd yn benodol (gan gynnwys ein Prif Weithredwr) roedd meithrin ymdeimlad clir o ddiwylliant Ofcom heb fod gyda'n gilydd yn hanfodol.

Yn ogystal â gwybodaeth a chyfathrebu mewnol ffurfiol, fe wnaethom gadw cysylltiad anffurfiol â chydweithwyr drwy Microsoft Teams, ein mewnrwyd a llawer o sgysïau grŵp diddordeb penodol Yammer sy'n cynnwys y rhai a gafodd eu creu gan ein rhwydweithiau cydweithwyr bywiog. Mae ein rhwydweithiau cydweithwyr wedi cynnal sesiynau ioga rhithiol, coginio'n fyw i roi cynnig ar ryseitiau newydd, crocio a mwy.

Mae flog wythnosol ein Prif Weithredwr wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gydweithwyr, wedi ei ategu gan ddiweddariadau ysgrifenedig a'r holl ddarllediadau gan gydweithwyr.

Mesur effaith Covid

I wneud yn siŵr bod ein cymorth yn cael ei ddefnyddio ac i fesur effeithiau llesiant y pandemig er mwyn i ni ymateb yn briodol, fe wnaethom lansio arolygon pyls cydweithwyr, gan roi sylw i bynciau fel iechyd meddwl, cymorth rheoli llinell, cynnal cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd a theimlo ein bod yn gallu cymryd cymorth absenoldeb i ofalu am ddibynyddion.

Drwy wneud yn siŵr bod cydweithwyr yn cael digon o gefnogaeth, roedd modd i ni ddarparu rhaglen helaeth o waith yn 2020 ar draws yr holl sectorau rydym yn eu rheoleiddio. Yn ogystal, fe wnaeth ein cydweithwyr ymateb yn gadarnhaol iawn i'r ymdrechion a wnaethom, gyda 96% o'n cydweithwyr yn dweud wrthym ein bod wedi cynnig y gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt.

Adroddiad taliadau

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi i gydymffurfio cymaint ag y bo modd ac i'r graddau sy'n briodol ag Atodlen 8 o Reoliadau'r Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, er nad oes yn rhaid i Ofcom gydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig ac wedi mabwysiadu'r darpariaethau, ac yn cydymffurfio â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth y DU, lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol.

Cyfansoddiad y Pwyllgor Pobl

Mae'r Pwyllgor Pobl yn cynnwys holl aelodau anweithredol Bwrdd Ofcom, fel y pennir gan Fwrdd Ofcom, ac mae'r manylion wedi eu nodi ar dudalennau 72-73.

Byddai'r Pwyllgor hefyd fel arfer yn disgwyl i'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth fynychu cyfarfodydd. Pan fo angen a phan fo'n briodol, bydd y Pwyllgor Pobl hefyd yn cael cyngor a/neu wasanaethau gan gydweithwyr yn Ofcom neu gan sefydliadau allanol arbenigol. Ni fydd yr un unigolyn yn bresennol ar gyfer unrhyw drafodaeth am ei dâl ei hun.

Polisi Taliadau

Wrth bennu polisi taliadau Ofcom, cred y Pwyllgor Pobl y dylai Ofcom, gan ystyried ei fod yn gorff cyhoeddus, gynnig fframwaith gwobrau sefydlog a fydd yn denu ac yn cadw'r pobl o'r safon uchaf y mae'n rhaid eu cael i alluogi Ofcom i gyflawni ei flaenoriaethau strategol ac i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i gylch gwaith statudol.

Cydrannau tâl

Mae prif elfennau taliadau'r Uwch Dîm Rheoli yn cyd-fynd â'n dull o dalu pob cydweithiwr ac maent yn cynnwys yr elfennau a ddangosir:

1. Cyflog Sylfaenol

2. Pensiwn

- Cynllun Cyfraniad Diffiniedig i'r holl weithwyr
- Lwfans pensiwn yn % o gyflog

3. Buddion Safonol

- Yswiriant Meddygol Preifat
- Yswiriant Bywyd
- Diogeliad Incwm Grŵp
- Gwiriad Iechyd Blynnyddol

4. Buddion Hyblyg

- Lwfans i brynu buddion ychwanegol

5. Taliadau ar sail perfformiad

Cyflog Sylfaenol

Pennir cyflog sylfaenol pob gweithiwr drwy ystyried cyfrifoldebau, perfformiad a phrofiad pob cydweithiwr, ynghyd â dadansoddiad meincnodi o dueddiadau'r farchnad berthnasol. Caiff pob cyflog sylfaenol ei ystyried yn flynyddol, a daw unrhyw newid i rym ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn. Rydym yn cynnal archwiliad cyflog cyfartal blynnyddol o ran rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd.

Buddion Hyblyg

Mae Ofcom yn cynnig lwfans buddion hyblyg i gydweithwyr ar sail eu graddfa. Gyda golwg ar fuddion at ddibenion y tablau taliadau, dim ond gwerth yswiriant Meddygol Preifat a gynhwysir. Nid yw cyfanswm gwerth yr amddiffyniad incwm grŵp, yr yswiriant bywyd na'r archwiliadau iechyd blynyddol yn cael eu datgelu o dan fuddion mewn nwyddau gan nad yw Cyllid a Thollau EM yn eu trin fel enillion trethadwy.

Cynllun Bonws Blynyddol

Nid yw Ofcom yn darparu cynllun cymhelliant tymor hir ar gyfer ei weithwyr o gwbl. Mae pob cydweithiwr yn cael ei ystyried dan gylch gwaith cynllun bonws blynyddol ar sail perfformiad, sy'n golygu bod modd cydnabod y rhai sydd wedi gwneud yn arbennig o dda mewn unrhyw flwyddyn heb godi lefelau cyflog sylfaenol. Ni fydd taliadau'n cael eu gwneud i bob cydweithiwr. Caiff hwn ei gapio fel canran o'r cyflog (amhensiynadwy) ar sail graddfa a pherfformiad yr unigolyn, hyd at uchafswm o 20% ar gyfer ein Huwch Dîm Rheoli.

Pensiwn

Mae Ofcom yn cynnig pensiwn cyfranddeiliaid (cyfraniad wedi ei ddiffinio) i bawb. Mae holl gydweithwyr Ofcom yn cael lwfans pensiwn, sy'n cael ei bennu fel % o'r cyflog sylfaenol. Gellir naill ai buddsoddi hyn yng nghynllun Pensiwn Ofcom, sy'n caniatáu i unrhyw ddiwydiadau gael eu gwneud drwy ildio cyflog, neu ei gymryd fel cyflog ychwanegol. Ni chafodd yr un Aelod Anweithredol cyfredol fudd pensiwn gan Ofcom yn ystod y flwyddyn dan sylw

Datgeliad cyflog teg

Mae Ofcom yn credu mewn Cyflog Teg. Rydym yn cadw golwg ar hyn drwy fonitro cymhareb cyflog teg, sy'n cymharu'r unigolyn â'r cyflog uchaf yn y sefydliad a thâl canolrif gweddill y sefydliad. Mae'r data'n cael ei gyfrifo a'i gyflwyno yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth y DU. Er mwyn gallu cymharu, defnyddir y ffigur taliadau fel y mae ar 31 Mawrth bob blwyddyn ac mae'n cynnwys cyflog sylfaenol, tâl perfformiad, lwfans buddion hyblyg a buddion trethadwy o fath arall.

Caiff data'r datgeliad cyflog teg diweddaraf ei ddangos isod:

	2020/21	2019/20	2018/19	2017/18
Band cyfanswm tâl yr unigolyn sy'n cael y tâl uchaf (£000)	330-335	330-335	390-395	380-385
Tâl canolrif (£)	58,439	59,031	57,548	56,704
Cymhareb tâl	5.69	5.64	6.80	6.78

Nid ydy'r tâl canolrif yn cynnwys yr unigolyn sy'n cael y tâl uchaf ac mae'n seiliedig ar dâl blynyddol cyfwerth ag amser llawn fel y mae ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Y Prif Weithredwr oedd yr unigolyn a oedd yn cael y cyflog uchaf ar 31 Mawrth 2021. Ar y dyddiad hwn, roedd y tâl yn amrywio o £18,272 i £332,663 (amrywiaeth 2019/20: £17,426 i £332,663).

Covid-19 a'r Effaith ar Dâl

Oherwydd effaith barhaus y pandemig, penderfynodd y Pwyllgor Pobl, ar argymhelliad y Bwrdd Rheoli a Pholisi, na fyddai adolygiad cyflog yn cael ei gynnal ar gyfer 2021 ar gyfer y rhai sy'n ennill dros £24,000 cyfwerth ag amser llawn ac na fyddai unrhyw ddyfarniadau bonws blynyddol o

dan y cynllun Bonws Blynyddol yn cael eu gwneud i unrhyw gydweithiwr yn ystod 2021 mewn perthynas â pherfformiad yn 2020/21.

Yn 2020, yn ogystal, fe wnaeth aelodau'r uwch dîm rheoli ildio eu bonws ar gyfer blwyddyn perfformiad 2019/20 yn wirfoddol.

Tablau taliadau

Mae manylion y taliadau a dderbyniodd aelodau'r Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys a'r Uwch Dîm Rheoli wedi eu harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac maent wedi eu nodi yn y tablau a'r nodiadau a ganlyn.

Mae'r tablau'n adlewyrchu'r taliadau am y rhan o'r flwyddyn pan oedd yr unigolion un ai'n aelodau parhaol o'r Bwrdd neu'r Bwrdd Cynnwys yn unig, neu'n aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli.

Roedd yr unigolion hynny sydd â '+' wrth eu henw yn eu rolau am ran yn unig o flwyddyn ariannol 2020/2021 neu 2019/20.

Os yw'r unigolion yn aelodau o fwy nag un Bwrdd/Pwyllgor (fel y nodir ar dudalennau 72) dim ond unwaith y bydd eu henwau yn ymddangos yn y tablau taliadau.

Ni chafodd Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom nac Aelodau'r Bwrdd Cynnwys unrhyw dâl ychwanegol y tu hwnt i'w ffioedd. Mae Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom hefyd yn cael offer TG os oes angen.

Tabl 1: Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom:

Enw	Cyfeirnod y nodyn canllaw	Ffioedd a Dalwyd 2020/21	Ffioedd 2019/20
		£	£
Yr Arglwydd Terry Burns +	1,2	90,000	120,000
Maggie Carver +	1,2	82,500	70,000
Angela Dean	1	42,519	42,519
Bob Downes	1	42,519	42,519
David Jones +	1	42,519	41,714
Graham Mather	1	42,519	42,519
Tim Suter	1	42,519	42,519
Ben Veerwayan	1	42,519	42,519
Cyfanswm		427,613	444,309

Nodyn Arweiniad 1:

Mae'r ffioedd ar gyfer holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu drwy gytundeb â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am gyfnod llawn eu penodiad.

Mae'r ffioedd a ddangosir yn Nhabl 1 yn cynrychioli'r swm a dalwyd yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu. Mae'r ffi sylfaenol i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom (ac eithrio'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd) wedi aros yn £42,519 y flwyddyn ers 1 Ebrill 2008.

Nodyn Arweiniad 2:

Gadawodd yr Arglwydd Terry Burns swydd Cadeirydd Ofcom ar 31 Rhagfyr 2020. Penodwyd Maggie Carver yn Gadeirydd Dros Dro ym mis Ionawr 2021 a chafodd dri mis o dâl ychwanegol yn unol â'r ffioedd Cadeirydd Dros Dro o £120,000 y flwyddyn ar sail 3 diwrnod yr wythnos. Cyn hyn, £70,000 oedd ffioedd blwyddyn lawn ei rôl fel Dirprwy Gadeirydd.

Tabl 2: Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom:

Enw	Cyfeirnod Nodyn Arweiniad	Ffioedd Gwirioneddol 2020/21	Ffioedd Gwirioneddol 2019/20
		£	£
Dekan Apajee +	3	7,000	-
Jonathan Baker	3	16,800	16,800
Rachel Coldicutt +	3	7,000	-
Maggie Cunningham	3	16,800	16,800
Aled Eirug	3	16,800	16,800
Robin Foster	3	16,800	16,800
Angelina Fusco	3	16,800	16,800
Anna Harling +	3	7,000	-
Peter Horrocks +	3	7,000	-
Tobin Ireland +	3	7,000	-
Sophie Morgan	3	16,800	16,800
Stephen Nuttall	3	16,800	16,800
Monisha Shah	3	16,800	16,800
Kim Shillinglaw +	3	7,000	-
Janey Walker	3	24,150	24,150
Cyfanswm		200,550	158,550

Nodyn Arweiniad 3:

Ofcom sy'n pennu ffioedd Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys.

£16,800 y flwyddyn yw'r ffi sylfaenol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd Cynnwys (ac eithrio'r ffi a delir i Janey Walker sef £24,150 y flwyddyn i adlewyrchu ei gwaith a'i chyfrifoldebau ychwanegol am waith safonau).

Mae'r gwerthoedd a ddangosir yn cynrychioli'r swm blwyddyn lawn a dalwyd neu, os yw'n briodol, rhan o'r flwyddyn, pan ymunodd yr Aelod Anweithredol â'r Bwrdd Cynnwys.

Tabl 3: Taliadau Aelodau Gweithredol Bwrdd Ofcom:

Enw	Cyfeirnod y Nodyn Canllaw	Misoedd y cyfnod adrodd pan oedd yr aelod wedi ei gyflogi yn yr Uwch Dîm Rheoli	Cyfanswm y Cyflog a dalwyd	Hawl / lwfans pensiwn	2020/21		Perfformiad Blynnyddol Perfformiad	Cyfanswm y taliadau a dalwyd	Cyfanswm y taliadau a dalwyd
					Lwfans buddion hyblyg	Buddion o fath arall			
				£	£	£	£	£	£
Y Fonesig Melanie Dawes	4	12	315,000	63,000	15,000	2,663	-	395,663	32,972
Kevin Bakhurst	4	12	246,475	36,971	15,000	2,663	-	301,109	293,035
Lindsey Fussell	4,6	12	245,625	36,844	15,000	2,663	-	300,132	279,091

Tabl 4: Taliadau Aelodau Gweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom:

Enw	Misoedd y cyfnod adrodd pan oedd yr aelod wedi ei gyflogi	Cyfanswm gwirioneddol y Cyflog a dalwyd (Swm cyfwerth â blwyddyn lawn mewn cromfachau lle gweithiwyd am ran o'r flwyddyn)	Hawl / lwfans pensiwn	Lwfans buddion hyblyg	Buddion o fath arall	Perfformiad Blynnyddol Perfformiad	Cyfanswm y taliadau a dalwyd	Cyfanswm y taliadau a dalwyd
			£	£	£	£	£	£
Alison Marsden	11	119,136 (150,000)	20,578	11,971	2,441	-	154,126	-

Tabl 5: Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd, taliadau'r Uwch Dîm Rheoli:

Enw	Cyfeirnod y Nodyn Canllaw	Misoedd yn y cyfnod adrodd yn rhan o'r Uwch Dîm Rheoli	Cyfanswm y Cyflog a dalwyd (Swm cyfwerth â blwyddyn lawn mewn cromfachau)	Hawl / lwfans pensiwn	2020/21		Perfformiad Blynnyddol Bonws (ar gyfer BA 2019/20)	Cyfanswm y taliadau a dalwyd	Cyfanswm y taliadau a dalwyd
					Lwfans buddion hyblyg	Buddion o fath arall			
				£	£	£	£	£	£
Luisa Affuso	4	12	231,187	34,678	15,000	2,663	-	283,528	267,591
Martin Ballantyne +	4,5	10	167,083 (225,000)	25,062	12,500	2,219	-	206,865	-
Phillip Marnick	4	12	230,775	34,616	15,000	2,530	-	282,921	276,504
Kerri-Ann O'Neill	4, 5	12	143,150	21,473	15,000	2,663	-	182,286	-
Melissa Tatton +	4,5	7	125,000 (220,000)	18,750	8,523	1,065	-	153,338	-
Yih – Choung Teh	4,6	12	208,750	31,312	15,000	2,663	-	257,725	244,575

Nodyn Arweiniad 4:

Dangosir cyfanswm y taliadau blynnyddol ar gyfer swyddogion gweithredol Ofcom sydd, neu a oedd, wedi eu cadarnhau yn aelodau o Uwch Dîm Rheoli Ofcom yn ystod cyfnod adrodd 2020/2021. Y ffigur hwn yw'r hawl am dâl am y cyfnod adrodd felly bydd yn llai na'r cyfwerth ag amser llawn os na chafodd blwyddyn lawn ei gweithio fel aelod o'r Uwch Dîm Rheoli.

Mae cyfanswm y tâl blynnyddol yn cynnwys cyflog sylfaenol, bonws perfformiad blynnyddol, lwfans buddion hyblyg, canran o'r cyflog sylfaenol a delir fel lwfans pensiwn a buddion trethadwy o fath arall sy'n adlewyrchu'r gost i Ofcom o ddarparu yswiriant meddygol preifat ar gyfer pob gweithredwr.

Nodyn Arweiniad 5:

Ymunodd Martin Ballantyne â'r Uwch Dîm Rheoli fel Cwnsler Cyffredinol dros dro ym mis Mehefin 2020 a chafodd

ei gadarnhau yn ei swydd ym mis Ionawr 2021. Mae'r cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn adlewyrchu ei gyflog fel aelod o'r Uwch Dîm Rheoli yn y ddwy rôl hyn.

Ymunodd Kerri-Ann O'Neill â'r Uwch Dîm Rheoli fel Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid ym mis Ebrill 2020 ar ôl bod yn aelod o'r uwch grŵp arwain cyn hyn.

Ymunodd Melissa Tatton â'r Uwch Dîm Rheoli fel Cyfarwyddwr Grŵp, Corfforaethol dros dro ym mis Medi 2020 a chafodd ei chadarnhau yn ei swydd fel Prif Swyddog Gweithredu ym mis Ebrill 2021.

Nodyn Arweiniad 6:

Ymgwymerodd Yih-Choung Teh â chyfrifoldebau ychwanegol ochr yn ochr â'i rôl fel Cyfarwyddwr Grŵp, Strategaeth ac Ymchwil fel Cyfarwyddwr Grŵp dros dro, Technoleg ym mis Tachwedd 2019, a chafodd Lindsey Fussell gyfnod o gyfrifoldebau ychwanegol fel Cyfarwyddwr Grŵp dros dro y Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol rhwng mis Chwefror 2020 a mis Medi 2020. Cafodd y ddau godiad cyflog dros dro o 5% am gyfnod y dyletswyddau ychwanegol.

Tabl 6: Aelodau dros dro a'r rhai a ymadawodd â'r Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd Cynnwys Gweithredol yn ystod y cyfnod adrodd

Enw	Cyfeirnod y Nodyn Canllaw	Misoedd y cyfnod adrodd pan oedd yr aelod wedi ei gyflogi	Cyfanswm y Cyflog Gwirioneddol a dalwyd (Swm cyfwerth â blwyddyn lawn mewn cromfachau)	Hawl / lwfans pensiwn	2020/21		Perfformiad Blynnyddol Perfformiad	2019/20	
					Lwfans buddion hyblyg	Buddion o fath arall		Cyfanswm y taliadau a dalwyd	Cyfanswm y taliadau a dalwyd
			£	£	£	£	£	£	£
David Clarkson+	4,7	5	93,466 (190,000)	14,020	7,500	1,331	-	116,317	79,380
Tony Close+	7	4	55,000 (165,000)	8,250	5,000	888	-	69,138	205,908
Jonathan Oxley	7	12	273,625 (275,000)	41,044	15,000	2,663	-	332,332	343,783
Polly Weitzman+	7	10	196,032 (260,000)	29,405	11,310	2,219	-	238,966	313,736

Nodyn Arweiniad 7:

Cwblhaodd David Clarkson ei swydd yn yr uwch dîm rheoli fel Cyfarwyddwr Grŵp Dros Dro, Cystadleuaeth ym mis Medi 2020, ac mae'r cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn adlewyrchu dim ond ei gyflog ar gyfer y rôl dros dro yma.

Camodd Tony Close i lawr fel aelod Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys a gadawodd Ofcom ym mis Gorffennaf 2020 ar ôl cyfnod o absenoldeb garddio cytundebol.

Camodd Jonathan Oxley i lawr o'r Uwch Dîm Rheoli ym mis Ebrill 2020 a gadawodd Ofcom ym mis Ebrill 2021 ar ôl cyfnod o absenoldeb garddio cytundebol. Roedd hefyd yn Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom tan fis Mehefin 2020.

Camodd Polly Weitzman i lawr o'r Uwch Dîm Rheoli ym mis Mai 2020 a gadael Ofcom ym mis Ionawr 2021 ar ôl cyfnod o absenoldeb garddio cytundebol.

Tabl 7: Cyfanswm Costau Taliadau Blynnyddol holl Aelodau'r Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd Cynnwys Gweithredol yn ystod y cyfnod adrodd

Cyfanswm y Cyflog gwirioneddol a dalwyd	Hawl / lwfans pensiwn	Lwfans buddion hyblyg	Buddion o fath arall	Perfformiad Blynnyddol Perfformiad	Cyfanswm y taliadau a dalwyd 2020/2021	Cyfanswm y taliadau a dalwyd
£	£	£	£	£	£	£
2,650,303	416,003	176,804	31,334	-	3,274,445	2,336,576

Contract cyflogaeth

Mae gan y Prif Weithredwr gyfnod rhybudd o 12 mis. Nid oes gan yr un Aelod Gweithredol arall o Fwrdd Ofcom na chydweithiwr arall yn Ofcom gontract cyflogaeth sy'n cynnwys cyfnod rhybudd o fwy na naw mis.

Mae'r Aelodau Anweithredol i gyd wedi eu penodi am dymor penodol i neilltuo amser penodol i Ofcom o tua dau ddiwrnod yr wythnos (heblaw am y Cadeirydd sy'n neilltuo hyd at dri diwrnod yr wythnos a'r Dirprwy Gadeirydd sy'n neilltuo hyd at ddeuddydd a hanner yr wythnos).

Iawndal terfynu'n gynnar

Yn achos Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys neu aelod o'r Uwch Dîm Rheoli, y Pwyllgor Pobl sy'n penderfynu ar y trefniadau ar gyfer terfynu contract cyflogaeth yn gynnar, ac fe'u gwneir yn unol â chontract cyflogaeth yr Aelod Gweithredol neu'r aelod o'r Uwch Dîm Rheoli. Nid oes unrhyw daliad ex Gratia mewn perthynas â therfynu'n gynnar yn fwy na £95,000. Mae pob contract cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliad yn lle rhybudd os terfynir contract yn gynnar fel y gwêl Ofcom yn dda. Nid oes gan Aelodau Anweithredol hawl i iawndal os caiff contract ei derfynu'n gynnar.

Ymgymryd â swyddogaethau cyfarwyddwr allanol

Cyfeirir at fanylion ein dull gweithredu o ran y Cod Ymddygiad gan gynnwys buddiannau allanol ar gyfer Aelodau Anweithredol a Chydweithwyr yn adran Lywodraethu'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynnyddol.

Ar ran Ofcom,

Y Fonesig Melanie Dawes DCB

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

23 Mehefin 2021

Ben Verwaayen

Cadeirydd y Pwyllgor Pobl

23 Mehefin 2021

Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd Brydeinig

Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Swyddfa Gyfathrebiadau am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y datganiadau o incwm a gwariant, gwariant cynhwysfawr, y sefyllfa ariannol; newidiadau mewn ecwiti, llifoedd arian; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu pwysig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi dan y polisiau cyfrifyddu sydd ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yr wyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd y disgrifir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi cael ei harchwilio.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi golwg cywir a theg o gyflwr materion y Swyddfa Gyfathrebiadau ar 31 Mawrth 2021, a gwarged y Swyddfa Gyfathrebiadau ar ôl treth am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Senedd y Deyrnas Unedig, ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail y farn

Roeddwn wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (ISAA) (y Deyrnas Unedig), cyfraith gymwys a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng

ngyfrifoldebau'r Archwilydd er mwyn archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safon Moesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2019. Rwyf hefyd wedi dewis cymhwyso'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau a restrir. Rwyf yn annibynol ar y Swyddfa Gyfathrebiadau yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae fy staff a finnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Os yw defnydd y Swyddfa Gyfathrebiadau o'r sail busnes gweithredol cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi ei wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd o bwys sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol nac ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Swyddfa Gyfathrebiadau i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf ar ôl awdurdodi'r datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi cael ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n cael eu disgrifio yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth sydd wedi cael ei harchwilio, y datganiadau ariannol ac fy nhystysgrif archwilio ar hynny. Mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall, ac ar wahân i'r hyn a nodir yn benodol ar fy nhystysgrif,

nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Yng nghyswllt fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos ei bod yn gamddatganiad o bwys fel arall. Os byddaf yn dod o hyd i anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n rhaid i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Ar sail y gwaith rwyf wedi ei wneud, os byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaethpwyd o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002;
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiadau ar Berfformiad ac Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gydnaws â'r datganiadau ariannol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o'r Swyddfa Gyfathrebiadau a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau o bwys yn yr Adroddiadau ar Berfformiad ac Atebolrwydd. Nid oes gennyf ddim i'w nodi yng nghyswllt y materion canlynol y byddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt i chi os, yn fy marn i:

- na chafodd cofnodion cyfrifyddu digonol eu cadw neu na dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan y canghennau nad oedd fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaid â chyfarwyddyd Trysorlys EM.

Cyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fwy manwl yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- dulliau rheoli mewnl fel y mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiad ariannol heb unrhyw gamddatganiad o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.
- asesu gallu'r Swyddfa Gyfathrebiadau i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai fod y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu naill ai'n bwriadu diddymu'r endid neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (y Deyrnas Unedig) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi drwy dwyll neu gamgymeriad, ac ystyrir eu bod yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamddatganiadau perthnasol yng nghyswllt peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol.

- Holi rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol y Swyddfa Gyfathrebiadau, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a

gweithdrefnau'r Swyddfa Gyfathrebiadau mewn perthynas â'r canlynol:

- canfod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achos o beidio â chydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig; a'r
 - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau'r Swyddfa Gyfathrebiadau sy'n ymwneud â Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 a Deddf yr Economi Ddigidol 2017
- trafod ymysg y tîm ymgysylltu a chynnwys arbenigwyr mewnol perthnasol, gan gynnwys arbenigwyr Pensiwn ynghylch sut a ble gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd a ganlyn: cydnabod refeniw a phostio cofnodion anarferol; a;
 - dod o hyd i ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Swyddfa Gyfathrebiadau yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Swyddfa Gyfathrebiadau. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, Cyfraith Cyflogaeth, Deddfwriaeth treth a Deddfwriaeth Pensiwn.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a'r gwaith profi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaid â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a chwnsleriaid cyfreithiol mewnol ynghylch ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion

dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn dangos rhagfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes trafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes

Yn ogystal, fe wnes i gyfleu deddfau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o ran twyll i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr mewnol a thimau archwilio cydrannau sylweddol, ac roeddwn yn effro i unrhyw arwydd o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol yn: www.communicationsconsumerpanel.org.uk. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

Ar ben hynny, rhaid i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant yr adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y Deyrnas Unedig, a bod y trafodiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Gareth Davies

7 Gorffennaf 2021

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SW1W 9SP

ADRAN C

Datganiadau Ariannol

Mae'r adran hon yn amlinellu ein datganiadau ariannol a nodiadau ar y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.



Datganiad Incwm a Gwariant

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

	Nodiadau	2020/21	2019/20
		£'000	£'000
Incwm	3	132,468	124,994
Incwm clirio sbectrwm	3	22,689	76,651
Cyllid setliad cyfreithiol	3	919	232,533
Cyfanswm incwm		156,076	434,178
Gwariant gweithredu			
Costau staff	4	(83,044)	(78,757)
Gwariant gweithredu arall	6	(50,444)	(47,890)
Gwariant clirio sbectrwm	4,6	(22,689)	(76,651)
Cost gyfreithiol yn ystod y flwyddyn	6	2,081	(3,533)
Cyfanswm gwariant gweithredu		(154,096)	(206,831)
Gwarged gweithredol		1,980	227,347
Costau cyllid	16,17	(970)	(1,058)
Incwm llog pensiwn	19	516	382
Gwarged cyn treth am y flwyddyn		1,526	226,671
Trethiant	7	-	-
Gwarged ar ôl treth am y flwyddyn		1,526	226,671

Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth

	Nodiadau	2020/21	2019/20
		£'000	£'000
Gwarged ar ôl treth am y flwyddyn		1,526	226,671
(Gwariant)/incwm cynhwysfawr arall			
Ailfesur pensiynau	19	(8,674)	4,534
Cyfanswm (gwariant)/incwm cynhwysfawr		(7,148)	231,205

Mae'r nodiadau a'r polisiâu cyfrifyddu ar dudalennau 111 i 147 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

Ar 31 Mawrth 2021

	Nodiadau	Ar 31 Mawrth 2021	Fel ar 31 Mawrth 2020 (wedi ei ailddatgan)
		£'000	£'000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, peiriannau a chyfarpar	8	10,637	11,312
Asedau hawl i ddefnyddio	9	43,073	47,650
Asedau anniriaethol	10	166	627
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol	12	1,069	4,145
Asedau buddion ymddeol	19	14,876	22,426
Cyfanswm asedau anghyfredol		69,821	86,160
Asedau cyfredol			
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol	11	19,627	15,920
Arian parod chyfwerth ag arian parod	13	14,185	13,827
Cyfanswm asedau cyfredol		33,812	29,747
Cyfanswm asedau		103,633	115,907
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol	14	27,875	28,428
Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau cyfredol	16	4,079	4,052
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau: rhwymedigaethau cyfredol	17	12	3,014
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		31,966	35,494
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol	15	7,100	4,894
Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau anghyfredol	16	40,653	44,522
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau: rhwymedigaethau anghyfredol	17	149	152
Rhwymedigaethau buddion ymddeol	19	1,153	1,085
Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol		49,055	50,653
Cyfanswm rhwymedigaethau		81,021	86,147
Asedau llai rhwymedigaethau		22,612	29,760
Ecwiti			
Cronfeydd wrth gefn		22,612	29,760
Cyfanswm ecwiti		22,612	29,760

Mae'r nodiadau a'r polisiau cyfrifyddu ar dudalennau 111 i 147 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn. Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd ar 23 Mehefin 2021.

Datganiad o Newidiadau Mewn Ecwiti

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

	Nodiadau	Cronfa wrth gefn
		£'000
Balans ar 1 Ebrill 2019		(201,445)
Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2019/20		
Ailfesur pensiynau	19	4,534
Gwarged am y flwyddyn		226,671
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am 2019/20		231,205
Balans ar 31 Mawrth 2020		29,760
Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2020/21		
Ailfesur pensiynau	19	(8,674)
Gwarged am y flwyddyn		1,526
Cyfanswm gwariant cynhwysfawr ar gyfer 2020/21		(7,148)
Balans ar 31 Mawrth 2021		22,612

Mae'r nodiadau a'r polisiâu cyfrifyddu ar dudalennau 111 i 147 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Datganiad o'r Llifoedd Arian Parod

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

	Nodiadau	2020/21 £'000	2019/20 (wedi ei ailddatgan) £'000
Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu			
Gwarged gweithredol		1,980	227,347
Addasiadau ar gyfer trafodiadau anariannol			
Dibrisiant	8	2,033	2,115
Dibrisiant asedau hawl i ddefnyddio	9	4,742	4,775
Amorteiddiad	10	211	265
(Elw)/Colled ar waredu asedau anghyfredol	6	(175)	13
Amhariad	6	250	84
Cynnydd mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	11,12	(631)	(4,365)
Lleihad mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill	14,15	1,653	10,738
Cynnydd mewn rhwymedigaethau prydlas	16	139	-
Lleihad mewn darpariaethau	17	(3,014)	(229,032)
(Cynnydd)/Lleihad mewn pensiwn ymddeol	19	(540)	55
Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol		6,648	11,995
Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar	8	(1,366)	(895)
Prynu asedau hawl i ddefnyddio	9	(165)	-
Prynu asedau anniriaethol	10	-	(68)
Enillion o werthu asedau anghyfredol	6	183	3
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(1,348)	(960)
Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido			
Taliadau rhwymedigaethau lesioedd	16	(4,942)	(4,893)
All-lif arian parod net o weithgareddau cyllido		(4,942)	(4,893)
Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn ystod y flwyddyn		358	6,142
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn		13,827	7,685
Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn ystod y flwyddyn		358	6,142
Cronfeydd net terfynol	13	14,185	13,827

Mae'r nodiadau a'r polisïau cyfrifyddu ar dudalennau 111 i 147 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Nodiadau ar y Cyfrifon

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

1. Y sail dros gyflwyno a'r prif bolisiau cyfrifyddu

Mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) yn gorfforaeth statudol sydd wedi ei lleoli yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n darparu amrediad eang o wasanaethau rheoleiddio. Cafodd datganiadau ariannol Ofcom ar gyfer 31 Mawrth 2021 eu paratoi'n unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS), a gyhoeddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB), yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) i gydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol o dan y confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio ar gyfer ailbrisio rhai asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol sy'n cael eu mesur yn ôl symiau wedi eu hailbrisio neu werth teg, os o gwbl, yn unol â, ac o dan gyfarwyddyd cyfrifon yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) a'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

Caiff symiau yn y Datganiadau Ariannol eu datgan mewn punnoedd sterling, i'r fil agosaf, sef yr arian y mae Ofcom yn delio ag ef.

a) Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig

Mae rhai safonau newydd, dehongliadau a diwygiadau i safonau cyfredol, a restrir isod, wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Ofcom. Mae'r safon a'r datganiad isod yn berthnasol i'r cyfnod cyfrifyddu cyfredol.

- Mae diwygiadau i IAS 1 Cyflwyno Datganiadau Ariannol ac IAS 8 Pholisïau Cyfrifyddu, Newidiadau mewn Amcangyfrifon a Gwallau Cyfrifo i alinio'r diffiniad o Ddeunydd ar draws y gwahanol safonau ac egluro rhai agweddau ar y diffiniad, yn berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2020 neu ar ôl hynny. Ar gyfer Ofcom, y dyddiad trosglwyddo yw dechrau'r flwyddyn ariannol ar 1 Ebrill 2020. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, nid yw hyn yn effeithio ar ein ffigurau.

- Diwygiadau i Gyfeiriadau at y Fframwaith Cysyniadol mewn Safonau IFRS sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2020 neu ar ôl hynny. Mae'r rhain yn fân newidiadau i amrywiol safonau cyfrifyddu i adlewyrchu'r Fframwaith Cysyniadol diwygiedig ar gyfer Adrodd Ariannol ac nid ydynt yn effeithio ar ein ffigurau.

- Diwygio IFRS 16 – Consesiynau Rhent yn gysylltiedig â Covid19

Mae IFRS 16 Lesoedd yn cynnwys gofynion cyfrifyddu ar gyfer addasiadau i brydles, gan gynnwys consesiynau rhent. Rhaid i Ofcom, fel prydlesai, benderfynu a ddylid trin yr addasiad fel les ar wahân neu addasu'r rhwymedigaeth lesioedd presennol a'r ased hawl i ddefnyddio.

Mae'r cyfleuster yn caniatáu i gwmni ddewis peidio ag asesu a yw consesiwn rhent yn addasiad les, lle mae'r amodau a ganlyn yn cael eu bodloni:

- a. mae'r newid yn y taliadau prydles yn arwain at gydnabyddiaeth ddiwygiedig ar gyfer y les sydd i raddau helaeth yr un fath â'r gydnabyddiaeth ar gyfer y les yn union cyn y newid, neu'n llai na'r gydnabyddiaeth ar gyfer y les;
- b. dim ond taliadau sy'n ddyledus yn wreiddiol ar 30 Mehefin 2021 neu cyn hynny y mae unrhyw ostyngiad mewn taliadau prydles yn effeithio arnynt; ac
- c. nid oes unrhyw newid sylweddol i delerau ac amodau eraill y les.

Ni ofynnodd Ofcom am gonsesiynau rhent sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

Nid oes safon, diwygiad na dehongliad newydd i safon gyfredol wedi cael eu cyhoeddi, sy'n effeithio ar ddatganiadau ariannol Ofcom sy'n berthnasol i gyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol.

b) Cydnabod incwm

Mae incwm yn cynnwys gwerth teg y taliadau sydd wedi eu derbyn neu sydd i'w derbyn yn ystod gweithgareddau arferol Ofcom. Dangosir incwm yn net o dreth ar werth, enillion, ad-daliadau a gostyngiadau. Mae Ofcom yn cydnabod incwm pan fydd y swm yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy, a'i bod yn debygol y bydd buddion economaidd yn llifo i'r endid yn y dyfodol.

Mae IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid: yn cynnwys model pum cam ar gyfer cydnabod incwm sy'n deillio o gontractau gyda chwsmeriaid. Yr egwyddor graidd oedd cydnabod incwm er mwyn iddo ddangos trosglwyddo'r nwyddau neu'r gwasanaethau sydd wedi cael eu haddo i gwsmeriaid mewn swm a oedd yn adlewyrchu'r ystyriaeth y mae'r endid yn disgwyl cael hawl iddo yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Roedd Ofcom wedi ystyried y broses pum cam ac wedi penderfynu peidio â newid y ffordd mae incwm yn cael ei gydnabod:

- Ym mhob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i Ofcom gydbwysu ei wariant gyda'i incwm. Mae'r statud yn mynnu bod Ofcom yn codi incwm o bob un o'r sectorau mae'n eu rheoleiddio er mwyn talu am y costau a gaiff Ofcom wrth reoleiddio'r sector hwnnw ynghyd â chyfran briodol o 'gostau cyffredin' Ofcom ar gyfer pob un o'r sectorau hynny. Felly, mae Deddfwriaeth yn darparu'r gorfodadwyedd ar y naill barti a'r llall er mwyn galluogi Ofcom i adennill ei gostau gan drydydd partïon.
- Mae'r rhwymedigaethau perfformiad yn ymwneud â'r gwaith sylfaenol a wneir gan Ofcom fel rheoleiddiwr y sector Cyfathrebiadau, ac fel y nodir yn y Cynllun Blynnyddol a gyhoeddir.
- Caiff y ffioedd eu cyfrifo ar sail adennill costau fel y nodir yng nghyllideb Ofcom ac wedi eu haddasu ar gyfer adennill gormod neu ddim digon yn y flwyddyn flaenorol. Bydd yr holl ffioedd yn cael eu cyhoeddi yn y Tablau Tariff ar gyfer pob blwyddyn ariannol.
- Caiff costau eu dyrannu i drydydd partïon yn unol â Datganiad o Egwyddorion Codi Tâl Ofcom. Mae hyn yn sicrhau bod y taliadau'n adlewyrchu'r costau a ddyrennir i'r sector priodol ac yn unol â throsiant perthnasol.
- Caiff incwm ei gydnabod yn y flwyddyn y ceir y rhwymedigaeth perfformiad (cost). Bydd adennill gormod neu ddim digon o incwm yn cael ei gronni neu ei ohirio a bydd taliadau yn y dyfodol yn cael eu haddasu yn unol â hynny.

- Mae incwm hefyd yn cael ei gydnabod ar gyfer y costau hynny lle nad oes modd codi ffioedd na thaliadau ar randdeiliaid, yn bennaf am gost rheoli sbectrwm drwy gadw ffioedd trwyddedau WTA yn unol ag adran 401 Deddf Cyfathrebiadau 2003 a'r Datganiad o Egwyddorion Cyllido.

Cymorth Grant DCMS

Darperir cymorth grant gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ariannu rhaglen clirio'r band 700MHz. Mae'r rhaglen hon yn goruchwyllo'r gwaith o glirio'r band UHF 700MHz (gan gynnwys lleihau unrhyw ymyriant posib). Caiff y gwaith clirio ei wneud gan drydydd partïon sy'n cael eu talu drwy grantiau cyfalaf sydd wedi cael eu hystyried a'u cymeradwyo mewn egwyddor gan Fwrdd Rheoli'r Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm, cyn cael eu cymeradwyo'n derfynol gan Drysorlys EM.

Mae'r rhai sy'n cael grantiau ar gyfer y rhaglen yn gofyn am gyllid gan Ofcom ar ôl i amodau'r grant gael eu bodloni. O ran y grantiau a ddyfarnwyd, dim ond am y costau gwirioneddol sydd wedi codi y bydd Ofcom yn talu, a bydd yn cydnabod y costau wrth gytuno i dalu'r arian y gofynnwyd amdano i'r derbynnydd.

Cadw Derbyniadau Deddf Telegraffiaeth Ddi-Wifr (WTA)

Telir ffioedd i Ofcom mewn perthynas â'n swyddogaeth rheoli sbectrwm. Yn dilyn gweithredu Deddf yr Economi Ddigidol 2017, caiff Ofcom gadw'r cyfryw symiau i ariannu ei swyddogaethau rheoli sbectrwm cyffredinol, ac i dalu costau cyflawni ei swyddogaethau eraill na all godi ffioedd a thaliadau ar eu cyfer fel arall. Fel y cytunwyd â Thrysorlys Ei Mawrhydi a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, bydd derbyniadau WTA hefyd yn cael eu defnyddio i gyllido gwaith paratoi ar gyfer dyletswyddau newydd fel Llwyfannau Rhannu Fideo a Diogelwch Ar-lein. Pennir y swm misol a gedwir gan y gwariant a gynlluniwyd ar gyfer y swyddogaethau hyn. Mae incwm yn cael ei gydnabod ar sail gronnus, a bydd y swm a gedwir ar gyfer y mis canlynol yn cael ei addasu os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill.

Incwm rhanddeiliaid

Ffioedd gweinyddu gwasanaethau post, rhwydweithiau a gwasanaethau

Caiff y ffioedd hyn eu codi ar randdeiliaid yn y rhwydweithiau a'r gwasanaethau post sy'n gweithredu o dan gyfundrefn heb drwydded, ond sy'n dod o dan

bwerau rheoleiddio Ofcom. Mae'r costau hyn yn gyfuniad o wariant a gynlluniwyd ar gyfer ein gwaith rheoleiddio, fel y nodir yn y Cynllun Blynnyddol, ac addasiadau i'r flwyddyn flaenorol. Cyfrifir yr incwm hwn ar sail gronnus. Ar ôl penderfynu'n derfynol ar y costau ar ddiwedd y flwyddyn, bydd incwm sy'n fwy na'r arian sydd wedi ei wario yn cael ei drin fel incwm gohiriedig, a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n daladwy. Yn groes i hynny, os bydd yr arian sydd wedi ei wario yn fwy na'r incwm a gafwyd, bydd yn cael ei drin fel incwm cronedig a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n dderbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill, bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yng nghostau'r flwyddyn ariannol ganlynol.

Cadwyn atal

Ym mis Hydref 2018, dyfarnwyd grant i ni gan Innovate UK, rhan o UK Research and Innovation, corff cyhoeddus anadrannol a ariennir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Dyfarnwyd y grant o dan Gronfa Arloesi'r Rheoleidiwr, a sefydlwyd ar gyfer rheoleiddwyr yn y Deyrnas Unedig i helpu i sbarduno arloesedd yn y sector cyhoeddus. Roedd ein prosiect yn seiliedig ar ddefnyddio technoleg cadwyn atal i wella'r rheolaeth ar rifau ffôn y Deyrnas Unedig, a rheoli hunaniaeth ddigidol. Mae swm y dyfarniad yn amodol ar arian cyfatebol (Ofcom 25%, grant 75%) a chafodd ei ymestyn ym mis Awst 2019. Mae incwm yn cael ei gydnabod ar sail gronnus a chaiff ei addasu yn y flwyddyn ariannol ganlynol os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill. Cafodd y prosiect hwn ei gwblhau yn 2019/20 ond mae balans incwm cronedig o hyd oherwydd oedi yn yr archwiliad gofynnol oherwydd y pandemig.

Ffioedd trwyddedau darlledu

Mae incwm o ffioedd trwyddedau darlledu'n cynrychioli'r swm a anfonebir i ddeiliaid trwyddedau darlledu ar gyfer ein gwaith rheoleiddio arfaethedig, gan gynnwys unrhyw addasiadau i'r flwyddyn flaenorol. Cyfrifir yr incwm hwn ar sail gronnus. Caiff incwm sy'n fwy na'r arian sydd wedi ei wario yn y sector darlledu ei drin fel incwm gohiriedig, a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n daladwy. Os bydd yr arian sydd wedi ei wario yn fwy na'r incwm a gafwyd, bydd yn cael ei drin fel incwm cronedig a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n

dderbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill, bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yng nghostau'r flwyddyn ariannol ganlynol.

Ffioedd ymgeisio

Am resymau ymarferol, rydym yn codi ffioedd penodedig ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio ar wahân sydd o dan reolaeth rhanddeiliaid unigol (er enghraifft, cais am drwydded darlledu), neu lle nad yw'r trosiant perthnasol yn sail briodol ar gyfer codi ffi (er enghraifft, radio cymunedol). Ni ellir ad-dalu'r ffioedd hyn, ac felly fe'u cofnodir fel refeniw adeg derbyn cais y rhanddeiliad. Fodd bynnag, os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill, caiff hynny ei wrthbwyso yn erbyn cyfanswm costau'r sector yn y flwyddyn ganlynol. Er enghraifft, os yw cyfanswm y gwariant ar gyfer ceisiadau radio yn fwy na'r refeniw o'r ceisiadau, bydd yr incwm annigonol sydd wedi ei adennill yn cael ei gynnwys yng nghyfanswm y costau rheoleiddio radio sydd i'w hadennill gan dalwyr ffi'r drwydded radio.

Systemau gwybodaeth a rhwydweithiau

Mae incwm gan randdeiliaid systemau Gwybodaeth a Rhwydweithiau (NIS) yn cynrychioli'r symiau sy'n ddyledus gan weithredwyr dynodedig gwasanaethau hanfodol ar gyfer ein gwaith rheoleiddio. Cyfrifir yr incwm hwn ar sail gronnus. Yn unol â rheoliadau NIS, mae'r incwm hwn yn cael ei adennill mewn ôl-daliadau; felly bydd yr arian sydd wedi ei wario yn cael ei drin fel incwm cronedig, a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n dderbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Incwm arall

Cyfrifir incwm anstatudol ar sail gronnus, a chaiff ei gyfateb i'r gwariant y mae'n cyfrannu ato.

c) MG Alba

Yn unol ag Adran 210 Deddf Cyfathrebiadau 2003 ac Adran 183 Deddf Darlledu 1990, mae'r symiau mae Gweinidogion yr Alban yn eu talu i Ofcom yn cael eu talu wedyn gan Ofcom i'r Gronfa Darlledu Gaeleg a reolir gan MG Alba. O ganlyniad, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn natganiadau ariannol Ofcom.

d) Derbyniadau a gasglwyd gan Ofcom o fewn cwmpas Adran 400 Deddf Cyfathrebiadau 2003

O dan Adran 400 Deddf Cyfathrebiadau 2003, rhaid i Ofcom gasglu ffioedd a thaliadau. Cesglir yr incwm o bum prif ffynhonnell:

- Ffioedd trwydded WTA
- Ffioedd sbectrwm Adran Llywodraeth y DU
- Cosbau Ariannol
- Taliadau Ychwanegol oddi wrth y rhai sy'n dal trwyddedau ar gyfer teledu a radio; a
- Rhifau daearyddol

Cafodd yr incwm a gasglwyd (ac eithrio'r incwm a gadwyd o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017) ei drosglwyddo i Gronfa Gyfunol y Deyrnas Unedig yn Nhrysorlys EM, yr Adran Cyllid a Phersonél – Gogledd Iwerddon (DFPNI) ac i Drysorlysoedd Ynys Manaw, Beiliaeth Jersey, a Beiliaeth Guernsey o dan Offeryn Statudol 1991, Rhifau 998, 1710 ac 1709 y naill a'r llall, yn uniongyrchol neu drwy'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) fel y corff sy'n noddi Ofcom.

Mae Ofcom yn paratoi set o ddatganiadau ariannol ar wahân hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn at ddibenion Adran 400 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Caiff y rhain eu cyflwyno gerbron Senedd y DU.

Felly, ni wneir unrhyw dderbyniadau, taliadau nac eitemau Datganiad am y Sefyllfa Ariannol yn Natganiadau Ariannol Ofcom o ran trafodion sy'n gysylltiedig ag Adran 400, onid yw'r taliadau a'r ffioedd wedi eu casglu a'u rhoi ym mhrif gyfrif banc Ofcom ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

e) Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys prynu asedau newydd ac ymestyn, datblygu neu ddisodli'r asedau presennol.

Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500 a chaiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu cofnodi ar sail cost neu gost dybiedig, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad. Defnyddir trothwyon cyfalafu ar gyfer eitemau unigol oni bai ei bod yn fwy priodol cymhwyso'r meini prawf i werth cyfunol. Er enghraifft, mae caledwedd cyfrifiadurol sefydlog fel gweinyddion, muriau cadarn a switshis rhwydwaith

a ddefnyddir mewn swyddfeydd yn cael eu cyfalafu. Ar y llaw arall, mae cyfarpar TG symudol ag oes fer ac sy'n isel mewn gwerth yn cael ei gofnodi fel gwariant, oherwydd nad oes gan Ofcom reolaeth dros yr amgylchedd ffisegol na'r ffordd mae'n cael ei ddefnyddio.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yn swm cario ymlaen yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff swm cario ymlaen y darn a ddisodlir ei ddatgydnabod.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu dibrisio fel a ganlyn, ar sail llinell syth, ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth ar y llyfrau dros eu hamcan oes ddefnyddiol:

Gosodiadau a Ffitiadau – Gwelliannau Prydles	Cyfnod y brydles
Gosodiadau a Ffitiadau – Dodrefn	7 mlynedd
Cyfarpar Swyddfa a Maes	4 i 7 mlynedd
Caledwedd Cyfrifiadurol	3 i 5 mlynedd
Cerbydau Modur	5 mlynedd

Caiff dibrisiant ei ddyrannu i'r Datganiad o Incwm a Gwariant, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith. Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cynrychioli'r costau a wynebwyd yn datblygu asedau diriaethol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yr asedau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r dosbarth perthnasol o ased a'u dibrisio yn unol â'r polisi cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion ar yr hyn a werthir yn cael eu cydnabod yn '(Elw)/Colledion ar waredu asedau anghyfredol' yn yr adran 'Gwariant gweithredol arall' yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

f) Rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth lesedd

Ar gyfer unrhyw gontract newydd, mae Ofcom yn ystyried a yw contract yn les, neu'n cynnwys les. Diffinnir les fel contract, neu ran o gontract, sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased (yr ased sylfaenol) am gyfnod yn gyfnewid am dâl cydnabyddiaeth. I

gymhwyso'r diffiniad hwn, mae Ofcom yn asesu a yw'r contract yn bodloni tri gwerthusiad allweddol, sef:

- a yw'r contract yn cynnwys ased dynodedig, sydd naill ai wedi ei nodi'n benodol yn y contract neu'n ymhlyg drwy gael ei nodi ar yr adeg y bydd yr ased ar gael i Ofcom.
- a oes gan Ofcom yr hawl i gael yr holl fanteision economaidd o ddefnyddio'r ased dynodedig drwy gydol y cyfnod defnyddio, wrth ystyried ei hawliau o fewn cwrmpas diffiniedig y contract.
- a oes gan Ofcom yr hawl i fynnu sut mae'r ased dynodedig yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y cyfnod defnyddio. Mae Ofcom yn asesu a oes ganddo'r hawl i fynnu 'sut ac at ba ddioben' y mae'r ased yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y cyfnod defnyddio.

Ar ddyddiad cychwyn y les, mae Ofcom yn cydnabod y rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a'r rhwymedigaeth lesoedd, heb gynnwys TAW, ar y fantolen. Caiff asedau hawl i ddefnyddio eu mesur yn ôl cost, sy'n cynnwys y mesuriad cychwynnol o'r rhwymedigaeth lesoedd, amcangyfrif o unrhyw gostau i ddatgymalu a thynnu'r ased ar ddiwedd y les, ac unrhyw daliadau les a wnaed cyn dyddiad cychwyn y les (gan gynnwys unrhyw gymelliadau a dderbyniwyd) hyd at ddiwedd y les neu'r cyfnod ymestyn, pa un bynnag yw'r hwyraf, neu hyd at derfynu'r les os yw'n berthnasol.

Mae Ofcom yn dibrisio'r asedau hawl i ddefnyddio ar sail llinell syth ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth ar y llyfrau o'r mis y mae ased yn cael ei roi ar waith, hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol ased hawl i ddefnyddio neu ddiwedd cyfnod y les – pa un bynnag yw'r cynharaf. Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd. Mae Ofcom hefyd yn asesu'r ased hawl i ddefnyddio am amhariad pan fydd dangosyddion o'r fath yn bodoli.

Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500, a chofnodir asedau hawl i ddefnyddio ar sail cyfanswm costau contract y les, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad. Defnyddir trothwyon cyfalafu ar gyfer eitemau unigol oni bai ei bod yn fwy priodol cymhwyso'r meini prawf i werth cyfunol.

Ar ôl gwneud y mesuriadau cychwynnol, caiff swm cario ymlaen yr ased hawl i ddefnyddio ei addasu

yn ôl yr un swm â'r addasiad i werth cario ymlaen y rhwymedigaeth lesoedd. Nid oes elw na cholled yn syth, ond bydd y llifoedd arian diwygiedig yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant dros weddill cyfnod y les. Mae eithriadau i'r egwyddor hon: pan fydd gostyngiad yng ngwerth cario ymlaen y rhwymedigaeth lesoedd yn fwy na gwerth cario ymlaen yr ased hawl i ddefnyddio perthnasol ar adeg yr ailfesur – os felly caiff yr ased ei ostwng i ddim, a bydd y swm dros ben yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant – ac mewn sawl achos lle mae addasiad i les yn lleihau cwrmpas les bresennol. Bydd ailbrisiadau o asedau hawl i ddefnyddio, os oes rhai, yn cael eu cydnabod yn y gronfa ailbrisio.

Mae Ofcom yn mesur y rhwymedigaeth lesoedd ar werth presennol y taliadau les sydd heb eu talu ar y dyddiad cychwyn, wedi ei disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd yn y les os yw'r gyfradd honno ar gael yn hwylus, neu yn unol â chyfradd Trysorlys EM o 0.91% ar gyfer blwyddyn galendr 2021 (1.27% ar gyfer blwyddyn galendr 2020).

Mae taliadau lesoedd a gynhwysir wrth fesur y rhwymedigaeth lesoedd yn cynnwys taliadau sefydlog (gan gynnwys rhai sefydlog yn y bôn) ac, os oes rhai, y taliadau amrywiol ar sail mynegai neu gyfradd, symiau y disgwylir iddynt fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol, a thaliadau sy'n codi o opsiynau sy'n eithaf sicr o gael eu harfer.

Yn dilyn y mesur cychwynnol, bydd y rhwymedigaeth yn cael ei lleihau ar gyfer taliadau a wneir a'i chynyddu ar gyfer llog. Caiff ei ailfesur i adlewyrchu unrhyw ailasesiad neu addasiad, neu os oes newidiadau mewn taliadau sefydlog yn y bôn. Pan gaiff y rhwymedigaeth lesoedd ei hailfesur, adlewyrchir yr addasiad cyfatebol yn yr ased hawl i ddefnyddio, neu'r Datganiad Incwm a Gwariant os yw'r ased hawl i ddefnyddio eisoes wedi ei leihau i sero.

Mae Ofcom wedi dewis rhoi cyfrif am lesoedd tymor byr ac am lesoedd asedau isel eu gwerth gan ddefnyddio'r dulliau ymarferol. Yn hytrach na chydabod rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth lesoedd, mae'r taliadau mewn perthynas â'r rhain yn cael eu cydnabod fel gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Cost uniongyrchol gychwynnol

Dyma'r costau cynyddrannol o gael prydles na fyddai wedi eu hysgwyddo pe na bai'r brydles wedi ei sicrhau. Gallai'r rhain gynnwys costau fel ffioedd canfyddwr, comisiynau i asiantau ar gyfer sefydlu'r les a ffioedd ymlaen llaw. Mae Ofcom wedi wynebu costau o'r fath o ganlyniad i lofnodi prydlesi newydd yn ystod y flwyddyn ac mae'r rhain wedi cael eu hychwanegu at yr asedau hawl i ddefnyddio yn y datganiadau ariannol.

Defnyddio ôl-ddoethineb

Gall cwmni ddefnyddio ôl-ddoethineb wrth bennu cyfnod y les os bydd y contract yn cynnwys dewisiadau i ymestyn y les neu i ddod â hi i ben. Dim ond pan fydd cwmni'n dilyn dull ôl-weithredol wedi ei addasu y bydd ar gael. Un o fanteision allweddol dull ôl-weithredol wedi ei addasu yw y gall cwmni drosglwyddo ei brydlesi gweithredol gan ddefnyddio gwybodaeth ar ddyddiad y cais cychwynnol.

g) Asedau anniriaethol

Ar ôl ei gydnabod i gychwyn, mae ased anniriaethol yn cael ei gario ar ei union gost llai unrhyw amorteiddiad cronedig ac unrhyw golledion amhariad sydd wedi cronni yn unol ag IAS 38 Asedau Anniriaethol. Mae'r gwariant a gyfalafwyd yn cynnwys costau rhaglenni meddalwedd, ffioedd trwyddedau cysylltiedig, a'r dechnoleg gwybodaeth sy'n ymwneud â datblygu ein systemau craidd. Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500. Defnyddir trothwyon cyfalafu ar gyfer eitemau unigol oni bai ei bod yn fwy priodol cymhwyso'r meini prawf i werth cyfunol.

Caiff asedau anghyfredol, anniriaethol, a gynhyrchwyd yn fewnol, megis meddalwedd cyfrifiadurol, eu cydnabod dim ond os caiff ased ei greu y gellir ei ddynodi. Os na ellir cydnabod ased anniriaethol a gynhyrchwyd yn fewnol, caiff costau datblygu eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod y wynebwyd y gwariant.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yn swm cario ymlaen yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff swm cario ymlaen y darn a ddisodlir ei ddatgydnabod.

Caiff amorteiddiad ar asedau anniriaethol a gyfalafwyd ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant ar sail llinell syth, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith, dros amcan oes ddefnyddiol yr ased o 3 i 5 mlynedd. Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Mae systemau sy'n cael eu datblygu yn cynnwys costau a geir wrth ddatblygu meddalwedd a fydd yn disodli rhai o'r rhaglenni presennol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yr asedau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r dosbarth perthnasol o ased a'u hamorteiddio yn unol â'r polisi cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion ar yr hyn a werthir yn cael eu cydnabod yn '(Elw)/Colledion ar waredu asedau anghyfredol' yn yr adran 'Gwariant gweithredol arall' yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

h) Amhariad ar Eiddo, Offer a Chyfarpar, Asedau Anniriaethol ac Asedau Hawl i Ddefnyddio

Ar bob dyddiad adrodd, caiff gwerth cario ymlaen asedau anghyfredol ei adolygu i weld a oes unrhyw arwydd bod amhariad wedi digwydd i werth cario ymlaen yr asedau, yn unol ag IAS 36 Amhariad ar Asedau.

Caiff swm cario ymlaen ased ei briodoli'n syth, fel colled amhariad, i'w swm adenilladwy os yw swm cario ymlaen yr ased yn fwy na'r amcangyfrif o'r swm adenilladwy.

Wrth fabwysiadu IFRS 16, cafodd yr holl lesiau beichus ac amhariadau ar draws eiddo sydd eisoes ar brydles eu hailfesur er mwyn ystyried effaith y newid mewn cyfrifyddu ar gyfer prydlesi ar fesur namau. Ni wnaed newidiadau yn y tybiaethau sylfaenol yn ystod yr ailfesuriad hwn.

Caiff amhariadau sylweddol eu datgelu ar wahân yn y nodiadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant a'r Datganiad am y Sefyllfa Ariannol. Caiff asedau sydd wedi bod yn destun amhariad eu hadolygu ar bob dyddiad adrodd i weld a ellir gwrthdroi'r amhariad.

i) Offerynnau Ariannol

Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill

Symiau masnach derbyniadwy yw'r arian sy'n ddyledus gan randdeiliaid am drwyddedau, ffioedd a thaliadau. Os disgwylir i'r arian gael ei gasglu mewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy), cânt eu trin fel asedau cyfredol. Os na, cânt eu cyflwyno fel asedau anghyfredol.

Ni cheir llog ar symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill, a chânt eu cydnabod yn wreiddiol yn ôl eu gwerth teg llai unrhyw ddiddymu ar gyfer amhariad. Mae enillion a cholledion ar fesur dilynol yn cael eu cydnabod fel gwerth teg yn llwyr yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

Nid yw'r ansicrwydd ariannol byd-eang sy'n deillio o'r pandemig wedi cael fawr o effaith ar y gallu i adennill dyledion yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 ac felly nid oes unrhyw gynnydd sylweddol yn y risg i gredyd. Yn ystod y flwyddyn, lle mae rhanddeiliaid wedi cael anawsterau ariannol, mae Ofcom wedi darparu cyfleoedd ar gyfer cynlluniau talu ac wedi gohirio amseriad y taliadau.

Mae rhagdaliadau'n daliadau sydd wedi cael eu gwneud, ond y buddion ohonynt heb gael eu defnyddio.

Incwm cronedig - gweler Nodyn 1(b) Cydnabod Incwm

Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a chyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, arian ar gadw mewn banciau a symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol. Caiff incwm llog sydd i'w dderbyn ar arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ei gydnabod wrth iddo gael ei ennill.

Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill

Ystyr symiau masnach taladwy yw dyletswyddau i dalu am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd gan gyflenwyr fel rhan o drefniadau busnes arferol. Caiff cyfrifon taladwy eu trin fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy). Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

Ni cheir llog ar symiau masnach taladwy a symiau

taladwy eraill, ac maent yn cael eu cydnabod yn wreiddiol yn ôl eu gwerth teg.

Mae symiau taladwy eraill yn cynrychioli arian sy'n ddyledus i drydydd partion ar y dyddiad adrodd.

Incwm gohiriedig - gweler Nodyn 1(b) cydnabod Incwm.

Risgiau Ariannol a Amhariad ar Offerynnau Ariannol

Mae IAS 32 Offerynnau Ariannol: Cyflwyniad yn gofyn bod endid yn datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi ei chwarae yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau a wynebir ganddo wrth gyflawni ei weithgareddau. Nid yw Ofcom yn agored iawn i beryglon o ran hylifedd, cyfraddau llog ac arian cyfred. Oherwydd natur gweithgareddau Ofcom, ac oherwydd y modd y caiff ei ariannu, nid yw'n agored i'r un risgiau ariannol a wynebir gan endidau busnes.

Hefyd, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl gyfyngedig o ran creu neu newid risg o'i gymharu â chwmnïau rhestredig y mae IAS 32 yn bennaf berthnasol iddynt. Ychydig iawn o bwerau sydd gan Ofcom i fenthyl neu i fuddsoddi gwargedion o gronfeydd. Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredol beunyddiol yn newid y risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

Nid yw mabwysiadu IFRS 9 Offerynnau Ariannol yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ganlyniadau Ofcom. Nid oes gan symiau masnach derbyniadwy nac asedau contract Ofcom unrhyw elfen gyllido sylweddol, ac nid ydynt yn agored chwaith i risgiau credyd, oherwydd os na fydd digon o ffioedd rhanddeiliaid wedi cael eu hadennill mewn blwyddyn, byddant yn cael eu hadennill drwy dariffau'r blynnyddoedd dilynol. Mae Ofcom wedi asesu'r lwfans colledion ar gydnabyddiaeth gychwynnol yn unol â swm sy'n cyfateb i'r colledion credyd hyd oes a ddisgwylir, ac roedd y canlyniad yn amherthnasol. Felly, er mwyn sicrhau bod hyn yn aros yr un fath drwy gydol oes y swm derbyniadwy, mae Ofcom yn parhau i werthuso cadernid ei reolaeth credyd fisol a'i amhariad ar asedau ariannol, os o gwbl, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

j) Buddion gweithwyr

Pensiynau

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi eu diffinio, dau

gynllun â'r buddion wedi eu diffinio, a chynllun nad yw'n cael ei ariannu.

Cynllun cyfraniadau wedi eu diffinio

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r cyfraniadau wedi eu diffinio, lle mae Ofcom yn talu cyfraniadau i endid ar wahân ac nid oes ganddo rwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu symiau ychwanegol.

Mae'r rhwymedigaethau o dan gynllun cyfraniadau wedi eu diffinio Ofcom yn cael eu cydnabod o fewn costau staff fel gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant fel y'u hwynebwyd. Gall staff newydd ymuno â'r cynllun pensiwn cyfranddeiliaid, sy'n gynllun â'r cyfraniadau wedi eu diffinio.

Cynlluniau â'r buddion wedi eu diffinio

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r buddion wedi eu diffinio, lle mae'r buddion y bydd gan aelodau hawl iddynt yn cael eu pennu ymlaen llaw gan fformiwla. Mae rhwymedigaeth net Ofcom yng nghyswllt cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi eu diffinio yn cael ei chyfrifo ar wahân ar gyfer pob cynllun drwy amcangyfrif faint o fudd ar gyfer y dyfodol y mae gweithwyr wedi ei ennill tra oeddent yn aelodau o'r cynllun. Mae'r budd hwnnw'n cael ei ddisgowntio i bennu ei werth presennol ac mae gwerth teg asedau'r cynllun yn cael ei ddiynnu. Y gyfradd ddisgownt yw'r arenillion (yield) ar y dyddiad adrodd ar y bondiau ansawdd uchel sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau rhwymedigaethau Ofcom ac sydd wedi eu trosi i'r un math o arian cyfred y disgwylir talu'r buddion ynddo. Gwneir y cyfrifiad yn flynyddol gan actiwari cymwys, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd.

Pan fydd y cyfrifo yn dwyn budd i Ofcom, mae'r ased cydnabyddedig yn cael ei gyfyngu i werth presennol unrhyw ad-daliadau yn y dyfodol. Caiff colledion ac enillion actiwaraid eu cydnabod mewn (gwariant)/incwm cynhwysfawr arall yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn llawn yn y cyfnod y byddant yn codi. Mae costau ac incwm llog, a chostau gweinyddu'r cynlluniau â'r buddion wedi eu diffinio, yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant yn y cyfnod cyfredol.

Mae Ofcom yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn â'r buddion wedi eu diffinio sy'n gysylltiedig â staff a symudodd i Ofcom o reoleiddiwr blaenorol. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu cau i aelodau newydd, ac ar ôl ymgynghori ag aelodau'r Cynllun mae wedi cael ei gau ar gyfer cronïadau i'r dyfodol er 1 Mehefin 2011.

Mae Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi eu Diffinio Ofcom yn darparu buddion sy'n gyfwerth fwy neu lai â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Yr ail gynllun yw Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt). Mae hwn yn gynllun ar gyfer sawl cyflogwr, a'r cyflogwyr sy'n cyfrannu yw Ofcom, ASA ac S4C. Caiff asedau'r ddau gynllun eu dal mewn ymddiriedolaethau a weinyddir ar wahân.

Mae'n ofynnol dan IAS 19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl rhagdybiaethau IAS 19, na ellir cydnabod y gwarged ar y Datganiad am Sefyllfa Ariannol Ofcom oni bai fod budd economaidd "ar gael" iddo yn sgil y gwarged.

Cynlluniau heb eu cyllido

Mae gan Ofcom rhwymedigaethau hefyd o ran taliadau pensiwn i ddau gyn-Gadeirydd y Comisiwn Teledu Annibynnol, dau gyn-Gadeirydd yr Awdurdod Radio a dau gyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Telegyfathrebiadau. Rhoddir cyfrif am y buddion hyn nad ydynt yn cael eu hariannu o dan IAS 19 Buddion Gweithwyr drwy ddarpariaeth yn y Datganiad am Sefyllfa Ariannol Ofcom sydd yr un fath â gwerth actiwaraid y rhwymedigaethau hyn.

Rhwymedigaeth o ran gwyliau gweithwyr

Dan IAS 19 Buddion Gweithwyr, rhaid i'r holl gostau gael eu cofnodi fel gwariant cyn gynted ag y cyfyd y rhwymedigaeth i dalu gweithwyr. Mae hyn yn cynnwys costau unrhyw wyliau heb eu cymryd ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan gydweithwyr sydd wedi cwblhau pum mlynedd o wasanaeth di-dor hawl i gael cyfnod sabothol â thâl o hyd at bum wythnos ac wedyn cronni un wythnos ar gyfer pob blwyddyn ychwanegol o wasanaeth hyd at uchafswm o ddeg wythnos.

Caiff cronïad, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon gorau'r rheolwyr gan ddefnyddio data cyfredol ar gyflogau, ei gynnwys fel rhan o gronïadau. O 1 Ionawr 2008 ymlaen, diddymwyd y budd hwn ar gyfer gweithwyr newydd.

k) Darpariaethau

Caiff darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnwys a darpariaethau cyfreithiol eu cydnabod:

Pan fydd y pecyn diswyddo ar gyfer rhai cydweithwyr a symudodd i Ofcom ar hen delerau ac amodau cyflogaeth y Gwasanaeth Sifil yn cael ei ddarparu o'r dyddiad ymddeol yn gynnwys tan yr oed ymddeol. Bydd y cydweithiwr yn cael taliad iawndal

blynyddol sy'n hafal i'r pensiwn a gedwir, sy'n cael ei dalu drwy randaliadau misol mewn ôl-daliadau fel pensiwn. Mae'n dechrau cronni ar y diwrnod ar ôl y dyddiad ymddeol, ac yn parhau i gronni nes bydd y pensiwn sydd wedi ei gadw yn cael ei dalu, a bydd yn dod i ben bryd hynny.

Mae gan Ofcom rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol ac ar gyfer amcangyfrif o iawndal a chostau cyfreithiol trydydd parti mewn perthynas â heriau yn erbyn penderfyniadau rheoleiddio Ofcom pan bernir ei bod yn debygol y bydd yn rhaid talu'r rhain; mae'n debygol y bydd angen rhoi adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth; ac roedd modd llunio amcangyfrif dibynadwy o'r swm. Ni chaiff darpariaethau eu cydnabod ar gyfer colledion gweithredol yn y dyfodol.

Pan geir amryw o rwymedigaethau tebyg, penderfynir a yw'n debygol y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried y dosbarth rhwymedigaethau yn ei gyfanrwydd. Caiff darpariaeth ei chynabod hyd yn oed os yw'n bur annhebygol y caiff all-lif yng nghyswllt unrhyw un eitem ei chynnwys yn yr un categori rhwymedigaethau.

l) Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodion a ddynodir mewn arian tramor eu trosi'n bunnoedd yn ôl y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir mewn arian tramor eu trosi yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar y dyddiad adrodd a chydabyddir yr elw neu'r golled ddilynol yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn.

m) Treth gyfredol

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi barnu nad yw swyddogaethau rheoleiddio Ofcom yn golygu ei fod yn fusnes sy'n masnachu. O'r herwydd, ni all Ofcom adennill TAW ar wariant a wynebwr ganddo fel rhan o'i weithgareddau rheoleiddio.

Mae modd asesu Treth Gorfforaeth ar y llog sy'n cael ei dderbyn, ac o ran incwm rhent.

n) Dadansoddiad fesul segment

Ystyr segment yw elfen amlwg yn y sefydliad

sy'n ymwneud â naill ai darparu cynnyrch neu wasanaethau (segment busnes), neu ddarparu cynnyrch neu wasanaethau mewn amgylchedd economaidd penodol (segment daearyddol), ac mae'n agored i risgiau a buddion gwahanol i segmentau eraill. Ni chyflwynwyd dadansoddiad o drosiant Ofcom o weithgareddau mewn segment daearyddol na segment busnes, gan y cynhelir holl weithgareddau Ofcom yn y Deyrnas Unedig ac yn y sector rheoleiddio. Fodd bynnag, er mwyn bodloni gofynion Deddf Cyfathrebiadau 2003 i ddarparu gwybodaeth am gostau a ffioedd, mae Nodyn 2 y datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno'r datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw fesul sector.

o) Meysydd y rhoddir barn arnynt a phrif ffynonellau ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae gofyn i'r rheolwyr wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar yr asedau a'r rhwymedigaethau a gofnodwyd, datgeliadau o ran rhwymedigaethau ac asedau wrth gefn, a'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Ceir gwybodaeth am farnau ac amcangyfrifon o'r fath yn y polisiau cyfrifyddu neu'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, a cheir crynodeb o'r prif feysydd isod.

Dyma'r meysydd y rhoddir barn arnynt sy'n effeithio fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol:

- Darpariaethau cyfreithiol – polisi cyfrifyddu (k)
- Cydnabod incwm ac asesu incwm heb ei filio – polisi cyfrifyddu (b)

Dyma'r meysydd lle ceir ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon a allai achosi addasiad sylweddol i swm cario ymlaen asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf:

- Amcangyfrifon o rwymedigaethau ar gyfer pensiynau a buddion eraill ar ôl ymddeol – polisi cyfrifyddu (j)
- Penderfyniad ynghylch a yw contract yn cynnwys les (f)

2. Dadansoddiad Sectorol

Mae'r dadansoddiad isod yn cyfeirio at incwm fesul sector am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, ynghyd â'r costau a briodolir iddynt.

Paratwir hwn yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Gwasanaethau Post 2011 ac nid yng nghyswllt Segmentau Gweithredu IFRS 8, yn unol â pholisi cyfrifyddu 1 (n).

	Rheoli sbectrwm	Clirio sbectrwm	Ffeiliad au lloeren	Cyfreitha Trydydd Parti	Gwybodaeth a gwasanaethau rhwydwaith	Rhwydweithiau a gwasanaethau	Darlledu	Rheoleiddio post	Gweithg- areddau rheoleiddio eraill	Cyfanswm 2020/21	Cyfanswm 2019/20
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Incwm											
Ffioedd trwyddedau, rheoleiddio a gweinyddu	-	-	-	-	-	48,496	22,508	4,362	-	75,366	72,640
Ffioedd ymgeisio	-	-	-	-	-	290	274	-	-	564	584
Cymorth Grant (GIA)	-	26,500	-	-	-	-	-	-	-	26,500	310,067
Derbyniadau WTA sydd wedi'u cadw	51,957	-	-	919	-	-	-	-	8,208	61,084	58,529
Incwm Cronedig/ (Gohiriedig)	644	(3,811)	701	-	110	(9,657)	2,798	1,232	399	(7,584)	(8,644)
Incwm gweithredu	52,601	22,689	701	919	110	39,129	25,580	5,594	8,607	155,930	433,176
Incwm arall	46	-	1	-	-	33	24	5	12	121	853
Llog sydd i'w dderbyn	10	-	-	-	-	7	5	1	2	25	149
Cyfanswm incwm	52,657	22,689	702	919	110	39,169	25,609	5,600	8,621	156,076	434,178
Incwm rhent cronedig	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	2
Incwm ariannol	52,657	22,689	702	919	110	39,169	25,609	5,600	8,621	156,076	434,180
Addasiadau i'r gwariant gweithredu	(56)	-	(1)	-	-	(40)	(29)	(6)	(14)	(146)	(1,004)
Costau eraill	(52,601)	(22,689)	(701)	-	(110)	(39,129)	(25,580)	(5,594)	(8,607)	(155,011)	(201,204)
Gwariant gweithredu - arian parod	(52,657)	(22,689)	(702)	-	(110)	(39,169)	(25,609)	(5,600)	(8,621)	(155,157)	(202,208)
Setliad cyfreithiol	-	-	-	(919)	-	-	-	-	-	(919)	(231,972)
Cyfanswm	(52,658)	(22,689)	(702)	(919)	(110)	(39,169)	(25,609)	(5,600)	(8,621)	(156,076)	(434,180)
Gwarged ar sail costau ariannol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Costau cymharol fesul sector											
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021	(52,657)	(22,689)	(702)	-	(110)	(35,169)	(25,609)	(5,600)	(8,621)	(155,157)	-
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020	(53,346)	(76,651)	(937)	(561)	(93)	(40,815)	(24,347)	(5,237)	(221)	(202,208)	-

Mae gweithgareddau rheoleiddio eraill yn cynnwys:

- gwariant yng nghyswllt dyletswyddau ar gyfer ymholiadau cystadleuaeth, gweithgarwch prawf budd cyhoeddus, galwadau niwsans, diogelu defnyddwyr, gwaith paratoi ar gyfer llwyfannau rhannu fideos a dyletswyddau niwed ar-lein a chostau ein dyletswyddau diogelwch telegyfathrebiadau; defnyddir derbynebau WTA i gyllido'r categorïau cost hyn;
- incwm dyfarnwyr;
- gweithgareddau masnachol, gan gynnwys gwaith ymyriant parthed sbectrwem; ac
- incwm rhent o is-osod gofod eiddo dros ben mewn adeiladau.

Mae'r cyllid ar gyfer ein gwaith sy'n ymwneud â diogelwch telegyfathrebiadau yn y sector Telegyfathrebiadau wedi cael ei ddiwygio o gyllid rhanddeiliaid i gadw derbyniadau WTA yn dilyn trafodaethau gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r cyllid diwygiedig yn cwmparu'r cyfnod rhwng 2011 a mis Rhagfyr 2020 pan gafodd y Ddeddf Cyfathrebiadau ei diwygio. O ganlyniad, mae angen addasiad blwyddyn flaenorol. Mae cyfanswm o £5,220,000 (gyda £3,604,000 o hynny yn ymwneud â blynyddoedd blaenorol a £1,616,000 yn ymwneud â 2020/21) wedi cael ei gydnabod fel incwm gohiriedig yn y sector Rhwydweithiau a Gwasanaethau, i'w osod yn erbyn ffioedd 2022/23. Mae'r incwm cronedig cyfatebol (cyfanswm o £5,220,000) hefyd wedi cael ei adlewyrchu yn y sector derbyniadau WTA a gyllidir; i adlewyrchu'r ffynhonnell gyllido ddiwygiedig. Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 24

Yn unol â pholisïau cyfrifyddu Ofcom, fel y nodir yn nodyn 1(b) y cyfrifon hyn, mae cymorth grant a derbyniadau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr yn cael eu dyrannu a'u cyfateb i gostau yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

Caiff y tabl ar dudalen 122 ei baratoi ar sail arian wedi'i addasu (adjusted cash basis), sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol i gynlluniau pensiwn, ond nid yw'n cynnwys dibrisiant ac amorteiddiad.

Mae ffioedd trwyddedau a gweinyddol Ofcom yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau arian. Pan fydd mwy o incwm na gwariant yn y flwyddyn gyfredol, bydd y gwarged yn cael ei ad-dalu i'r rhanddeiliaid perthnasol, fel arall, pan fydd mwy o wariant nag incwm yn y flwyddyn gyfredol, bydd y diffyg yn cael ei gasglu gan y rhanddeiliaid perthnasol, yn unol â Datganiad o Egwyddorion Codi Tâl Ofcom.

Mae darlledu yn cynnwys y tâl a godir ar y BBC mewn perthynas â'r cyfrifoldebau i reoleiddio'r BBC.

Cysoni'r gwariant gweithredu â'r alldro costau gweithredu terfynol

	Nodiadau	2020/21	2019/20
		£'000	£'000
Gwariant gweithredu - Datganiad o Incwm a Gwariant		154,096	206,831
Addasiadau o ran rhwymedigaethau ac asedau pensiwn		470	(131)
Gwariant cyfalaf llai dibrisiant ac amorteiddiad	8,10	(878)	(1,417)
Dibrisiant asedau hawl i ddefnyddio	9	(4,742)	(4,775)
Taliadau lesoedd	16	4,942	4,893
Addasiad dim rhent		-	79
Addasiadau eraill		1,269	(3,272)
Gwariant gweithredu - arian parod		155,157	202,208
Clirio sbectrwm	4,6	(22,689)	(76,651)
Cyfreitha trydydd parti - WTA		-	(561)
Tanysgrifiad ITU		(2,553)	-
Incwm Anweithredol		(146)	(1,004)
Alldro costau gweithredu terfynol		129,769	123,992

Mae addasiadau eraill yn adlewyrchu'r newid ym mlwyddyn materion nad ydynt yn ymwneud ag arian parod, yn bennaf drwy ryddhau'r ddarpariaeth gyfreithiol a wnaed yn 2019/20.

Yn unol â gofynion y Deddfau Cyfathrebiadau a Gwasanaethau Post, mae'r tabl isod yn dangos yr arian a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol a'r swm sy'n ddyledus ar gyfer y sectorau Rhwydwaith a gwasanaethau, Darlledu a'r Post. Mae arian a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys incwm cronedig o flynyddoedd blaenorol.

	Arian a dderbyniwyd yn 2020/21	Swm sy'n ddyledus
	£'000	£'000
Sectorau		
Rhwydweithiau a gwasanaethau	40,220	153
Darlledu	23,071	40
Y Post	5,122	-
Cyfanswm	68,413	193

3. Incwm

	Ofcom	Clirio sbectrwm	Cyfreitha trydydd parti	Cyfanswm 2020/21	Ofcom	Clirio sbectrwm	Cyfreitha trydydd parti	Cyfanswm 2019/20
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cymorth Grant DCMS								
Clirio sbectrwm	-	22,689	-	22,689	-	76,651	-	76,651
Cyllid setliad cyfreithiol	-	-	-	-	-	-	230,826	230,826
Cyfanswm cymorth grant gan y llywodraeth	-	22,689	-	22,689	-	76,651	230,826	307,477
Derbyniadau WTA Sydd Wedi'u Cadw								
Rheoli sbectrwm	52,601	-	-	52,601	52,918	-	-	52,918
Galwadau niwsans	817	-	-	817	-	-	-	-
Diogelu defnyddwyr	14	-	-	14	95	-	-	95
Llwyfan rhannu fideos	3,385	-	-	3,385	-	-	-	-
Prawf lles y cyhoedd	-	-	-	-	124	-	-	124
Niwed ar-lein	2,722	-	-	2,722	-	-	-	-
Dyletswyddau diogelwch telegyfathrebiadau	1,616	-	-	1,616	3,604	-	-	3,604
Ffeiliadau lloeren	701	-	-	701	930	-	-	930
Systemau gwybodaeth a rhwydweithiau	53	-	-	53	-	-	-	-
Cyllid setliad cyfreithiol	-	-	919	919	-	-	1,707	1,707
Cyfanswm derbyniadau WTA sydd wedi'u cadw	61,909	-	919	62,828	57,671	-	1,707	59,378
Incwm rhanddeiliaid								
Ffioedd gweinyddol a ffioedd gwneud cais ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau	39,129	-	-	39,129	36,883	-	-	36,883
Cadwyn atal	-	-	-	-	651	-	-	651
Ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu	25,580	-	-	25,580	24,150	-	-	24,150
Rheoleiddio gwasanaethau post	5,594	-	-	5,594	5,195	-	-	5,195
Systemau gwybodaeth a rhwydweithiau	110	-	-	110	93	-	-	93
Incwm arall	146	-	-	146	351	-	-	351
Cyfanswm incwm rhanddeiliaid	70,559	-	-	70,559	67,323	-	-	67,323
Cyfanswm incwm	132,468	22,689	919	156,076	124,994	76,651	232,533	434,178

Mae rheoli sbectrwm yn cynnwys tanysgrifiad blynyddol yr Undeb Telathrebu Rhyngwladol (ITU) a delir ar ran Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu yn cynnwys y tâl a godir ar y BBC mewn perthynas â'r cyfrifoldebau dros reoleiddio'r BBC.

Mae incwm Clirio Sbectrwm wedi'i gyflwyno ar wahân i incwm craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

Mae'r gostyngiad yng nghyfanswm yr incwm ar gyfer 2020/21, o'i gymharu â 2019/20, yn ymwneud â'r eitem eithriadol o gyllid Cymorth Grant a gafwyd yn 2019/20 ar gyfer setliad cyfreithiol sy'n gysylltiedig â Ffi'r Drwydded Flynyddol.

Mae incwm y flwyddyn flaenorol ar gyfer 'dyletswyddau diogelwch Telegyfathrebiadau' a 'Gweinyddu rhwydweithiau a gwasanaethau a ffioedd ymgeisio' wedi cael eu hailddatgan. Mae hyn oherwydd bod ein dyletswyddau diogelwch Telegyfathrebiadau wedi cael eu diwygio o gyllid rhanddeiliaid i gadw derbyniadau WTA yn dilyn trafodaethau gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r cyllid diwygiedig yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2011 a mis Rhagfyr 2020 pan gafodd y Ddeddf Cyfathrebiadau ei diwygio.

O ganlyniad, mae angen addasiad blwyddyn flaenorol o £3,604,000 ar gyfer y cyfnod rhwng 2011 a 2019/20. Mae'r swm hwn felly wedi cael ei gydnabod fel incwm gohiriedig yn y sector Rhwydweithiau a Gwasanaethau, i'w osod yn erbyn ffioedd 2022/23. Mae'r incwm cronedig cyfatebol wedi ei adlewyrchu hefyd yn y sector derbyniadau WTA a gyllidir; i adlewyrchu'r ffynhonnell gyllido ddiwygiedig. Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 24.

4. Costau staff

	Ofcom	Clirio sbectrwm	Cyfanswm 2020/21	Ofcom	Clirio sbectrwm	Cyfanswm 2019/20
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Yr oedd y costau staff, gan gynnwys y ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn:						
Cyflogau a buddion	68,024	351	68,375	64,163	397	64,560
Costau Yswiriant Gwladol	7,831	38	7,869	7,556	42	7,598
Costau pensiwn	7,037	33	7,070	6,722	34	6,756
Costau ailstrwythuro	152	-	152	316	-	316
Cyfanswm costau staff	83,044	422	83,466	78,757	473	79,230

Roedd cyflogau a buddion yng nghronfa graidd Ofcom yn cynnwys costau a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â gweithredu mesurau Covid-19, a fu'n cyfateb i £384,000 (2019/20: £13,000) a chostau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd o £54,000 (2019/20: Dim). Dim ar gyfer Clirio Sbectrwm.

Mae'r costau Clirio Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i gostau staff craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy pwrpasol rhwng y blynyddoedd.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd dau ddeg pedwar (2019/20: 31) o weithwyr eu secondio i sefydliadau eraill, felly mae'r credyd hwn wedi'i gynnwys ar y llinell costau staff yn y tabl uchod.

Mae'r costau ailstrwythuro yn 2020/21 yn ymwneud â gweithgareddau ailstrwythuro a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, ac yn cynnwys cronïad ar gyfer y costau hynny nad ydynt wedi'u talu ar ddiwedd y flwyddyn sy'n ymwneud â dau (2019/20: 7) o weithwyr.

Mae gwybodaeth fanylach yng nghyswllt taliadau a hawliau pensiwn y cyfarwyddwyr a'r uwch swyddogion gweithredol ar gael yn yr adroddiad taliadau ar dudalennau 96 i 102.

5. Nifer y gweithwyr

	2020/21	2019/20
Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn)	992	937

Ar 31 Mawrth 2021, roedd gan Ofcom 1,031 o weithwyr (cyfwerth ag amser llawn) (2019/20: 958).

Nid yw nifer y gweithwyr yn cynnwys Aelodau Anweithredol o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys, y Pwyllgorau Cynghori na gweithwyr sydd wedi'u secondio i Ofcom.

6. Gwariant gweithredu arall

	Ofcom	Clirio sbectrwm	Cyfreitha trydydd parti	Cyfanswm 2020/21	Ofcom	Clirio sbectrwm	Cyfreitha trydydd parti	Cyfanswm 2019/20
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Talu archwilwyr – ffioedd archwilio statudol	89	-	-	89	83	-	-	83
Talu archwilwyr – Adran 400	16	-	-	16	14	-	-	14
Ffioedd proffesiynol	4,815	1,324	-	6,139	4,024	2,489	-	6,513
Gwasanaethau a ddarperir yn allanol	9,791	-	-	9,791	8,108	-	-	8,108
Ymchwil i'r gynulleidfa a'r defnyddwyr	5,322	-	-	5,322	5,513	-	-	5,513
Ymchwil technolegol a phrosiectau effeithlonrwydd sbectrwm	1,018	-	-	1,018	172	-	-	172
Cynllun clirio sbectrwm	-	20,937	-	20,937	-	73,679	-	73,679
Staff dros dro a recriwtio	3,038	-	-	3,038	3,076	-	-	3,076
Teithio a chynhaliaeth	17	2	-	19	1,465	7	-	1,472
Costau eiddo	5,565	-	-	5,565	4,320	-	-	4,320
Costau gweinyddol a chostau swyddfa	7,525	-	-	7,525	7,183	1	-	7,184
Elw ar waredu heblaw cyfalaf	-	-	-	-	-	-	-	-
Costau technoleg a gwybodaeth	6,062	4	-	6,066	6,484	2	-	6,486
Cerbydau	103	-	-	103	171	-	-	171
Dyledion gwael ac amheus	22	-	-	22	25	-	-	25
Amorteiddiad	211	-	-	211	265	-	-	265
Dibrisiant	2,033	-	-	2,033	2,115	-	-	2,115
Dibrisiant asedau les ROU	4,742	-	-	4,742	4,775	-	-	4,775
(Elw)/Colled ar waredu asedau anghyfredol	(175)	-	-	(175)	13	-	-	13
Amhariad	250	-	-	250	84	-	-	84
Cyfanswm gwariant gweithredu arall	50,444	22,267	-	72,711	47,890	76,178	-	124,068

Mae'r costau Clirio Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i wariant gweithredu arall Ofcom, sy'n gostau craidd, er mwyn bod yn dryloyw a rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynnyddoedd. Am yr un rheswm, mae amhariad ar gyfer cymhariaeth y flwyddyn flaenorol bellach yn cael ei gyflwyno ar wahân i (enillion)/colledion ar waredu asedau anghyfredol. Mae'r enillion wrth waredu asedau anghyfredol yn bennaf oherwydd elw o hawliad yswiriant o £170,000 a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, ac yn ogystal cafwyd elw pellach o £13,000 drwy werthu asedau anghyfredol.

Mae cyfanswm y gwariant a gafwyd yn uniongyrchol o ganlyniad i weithredu mesurau Covid-19 ac Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd i'w weld isod. Mae'r rhain wedi cael eu cyflwyno fel rhan o gyfanswm y gwariant gweithredu arall ar gyfer y flwyddyn.

	Ofcom	Clirio sbectrwm	Cyfreitha trydydd parti	Cyfanswm 2020/21	Ofcom	Clirio sbectrwm	Cyfreitha trydydd parti	Cyfanswm 2019/20
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Covid-19	1,901	1,372	-	3,273	51	-	-	51
Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd	73	-	-	73	-	-	-	-

	Ofcom	Clirio sbectrwm	Cyfreitha trydydd parti	Cyfanswm 2020/21	Ofcom	Clirio sbectrwm	Cyfreitha trydydd parti	Cyfanswm 2019/20
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost gyfreithiol yn ystod y flwyddyn	-	-	(2,081)	(2,081)	-	-	3,533	3,533

Mae'r symudiad yn y gost Gyfreithiol yn ystod y flwyddyn, o'r flwyddyn ariannol flaenorol, yn ganlyniad gwrthdroi cyfran o'r ddarpariaeth gyfreithiol a wnaed yn y flwyddyn flaenorol nad oedd ei hangen pan gafodd y mater ei setlo yn 2020/21.

7. Trethiant

	2020/21	2019/20
	£'000	£'000
Cysoni'r tâl treth		
Gwarged cyn treth	1,526	226,671
Treth ar elw ar gyfradd safonol Treth Gorfforaeth y DU, sef 19% (2019/20: 20%)	290	45,334
Effaith treth:		
Incwm na thelir treth arno	(29,645)	(86,802)
Costau na thelir treth arnynt	29,365	41,501
Lleihad yn y colledion treth a ddygwyd ymlaen	(10)	(33)
Costau treth	-	-

Ar y dyddiad adrodd, roedd gan Ofcom golledion treth nas defnyddiwyd i'w gosod yn erbyn incwm trethadwy yn y dyfodol o £11,325,000 (2019/20: £11,379,000). Nid oes unrhyw asedau treth gohiriedig cydnabyddedig yng nghyswllt y colledion hyn, gan nad yw'n debygol y bydd digon o incwm trethadwy'n codi y gellir defnyddio'r colledion yn eu herbyn.

Nid yw Ofcom wedi ailddatgan cyfradd treth gorfforaeth 2019-20 o 20% i 19%, gan fod y newid yn amherthnasol ac na chodir unrhyw dreth ar gyfer y flwyddyn honno.

8. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

	Gwelliannau prydles	Gosodiadau a ffitiadau	Cyfarpar swyddfa a maes	Offer cyfrifiadurol	Cerbydau modur	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost							
Ar 1 Ebrill 2019	9,065	1,598	12,909	2,134	736	915	27,357
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	270	94	76	123	-	332	895
Gwarediadau	(1,174)	(33)	(701)	(698)	-	-	(2,606)
Trosglwyddiadau	-	163	507	300	-	(912)	58
Ar 31 Mawrth 2020	8,161	1,822	12,791	1,859	736	335	25,704
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	319	56	500	82	-	409	1,366
Gwarediadau	(151)	(14)	(83)	(262)	-	-	(510)
Trosglwyddiadau	-	26	302	7	-	(335)	-
Cost ar 31 Mawrth 2021	8,329	1,890	13,510	1,686	736	409	26,560
Dibrisiant							
Ar 1 Ebrill 2019	2,046	340	10,418	1,692	371	-	14,867
Tâl am y flwyddyn	675	230	671	425	114	-	2,115
Gwarediadau	(1,171)	(29)	(694)	(696)	-	-	(2,590)
Ar 31 Mawrth 2020	1,550	541	10,395	1,421	485	-	14,392
Tâl am y flwyddyn	767	251	675	226	114	-	2,033
Gwarediadau	(144)	(14)	(82)	(262)	-	-	(502)
Dibrisiant cronedig ar 31 Mawrth 2021	2,173	778	10,988	1,385	599	-	15,923
NBV 31 Mawrth 2021	6,156	1,112	2,522	301	137	409	10,637
NBV 31 Mawrth 2020	6,611	1,281	2,396	438	251	335	11,312

Mae cyfarpar a brynwyd ar gyfer y rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'u cynnwys yng nghofrestri asedau Ofcom o dan Cyfarpar Maes.

9. Asedau hawl i ddefnyddio

Mae Ofcom yn lesio asedau, gan gynnwys adeiladau, cerbydau a chyfarpar swyddfa. Cyflwynir isod wybodaeth am lesioedd y mae Ofcom yn lesddeiliad arnynt.

	Adeiladau	Cerbydau	Eraill	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost				
Ar 1 Ebrill 2020	51,895	292	238	52,425
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	243	-	-	243
Gwarediadau	(22)	(51)	(5)	(78)
Cost ar 31 Mawrth 2021	52,116	241	233	52,590
Dibrisiant				
Ar 1 Ebrill 2020	4,605	118	52	4,775
Tâl am y flwyddyn	4,619	61	62	4,742
Dibrisiant cronedig ar 31 Mawrth 2021	9,224	179	114	9,517
NBV 31 Mawrth 2021	42,892	62	119	43,073
NBV 31 Mawrth 2020	47,290	174	186	47,650

10. Asedau anniriaethol

	Trwyddedau meddalwedd	Technoleg Gwybodaeth	Systemau sy'n cael eu datblygu	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost				
Ar 1 Ebrill 2019	5,451	17,972	392	23,815
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	-	-	68	68
Amhariad	-	-	(84)	(84)
Trosglwyddiadau	-	1	(59)	(58)
Ar 31 Mawrth 2020	5,451	17,973	317	23,741
Amhariad	-	-	(250)	(250)
Gwarediadau	(34)	(97)	-	(131)
Trosglwyddiadau	-	67	(67)	-
Cost ar 31 Mawrth 2021	5,417	17,943	-	23,360
Amorteiddiad				
Ar 1 Ebrill 2019	5,046	17,803	-	22,849
Tâl am y flwyddyn	147	118	-	265
Ar 31 Mawrth 2020	5,193	17,921	-	23,114
Tâl am y flwyddyn	147	64	-	211
Gwarediadau	(34)	(97)	-	(131)
Amorteiddiad cronedig ar 31 Mawrth 2021	5,306	17,888	-	23,194
NBV 31 Mawrth 2021	111	55	-	166
NBV 31 Mawrth 2020	258	52	317	627

11. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol

	Ar 31 Mawrth 2021	Ar 31 Mawrth 2020
	£'000	£'000
Symiau masnach derbyniadwy	858	1,783
Symiau derbyniadwy eraill	501	2,646
Rhagdaliadau	7,444	6,062
Benthyciadau a blaendaliadau staff	23	205
Incwm Cronedig - Rhanddeiliad < 1 flwyddyn	4,061	2,695
Incwm cronedig - Cymorth grant	134	561
Incwm cronedig - Derbyniadau WTA	6,606	1,968
Cyfanswm symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol	19,627	15,920

Roedd y gostyngiad mewn benthyciadau staff a blaendaliadau yn 2020/21 yn ganlyniad i ostyngiad mewn benthyciadau tocyn tymor oherwydd Covid-19 i 4 (2019/20: 112).

12. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol

	Ar 31 Mawrth 2021	Ar 31 Mawrth 2020
	£'000	£'000
Incwm Cronedig - Rhanddeiliad > 1 flwyddyn	1,069	541
Incwm cronedig - Derbyniadau WTA	-	3,604
Cyfanswm symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol	1,069	4,145

Mae 'Incwm Cronedig - Derbyniadau WTA' y flwyddyn flaenorol wedi cael ei ailddatgan oherwydd bod ein dyletswyddau diogelwch Telegyfathrebiadau wedi cael eu diwygio o gyllid rhanddeiliaid i gadw derbyniadau WTA yn dilyn trafodaethau gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 24.

13. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

	Ar 31 Mawrth 2021	Ar 31 Mawrth 2020
	£'000	£'000
Banciau masnachol ac arian mewn llaw	14,185	13,827
Cyfanswm arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	14,185	13,827

Mae'r holl weithgareddau a'r balansau arian sy'n gysylltiedig â Chosbau a Ffioedd Trwyddedau ar wahân i gyfrifon Ofcom, ac yn cael eu datgelu yng nghyfrifon Adran 400.

14. Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol

	Ar 31 Mawrth 2021	Ar 31 Mawrth 2020
	£'000	£'000
Symiau masnach taladwy	78	4,845
Symiau taladwy eraill	1,575	582
Treth ar Werth sy'n daladwy	204	268
Croniadau	11,079	9,765
Incwm Gohiriedig - Rhanddeiliad < 1 Flwyddyn	7,900	9,215
Incwm gohiriedig - Cymorth grant	3,811	2,634
Incwm gohiriedig - Derbyniadau WTA	3,228	1,119
Cyfanswm symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol	27,875	28,428

Targed y Llywodraeth ar gyfer talu i gyflenwyr yw pum diwrnod ar gyfer 80 y cant o anfonebau diamheuol. Yn ogystal â chyflenwyr bach a chanolig, mae Ofcom hefyd yn cynnwys cyflenwyr mawr yn y cynllun hwn er mwyn eu hannog i dalu'r busnesau bach sy'n eu cyflenwi nhw o fewn cyfnod llai.

O ran perfformiad Ofcom yng nghyswllt y targedau hyn yn 2020/21, llwyddwyd i gyrraedd 99.51 y cant ar gyfartaledd (2019/20: 97.92 y cant).

Mae'r symudiad mewn symiau taladwy a chroniadau masnach yn bennaf oherwydd taliadau grant y flwyddyn flaenorol a gafodd eu setlo yn 2020/21 mewn perthynas â chlirio'r sbectrwm 700MHz.

Mae symiau taladwy eraill yn cynnwys arian a dderbyniwyd gan y landlord parthed adnewyddu eiddo a chyfarpar y landlord.

15. Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol

	Ar 31 Mawrth 2021	Ar 31 Mawrth 2020
	£'000	£'000
Incwm Gohiriedig - Rhanddeiliad > 1 Flwyddyn	7,100	4,894
Cyfanswm symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol	7,100	4,894

Mae 'Incwm Gohiriedig - Rhanddeiliad' y flwyddyn flaenorol wedi cael ei ailddatgan oherwydd bod ein dyletswyddau diogelwch Telegyfathrebiadau wedi cael eu diwygio o gyllid rhanddeiliaid i gadw derbyniadau WTA yn dilyn trafodaethau gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 24.

16. Rhwymedigaethau Lesoedd

	Adeiladau	Cerbydau	Arall	Ar 31 Mawrth 2021	Ar 31 Mawrth 2020
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Dadansoddiad Aeddfedrwydd – llifoedd arian contractiol: heb eu disgowntio					
Llai na blwyddyn	4,894	28	44	4,966	5,017
Rhwng un a phum mlynedd	20,286	39	80	20,405	20,026
Mwy na phum mlynedd	24,331	-	-	24,331	29,462
Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd: heb eu disgowntio	49,511	67	124	49,702	54,505

Nid yw Ofcom yn wynebu risg sylweddol o ran hylifedd yng nghyswllt ei rhwymedigaethau lesoedd.

	Ar 31 Mawrth 2021	Ar 31 Mawrth 2020
	£'000	£'000
Symiau a gwynbyddir yn y datganiad am y sefyllfa ariannol		
Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau cyfredol	4,079	4,052
Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau anghyfredol	40,653	44,522
Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd: wedi eu disgowntio	44,732	48,574

Mae lesioedd yn cael eu disgowntio ar sail un gyfradd nominal ar gyfer lesioedd, sef 0.91 y cant ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2021 (2020: 1.27 y cant). Mae lesioedd sy'n newid i IFRS 16 cyn Ionawr 2020 ac yn ystod blwyddyn galendr 2019 yn cael eu disgowntio ar gyfradd ddisgownt y flwyddyn flaenorol, sef 1.99 y cant, yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi.

Yn gyffredinol, mae pob les yn gosod cyfyngiad – oni bai fod gan Ofcom hawl gongtractiol isosod yr ased i barti arall, dim ond Ofcom all ddefnyddio'r ased hawl i ddefnyddio. Ni ellir canslo lesioedd, neu ni ellir eu canslo heb dalu ffi terfynu sylweddol. Mae rhai lesioedd yn cynnwys opsiwn i brynu'r ased sylfaenol sy'n cael ei lesio ar ddiwedd y les, neu i ymestyn y les am gyfnod arall. Mae Ofcom wedi'i wahardd rhag gwerthu nac ymrwymo'r asedau sylfaenol sy'n cael eu lesio fel gwarant. O ran lesioedd adeiladau, rhaid i Ofcom gadw'r eiddo hwnnw mewn cyflwr da a dychwelyd yr eiddo yn ei gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd y les. Ar ben hynny, rhaid i Ofcom yswirio asedau hawl i ddefnyddio a thalu ffioedd cynnal a chadw ar asedau o'r fath, yn unol â chontract y les.

	Ar 31 Mawrth 2021	Ar 31 Mawrth 2020
	£'000	£'000
Symiau a gydnabyddir yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr		
Llog ar rwymedigaethau lesioedd (wedi ei gynnwys o dan gostau cyllid)	961	1,042
Gwariant sy'n ymwneud â lesioedd tymor byr (wedi'i gynnwys o dan wariant gweithredu arall)	21	39
Gwariant sy'n ymwneud â lesioedd asedau isel eu gwerth (wedi'i gynnwys o dan wariant gweithredu arall)	21	22
Symiau a gydnabyddir yn y datganiad am y llifoedd arian		
Cyfanswm y llif arian parod allan ar gyfer lesioedd	(4,942)	(4,893)

17. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	Ymddeol yn gynnar	Cyfreithiol	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000
Ar 1 Ebrill 2019	182	232,000	232,182
Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn a newidiadau yn y gyfradd (wedi'u cynnwys o dan gostau cyllid)	16	-	16
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(32)	(231,972)	(232,004)
Darpariaeth wedi'i chynyddu	-	2,972	2,972
Ar 31 Mawrth 2020	166	3,000	3,166
Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn a newidiadau yn y gyfradd (wedi'u cynnwys o dan gostau cyllid)	9	-	9
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(14)	(940)	(954)
Y ddarpariaeth a ryddhawyd	-	(2,060)	(2,060)
Cyfanswm y darpariaethau ar 31 Mawrth 2021	161	-	161

Dadansoddiad o pryd y disgwylir y llifoedd arian	Ymddeol yn gynnar	Cyfreithiol	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000
Cyfredol			
Llai na blwyddyn	12	-	12
Cyfanswm cyfredol	12	-	12
Anghyfredol			
Rhwng un a phum mlynedd	48	-	48
Mwy na phum mlynedd	101	-	101
Cyfanswm anghyfredol	149	-	149
Cyfanswm y darpariaethau ar 31 Mawrth 2021	161	-	161

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ymddeol yn gynnar, sef £161,000 (2019/20: £166,000) ar gyfer Taliadau lawndal Blynnyddol, sy'n rhan o'r pecyn diswyddo ar gyfer rhai cydweithwyr a symudodd i Ofcom ar eu hen delerau ac amodau cyflogaeth fel rhan o'r Gwasanaeth Sifil.

Cyfrifir y darpariaethau yn unol â gofynion IAS 37. Bydd disgownt o -0.95 y cant ar y darpariaethau ymddeol yn gynnar (2019/20: -0.50 y cant) y flwyddyn yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi; bydd pob darpariaeth arall sydd â therfyn amser o 1 i 5 mlynedd yn destun disgownt yn ôl y gyfradd ddisgownt tymor byr o -0.02 y cant (2019/20: 0.51 y cant) ac ar gyfer darpariaethau â therfyn amser o 5 i 10 mlynedd, y gyfradd tymor canolig o 0.18 y cant (2019/20: 0.55 y cant).

Mae modd apelio yn erbyn penderfyniadau rheoleiddio Ofcom. Gallai apelïadau yn erbyn penderfyniadau Ofcom arwain at rwymedigaethau ar gyfer costau cyfreithiol. Bydd Ofcom yn gwneud darpariaeth yn y datganiadau ariannol am gostau i'r graddau eu bod yn debygol ac yn fesuradwy.

Yn dilyn canlyniad apêl y Ffi Trwydded Flynyddol ym mis Chwefror 2020, roedd gan un trydydd parti apêl

barhaus i'r Llys Apêl, gan geisio rhagor o log cosb ar swm ad-daliad gwreiddiol y Ffi Trwydded Blynnyddol. Cafodd y mater hwn ei ddatrys yn y flwyddyn ariannol hon gyda thaliad terfynol o £940,000 yn cael ei ddyfarnu. O ganlyniad, cafodd cydbwysedd y ddarpariaeth o ddiwedd y flwyddyn 19/20 ei ryddhau yn unol â hynny.

18. MG Alba

Yn unol ag Adran 210 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Adran 183 o Ddeddf Darlledu 1990, talodd Gweinidogion yr Alban £13,580,000 (2019/20: £12,950,000) i Ofcom. Nid yw'r symiau wedi'u hadlewyrchu yn natganiadau ariannol Ofcom, gan fod Ofcom wedyn yn eu talu i'r Gronfa Darlledu Gaeleg o dan reolaeth Seirbheis nam Meadhanan Gàidhlig (MG Alba). Mae MG Alba yn paratoi adroddiadau a datganiadau ariannol ar wahân ar gyfer hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn. Bydd Ofcom yn anfon y rhain at Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ac at Weinidogion yr Alban i'w cyflwyno gerbron Senedd yr Alban.

19. Rhwymedigaethau buddion ymddeol

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, a chynlluniau heb eu hariannu.

A) Cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio - cynllun pensiwn cyfranddeiliaid

Prif ffordd Ofcom o ddarparu buddion pensiwn i'w gydweithwyr yw drwy gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Cyfrannodd y cyflogwr £6,447,000 yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 (2019/20: £6,070,000). Mae adran cyfraniadau wedi'u diffinio hefyd yng Nghynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom. Ond, mae wedi cau bellach ac nid oes dim mwy o gyfraniadau'n cael eu gwneud i'r trefniant hwn.

B) Cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio

Mae gan Ofcom ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio, er i'r ddau gau i groniadau yn y dyfodol ar 1 Mehefin 2011:

- Sefydlwyd Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ar 29 Rhagfyr 2003. Cyfraniad y cyflogwr i Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi eu Diffinio Ofcom am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 oedd £3,000 yng nghyswllt costau'r Cynllun (2019/20: £5,000). Trosglwyddwyd cyfraniadau'r cyflogwr o £1,560,000 o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo i'r Cynllun yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 (2019/20: £360,000); a
- Chynllun Pensiwn Ofcom (cynllun ITC gynt), y mae Ofcom yn rhan ohono ar y cyd â thri sefydliad arall, sef S4C, S4C Masnachol a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu. Cyfraniad y cyflogwr i Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 oedd £10,000 yng nghyswllt costau'r Cynllun (2019/20: £10,000). Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £180,000 eu trosglwyddo o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo i Gynllun Pensiwn Ofcom (cynllun ITC gynt) yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 (2019/20: £180,000).

Rheolir y ddau Gynllun hyn gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n annibynnol ar Ofcom.

Pennir cyfraniadau arian Ofcom i'r ddau gynllun hyn yn unol â Deddf Pensiynau 2004. O dan y ddeddf rhaid bod yn llawer mwy darbodus wrth fesur y rhwymedigaethau nag o dan IFRS. Cafodd prisiadau ariannu o dan y Ddeddf Pensiynau, gyda dyddiad dod i rym o 31 Mawrth 2018 eu cwblhau ar gyfer y ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio ac, yn wahanol i IFRS, roeddent yn dangos gwarged cyfun o £5.3m.

Cytunwyd ar amserlenni cyfraniadau gydag Ymddiriedolwr y ddau gynllun oherwydd y prisiadau hyn. Dan yr amserlenni presennol, mae disgwyl i Ofcom gyfrannu £540,000 at y ddau gynllun â'r buddion wedi eu diffinio dros y 12 mis nesaf ar gyfer talu costau'r Cynlluniau. Mae'r cyfraniadau hyn i'w talu o'r Ymddiriedolaeth Bwydo (rhagor o fanylion isod). Mae Ofcom hefyd yn ad-dalu'r Cynlluniau ar gyfer ardollau sy'n gysylltiedig â phensiwn.

Mae gan Ofcom gyfrif Ymddiriedolaeth Bwydo sydd wedi'i ymgorffori yn Asedau'r Cynllun Pensiwn. Dim ond i un o'r ddau Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio y ceir talu arian a drosglwyddir i'r

cyfrif ymddiriedolaeth ac a gedwir ynddo, ac ni cheir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall. Ymddiriedolaeth Bwydo Ofcom ydy'r mecanwaith mae Ofcom yn ei ddefnyddio i roi cronfeydd o'r neilltu er mwyn gwneud cyfraniadau yn y dyfodol ac i dalu am gostau rhedeg ei ddau gynllun pensiwn buddion diffiniedig, Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom a Chynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt).

Mae cronfeydd sy'n cael eu trosglwyddo i Ymddiriedolaeth Bwydo Ofcom yn cael eu cydnabod yn y flwyddyn ariannol pan gaiff y trosglwyddiad ei wneud ond wedyn mae modd defnyddio'r cronfeydd hyn mewn cyfnodau sydd i ddod. Fydd dim ond modd defnyddio'r arian sy'n cael ei gadw yn y Cyfrif Bwydo er mwyn talu am y cynlluniau pensiwn yn unol â'r atodlen gyfraniadau ar gyfer pob Cynllun neu drwy daliad ad hoc a fydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom mewn perthynas â phrosiect penodol (fel ymarfer i leihau risg) yn ogystal ag i dalu am gostau rhedeg y cynlluniau.

Ddiwedd mis Mai 2020, prynodd yr Ymddiriedolwr gontract blwydd-dal swmp gyda Legal and General i dalu am fuddion holl aelodau heb yswiriant Cynllun Buddion wedi eu Diffinio Ofcom a oedd yn cael pensiwn ar 30 Tachwedd 2019. I ategu hyn, talodd y cwmni £1.2m o'r Ymddiriedolaeth Bwydo.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, cyfrannodd Ofcom £1,080,000 at yr Ymddiriedolaeth Bwydo (2019/20: £540,000), ac mae'r cyllid ychwanegol a delir eleni yn rhoi cyfle i ddadrisgio ymhellach rwymedigaethau'r Cynlluniau. Balans yr Ymddiriedolaeth Bwydo ar 31 Mawrth 2021 oedd £7,737,000 (2019/20: £8,389,000).

Mae Ofcom hefyd yn gyfrifol am fodloni rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu ar ran cyn-Gadeiryddion y Comisiwn Teledu Annibynnol a'r Awdurdod Radio, ynghyd â chyn-Gyfarwyddwyr Cyffredinol Telegyfathrebiadau. Ni chaiff y ddarpariaeth pensiynau ei hariannu, ac mae'r buddion yn cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus a chael eu gwarantu gan Ofcom. Nid oes cronfa, ac felly nid oes gwarged na diffyg. Ceisiwyd cyngor actiwari er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i phennu ar lefel realistig.

Cydraddoli Pensiynau Sylfaenol Wedi eu Gwarantu

Yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys yn achos Lloyds Bank ar 26 Hydref 2018, a ddarfarnodd ei bod yn rhaid

i gynlluniau addasu buddion er mwyn cydraddoli Pensiynau Sylfaenol Wedi'u Gwarantu (GMPs) rhwng dynion a menywod, roedd Ofcom wedi gwneud lwfans ar gyfer effaith bosibl hyn ar 31 Mawrth 2019. Mae hyn wedi cael ei ganiatáu ar gyfer cost gwasanaeth yn y gorffennol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Roedd lwfans o £284,000 wedi cael ei wneud mewn perthynas â (Hen Gynllun ITC) Ofcom, ac roedd lwfans o £14,000 wedi cael ei wneud mewn perthynas â Chynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom.

Darparwyd ar gyfer cost gwasanaeth blaenorol ychwanegol o £377,000 yn y Cynllun Buddion wedi eu Diffinio ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2019. Roedd hyn o ganlyniad i Weithred Diwygio a gafodd ei gweithredu mewn perthynas â Chynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ar 28 Gorffennaf 2018. O ganlyniad i'r diwygiadau hyn i reolau, roedd yn rhaid ailgyfrifo buddion rhai aelodau pensiynwyr, a oedd wedi arwain at gynydd yn eu buddion.

Ni fyddwn yn gwybod faint mae cydraddoli pensiynau sylfaenol wedi'u gwarantu yr aelodau yn ei gostio i gyd nes byddant wedi cael eu cydraddoli'n llawn (ac mae'n siŵr na fydd hynny'n digwydd am flynyddoedd lawer).

Cydraddoli Pensiynau Sylfaenol Wedi eu Gwarantu ar Werthoedd Hanesyddol

Ar 20 Tachwedd 2020, cafodd dyfarniad diweddaraf yr Uchel Lys ar gydraddoli Pensiynau Sylfaenol Wedi eu Gwarantu mewn perthynas â thaliadau gwerth trosglwyddo ei wneud. Daeth i'r casgliad y bydd yn rhaid i drosglwyddiadau hanesyddol ers 17 Mai 1990, a oedd yn cynnwys GMP a gronwyd ar ôl y dyddiad hwn, gael eu cydraddoli yn awr. Nid oes dadansoddiad wedi ei wneud i sefydlu'r atebolrwydd posibl am y Cynlluniau o ganlyniad i'r dyfarniad diweddaraf gan mai cymharol gyfyngedig fu'r gweithgarwch gwerth trosglwyddo yn y gorffennol, ac felly ni ddisgwylir i'r rhwymedigaeth ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw werth trosglwyddo hanesyddol fod yn sylweddol.

Newidiadau posib i'r Mynegai Prisïau Manwerthu

Mae Awdurdod Ystadegau'r DU (UKSA) wedi dweud ei fod yn bwriadu newid y Mynegai Prisïau Manwerthu (RPI), erbyn 2030 fan hwyraf, er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r CPIH (y

Mynegai Prisiau Manwerthu gan gynnwys costau tai perchnogion-feddianwyr). Cynhaliodd y Llywodraeth ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater yn ystod 2020, a oedd yn edrych ar yr amseru a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd mewn unrhyw newid. Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn eu rhyddhau ar 25 Tachwedd 2020. Daeth i'r casgliad y bydd RPI yn cael ei ddiwygio i gyd-fynd â'r CPIH gyda'r trawsnewid yn digwydd yn ystod 2030, ac na fyddai iawndal yn cael ei dalu i ddeiliaid giliau mynegrifol. Mewn ymateb i'r cyhoeddiad hwn, cafodd tarddiad rhagdybiaethau RPI a CPI eu hadolygu ar 31 Mawrth 2021.

Mae Ofcom wedi penderfynu bod cromlin chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), sy'n seiliedig ar y farchnad, yn parhau i fod yn sail resymol ar gyfer amcangyfrif cynnydd tymor hir mewn pensiynau sy'n gysylltiedig ag RPI ar 31 Mawrth 2021, gan gynnwys y newidiadau yn RPI i CPIH, ac mae deillio tybiaethau chwyddiant RPI ar 31 Mawrth 2021 wedi aros yn gyson â blynyddoedd blaenorol. I darddu'r dybiaeth CPI, mae Ofcom wedi penderfynu ei bod yn briodol gynnal y dull a fabwysiadwyd ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, gan arwain at wahaniaeth rhwng RPI a CPI o 0.85% ar 31 Mawrth 2021, gan ystyried nodweddion a phroffiliau aelodaeth y cynlluniau DB.

Crynodeb o rwymedigaethau pensiynau â buddion wedi'u diffinio Ofcom

Dyma'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

	Pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio a ariennir 31 Mawrth 2021	Rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu 31 Mawrth 2021	Cyfanswm buddion ymddeol 31 Mawrth 2021	Pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio a ariennir 31 Mawrth 2020	Rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu 31 Mawrth 2020	Cyfanswm buddion ymddeol 31 Mawrth 2020
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Statws ariannu, diwedd y flwyddyn						
▪ Rhwymedigaeth o ran buddion yng nghyswllt aelodau gohiredig	(85,476)	-	(85,476)	(67,572)	-	(67,572)
▪ Rhwymedigaeth o ran buddion yng nghyswllt aelodau sy'n bensiynwyr	(186,341)	(1,153)	(187,494)	(169,804)	(1,085)	(170,889)
Cyfanswm rhwymedigaethau buddion	(271,817)	(1,153)	(272,970)	(237,376)	(1,085)	(238,461)
Gwerth teg asedau'r cynllun	286,693	-	286,693	259,802	-	259,802
Statws ariannu	14,876	(1,153)	13,723	22,426	(1,085)	21,341

Mae'n ofynnol dan IAS19, lle bydd cynllun mewn gwargod yn ôl tybiaethau IAS19, na ellir cydnabod y gwargod ar Ddatganiad Sefyllfa Ariannol Ofcom oni bai fod budd economaidd ar gael i Ofcom yn sgil hynny. Priodolir yr holl warged i'r Cynllun Buddion wedi'u Diffinio a'r Cyfrif Bwydo y mae iddo werth economaidd, gan fod modd i Ofcom ei adfer.

Covid-19

Mae Covid-19 wedi arwain at sefyllfa anwadal iawn yn y farchnad sy'n effeithio ar werthoedd asedau a chynnyrch y farchnad, sydd yn ei dro wedi effeithio ar y pensiynau yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol. Yn benodol, ar gyfer y Cynllun DB, mae diffyg cyfatebiaeth rhwng y newid mewn rhwymedigaethau a'r symudiad yn asedau'r cynlluniau dros y flwyddyn. Ysgogwyd hyn yn bennaf gan y gostyngiad mewn cynnyrch bondiau corfforaethol a chynnydd yn nisgwyliadau chwyddiant, sydd wedi cynyddu'r rhwymedigaethau yn fwy na'r cynnydd mewn asedau.

Newidiadau yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021

	Rhwymedigaeth o ran buddion wedi'u diffinio	Asedau	Cynllun pensiwn a ariennir	Pensiynau na chânt eu hariannu	Cyfanswm pensiwn
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth agoriadol ar 1 Ebrill 2020	(237,376)	259,802	22,426	(1,085)	21,341
Costau gweinyddu	-	(623)	(623)	-	(623)
Incwm/(cost) llog	(5,668)	6,210	542	(26)	516
Cyfraniadau cyflogwyr	-	1,093	1,093	-	1,093
Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun	12,120	(12,120)	-	-	-
Buddion a dalwyd yn uniongyrchol gan Ofcom	-	-	-	70	70
Cyfanswm y buddion a dalwyd	12,120	(12,120)	-	70	70
Ailfesuriadau					
Enillion/(colledion) actiwaraid	(40,893)	32,331	(8,562)	(112)	(8,674)
Gwerth terfynol ar 31 Mawrth 2021	(271,817)	286,693	14,876	(1,153)	13,723

Newidiadau yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020

	Rhwymedigaeth o ran buddion wedi'u diffinio	Asedau	Cynllun pensiwn a ariennir	Pensiynau na chânt eu hariannu	Cyfanswm pensiwn
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth agoriadol ar 1 Ebrill 2019	(267,195)	284,886	17,691	(1,211)	16,480
Costau gweinyddu	-	(686)	(686)	-	(686)
Incwm/(cost) llog	(6,127)	6,536	409	(27)	382
Cyfraniadau cyflogwyr	-	555	555	-	555
Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun	13,012	(13,012)	-	-	-
Buddion a dalwyd yn uniongyrchol gan Ofcom	-	-	-	76	76
Cyfanswm y buddion a dalwyd	13,012	(13,012)	-	76	76
Ailfesuriadau					
Enillion/(colledion) actiwaraid	22,934	(18,477)	4,457	77	4,534
Gwerth terfynol ar 31 Mawrth 2020	(237,376)	259,802	22,426	(1,085)	21,341

Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr:

31 Mawrth 2021	Pensiwn a ariennir	Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu	Cyfanswm pensiynau
	£'000	£'000	£'000
Incwm/(cost) llog	542	(26)	516
Credyd/(cost) y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr	542	(26)	516
Costau gweinyddu	(623)	-	(623)
Incwm net/(cost) a gydnabyddir mewn incwm a gwariant	(81)	(26)	(107)

Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod fel Incwm Cynhwysfawr Arall:

31 Mawrth 2021	Pensiwn a ariennir	Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu	Cyfanswm pensiynau
	£'000	£'000	£'000
Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol	(42,556)	(112)	(42,668)
Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig	(1,066)	-	(1,066)
Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd profiad aelodau	2,729	-	2,729
Cyfanswm enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion	(40,893)	(112)	(41,005)
Enillion/(colledion) ar asedau'r cynlluniau	32,331	-	32,331
Enillion/(colledion) net	(8,562)	(112)	(8,674)

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith er mwyn gwarchod rhag digwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar sefyllfaoedd ariannol. Yn benodol, mae polisïau blwydd-dal yn diwallu taliadau buddion aelodau'r ddau Gynllun sy'n bensiynwyr a'r holl aelodau nad ydynt yn bensiynwyr yn y Cynllun ITC. Fodd bynnag, mae newidiadau yn amodau'r farchnad yn dal yn gallu effeithio ar y sefyllfaoedd ariannol, yn enwedig y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio.

Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod yn y Datganiad o Incwm a Gwariant:

31 Mawrth 2020	Pensiwn a ariennir	Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu	Cyfanswm pensiynau
	£'000	£'000	£'000
Incwm/(cost) llog	409	(27)	382
Credyd/(cost) y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir mewn incwm a gwariant	409	(27)	382
Costau gweinyddu	(686)	-	(686)
Incwm net/(cost) a gydnabyddir mewn incwm a gwariant	(277)	(27)	(304)

Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod fel Incwm Cynhwysfawr Arall:

31 Mawrth 2020	Pensiwn a ariennir	Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu	Cyfanswm pensiynau
	£'000	£'000	£'000
Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol	21,480	77	21,557
Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig	(187)	-	(187)
Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd profiad aelodau	1,641	-	1,641
Cyfanswm enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion	22,934	77	23,011
Enillion/(colledion) ar asedau'r cynlluniau	(18,477)	-	(18,477)
Enillion/(colledion) net	4,457	77	4,534

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith er mwyn gwarchod rhag digwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar sefyllfaoedd ariannol. Yn benodol, mae polisïau blwydd-dal yn diwallu taliadau buddion aelodau'r ddau Gynllun sy'n bensiynwyr a'r holl aelodau nad ydynt yn bensiynwyr yn y Cynllun ITC. Fodd bynnag, mae newidiadau yn amodau'r farchnad yn dal yn gallu effeithio ar y sefyllfaoedd ariannol, yn enwedig y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio.

Dyma brif gategorïau asedau'r cynlluniau fel canran o gyfanswm asedau'r cynlluniau:

	31 Mawrth 2021 (%)	31 Mawrth 2020 (%)
	Cyfanswm	Cyfanswm
Ecwitiau byd-eang (ddim yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd)	2	2
Ecwitiau byd-eang (yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd)	2	2
Bondiau corfforaethol	-	6
Bondiau'r llywodraeth sy'n gysylltiedig â'r Mynegai	-	5
Cronfa dwf wedi'i harallgyfeirio	4	4
Portffolio buddsoddiadau a ysgogir gan rywmedigaethau	9	6
Blwydd-daliadau	80	73
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	3	2
Cyfanswm	100	100

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith i leihau lefel y risg buddsoddi. Yn benodol, mae gan y ddau brif gynllun â'r buddion wedi'u diffinio bolisiau blwydd-dal sy'n dileu'r risg fwy neu lai yng nghyswllt y rhan fwyaf o'r aelodau ac mae gan Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom strategaeth ar waith a fydd yn cynyddu'r hyn a ddyrennir i asedau risg is sy'n fwy cydnaws â'r rhwymedigaethau, megis giliau a bondiau, pan ellir fforddio gwneud hynny.

Y prif ragdybiaethau economaidd ar ddyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

	31 Mawrth 2021 (%)	31 Mawrth 2020 (%)
	Total	Total
Cyfradd ddisgownt	2.00 ¹ / 1.80 ²	2.45
Chwyddiant Prisiau Adwerthu	3.35	2.65
▪ Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (RPI)	3.35	2.65
▪ Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (CPI uchafswm 3%)	2.15	1.70

¹ Cynllun DB

² Cynllun Ofcom (Cynllun ITC gynt)

Mae gan gynllun pensiwn Ofcom ddau gynllun ar wahân ac mae'r prif ragdybiaethau demograffig ar ddyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel a ganlyn:

	Y Cynllun DB	Y Cynllun DB	Y Cynllun ITC	Y Cynllun ITC
Oes ddisgwyliedig aelod 60 oed sy'n...	40 oed ar hyn o bryd	60 oed ar hyn o bryd	40 oed ar hyn o bryd	60 oed ar hyn o bryd
Gwryw	29	28	29	28
Benyw	31	30	32	30

Sensitifrwydd i newidiadau yn y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd

	Effaith ar					
	Y Cynllun DB			Y Cynllun ITC		
	Rhwymedi-gaethau o ran y buddion wedi'u diffinio	Asedau	Gwarged statws ariannu	Rhwymedi-gaethau o ran y buddion wedi'u diffinio	Asedau	Gwarged statws ariannu
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Newid mewn rhagdybiaethau						
Cyfradd ddisgownt						
Yn codi 0.50%	gostyngiad o £6,583	gostyngiad o £6,980	gostyngiad o £397	gostyngiad o £11,634	gostyngiad o £11,634	Dim newid
Yn gostwng 0.50%	codiad o £7,545	codiad o £7,995	codiad o £450	codiad o £12,971	codiad o £12,971	Dim newid
Chwyddiant Prisiau Adwerthu						
Yn codi 0.50%	codiad o £7,335	codiad o £7,787	codiad o £452	codiad o £11,021	codiad o £11,021	Dim newid
Yn gostwng 0.50%	gostyngiad o £6,473	gostyngiad o £6,880	gostyngiad o £407	gostyngiad o £10,020	gostyngiad o £10,020	Dim newid
Oes ddisgwyliedig aelod 60 oed						
Yn codi - blwyddyn	codiad o £3,131	codiad o £1,623	gostyngiad o £1,508	codiad o £10,976	codiad o £10,976	Dim newid
Yn gostwng - blwyddyn	gostyngiad o £3,076	gostyngiad o £1,611	codiad o £1,465	gostyngiad o £10,637	gostyngiad o £10,637	Dim newid


Proffil rhwymedigaethau cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio

Mae'r siartiau isod yn dangos y buddion y disgwyilir eu talu o dan y Cynlluniau perthnasol adeg y prisiad actiwaraid mwyaf diweddar (Mawrth 2018) dros yr 80 mlynedd nesaf.

Cyfrifir y taliadau buddion a ddisgwyilir yn y dyfodol ar sail nifer o ragdybiaethau gan gynnwys chwyddiant yn y dyfodol, oedrannau ymddeol, yr opsiynau a ddewisir yng nghyswllt y buddion a disgwyliad oes, ac felly maent yn siŵr o fod yn ansicr.


Gall y gwir daliadau o ran y buddion mewn blwyddyn benodol fod yn uwch neu'n is, er enghraifft, os bydd aelodau'n ymddeol yn gynt neu'n hwyrach na'r hyn a ragdybiwyd, neu'n cymryd mwy neu lai o gyfandaliad arian wrth ymddeol.

Cynllun Pensiwn â Buddion wedi'u Diffinio Ofcom



Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun (y cyfnod cyfartalog i dalu) yw 19 mlynedd

Cynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt)



Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun (y cyfnod cyfartalog i dalu) yw 13 mlynedd

20. Offerynnau ariannol

Nid yw Ofcom yn agored iawn i beryglon o ran hylifedd, cyfraddau llog ac arian cyfred. Mae IAS 32 Offerynnau Ariannol, yn nodi'r cyflwyniad ar gyfer offerynnau ariannol, ac yn gorfodi datgelu'r rôl y maent wedi'i chwarae yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau a wynebwr ganddo wrth gyflawni ei weithgareddau. Oherwydd natur gweithgareddau Ofcom, ac oherwydd y modd y caiff ei ariannu, nid yw'n agored i'r un risgiau ariannol a wynebwr gan endidau busnes.

Hefyd, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl gyfyngedig o ran creu neu newid risg o'i gymharu â chwmnïau rhestredig y mae IAS 32 yn bennaf berthnasol iddynt. Ychydig iawn o bwerau sydd gan Ofcom i fenthyl neu i fuddsoddi gwargedion o gronfeydd. Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredol beunyddiol yn newid y risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

Nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth teg a gwerth cario ymlaen y rhwymedigaethau a'r asedau ariannol ar y dyddiad adrodd.

Fel y caniateir gan IAS 32, caiff symiau derbyniadwy a thaladwy sy'n aeddfedu neu sy'n dod yn daladwy cyn pen 12 mis ar ôl y dyddiad adrodd eu hepgor o'r asesiad hwn.

21. Partion cysylltiedig

Nid yw Ofcom yn ystyried bod ei swyddogaeth reoleiddio a thrwyddedu'n creu perthynas parti cysylltiedig rhyngddo ef ei hun a deiliaid trwyddedau, fel y caiff ei ddiffinio gan IAS 24, Datgeliadau Partion Cysylltiedig.

Nid yw Aelodau'r Bwrdd wedi datgan bod ganddynt fuddiannau a fyddai'n dylanwadu ar eu swyddogaethau fel Aelod o Ofcom. Ni chafwyd trafodion rhwng Ofcom a'i Aelodau heblaw am daliadau a gafodd eu datgelu ar wahân yn yr adroddiad taliadau.

Ystyrir mai Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yw'r partion cysylltiedig sy'n rheoli Ofcom dan delerau Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Darperir manylion yr holl refeniw grant gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Nodyn 2, 3, 11 ac 14 y datganiadau ariannol hyn.

Gweithredir cynllun pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio a dau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio. Mae gan un o'r ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio (y ddau wedi cau i groniadau yn y dyfodol) barti cysylltiedig, S4C. Dylid cyfeirio at Nodyn 20 am ddatgeliad pellach.

Ar 31 Mawrth 2021, roedd y symiau derbyniadwy canlynol yn cael eu dal yng nghyswllt cymorth grant a oedd yn ddyledus gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon:

- Clirio sbectrwm – £3,811,000 (2019/20: £2,590,000 yn daladwy)

Ni chafwyd dim trafodion partion cysylltiedig eraill yn ystod y flwyddyn ariannol.

22. Ymrwymadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2021, roedd ymrwymadau cyfalaf o £136,000 ar gyfer prynu gwahanol offer swyddfa a maes (2019/20: £1,323,00 – Ymrwymiad cyfalaf wedi ei gyllido gan y landlord ar gyfer y gwaith adnewyddu i'w heiddo).

23. Derbyniadau a drosglwyddwyd i'r/o'r Gronfa Gyfunol

Yn unol ag Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, anfonodd Ofcom £20,647,000 (2019/20: £10,985,000) o Daliadau ychwanegol yn ymwneud â'r Ddeddf Darlledu, Rhifau Daearyddol a Dirwyon i'r Gronfa Gyfunol.

Yn unol ag Adran 401 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, cadwodd Ofcom £63,840,000 (2019/20: £56,828,000) o dderbyniadau WTA i dalu am ei wariant perthnasol sy'n cynnwys Rheoli Sbectrwm.

Cafodd ffioedd trwyddedau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr o £328,321,000 (2019/20: £312,800,000) eu hanfon i'r Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'w trosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol.

24. Addasiad y flwyddyn flaenorol

Mae addasiad cyfnod blaenorol wedi cael ei wneud i gydnabod newid yn y cyllid sy'n ymwneud â diogelwch telegyfathrebiadau yn y sector Telegyfathrebiadau sydd wedi cael ei ddiwygio o gyllid rhanddeiliaid i gadw derbyniadau WTA yn dilyn trafodaethau gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Nid oedd gwelliant i'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn 2011 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom gyflawni swyddogaethau diogelwch telegyfathrebiadau yn rhoi modd i'r costau hynny gael eu hadennill gan rhanddeiliaid. Daethpwyd i gytundeb gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gyllido'r costau hyn drwy gadw WTA fel y ffynhonnell gyllid amgen sydd ar gael i Ofcom. Mae Nodyn 2 wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu bod y symiau a gasglwyd gan rhanddeiliaid, sef £5,220,000 (gyda £3,604,000 o hynny yn ymwneud â blynyddoedd blaenorol a £1,616,000 yn ymwneud â 2020/21) wedi cael ei gydnabod fel incwm gohiriedig yn y sector Rhwydweithiau a Gwasanaethau, i'w osod yn erbyn ffioedd 2022/23. Mae Nodyn 3 a Nodyn 12 wedi cael eu diwygio mewn perthynas â'r incwm cronedig cyfatebol o'r flwyddyn flaenorol, sef £3,604,000 sy'n adlewyrchu'r costau hyn, ac maent bellach wedi cael eu cyllido o dderbyniadau WTA. Mae Nodyn 15 wedi cael ei ddiwygio yng nghyswllt yr elfen ychwanegol o incwm rhanddeiliaid yn y flwyddyn flaenorol, sef £3,604,000, sydd bellach yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

25. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd, bydd digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn yn cael eu hystyried hyd at ddyddiad awdurdodi'r cyfrifon i'w cyhoeddi. Dehonglir hyn fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

26. Busnes gweithredol

Bydd ariannu rhwymedigaethau Ofcom yn y dyfodol yn cael ei wneud drwy dariffau sector blynyddol gan rhanddeiliaid sy'n cael eu rheoleiddio a drwy gadw derbyniadau WTA a gesglir drwy'r cyfrifon Adran 400 ac a gedwir gan Ofcom i dalu am weithgareddau sy'n ymwneud â sbectrwm ynghyd â gweithgareddau eraill nad ydynt yn cael eu hariannu drwy dariffau, fel y nodir yn Adran 401 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau. Mae Trysorlys Ei Mawrhydi a'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cytuno ar gap gwariant Ofcom, ac mae cymeradwyaeth ar gyfer y symiau sydd eu hangen ar gyfer y flwyddyn 2021/22 eisoes wedi cael ei rhoi. Felly ystyriwyd ei bod hi'n briodol mabwysiadu dull busnes gweithredol er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

Ers dechrau argyfwng COVID-19, mae Ofcom wedi addasu i drefniadau gweithio eraill. Mae Ofcom o'r farn nad yw COVID-19 yn cael unrhyw effaith ar sail busnes gweithredol o hyd.

ADRAN D Atodiadau



A1. Cyfrifon Adran 400

O dan Adran 400 Deddf Cyfathrebiadau 2003, rhaid i Ofcom gasglu ffioedd a thaliadau gan gynnwys ffioedd trwyddedau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr (WTA). Nid yw'r derbyniadau hyn yn rhan o'r refeniw sy'n cael ei gofnodi gan Ofcom ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y refeniw yn Natganiadau Ariannol Ofcom.

Roedd Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn cyflwyno gwelliannau deddfwriaethol sy'n caniatáu i Ofcom gadw symiau a geir mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan WTA i dalu am ei swyddogaethau cyffredinol i reoli sbectrwm, ac i dalu am gostau gwaith ei swyddogaethau eraill na chaiff godi ffioedd na thaliadau ar eu cyfer.

Mae gweddill y refeniw a gesglir yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Gyfunol y Deyrnas Unedig yn Nhrysorlys EM, yr Adran Cyllid a Phersonél - Gogledd Iwerddon (DFPNI), Trysorlysoedd Ynys Manaw, Beiliaeth Jersey a Beiliaeth Guernsey, yn uniongyrchol neu drwy'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel y corff sy'n noddi Ofcom.

Yn ystod 2020/21 roedd Ofcom wedi cael £415m (2019/20: £373m). Mae'r cynnydd yn bennaf oherwydd ffioedd trwydded blynyddol uwch a delir gan weithredwyr symudol ar gyfer y rhwydweithiau di-wifr cyhoeddus. O blith y derbyniadau hyn, cafodd £63.8m (2019/20:

£56.8m) i gyllido gwariant perthnasol Ofcom sy'n cynnwys Rheoli Sbectrwm a'n dyletswyddau Llwyfannau Rhannu Fideo newydd.

Talodd Ofcom £328m (2019/20: £313m) sy'n ymwneud â ffioedd trwyddedau WTA, ffioedd sbectrwm gan adrannau Llywodraeth y DU a'r llog a gafwyd ar falansau arian i'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n cael eu talu i gronfeydd cyfunol. Cafodd balans o £13.8m a dderbyniwyd yn 2020/21 ei drosglwyddo i'r Trysorlys ym mis Ebrill 2021.

Cafodd y bandiau amledd 700 MHz a 3.6-3.8 GHz eu dyfarnu drwy arwerthiant a ddechreuodd ar 22 Mawrth 2021. Ar 31 Mawrth 2021, roedd £2,692.2m o adnau yng nghyfrifon Ofcom. Trosglwyddwyd £1.379.4m i Lywodraeth y DU ar ôl i drwyddedau WTA gael eu cyhoeddi, a dychwelwyd unrhyw flaendaliad dros ben i'r bidwyr, ar ôl i'r arwerthiant ddod i ben ar 27 Ebrill 2021.

Ar ben hynny, roedd Ofcom wedi trosglwyddo £20.6m (2019/20: £11m) yn uniongyrchol i'r Cronfeydd Cyfunol a oedd yn ymwneud â derbyniadau a oedd yn deillio o daliadau ychwanegol, cosbau ariannol a thaliadau am rifau ffôn daearyddol.

A2. Datganiadau Rheoleiddio

Rhestr o'r datganiadau a gyhoeddwyd yn 2020/21, gan gynnwys yr effaith reoleiddio ar randdeiliaid.

A	Datganiad: Diwygiadau arfaethedig i'r Cod Darlledu a'r Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu
A	Datganiad: Diogelu'r rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teledu a radio
A	Datganiad: Newidiadau arfaethedig i amodau trwyddedau darlledu
A	Datganiad: Trwyddedu DAB ar raddfa fach – Sut bydd Ofcom yn defnyddio ei swyddogaethau newydd
B	Datganiad: Sam FM (Bryste) – Cais i newid Fformat
B	Datganiad: Imagine Radio – cais i greu ardal gymeradwy newydd
B	Datganiad: Adolygiad o reolau cystadleuaeth yn y Cod Cyfeirddion Rhaglenni Electronig (EPG)
B	Datganiad ac Ymgynghoriad: Digwyddiadau Rhestredig – Gemau Terfynol Cwpan Her Rygbi'r Gynghrair 2020 a 2021
B	Datganiad: Gorsafoedd Bauer Radio yn ne a gorllewin Lloegr
B	Datganiad: Gorsafoedd Bauer Radio yn ngogledd Lloegr
B	Datganiad: Love Sport (Gogledd Llundain) – Cais i newid Fformat
B	Datganiad: Newyddion y BBC ar gyfer plant a rhaglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf
B	Datganiad: Gorsafoedd Bauer Radio yn ngorllewin Lloegr
B	Datganiad: Gorsafoedd Bauer Radio yn ne Lloegr
B	Datganiad: Secklow Sounds (Milton Keynes) – Cais i newid ei Brif Ymrwymadau
B	Datganiad: Ardal gymeradwy De Orllewin Lloegr (Bauer) - cais i ychwanegu trwydded Plymouth
B	Datganiad: Absolute Radio (Llundain) – Cais i newid Fformat

Post

A	Adolygu'r broses o ddarparu adroddiadau ariannol rheoleiddiol ar gyfer y Post Brenhinol - Cam II
C	Adennill costau am wasanaethau eiriolaeth defnyddwyr a rheoleiddio'r post

Allwedd i'r Datganiadau Rheoleiddio

Mwy o reoleiddio/rheoleiddio newydd



Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio



Cymysg/dim newid/parhaus



Llai o reoleiddio



Rhestr o'r datganiadau a gyhoeddwyd yn 2020/21, gan gynnwys yr effaith reoleiddio ar randdeiliaid.

Sbectrwm

A	Datganiad: Mesurau i'w gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â chanllawiau rhyngwladol ar gyfyngu cysylltiad â meysydd electromagnetig (EMF)
B	Datganiad: Dyfeisiau pellter byr a systemau synwryddion radar croesfannau rheilffordd
B	Datganiad: Cefnogi arloesi yn yr ystod 100-200 GHz
B	Datganiad: Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Radar Pellter Agos Modurol) (Eithriad) 2020
B	Datganiad: Gwella mynediad i sbectrwm ar gyfer Wi-Fi – Defnyddio sbectrwm yn y bandiau 5 a 6 GHz
B	Datganiad ar y rheoliadau terfynol ar ddyfarnu sbectrwm ym mandiau amledd 700 Mhz a 3.6-3.8 GHz
B	Datganiad: Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Ffioedd Trwyddedau) 2020

Telathrebu

A	Datganiad: Digolledu darparwyr sy'n darparu gwasanaethau cyffredinol
A	Datganiad ac ymgynghoriad: Rhoi'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd newydd ar waith
A	Datganiad: Rhoi'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd newydd ar waith
B	Datganiad: Caniatâd i KCOM ohirio ei Ddatganiadau Ariannol Rheoleiddiol ar gyfer 2019/20 a 2020/21
B	Trin cwsmeriaid agored i niwed yn deg: Canllaw ar gyfer darparwyr gwasanaethau ffôn, band eang a theledu drwy dalu
B	Datganiad: Hyrwyddo buddsoddiad a chystadleuaeth mewn rhwydweithiau ffeibr – Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol 2021-26
B	Datganiad: Diogelu cwsmeriaid llinell dir llais-yn-unig
C	Datganiad: Offer Cymharu Digidol - newidiadau i gynllun achredu gwirfoddol Ofcom
D	Datganiad: Caniatáu hepgor cyfnodau hysbysu ar gyfer newidiadau i ffioedd, telerau ac amodau mynediad rhwydwaith Openreach

Allwedd i'r Datganiadau Rheoleiddio

Mwy o reoleiddio/rheoleiddio newydd



Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio



Cymysg/dim newid/parhaus



Llai o reoleiddio



Datganiadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2020/21 lle roedd yr ymgynghoriad cynharach yn cynnwys asesiad o effaith

Dyfeisiau pellter byr a systemau synwryddion radar croesfannau rheilffordd
Cyfarwyddyd terfynol yn defnyddio pwerau Cod i CloudHQ Didcot Fibre GP Ltd
Digolledu darparwyr sy'n darparu gwasanaethau cyffredinol
Trwyddedu DAB ar raddfa fach – Sut bydd Ofcom yn defnyddio ei swyddogaethau newydd
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i Orbital Net Limited
Rhoi'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd newydd ar waith
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i MGMT Ltd
Mesurau i'w gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â chanllawiau rhyngwladol ar gyfyngu cysylltiad â meysydd electromagnetig
Cefnogi arloesi yn yr ystod 100–200 GHz
Diwygiadau arfaethedig i'r Cod Darlledu a'r Cod ar Amserlennu Hysbysebion Teledu
Diogelu'r rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teledu a radio
Rhoi'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd newydd ar waith
Adolygiad o reolau cystadleuaeth yn y Cod Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPG)
Penderfyniad i ganiatáu eithriad i rwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol y Post Brenhinol
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau'r Cod i Broadband Networks Limited
Newyddion y BBC ar gyfer plant a rhaglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i Westnetworks Innovations Limited
Gwella mynediad i sbectrwm ar gyfer Wi-Fi – Defnyddio sbectrwm yn y bandiau 5 a 6 GHz
Secklow Sounds (Milton Keynes) – Cais i newid ei Brif Ymrwymadau
Addasiadau i Amod Mynediad darparwr gwasanaeth cyffredinol ar gyfer rheoleiddio mynediad i rwydwaith post y Post Brenhinol
Cyfarwyddyd terfynol yn defnyddio pwerau Cod i Secure Web Services Limited
Adolygiad o God Ofcom ar gyfer Gwasanaethau Hwyluso'r Defnydd o Deledu, a Chanllawiau ynghylch Hygyrchedd y BBC
Trin cwsmeriaid agored i niwed yn deg: Canllaw ar gyfer darparwyr gwasanaethau ffôn, band eang a theledu drwy dalu
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i Liberty Charge Limited
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i Obelisk Networks (UK) Limited
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i NATS (Services) Limited
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i Redshelf Ltd
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i M 12 Solutions Limited
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i Nynet Limited
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i Delambre Infrastructure Ltd
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i Wildanet Limited

Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i Simply Fibre Limited
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i Wessex Internet Limited
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso Digital Infrastructure Ltd
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i Yesfibre Limited
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i Commsworld Limited
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i Factco Ltd
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i 5ibre Limited
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i Neutralone Limited
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i Connexin Limited
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i Vispa Limited
Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso pwerau Cod i Net Support UK Limited
Hyrwyddo buddsoddiad a chystadleuaeth mewn rhwydweithiau ffeibr – Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol 2021-26
Diogelu cwsmeriaid llinell dir llais-yn-unig
Adolygiad o'r Farchnad Llais Gyfanwerthol 2021-26

Ymgynghoriadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2020/21 a oedd yn cynnwys asesiad o effaith a lle na chyhoeddwyd datganiad terfynol erbyn 31 Mawrth 2021

Cynnig i gymhwyso pwerau Cod i Fibre Me Limited
Cynnig i gymhwyso pwerau Cod i Exponential-e Limited
Cefnogi dyfodol di-wifr y Deyrnas Unedig – ein strategaeth rheoli sbectrwm ar gyfer y 2020au
Llinellau busnes BBC Studios
Ansawdd gwasanaeth Openreach – newidiadau i gynigion a wnaed fel rhan o'r Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol
Hysbysiad o newidiadau Ofcom i'r eithriad trwydded ar gyfer Dyfeisiau Telegraffiaeth Ddi-wifr ac ymgynghoriad ar drwyddedu offer 57 i 71 GHz
Hyrwyddo cystadleuaeth mewn rhwydweithiau ffeibr – Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol yn ardal Hull, 2021-26
Rhoi'r gorau i ddefnyddio copr – amodau lle gallai rheoleiddio copr gael ei dynnu'n ôl yn llwyr mewn cyfnewidfeydd gwibgyswllt
Gwneud gwasanaethau ar-alw yn hygyrch
Cynnig i ddefnyddio pwerau Cod gyda CK Hutchison Networks (UK) Limited
Newid darparwr yn gyflym, yn hawdd ac mewn modd dibynadwy
Canllawiau i ddarparwyr llwyfannau rhannu fideos ar fesurau i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol

A3. Rhaglen Ymchwiliadau

Mae rhaglen ymchwiliadau Ofcom yn ymwneud â chwynion am ymddygiad gwrth-gystadleuol, torri rheolau rheoleiddio penodol ac anghydfodau ynghylch rheoleiddio. Mae'r tabl canlynol yn dangos gweithgareddau Ofcom yn cynnal asesiadau cychwynnol ac ymchwiliadau yn ystod 2019/20. Mae'n adlewyrchu'r darlun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021.

Mae rhagor o fanylion am achosion yr ymchwiliwyd iddynt o dan y rhaglen ymchwiliadau wedi eu nodi yn Mwletin Competition and Enforcement Ofcom sydd ar gael yn:

<https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/bulletins/competition-bulletins>

Mae'r data yn y tabl isod yn ymwneud ag asesiad cychwynnol.

	Cyfanswm sydd wedi cael sylw	Cyfanswm sydd wedi eu derbyn i'w hymchwilio	Cyfanswm heb eu derbyn	Gweithgarwch parhaus (ar 31/3/2021)
Anghydfodau	0	0	0	0
Cyfraith cystadleuaeth	1	0	1	0
Cwynion	13	0	11	2
Menter ein hunain	4	3	1	0

Mae'r tabl canlynol yn ymwneud ag achosion a agorwyd yn ffurfiol:

	Cyfanswm sydd wedi cael sylw	Cyfanswm a agorwyd	Cyfanswm sy'n parhau	Cyfanswm wedi eu dirwyn i ben	Gweithgarwch parhaus (ar 31/3/2021)
Anghydfodau	0	0	0	0	0
Cyfraith Cystadleuaeth	2	0	2	1	1
Ymchwiliadau eraill	11	3	8	5	6
Rhaglenni gorfodi	2	0	2	0	2

A4. Cwynion, achosion a sancsiynau darlledu

Safonau a Diogelu Cynulleidfaoedd

Yn 2020/21, mae'r Deyrnas Unedig wedi wynebu newid enfawr, gyda dadleuon parhaus ynghylch materion cymdeithasol a diwylliannol yn flaenllaw o ran pryderon cynulleidfaoedd. Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaethom flaenoriaethu diogelu cynulleidfaoedd rhag cynnwys niweidiol drwy orfodi'r [Cod Darlledu](#).

Roedd hyn yn cynnwys gosod sancsiynau yn erbyn trwyddedeion am ddarlledu deunydd niweidiol difrifol, fel iaith casineb a honiadau niweidiol yn ymwneud â'r Coronafeirws. Cafodd yr ymchwiliadau cymhleth hyn eu cynnal yn gyflym i liniaru'r niwed posibl i gynulleidfaoedd ac mae llawer wedi arwain at gosbau ariannol yn erbyn trwyddedeion. Mae cwynion am safonau cynnwys yn cael eu trin o dan [Weithdrefnau](#).

[Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio](#). Mae cwynion am safonau cynnwys y BBC yn cael eu trin o dan y [Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC](#).

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Ofcom wedi cael ac asesu nifer digynsail o gwynion darlledu, yr uchaf ers ein sefydlu. Roedd y mwyafrif helaeth o'r cwynion a gawsom yn ymwneud â chynnwys a oedd yn peri tramgwydd i gynulleidfaoedd.

Ffigur 1 – cwynion ac achosion a aseswyd yn ôl blwyddyn

Math	2020/21	2019/20	2018/19	2017/18	2016/17
Cwynion	142,660	34,545	55,801	15,293	15,922
Achosion	11,778	7,829	6,206	5,774	5,986

Mewn sawl achos, efallai y byddwn yn derbyn mwy nag un gŵyn am raglen benodol neu fwy nag un mater o fewn rhaglen. Rydym yn asesu pob mater fel un achos, felly arweiniodd y 142,660⁹ o gwynion a gawsom yn 2020/21 at 11,778 o achosion.

Mae cwynion yn dal yn bwysig i ni: maent yn tynnu sylw Ofcom at faterion a allai fod angen ein hymyriad, felly rydym yn asesu pob cwyn a gawn yn ofalus. Fodd bynnag, nid yw cynnydd yn nifer y cwynion o reidrwydd yn arwain at gynnydd cyfatebol mewn ymchwiliadau. Mae Ofcom yn parhau i ymchwilio i gynnwys os yw'n codi materion sylweddol o dan y Cod Darlledu.

Mae gan bawb yr hawl i ryddid i lefaru. Mae'n rhywbeth rydyn ni'n ei ystyried bob tro rydyn ni'n asesu cwynion am gynnwys sy'n cael ei ddarlledu.

Mae'r hawl hon yn cynnwys yr hawl i feddu ar farn a derbyn a rhannu gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth ddiangen. Mae'n rhan ganolog o'n gwaith yn cymhwyso safonau darlledu ac wrth ystyried pa raglenni i ymchwilio iddynt. Ar adeg pan ydym yn cael lefelau uwch nag erioed o gwynion, mae'n bwysig i ni hefyd roi ystyriaeth briodol i bwysigrwydd rhyddid mynegiant mewn cymdeithas ddemocrataidd.

9. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys cwynion Tegwch a Phreifatrwydd na chwynion a anfonwyd yn ôl gennym i'r BBC o dan BBC yn Gyntaf am nad oeddent wedi cwblhau proses gwynion y BBC.

Mae Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 8.1 diwrnod gwaith ar gyfartaledd. O'r 11,778 achos hyn, fe wnaethom gyfeirio 48 achos ar gyfer ymchwiliad o dan ein rheolau fel yr amlinellir yn Ffigur 2 isod.

Ffigur 2: Canlyniadau cwynion ac achosion yn ôl mater allweddol y Cod Darlledu

Canlyniad	Heb eu dilyn	Y tu allan i'r cylch gwaith	Cyfeirio ar gyfer ymchwiliad
Swmp	10,225	1,505	48

Yn y flwyddyn ariannol hon cwblhawyd 60 ymchwiliad gennym¹⁰. O'r 60 ymchwiliad a gwblhawyd gennym, cafodd 29 eu lansio cyn 2020/21. Cafodd y 31 arall eu lansio a'u cwblhau yn 2020/21. Mae canlyniadau'r rhain wedi eu hamlinellu yn ffigur 3 isod.

Ffigur 3: Canlyniadau'r ymchwiliad

Canlyniad	Torri Rheol	Heb dorri amodau	Datryswyd ¹¹	Yn dod i ben
Swmp	29	19	9	4
%	48%	32%	13%	7%

Anelwn at gwblhau'r achosion hynny y penderfynwn ymchwilio iddynt cyn pen 50 diwrnod gwaith. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, cwblhaodd Ofcom ymchwiliadau o fewn 75.2 diwrnod gwaith ar gyfartaledd oherwydd bod y tîm wedi asesu nifer uchel o gwynion darlledu na welwyd eu tebyg o'r blaen, a chymhlethdod llawer o'r achosion roeddem wedi ymchwilio iddynt.

Mae Ffigur 4 isod yn rhoi dadansoddiad yn ôl rhai o brif faterion y Cod Darlledu.

Ffigur 4: Canlyniadau cwynion, achosion ac ymchwiliadau yn ôl mater allweddol y Cod Darlledu

Math	Cwynion	Achosion	Ymchwiliadau	Torri amodau
Trosedd	128,825	6,511	25	10
Niwed	3,375	791	8	8
Amhleidioldeb Priodol	5,479	1,472	4	-
Arall ¹²	4,981	3,004	23	11
Cyfanswm	142,660	11,778	60	29

Mae cwynion sy'n ymwneud â throseddau wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, er i ni agor llai o ymchwiliadau fel yr amlinellir yn ffigur 5 isod. Yn 2020/21, asesodd Ofcom gyfanswm o 128,825 o gwynion am gynnwys tramgwyddus. Cafodd 3,164 yn rhagor o gwynion am gynnwys a barodd dramgwydd ar y BBC eu cyfeirio'n ôl i'r BBC o dan broses BBC yn Gyntaf¹³.

10. Gall ymchwiliad gael ei gwblhau dros fwy nag un flwyddyn ariannol yn dibynnu ar ffactorau fel pryd cafodd ei lansio a chymhlethdod yr ymchwiliad.

11. Gellir defnyddio canlyniad 'datryswyd' mewn achosion - er enghraifft, lle mae darlledwr wedi cymryd camau priodol ar unwaith i unioni achos o dorri'r Cod. Mewn achosion o'r fath, gall Ofcom ystyried ei bod yn briodol peidio â chofnodi torri'r amodau, a phenderfynu mai'r canlyniad priodol yw penderfynu bod yr achos wedi ei 'ddatrys'. Mae canfyddiad 'datryswyd' yn cael ei gadw ar gofnod ac mae'n bosibl y bydd yn cael ei ystyried os bydd rhagor o bryderon ynghylch darlledwr penodol o ran cydymffurfio.

12. Mae mathau eraill o achosion yn cynnwys amddiffyn plant a chyfeiriadau masnachol.

13. Fel arfer, dim ond cwyn sydd wedi cael ei hystyried gan y BBC yn gyntaf y bydd Ofcom yn ei derbyn (fel y nodir yn ein Gweithdrefnau ar gyfer y BBC). Mae'r BBC yn ystyried cwynion yng nghyd-destun ei Ganllawiau Golygyddol, sy'n adlewyrchu darpariaethau perthnasol y Cod Darlledu.

Ffigur 5: Cwynion am dramgwydd fesul blwyddyn

Math	2020/21	2019/20	2018/19	2017/18	2016/17
Cwynion	128,825	25,834	48,180	9,265	9,546
Achosion	6,511	4,308	3,834	3,257	2,997
Ymchwiliadau	25	67	64	76	62
Torri amod	10	40	40	44	32

Fel y dangosir yn y ffigur uchod, er gwaethaf y cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a dderbyniwyd, mae nifer yr ymchwiliadau sy'n ymwneud â throseddau wedi gostwng.

Nid yw'n anarferol i Ofcom gael llawer iawn o gwynion am ddarllediadau unigol. Gwelwyd cynnydd dros y cyfnod adrodd hwn yn nifer y darllediadau unigol sy'n denu llawer iawn o gwynion. O'r cyfanswm o 128,825 o gwynion am gynnwys tramgwyddus a gawsom, roedd 109,750 yn ymwneud â deg darllediad unigol fel yr amlinellir yn Ffigur 6 isod.

Ffigur 6: Y 10 prif gŵyn am raglen ddarlledu unigol yn ystod BA 2020/21

Rhaglen	Dyddiad darlledu	Disgrifiad o'r cwynion	Cwynion
Good Morning Britain	08/03/2021	Sylwadau gan Piers Morgan am gyfeiriad Duges Sussex at deimlo'n hunanladdol.	54,453
Britain's Got Talent	05/09/2020	Gwrthwynebiadau i berfformiad gan Diversity ar 5 Medi a oedd yn cyfeirio at Black Lives Matter.	25,017
I'm a Celebrity... Get Me Out of Here!	Amh	Lles anifeiliaid a ddefnyddiwyd mewn treialon ar y sioe.	11,516
Britain's Got Talent	19/09/2020	Alesha Dixon yn gwisgo cadwyn gyda'r llythrennau cyntaf "BLM" yn sarhaus ac yn anaddas ar gyfer sioe anwleidyddol.	2,565
Britain's Got Talent	10/10/2020	Gwrthwynebiadau i berfformiad Nabil Abdurashid ar sail ei fod yn sarhaus.	2,253
Good Morning Britain	15/04/2020	Gwrthwynebu dull Piers Morgan o gyfweld Helen Whateley AS.	2,017
Good Morning Britain	22/04/2020	Gwrthwynebu dull Piers Morgan o gyfweld Helen Whateley AS.	1,334
Britain's Got Talent	03/10/2020	Gwrthwynebiadau i berfformiad Nabil Abdurashid ar y sail ei fod yn sarhaus, a bod gwisg Amanda Holden yn rhy ddadlennol, gan wneud y rhaglen yn anaddas i gynulleidfa deuluol.	1,189
Good Morning Britain	28/04/2020	Dangos rhagfarn / bwllo gan Piers Morgan wrth gyfweld Victoria Atkin, AS.	1,178
Good Morning Britain	26/11/2020	Anghydweld â honiadau Rishi Sunak ei fod wedi cwrdd ag arweinwyr Excluded UK.	1,068

Mewn llawer o'r achosion uchod, ni welsom fod y materion yn cyfiawnhau ymchwiliad. Ar rai adegau, pan wnaethon ni benderfynu nad oedd rhaglen yn codi materion sylweddol o dan y Cod ond eu bod wedi cael llawer o sylw gan y cyhoedd, roedden ni wedi cyhoeddi'r rhesymau dros ein penderfyniad i beidio ag ymchwilio. Roedd hyn yn cynnwys [ein penderfyniad](#) i beidio ag ymchwilio i berfformiad y grŵp dawns Diversity ar *Britain's Got Talent*, ym mis Medi 2020, a ddenodd dros 25,000 o gwynion.

Yn ogystal â chynnydd cyffredinol mewn achosion o droseddau, gwelsom gynnydd yn nifer y cwynion yn benodol am gynnwys darlledu a allai achosi tramgwydd hiliol. Mae'r ymatebion cyhoeddus hyn yn cyd-fynd â chasgliadau gwaith ymchwil Ofcom ar [Ddisgwyliadau Cynulleidfaoedd mewn Byd Digidol](#) ym mis Ebrill 2020, a ganfu fod normau cymdeithasol wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf a bod ymddygiad ac iaith wahaniaethol bellach yn cael eu gweld yn fwy cyffredin fel rhywbeth annerbyniol nag oedd yn flaenorol.

Prif ffocws ein gwaith yn 2020/21 oedd diogelu cynulleidfaoedd rhag niwed difrifol

Yn ein barn ni, diogelu cynulleidfaoedd rhag niwed yw'r maes pwysicaf yn ein gwaith ac rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar hyn yn 2020-21, gan flaenoriaethu gorfodi rheolau sy'n ymwneud ag ysgogi troseddau, iaith casineb a thriniaeth ddifrifol, sef y math mwyaf difrifol o niwed fel arfer. Mae Ffigur 8 isod yn rhoi rhagor o fanylion am y niferoedd dros bum mlynedd.

Ffigur 8: Cyfanswm nifer y cwynion, achosion ac ymchwiliadau am niwed fesul blwyddyn¹⁴

Math	2020/21	2019/20	2018/19	2017/18	2016/17
Cwynion	3,375	888	613	1,995	1,303
Achosion	791	227	249	292	287
Ymchwiliadau	8	14	6	14	18
Torri amod	8	11	5	9	9

Mae'r cynnydd mewn cwynion ac ymchwiliadau a ddangosir yn y tabl yn adlewyrchu nifer uchel o gwynion sy'n ymwneud â chynnwys am y coronafeirws. Roedd tua 75% o'r holl achosion niwed a aseswyd gennym yn 2020/21 yn sôn am y Coronafeirws (neu dermau cysylltiedig) yn y cwynion. Rydym yn cydnabod y bydd cynulleidfaoedd eisiau derbyn - ac y bydd darlledwyr eisiau darlledu - cynnwys am bandemig y coronafeirws, a bod cyfathrebu gwybodaeth gywir a chyfredol i gynulleidfaoedd yn hanfodol. Nid oedd y rhan fwyaf o'r cwynion hyn yn codi materion a oedd yn cyfiawnhau ymchwiliad dan ein rheolau. Fodd bynnag, pan wnaethant hynny, fe wnaethom hwyluso ymchwiliadau oherwydd natur ddifrifol rhywfaint o'r cynnwys. Fe wnaethom gofnodi wyth achos o dorri ein rheolau yn y maes hwn, gan gynnwys gwasanaeth Loveworld a oedd yn cynnwys datganiadau camarweiniol iawn am bandemig y Coronafeirws heb roi digon o amddiffyniad i'r gynulleidfa.

Sancsiynau

Mae ymchwiliadau i niwed fel arfer yn golygu ein bod yn ystyried gosod sancsiwn statudol oherwydd difrifoldeb y tor-amod hwn. Fel yr eglurir yn Ffigur 9 isod, yn 2020/21 fe wnaethom roi 14 o sancsiynau mewn perthynas â safonau cynnwys, cynnydd sylweddol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, wedi ei sbarduno'n bennaf gan y chwe sancsiwn roeddem wedi eu rhoi mewn perthynas â chynnwys a allai fod yn niweidiol mewn perthynas â'r Coronafeirws. Fodd bynnag, fe wnaethom hefyd osod wyth cosb arall am safonau cynnwys a oedd yn ymwneud â niwed posibl a oedd yn deillio o nifer o achosion difrifol eraill o dorri'r Cod Darlledu, gan gynnwys anogaeth, iaith casineb a didueddrwydd dyladwy.

14. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys cwynion a ddosbarthwyd gennym o dan ein rheolau sy'n cyfeirio at drosedd ac anhrefn, niwed, casineb a cham-drin

Ffigur 9: Cosbau statudol safonau cynnwys a roddwyd fesul blwyddyn – pob categori

Math	2020/21	2019/20	2018/19	2017/18	2016/17
Cynnwys niweidiol yn ymwneud â'r Coronafeirws	10	7	3	6	3
Cynnwys niweidiol arall	7	-	-	-	-
Cyfanswm	17	7	3	6	7

Mae Ffigur 10 isod yn rhoi manylion y sancsiynau statudol ar gyfer safonau cynnwys a roddwyd yn 2020/21.

Ffigur 10: Manylion y sancsiynau statudol ar gyfer safonau cynnwys a roddwyd yn 2020/21

Trwyddedai	Gwasanaeth	Cosb	Cosb ¹⁵
Uckfield Community Radio	Uckfield FM	Cyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom.	Amh
ESTV Limited	London Live	Cyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom.	Amh
Club TV	Peace TV Urdu	Cosb ariannol	£200,000
Lord Production Ltd	Peace TV	Cosb ariannol	£100,000
Loveworld Limited	Loveworld Television Network	Cyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom.	Amh
		Cyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom ac i beidio ag ailadrodd y rhaglen.	Amh
		Cosb ariannol	£125,000
Panjab Radio Ltd	Panjab Radio	Cosb ariannol	£30,000
Khalsa Television Limited	KTV	Cosb ariannol a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom, ac i beidio ag ailadrodd y rhaglenni.	£50,000
Islam Channel Limited	Islam Channel	Cosb ariannol	£20,000
Afro Caribbean Millennium Centre	New Style Radio	Cyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom ac i beidio ag ailadrodd y rhaglen.	Amh
		Cosb ariannol	£2,000
Ujima Radio CIC	Ujima Radio	Cosb ariannol	£300
Worldview Media Network Limited	Republic Bharat	Cosb ariannol	£20,000
Star China Media Limited	CGTN	Cosb ariannol	£100,000
		Cosb ariannol	£125,000

15. Caiff yr holl gosbau ariannol a roddir gan Ofcom eu dal mewn cyfrif gyda Gwasanaethau Bancio Llywodraeth y DU (GBS) er budd y Trysorlys. Caiff cronfeydd eu trosglwyddo i gyfrif GBS Trysorlys EM i'w defnyddio'n uniongyrchol gan y Trysorlys, neu eu dosbarthu i Gronfeydd Cyfunol perthnasol. Nid yw Ofcom yn defnyddio nac yn cael buddion ariannol o unrhyw gosbau ariannol a geir

Didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy newyddion a materion cyfoes

Cawsom nifer gynyddol o gwynion ynghylch didueddrwydd dyladwy, cywirdeb dyladwy ac etholiadau. Fodd bynnag, mae cydymffurfriad darlledwyr yn y maes hwn yn dal yn uchel. Mae Ffigur 11 isod yn rhoi gwybodaeth am ddarparwyr, ar wahân i'r BBC, ac mae Ffigur 12 yn rhoi manylion am y BBC, gan fod eu cwynion yn cael eu trin drwy broses wahanol yn unol â Siarter Frenhinol y BBC. O dan system BBC yn Gyntaf, fel arfer mae'n rhaid i'r rhai sy'n cwyno gwblhau proses gwynion y BBC cyn dod at Ofcom. Os byddant yn dal yn anfodlon ag ymateb terfynol y BBC i'w cwyn, gallant gyfeirio'r mater at Ofcom. Mae hyn yn wahanol i ddarlledwyr eraill, lle gall y rhai sy'n cwyno gofrestru eu cwynion ag Ofcom yn uniongyrchol.

Ffigur 11: Cyfanswm y cwynion am gywirdeb dyladwy/didueddrwydd dyladwy/etholiadau yn ôl blwyddyn (y tu allan i'r BBC)

Math	2020/21				2019/20			
	Cwyn	Achos	Ymchwiliad	Torri Rheol	Cwyn	Achos	Ymchwiliad	Torri Rheol
Channel 4	370	176	1	-	809	221	-	-
Channel 5	57	40	-	-	72	50	-	-
ITV	4,059	668	1	-	883	302	1	1
Sky News	879	496	2	-	1,134	458	-	-
Cyfanswm	5,365	1,380	4	-	2,898	1,031	1	1

Ffigur 12: Cyfanswm y cwynion am gywirdeb dyladwy/didueddrwydd dyladwy/etholiadau yn ôl blwyddyn (BBC)

Math		2020/21	2019/20	2018/19	2017/18
Cwynion	Cyfeiriwyd gan BBC yn Gyntaf	1,609	1,421	445	809
	Safonau'r BBC	102	122	115	85
	Cyfanswm	1,711	1,543	560	894
Achosion	BBC yn gyntaf	819	811	435	586
	Safonau'r BBC	92	100	111	84
	Cyfanswm	911	911	546	670

Fe wnaethom gyhoeddi nifer o asesiadau manwl lle rydym wedi nodi rhesymau dros beidio â mynd ar drywydd achos didueddrwydd dyladwy penodol. Er enghraifft, ym mis Mawrth 2021, fe wnaethom gyhoeddi: ein penderfyniad asesu; mewn perthynas ag [ymdriniaeth y BBC o sesiynau briffio Llywodraeth yr Alban ar y pandemig; a'n penderfyniad asesu](#) ynghylch rhaglen *Newsnight* BBC 2 a'i sylw i ddigwyddiadau yn ymwneud â Phrif Gyngorydd

Llywodraeth y DU ar y pryd, Dominic Cummings.

Fe wnaethom hefyd ddiwygio ein [Penderfyniadau Cwynion](#) i annog y BBC i fod yn fwy tryloyw yn ei benderfyniadau ar gwynion golygyddol, yn enwedig mewn perthynas â chyhoeddi canlyniadau yng nghan 2 Fframwaith Cwynion y BBC.

Deunydd ar-lein y BBC

O dan Siarter a Chytundeb y BBC, a osodir gan Lywodraeth a Senedd y DU, mae'r BBC yn gyfrifol am safonau golygyddol ei ddeunydd ar-lein. Mae gan Ofcom gyfrifoldeb i ystyried a rhoi barn ynghylch a wnaeth y BBC llynu at y canllawiau golygyddol perthnasol yn y deunydd ar-lein. Mae deunydd ar-lein yn golygu cynnwys ar wefannau ac apiau'r BBC, fel erthyglau, delweddau a fideos. Nid yw'n cynnwys rhaglenni ar y BBC iPlayer sy'n gorfod cydymffurfio â rheolau Cod Darlledu Ofcom.

Rydym yn delio â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC o dan y [Gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion sy'n ymwneud â deunydd ar-lein y BBC](#).

Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 fe wnaethom gau cyfanswm o 61 cwyn am ddeunydd ar-lein y BBC. Ni chyfeiriwyd yr un o'r achosion hyn i gael Barn. Roedd 537 o gwynion eraill wedi cael eu hailgyfeirio at y BBC o dan y dull 'BBC yn Gyntaf', neu y tu allan i'n cylch gwaith.

Mae Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 18.3 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

Tegwch a Phreifatrwydd

Mae Ofcom hefyd yn ystyried cwynion gan bobl sy'n credu iddynt gael eu trin yn annheg ar raglen, neu sydd o'r farn y tarfwyd ar eu preifatrwydd heb gyfiawnhad. Yn yr achosion hyn, mae Ofcom yn gweithredu fel dyfarnwr rhwng yr unigolyn a'r darlledwr.

Mae cwynion am degwch a phreifatrwydd yn cael sylw o dan y [Gweithdrefnau ar gyfer ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu yn eu cylch](#). Bydd cwynion am degwch a phreifatrwydd ar raglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC yn cael eu trin o dan y [Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC](#).

Yn 2020/21, fe wnaethom ystyried 248 o gwynion Tegwch a Phreifatrwydd (2019/20: 174). Fe wnaethom gadarnhau tri o'r rhain yn ymwneud â rhaglenni a ddarlledwyd ar CGTN (a CCTV News cyn ei ail-frandio), a dwy gwyn yn ymwneud â rhaglenni a ddarlledwyd ar Abu Dhabi Media Channel.

Roedd pob un o'r pum rhaglen hyn yn cynnwys lluniau o gyfaddefiadau wedi eu gorfodi fel yr honnwyd, a chanfu Ofcom fod y rhaglenni wedi arwain at annhegwch difrifol i'r rhai a oedd yn cwyno; yn cynrychioli ymyriad sylweddol â hawliau'r rhai a oedd yn cwyno i gael preifatrwydd; ac nad oedd cyfiawnhad dros ddarlledu'r ffilm.

Rhoesom [gosb ariannol](#) o £100,000 i Star China Media Limited¹⁶ a oedd yn dal y drwydded ar gyfer gwasanaeth CGTN. Yn ogystal, fe wnaethom roi dwy gosb ariannol o £125,000 yr un i Abu Dhabi Media Company PJSC¹⁷ a oedd yn dal y drwydded ar gyfer Abu Dhabi Channel am dorri'r rheolau Tegwch a Phreifatrwydd yn ddifrifol¹⁸.

16. Roedd y sancsiwn hwn yn ymwneud â'r cyntaf o'r tri achos o dorri tegwch a phreifatrwydd a gofnodwyd gennym yn 2020/21 yn erbyn Star China Media Limited mewn perthynas â chynnwys CGTN/CCTV News

17. Penderfyniad ynghylch Sancsiynau Al-Jaidah (ofcom.org.uk) a Penderfyniad ynghylch Sancsiynau Al-Hammadi (ofcom.org.uk).

18. Cafodd y sancsiynau yn erbyn Cwmni Cyfryngau Abu Dhabi PJSC, mewn perthynas â'i wasanaeth Abu Dhabi, eu rhoi yn ystod blwyddyn ariannol newydd 2021/22 ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn nifer y sancsiynau a roddwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21.

Penderfyniadau i Ystyried

Mae Ofcom yn ceisio asesu a phenderfynu a yw am bwysu a mesur cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ai peidio cyn pen 25 diwrnod gwaith o gael y gŵyn, ac unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan y sawl sy'n cwyno. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, asesodd a phenderfynodd Ofcom cyn pen 14.0 diwrnod gwaith ar gyfartaledd a ddylid pwysu a mesur cwynion Tegwch a Phreifatrwydd.

Ffigur 13: Canlyniadau dyfarniadau Tegwch a Phreifatrwydd

Canlyniad	Cadarnhawyd	Cadarnhawyd yn rhannol	Heb ei gadarnhau	Datryswyd	Yn dod i ben
Swmp	9	1	25	1	15
%	18%	2%	49%	2%	29%

Mae Ofcom yn ceisio cwblhau'r gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, o fewn 90 diwrnod gwaith i bwysu a mesur y gŵyn. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, cwblhaodd Ofcom y gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, cyn pen 117.8 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

Mae ein tîm wedi asesu mwy nag erioed o'r blaen o gwynion ynghylch darlledu dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym hefyd wedi ystyried a rhoi nifer fawr o sancsiynau. Roedd llawer iawn o'r achosion Tegwch a Phreifatrwydd a gafodd eu cau eleni yn cynnwys rhai materion gweithdrefnol a chyfreithiol cymhleth iawn. Mae hyn wedi golygu ein bod wedi cymryd mwy o amser nag arfer i gwblhau ein dyfarniadau.

Dyfarniadau

Os caiff cwyn Tegwch a Phreifatrwydd ei phwysu a'i mesur gan Ofcom, bydd yn ymchwilio i'r mater ymhellach i benderfynu a gafodd y Cod Darlledu ei dorri. Bydd Ofcom wedyn yn gwneud ei ddyfarniad terfynol. Dyfarnwyd ar gyfanswm o 51 cwyn yn y cyfnod dan sylw, gyda'r canlyniad yn cael ei amlinellu yn Ffigur 13 isod.

Trwydded Darlledu

Darlledu arloesol

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld darlledwyr yn edrych ar ffyrdd newydd o gyrraedd cynulleidfaoedd mewn ymateb i'r heriau a ddaeth yn sgil y pandemig. Er enghraifft, manteisiodd darlledwyr lleol ar fersiwn newydd o drwydded radio bresennol a gyflwynwyd gennym ym mis Ebrill 2020. Cafodd y drwydded hon ei dylunio'n benodol ar gyfer y rhai sydd eisiau darparu newyddion, gwybodaeth a diweddariadau am Covid-19 gyda'u cymunedau. Daeth wyth o'r gwasanaethau newydd hyn ar yr awyr o gwmpas y Deyrnas Unedig eleni.

Cynyddodd nifer y trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig a oedd yn cael eu dal ar gyfer digwyddiadau gyrru i mewn, wrth i'r trefnwyr chwilio am ffyrdd newydd o ddod â chymunedau at ei gilydd gan gadw pellter cymdeithasol ar yr un pryd. Mae angen trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig ar gyfer digwyddiadau gyrru i mewn er mwyn i'r rhai sy'n bresennol glywed beth sy'n cael ei ddweud ar eu setiau radio. Rhoddwyd dros 430 o drwyddedau trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig yn 2020/21 – o'i gymharu â thros 80 a roddwyd yn 2019/20 – ar gyfer digwyddiadau sy'n amrywio o wyllo ffilmiau mewn ceir, gwasanaethau eglwysig a phriodasau gyrru i mewn, hyd yn oed.

Datblygiadau eraill o ran trwyddedu darlledu ar deledu a radio

Gwelodd darlledwyr teledu newidiadau i'r fframwaith trwyddedu darlledu ar gyfer eu gwasanaethau yn y flwyddyn ddiwethaf, gyda rheolau newydd bellach ar waith ar gyfer sut mae gwasanaethau teledu llinol yn cael eu trwyddedu ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.

Yn 2020/21, cafodd 228 o drwyddedau darlledu teledu eu hildio, o gyfanswm o 1,378 o drwyddedau a gyhoeddwyd. Er nad oes yn rhaid i drwyddedeion roi rheswm pan fyddant yn ildio trwydded, mae ein dadansoddiad yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r ildio wedi digwydd o ganlyniad i gwmnïau darlledu'n adleoli oherwydd yr ymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, cawsom ychydig llai na 50 o geisiadau am wasanaethau teledu newydd ac rydym yn gweld amrywiaeth o sianeli newydd yn cael eu lansio, sy'n darparu ar gyfer gwahanol ddiddordebau i gynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig.

Ym mis Ebrill 2020, fe wnaethom nodi ein cynlluniau i drwyddedu dros 200 o wasanaethau amblecs radio ar raddfa fach, gan alluogi gorsafoedd cymunedol, masnachol ac arbenigol i fynd ar yr awyr. Amblecs yw'r dull technegol ar gyfer darlledu gorsafoedd radio digidol DAB – ac ym mis Medi fe wnaethom wahodd ceisiadau ar gyfer y 25 cyntaf. Erbyn canol 2021, fe wnaethom ddyfarnu 19 o drwyddedau amblecs radio ar raddfa fach, gan gynnwys yn Glasgow, Derry/Londonderry, Caerdydd a Leeds ymysg eraill. Cafodd yr ail swp o drwyddedau amblecs, ar gyfer ardaloedd yng ngogledd orllewin Lloegr a gogledd ddwyrain Cymru,

eu hysbysebu ym mis Mehefin 2021.

Yn ogystal, cawsom 21 o geisiadau am drwyddedau gwasanaeth radio cymunedol digidol (C-DSP), a fydd yn cael eu cludo yn y pen draw ar amblecsau DAB ar raddfa fach. Rhoesom 12 trwydded o'r fath, ac rydym hefyd wedi cael 62 cais am drwyddedau radio digidol (DSP), gyda 54 o'r rhain yn cael trwydded i ddarlledu. Mae 308 o wasanaethau radio cymunedol analog yn darlledu ar hyn o bryd, a bydd 29 arall yn cael eu lansio dros y flwyddyn nesaf.

Gorfodi amodau trwydded

Yn ein gwaith i orfodi amodau trwyddedau, yr ydym yn eu hystyried o dan ein [gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu](#), fe wnaethom asesu 116 o gwynion yn ystod 2020/21 fel y nodir yn ffigur 14.

Ym mhob achos ond un fe wnaethom benderfynu nad oedd yn briodol nac yn angenrheidiol mynd ar drywydd cwynion ynghylch y math o gynnwys roedd yn rhaid i ddarlledwyr ei ddarparu yn ystod y cyfnod hwn, gan gydnabod effaith y pandemig. Erbyn diwedd mis Mawrth 2021, roedd nifer o ddarlledwyr yn cyflawni eu hymrwymadau rhaglennu a chynhyrchu yn llawn. Ni ddilynwyd cwynion eraill naill ai oherwydd nad oeddent yn codi materion a allai fod yn sylweddol a oedd yn cyfiawnhau ymchwiliad gan Ofcom neu oherwydd eu bod y tu allan i'n cylch gwaith.

Ffigur 14: Cwynion trwyddedu

Disgrifiad o'r cwynion	Cwynion
Nid oedd darlledwyr wedi cadw at yr ymrwymadau/cwotâu rhaglenni yn eu trwyddedau.	74
Roedd gorsafoedd radio cymunedol neu fasnachol naill ai wedi rhoi'r gorau i ddarlledu dros dro neu heb ddechrau darlledu, ac felly nid oeddent yn darparu'r gwasanaeth sy'n ofynnol gan y drwydded.	8
Trwyddedeion ddim yn cydymffurfio â'r gofynion perchnogaeth ar gyfer dal trwydded darlledu.	4
Nid oedd y trwyddedai'n 'addas a phriodol' i ddal trwydded ddarlledu.	4
Amrywiaeth o faterion eraill, rhai ohonynt y tu allan i gylch gwaith Ofcom.	26

Fe wnaethom gau 50 o ymchwiliadau, ac roedd 47 ohonynt wedi cael eu cychwyn gan Ofcom, ac roedd y tri arall yn ganlyniad i gŵyn am orsaf radio cymunedol yn peidio â darlledu'r allbwn roedd yn

rhaid iddi ei ddarparu (roedd dau o'r ymchwiliadau hyn yn ymwneud â chwynion a gafwyd yn ystod 2019/20). Mae Ffigur 15 yn egluro canlyniad y 50 ymchwiliad.

Ffigur 15: Canlyniadau ymchwiliadau

Canlyniad	Swmp	%
Heb dorri amodau	22	56%
Torri amodau (oherwydd)	28	44%
Peidio â thalu ffioedd trwyddedau blynyddol	12	43%
Methu darparu gwybodaeth ar gais	12	43%
Methu darparu recordiadau o allbwn darlledu	4	14%

Roedd hyn yn ostyngiad o'i gymharu â 2019/20, pan wnaethom gau 268 o ymchwiliadau, ac roedd 151 ohonynt wedi golygu ein bod wedi cofnodi bod y drwydded wedi cael ei thorri. Mae'r gostyngiad mewn ymchwiliadau eleni yn deillio o'r hyblygrwydd rydym wedi ei gynnig i ddarlledwyr o ran cydymffurfio ag ymrwymïadau rhaglennu, ceisiadau am wybodaeth a ffioedd trwyddedau yn ystod pandemig y coronafeirws.

Mewn achosion lle mae trwyddedai wedi torri amodau ei drwydded yn ddifrifol, yn fwriadol,

droeon neu'n ddi-hid, rydym yn rhoi sancsiwn statudol yn unol â'n [Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau statudol mewn achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu](#). Yn 2020/21, fe wnaethom roi pedair cosb fel yr esbonnir yn ffigur 16 isod. Fe wnaethom roi llai o sancsiynau statudol yn 2020/21 nag yn 2019/20 oherwydd yr hyblygrwydd rydyn ni wedi ei gynnig i ddarlledwyr mewn perthynas â chydymffurfio ag ymrwymïadau rhaglennu, ceisiadau am wybodaeth a ffioedd trwyddedau yn ystod pandemig y coronafeirws.

Ffigur 16: Cosbau trwyddedu a osodwyd fesul blwyddyn

Math	2020/21	2019/20	2018/19	2017/18	2016/17
Peidio â thalu ffioedd blynyddol ¹⁹	4	9	-	-	2
Peidio â darparu gwybodaeth ¹⁹	2	3	-	-	1
Methu â chydymffurfio ag ymrwymïadau rhaglennu	-	1	-	-	-
Trwyddedai wedi methu â hysbysu Ofcom am newid yn y rheolaeth	-	-	1	-	-
Cyfanswm	6	13	1	0	3

19. Mae'r sancsiynau hyn yn ymwneud â pheidio â thalu ffioedd trwydded blynyddol a oedd yn hwyr cyn dechrau pandemig y coronafeirws.

Mae Ffigur 17 isod yn rhoi manylion y sancsiynau trwyddedu statudol a roddwyd yn 2020/21.

Ffigur 17: Manylion y sancsiynau trwyddedu a roddwyd yn 2020/21

Trwyddedai	Gwasanaeth	Cosb	Cosb
Ujima Radio CIC	Ujima Radio	Cosb ariannol	£300
Afro Caribbean Millennium Centre	New Style Radio	Cosb ariannol	£2,000
Antenna Media Limited	Antenna Radio	Dirymiad	Dd/B
Atlas Media Team Limited	Atlas Radio	Dirymiad	Dd/B
Media Platform Limited	MPL Asia	Dirymiad	Dd/B
Media Platform Limited	MPL	Dirymiad	Dd/B

Rydym hefyd yn dirymu trwyddedau am resymau ar wahân i dorri amodau trwydded yn ddifrifol - er enghraifft, pan nad yw trwyddedai bellach yn addas ac yn briodol i ddal trwydded, pan fydd yn cael ei wahardd rhag dal trwydded neu pan nad yw bellach yn rheoli gwasanaeth neu wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth. Yn 2020/21, fe wnaethom

ddiddymu'r drwydded ar gyfer gwasanaeth 'CGTN' ar ôl i'n hymchwiliad ddod i'r casgliad nad oedd gan y trwyddedai, [Star China Media Limited](#) gyfrifoldeb golygyddol am allbwn CGTN ac felly nad oedd yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol o gael rheolaeth dros y gwasanaeth trwyddedig.

Ffigur 18: Manylion dirymu trwyddedau nad ydynt yn gysylltiedig â thorri amodau trwydded yn ôl blwyddyn

Math	2020/21	2019/20	2018/19	2017/18	2016/17
Trwyddedai'n darparu'r gwasanaeth yn anghywir	1	1	-	1	7
Nid yw'r Trwyddedai bellach yn addas ac yn briodol i ddal trwydded	-	-	1	1	-
Methu â chymdymffurfio ag ymrwymadau rhaglennu	-	1	-	-	-
Trwyddedai wedi methu â hysbysu Ofcom am newid yn y rheolaeth	-	-	1	-	-
Cyfanswm	1	1	1	2	7

A5. Gorfodi a Pheirianeg Sbectrwm

Dangosydd perfformiad allweddol

Prif Weithgareddau

Gweithgarwch Rhaglen Waith/Digwyddiad	Ebrill 20 – Mawrth 21	Ebrill 19 – Mawrth 20
Cwynion a gafwyd am Ymyriant ²⁰	1,923	1,585
Gwirio cydymffurfiaid â thrwyddedau systemau radio ²¹	1,130	2,211
Nifer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddwyd ²²	0	21
Erlyniadau am weithgarwch troseddol yng nghyswllt sbectrwm ²³	1	3

Targedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer cwynion a gafwyd am ymyriant

Dangosydd Perfformiad Allweddol	Blaenoriaeth Achos	Targed	Targed wedi ei gyflawni	
			Ebrill 20 – Mawrth 21	Ebrill 19 – Mawrth 20
Amser cyn yr ymweliad cyntaf:	1	8 awr	-	100%
Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser y bydd ein peiriannwr yn cyrraedd ar y safle i ganfod y broblem (ar gyfer yr achosion hynny pan fydd angen ymweliad maes).	2	18 awr	100%	100%
	3	2 diwrnod gwaith	96%	99%
	4	5 diwrnod gwaith	99%	98%
	5	15 diwrnod gwaith	99%	98%
	6	Dim targed	-	-
Datrys:	1	2 diwrnod calendr	-	100%
Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser y bydd y cwsmer yn cael eu rhoi iddynt. Yn 20/21 roedd gostyngiad o 49% mewn gwirio cydymffurfiaid â thrwyddedau systemau radio, o'i gymharu â 2019/20 (gweler y prif dabl uchod) a arweiniodd at ostyngiad yn nifer yr hysbysiadau cosb benodedig a gyhoeddwyd.	2	3 diwrnod calendr	100%	100%
	3	6 diwrnod gwaith	100%	99%
	4	20 diwrnod gwaith	95%	96%
	5	40 diwrnod gwaith	99%	96%
	6	60 diwrnod gwaith	99%	99%

20. Achosion ymyriant a nodwyd gan y cyhoedd a busnesau

21. Gwaith gan Ofcom i sicrhau y cydymffurfir ag amodau trwyddedau neu nad oes defnydd didrwydded yn digwydd

22. Fel arfer, defnyddir Hysbysiadau Cosb Benodedig yn hytrach nag achosion cyfreithiol. Gall peidio â thalu hysbysiad cosb benodedig arwain at gymryd camau cyfreithiol. Mae cyfyngiadau Covid-19 wedi lleihau gallu'r adran Sicrhau Sbectrwm i gynnal ymchwiliadau trwydded nad ydynt yn hanfodol. Yn yr un modd, mae'r cyfyngiadau hyn wedi effeithio ar fusnesau sy'n defnyddio offer telegraffiaeth ddi-wifr y mae'r rhan fwyaf o Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu rhoi iddynt. Yn 20/21 roedd gostyngiad o 49% mewn gwirio cydymffurfiaid â thrwyddedau systemau radio, o'i gymharu â 2019/20 (gweler y prif dabl uchod) a arweiniodd at ostyngiad yn nifer yr hysbysiadau cosb benodedig a gyhoeddwyd.

23. Erlyniadau yng nghyswllt gorsafodd radio anghyfreithlon neu fethiant i dalu Hysbysiadau Cosb Benodedig

A6. Trwyddedu Sbectrwm

Categori A

Trwyddedau lle nad oes gofyn aseinio amledd, clirio safle na chydlynu rhwyngwladol	Trwyddedau a roddwyd Ebrill 20 – Mawrth 21	Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 – Mawrth 20	Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21	Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 20
Radio Business Ysgafn - Syml DU (dim gorsaf ganolog)	1,492	2,030	15,570	15,226
Radio Busnes – safle syml	971	1,227	9,048	8,969
Cyflenwyr Radio Busnes – ysgafn	106	135	1,374	1,301
Mynediad Di-wifr Sefydlog (5.8 GHz)	44	61	404	408
Ailadroddwr GNSS	14	16	366	353
Heddlu a Thân	1	0	123	123
Is-gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes	2,628	3,469	26,885	26,380
Medrydd Lefel Radar	0	0	124	124
Amatur a Morol	34,326	30,167	275,665	268,117
Cyfanswm ar gyfer Categori A	36,954	33,636	302,674	294,621
Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer Categori A (100% mewn 7 niwrnod)	100%	100%	-	-
DPA ar gyfer Categori A (Amatur a Morol) (100% mewn 10 diwrnod)	100%	100%	-	-

Categori B

Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, ond nad oes angen clirio safle na chydlynu rhyngwladol		Trwyddedau a roddwyd Ebrill 20 – Mawrth 21	Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 – Mawrth 20	Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21	Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 20
System Adnabod Awtomatig		19	15	398	385
Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol)		10	5	396	396
Radio Gorsaf y Glannau (Deyrnas Unedig)		13	11	324	339
Radio Gorsaf y Glannau (Marina)		7	10	389	401
Radio Gorsaf y Glannau (Ysgol Hyfforddi)		50	31	504	477
Radio Morol (Cyflenwyr ac Arddangos)		4	1	87	84
Radar a Chymhorthion Llywio Morol		4	4	117	118
System Lleoli Byd-eang Wahaniaethol (DGPS)		0	0	6	6
Rhannu Mynediad (Pŵer Isel)		63	124	829	786
Rhannu Mynediad (Pŵer Canolig)		95	6	94	2
Is-gyfanswm - Dadreoleiddio a Chontractio Allan		265	207	3,144	2,994
Radio Busnes wedi ei Aseinio'n Dechnegol		1,729	2,438	23,580	24,630
Radio Busnes wedi ei Aseinio fesul Ardal		35	25	324	309
Radio Gorsaf y Glannau (Deyrnas Unedig) Ardal wedi ei Diffinio		3	4	13	12
Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) Ardal wedi ei Diffinio		0	1	4	8
Radar Profi'r Tir		19	24	224	218
Telemetreg Sganio		2	0	29	28
Cysylltiadau hunangydlynol		21	23	173	170
Is-gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes		1,809	2,515	24,347	25,375
Cyfanswm ar gyfer Categori B		2,074	2,722	27,491	28,369
DPA ar gyfer Categori B	100%	87%	-	-	-
Categori B	100%	97%	-	-	-

Categori C

Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, clirio safle a/neu gydlynu rhyngwladol		Trwyddedau a roddwyd Ebrill 20 – Mawrth 21	Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 – Mawrth 20	Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21	Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 20
Cysylltiadau Sefydlog		1,397	1,359	18,925	31 Mawrth 20
Lloeren (Gorsaf Ddaearol Barhaol)		44	5	141	148
Lloeren (Gorsaf Ddaearol Gludadwy)		11	58	104	112
Lloeren (Rhwydwaith Gorsaf Ddaearol)		14	7	68	69
Lloeren (Gorsaf Ddaearol heb fod yn sefydlog)		5	4	10	11
Lloeren (Gorsaf Ddaearol heb fod yn sefydlog)		2	0	2	0
Cyfanswm ar gyfer Categori C		1,473	1,433	19,250	20,146
DPA ar gyfer Categori C	90% mewn 42 dydd	100%	99%	-	-
	100% mewn 60 dydd	100%	99%	-	-

Trwyddedau awyrennol

Trwyddedau ar gyfer gwasanaethau awyrennol		Trwyddedau a roddwyd Ebrill 20 – Mawrth 21	Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 – Mawrth 20	Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21	Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21
Trwyddedau Awyrennol		1,648	5,298	16,128	15,954
Cyfanswm ar gyfer Awyrennol		1,648	5,298	16,128	15,954
DPA ar gyfer Awyrennol (100% mewn 7 dydd)		100%	77%	-	-

Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE)

Rhoi trwyddedau ar gyfer darllediadau allanol, gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig, a'u hawdurdodi		Trwyddedau a roddwyd Ebrill 20 – Mawrth 21	Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 – Mawrth 20	Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21	Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 20
Trwyddedau PMSE		14,113	36,130	5,669	7,974
Cyfanswm ar gyfer PMSE		14,113	36,130	5,669	7,974
DPA ar gyfer PMSE (100% mewn 7 dydd)		100%	100%		-

Trwyddedau Profi a Datblygu

	Trwyddedau a roddwyd Ebrill 20 – Mawrth 21	Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 – Mawrth 20	Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21	Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 20
Trwydded Ymchwil ac Arloesi	413	402	352	335
Trwydded Treialu ac Arddangos	264	358	135	155
Cyfanswm ar gyfer Profi a Datblygu	677	760	487	490
DPA ar gyfer Profi a Datblygu (100% mewn 60 diwrnod)	100%	100%		-

Trwyddedau band eang di-wifr a symudol²⁴

Trwyddedau a roddwyd drwy arwerthiant o'r sbectrwm neu drwy ddyfarnu'r sbectrwm	Trwyddedau a roddwyd Ebrill 20 – Mawrth 21	Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 – Mawrth 20	Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21	Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 20
Rhwydweithiau Di-wifr Cyhoeddus: 900, 1800 MHz	0	-1	4	4
Mynediad i Sbectrwm: 2100 MHz	0	0	4	4
Mynediad i Sbectrwm: Twnnel y Sianel ²⁵	0	0	2	2
Mynediad i Sbectrwm: 800 MHz, 2.6 GHz	0	0	5	5
Mynediad i Sbectrwm: 412 – 414 MHz	0	0	1	1
Mynediad i Sbectrwm: 1452 – 1492 MHz	0	0	2	2
Mynediad Cydamserol i Sbectrwm: 1781-1785 MHz	0	0	1	1
Mynediad i Sbectrwm: 1785 MHz, Gogledd Iwerddon	0	0	25	25
Mynediad i Sbectrwm: 2.3, 3.4-3.6, 3.6-3.8, 10, 28, 32, 40 GHz	2	1	10	8
Mynediad i Sbectrwm ar y Môr	9	1	10	1
Cyfanswm ar gyfer Band Eang Di-wifr a Symudol	11	1	64	53

24. Nid yw ffigurau'r trwyddedau a amrywiwyd a/neu a ailgyhoeddwyd, neu a fasnachwyd yn llawn o un cwmni i'r llall, wedi cael eu cynnwys yn y ffigurau hyn.

25. Trwydded ar wahân ar gyfer y twnnel i gyfeiriad Ffrainc o'r DU.

Trwyddedau Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel

Ceisiadau am drwyddedau a wnaed drwy Reoleiddwyr lleol	Trwyddedau a roddwyd Ebrill 20 – Mawrth 21	Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 – Mawrth 20	Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21	Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 20
Rhwydwaith Di-wifr Cyhoeddus: 800, 900, 1800, 2100, 2600 MHz, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw	0	1	33	33
Mynediad Di-wifr / Sbectrwm: 3.4, 3.6, 10, 28 GHz, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw	-1	0	8	9
Y cyfanswm ar gyfer Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel	-1	1	41	42

Trwyddedau Sbectrwm y Difidend Digidol

Y sbectrwm a ryddhawyd i'w ddefnyddio mewn ffyrdd newydd yn sgil y newid i'r digidol

Trwyddedau DDR GI a roddwyd drwy brosesau dyfarnu sbectrwm	Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 – Mawrth 21	Trwyddedau a roddwyd Ebrill 19 – Mawrth 20	Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21	Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 20
Mynediad Sbectrwm 541 – 550 MHz (Caerdydd)	0	0	1	1
Mynediad Sbectrwm 758 – 766 MHz (Manceinion)	0	0	1	1
Cyfanswm trwyddedau'r Difidend Digidol	0	0	2	2
Cyfanswm y trwyddedau - pob categori	56,949	79,981	371,806	367,650

A7. Cynladwyedd

Mae'r adran hon yn rhoi data am gynladwyedd a'r costau ariannol yn fanylach.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr

			2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Dangosyddion Anariannol (tunelli CO2e)	Cwmpas 1	Nwy	161	187	148	22	18
		Olew	19	22	11	0	0
		Tanwydd Fflyd	185	192	168	163	90
	Cwmpas 2	Trydan	1,090	809	528	308	189
	Cwmpas 3	Teithiau Busnes	312	519	555	594	7
		Hedfan	188	410	449	477	0
		Domestig	76	156	160	185	0
		Teithiau byr	79	164	160	136	0
		Teithiau hir	34	91	129	156	0
		Trên/bws/tanddaearol	78	66	67	73	1
		Car/Beic Modur/Beic	43	41	36	41	6
		Taccis	3	2	2	3	0
Data defnydd cysylltiedig	Cwmpas 1	Nwy (kWh)	874,478	1,014,202	802,709	120,016	95,613
		Nwy fesul FTE (kWh)	1,012	1,136	891	125	93
		Olew (litrau)	7,500	8,500	4,501	0	0
		Tanwydd Fflyd (litrau)	71,024	73,659	64,710	62,665	32,816
	Cwmpas 1	Trydan (kWh)	2,426,666	2,103,652	1,720,333	1,112,349	747,108
		Trydan fesul FTE (kWh)	2,808	2,356	1,910	1,162	725
Dangosyddion Ariannol	Cwmpas 1	Nwy	£22,293	£19,465	£23,494	£10,852	£11,803
		Olew	£2,128	£5,530	£3,347	£0	£0
		Tanwydd Fflyd	£87,398	£93,911	£90,292	£85,269	£43,166
	Cwmpas 2	Trydan	£293,991	£340,333	£287,074	£158,351	£127,833
	Cwmpas 3	Teithiau Busnes	663,705	705,602	742,876	837,982	5,458
		Hedfan	£253,733	£333,723	£367,844	£402,945	(£7,579)
		Trên/bws/tanddaearol	£299,929	£266,725	£273,338	£315,574	£2,136
		Car/Beic Modur/Beic	£65,077	£64,329	£57,428	£66,212	£8,923
		Taccis	£44,966	£40,826	£44,266	£52,421	£1,977

Cwmpas 1 – Mae hyn yn berthnasol i ddefnyddio nwy ac olew yn uniongyrchol, a defnyddio tanwydd yng ngheir ffylid Ofcom.

Mae'r data am y defnydd o nwy ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Belfast, Birmingham, Haydock (a wnaeth gau yn 2018) a Livingston (a wnaeth gau yn 2017). Caiff costau nwy ar gyfer swyddfeydd Caeredin, Warrington a Chaerdydd eu cynnwys yn y ffi gwasanaeth, ac felly nid oes modd dadansoddi hynny. Mae'r defnydd o nwy yn dibynnu ar y tywydd.

Bydd Ofcom yn talu am danwydd diesel ar gyfer ei geir ffylid drwy ddefnyddio cardiau tanwydd, a chaiff y defnydd ei gofnodi a'i fonitro bob mis. Mae defnydd o danwydd yn ein ceir ffylid yn dibynnu i raddau helaeth ar y galw am ein gwasanaethau gorfodi.

Cwmpas 2 – Mae hyn yn berthnasol i gyflenwadau trydan i swyddfeydd Ofcom. Mae'r

data trydan ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Baldock, Belfast, Birmingham, Caerdydd, Caeredin, Haydock (a wnaeth gau yn 2018), Warrington a rhai safleoedd monitro a chanfod cyfeiriad o bell ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r defnydd o drydan yn dibynnu ar y tywydd.

Cwmpas 3 – Mae data ariannol am deithiau busnes wedi dod o'n system cofnodi SAP ac mae'n cynnwys teithio gan bob cydweithiwr ni waeth ble maent wedi eu lleoli. Rydym wedi trosi data ariannol teithiau mewn tacsis ac ar drenau i bellteroedd drwy ddefnyddio canllawiau o Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon, a data ariannol teithiau mewn ceir i bellteroedd drwy ddefnyddio data o hawliadau treuliau ar gyfer milltiroedd a deithir. Mae'r data am hedfan wedi dod yn uniongyrchol gan ein darparwr teithiau busnes, ac wedi ei gategoreiddio i deithiau domestig, teithiau byr a theithiau hir yn unol â chanllawiau pellter hedfan Defra.

Isafu a rheoli gwastraff

Mae'r data am y defnydd o wastraff ar hyd y blynyddoedd yn ymwneud â phrif swyddfa Ofcom yn Llundain. Nid oes data cywir am y defnydd o wastraff ar gael ar gyfer swyddfeydd eraill Ofcom, ond mae'r costau sy'n gysylltiedig â chael gwared â gwastraff

wedi eu cynnwys. O fis Mehefin 2017, mae cost gwastraff wedi ei gynnwys yn ein tâl gwasanaeth. Mae ein hasiant rheoli'n gweithredu ar sail 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi', ac mae'r holl wastraff yn cael ei ailgylchu neu ei losgi gan adfer ynni.

		2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Dangosyddion Anariannol (tunelli)	Cyfanswm gwastraff	172	76	198	189.21	69.00
	Gwastraff wedi ei anfon i safle tirlenwi	0	0	0	0	0
	Gwastraff TGCh wedi ei ailgylchu/ailddefnyddio	4	0	0	0	0
	Gwastraff wedi ei ailgylchu/ailddefnyddio	91	52	71	91.69	38
	Gwastraff wedi ei gompostio	14	4	4	0	3
	Gwastraff wedi ei losgi gan adfer ynni	63	20	127	97.52	28
	Gwastraff wedi ei losgi heb adfer ynni	0	0	0	0	0
	Cyfanswm gwastraff fesul FTE	0.199	0.086	0.220	0.198	0.067
Dangosyddion Ariannol	Cyfanswm gwastraff	£37,984	£7,004	£43,805	£35,000	£12,470

Defnydd o adnoddau cyfyngedig

Mae'r data dŵr ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Baldock, Birmingham a Haydock (a wnaeth gau yn 2018). Caiff costau dŵr ar gyfer swyddfeydd eraill eu cynnwys yn y ffi gwasanaeth, ac felly nid oes modd dadansoddi hynny. Mae'r costau yn 2017/18 yn cynnwys nodiadau credyd gan gyflenwyr oherwydd biliau a oedd wedi codi gormod yn ystod blynyddoedd

blaenorol. Caiff defnydd o ddŵr ei gyfyngu i ddefnydd gweithredol, gan gynnwys cyfleuster arlwyo ym mhrif swyddfa Ofcom yn Llundain.

Gwelwyd cynnydd bach o ran y defnydd o ddŵr yn ystod 2019/20 oherwydd bod dŵr wedi bod yn gollwng yn ein swyddfa yn Baldock, ac mae'r broblem wedi cael ei datrys erbyn hyn.

		2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Dangosyddion Anariannol	Defnydd dŵr (m3)	11,282	9,379	13,988	18,874	6,375
	Defnydd dŵr fesul FTE	13.06	10.50	15.53	19.71	6.19
	Rimiau papur	6,317	3,915	2,579	2,446	23
	Rimiau A3	92	50	127	106	0
	Rimiau A4	6,225	3,865	2,452	2,305	23
	Rimiau A5	0	0	0	35	0
Dangosyddion Ariannol	Dŵr	£22,248	£6,929	£19,583	£23,321	£14,820

A8. Clirio 700 MHz

Trosolwg

Mae'r rhaglen clirio 700 MHz wedi clirio'r sbectrwm hwn yn llwyddiannus er mwyn gallu ei ddefnyddio i fodloni'r galw cynyddol am sbectrwm ar gyfer data symudol. Roedd y prosiect yn un o'r prosiectau mwyaf mae Ofcom wedi bod yn ymwneud â nhw erioed, a bydd yn dod â manteision mawr i bobl ledled y Deyrnas Unedig.

Diben

Cyhoeddodd Ofcom yn 2014 ei fod wedi penderfynu adleoli amledau rhwng 694 MHz a 790 MHz ("y band 700 MHz").

Gan fod y rhaglen wedi cael ei chwblhau, ni fydd y sbectrwm hwn ar gael mwyach ar gyfer Teledu Daearyl Digidol, gwasanaethau Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE) na Dyfeisiau Gofod Gwyn (WSDs) a oedd yn defnyddio'r band 700 MHz yn flaenorol.

Nodau

Dyma nodau'r rhaglen i glirio'r band 700 MHz:

- clirio a rhyddhau'r band 700MHz cyn gynted ag sy'n bosibl yn ymarferol;
- darparu gwerth am arian wrth ddefnyddio arian cyhoeddus;
- osgoi amharu ar wylwyr; a
- diogelu parhau i ddarparu manteision DTT a PMSE.

Gweithgareddau

Mae'r rhaglen i glirio'r band 700 MHz wedi gweld newidiadau sylweddol i'r rhwydwaith teledu daearyl digidol, wrth i sianelau symud i amledau newydd. Roedd hyn yn cynnwys gwaith mawr gan Arqiva ar

y seilwaith – yn yr awyr ac ar y tir. Roedd y rhaglen clirio 700 MHz yn cynnwys cyllid gan lywodraeth y DU i helpu perchnogion offer yr effeithir arnynt, er nad oedd y digwyddiadau clirio'n effeithio'n ormodol ar wylwyr, a chawsant gefnogaeth dda. Roedd y gwaith i glirio'r band 700 MHz yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig hefyd. Roedd angen iddynt newid rhywfaint o offer nad oedd yn gweithio mwyach yn yr amledau oedd ar gael i wasanaethau Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig. Sefydlwyd cynllun cyllido i helpu'r defnyddwyr yr effeithir arnynt.

Amserlen

Ymddangosodd digwyddiad o bwys cenedlaethol yn gyflym iawn yn sgil y pandemig a'r cyfnod clo cenedlaethol a gyhoeddwyd ar 23 Mawrth 2020. Oherwydd y pandemig, bu'n rhaid gohirio digwyddiadau clirio a mabwysiadu amserlen ddiwygiedig ar gyfer y rhaglen oherwydd y cyfnod clo cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig yn hanner cyntaf 2020. Ailgychwynnodd y digwyddiadau clirio yn llwyddiannus ar 12 Awst 2020 ar ôl i gyfyngiadau Llywodraeth y DU gael eu llacio a chwblhawyd cam olaf clirio'r tonnau awyr ar 19 Awst 2020.

Roedd y tonnau awyr 700 MHz yn rhan o arwerthiant Sbectrwm 2021 a ddaeth i ben, gyda'r gweithredwyr rhwydweithiau symudol yn defnyddio'r tonnau awyr i roi hwb i wasanaethau symudol presennol ac i ategu rhwydweithiau 5G newydd.

Mae pob ffrwd waith wedi symud ymlaen i gam cau'r rhaglen. Bydd y mwyafrif yn cael eu cwblhau yn ystod 2021.

Ofcom

sicrhau bod cyfathrebiadau'n
gweithio i bawb



Ofcom

Y Swyddfa Gyfathrebiadau
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Switsfwrdd

+44 (0)300 123 3000
+44 (0)20 7981 3000

Ffôn testun

+44 (0)20 7981 3043

Tîm Cyswllt Cwsmeriaid Ofcom

+44 (0)300 123 3333 neu
+44 (0)20 7981 3040

Yr Alban

125 Princes Street
Caeredin EH2 4AD
T 0131 220 7300

Cymru

2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd CF10 4DQ
T 029 2046 7200

Gogledd Iwerddon

Landmark House
The Gasworks
Ormeau Road
Belfast BT7 2JD
T 028 9041 7500

[ofcom.org.uk](https://www.ofcom.org.uk)

Of601 Gorffennaf 2021

CCS0521569280
978-1-5286-2705-4